Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
01/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
11/01/2021

# Ymchwil i lywio datblygiad y strategaeth gwaith ieuenctid

OGL © Halwfraint y Goron ISBN 978-1-80082-687-8

Teitl: Ymchwil i lywio datblygiad y strategaeth gwaith ieuenctid

Awdur(on): Tom Marshall, Llorenc O'Prey, Andy Parkinson, Sam Grunhut, Ioan Teifi, Sarah Usher ac Eddie Knight (Wavehill)

wavehill

social and economic research

ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Marshall, T., O'Prey, L., Parkinson, A., Grunhut, S., Teifi, I., Usher, S. & Knight, E. *Ymchwil i lywio datblygiad y strategaeth gwaith ieuenctid*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 01/2021

Ar gael yn: https://llyw.cymru/ymchwil-ar-gyfer-datblygur-strategaeth-gwaith-ieuenctid

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil Ysgolion

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0259247

Ebost: YmchwilYsgolion@llyw.Cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr tablau....2

Rhestr ffigyrau....2

Geirfa 3

1. Cyflwyniad/Cefndir ....4
2. Methodoleg ....12
3. Canfyddiadau – yr hyn y mae'r dystiolaeth gyhoeddedig yn ei ddweud am fuddion dull Gwaith Ieuenctid....16
4. Canfyddiadau – Modelau Arfer Da ar gyfer gwerthuso dulliau gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwaith ieuenctid, ac asesu gwerth gwaith ieuenctid....22
5. Canfyddiadau – yr hyn a wyddys am waith ieuenctid yng Nghymru....29
6. Canfyddiadau – heriau a chyfleoedd sy'n wynebu gwaith ieuenctid yng Nghymru .47
7. Canfyddiadau – sut mae COVID-19 wedi effeithio ar y sector a'r heriau a'r cyfleoedd yn sgil y pandemig....50
8. Canfyddiadau – barn y sector ynghylch sut y gall y strategaeth gwaith ieuenctid oresgyn heriau ....59
9. Canfyddiadau – Theori Newid ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru ....80
10. Casgliadau ac Argymhellion....93
11. Adran Cyfeiriadau ....105

Atodiad A: Adolygiad Llenyddiaeth ....112

Atodiad B: Offer Ymchwilio ....161

**Rhestr tablau**

Tabl 5.1: Aelodau cofrestredig gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol sy'n mynychu prosiectau mewn lleoliadau gwahanol ........ 31

**Rhestr ffigyrau**

Ffigwr 5.1: Y cyfleoedd a ddaw o wneud gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl rhanddeiliaid (wedi'i godio) ........ 40
Ffigwr 5.2: Beth mae gwaith ieuenctid yn ei olygu i chi? (aml-ddewis) ........ 45
Ffigwr 7.1: Barn rhanddeiliaid am y ffyrdd y mae COVID-19 wedi effeithio ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid (wedi'i godio) ........ 51
Ffigwr 8.1: Teipoleg gwaith ieuenctid, addaswyd o Dunne et al. (2014) ........ 59
Ffigwr 8.2: Teipoleg ymyrraeth gwaith ieuenctid, addaswyd o Dunne et al. (2014) ........ 60
Ffigwr 8.3: Diffiniadau rhanddeiliaid o waith ieuenctid (wedi'i godio) – siart bar ........ 62
Ffigwr 8.4: Diffiniadau rhanddeiliaid o waith ieuenctid (wedi'i godio) – cwmwl geiriau ........ 62
Ffigwr 8.5: Dyheadau rhanddeiliaid ynghylch gweithredu'r strategaeth (wedi'i godio) ........ 65
Ffigwr 8.6: Barn pobl ifanc ar sut y maent am fod yn rhan o lunio dyfodol y strategaeth gwaith ieuenctid ........ 78
Ffigwr 9.1: Sut y mae rhannau gwahanol y theori newid yn cyd-fynd â'i gilydd a phwy sy'n gyfrifol am bob cam ........ 83
Ffigwr 9.2: Rôl Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru wrth sicrhau gwaith ieuenctid cyffredinol ........ 86
Ffigwr 9.3: Ymarfer gwaith ieuenctid a'r canlyniadau a'r effeithiau a ragwelir ........ 89
Ffigwr 9.4: Rhagdybiaethau, galluogwyr, a rhwystrau yn y theori newid ........ 92
Teipoleg gwaith ieuenctid, addaswyd o Dunne et al. (2014) ........ 113
Lefelau partneriaeth, addaswyd o Himmelman, 1996 ........ 127

**Geirfa**

| Acronym / gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| CCUHP | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn |
| CWVYS | Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol |
| ETS Cymru | Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru |
| EWC | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| ILO | Sefydliad Llafur Rhyngwladol |
| NEET | Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| SROI | Budd cymdeithasol o fuddsoddi |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| 'y Bwrdd' | Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Llywodraeth Cymru |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Yn yr adroddiad hwn cyflwynir canfyddiadau ymchwil a wnaed gan Wavehill ar ran Llywodraeth Cymru rhwng Gorffennaf a Hydref 2020. Cynhaliwyd yr ymchwil er mwyn llywio datblygiad parhaus Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru, a gyhoeddwyd yn gyntaf ym mis Mehefin 2019. Datblygwyd y Strategaeth mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018. Gan ddefnyddio barn pobl ifanc, gweithwyr proffesiynol ym maes gwaith ieuenctid a rhanddeiliaid eraill, rôl y Bwrdd yw cynghori ar sut i gefnogi a chyflwyno model ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru yn y dyfodol.

1.2 Comisiynwyd yr ymchwil hwn i gasglu ynghyd yr hyn sydd eisoes yn hysbys gan randdeiliaid am waith ieuenctid yng Nghymru. Mae wedi canolbwyntio'n benodol ar yr hyn y mae rhanddeiliaid y sector a'r llenyddiaeth eilaidd yn ei wybod am amrywiaeth, cyfanswm ac ansawdd modelau a phartneriaethau gwaith ieuenctid sy'n bodoli yng Nghymru ynghyd â'r heriau a'r cyfleoedd allweddol. Bwriad yr adroddiad hwn yw llywio gwaith y Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wrth iddynt weithio tuag at ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

1.3 Bwriad yr adroddiad hwn, felly, yw cydgrynhoi'r hyn a wyddys ledled y sector yn hytrach na bod yn ymchwil gwreiddiol. Mae'n bwysig sylweddoli mai cyfrifoldeb yr ymchwilwyr yw'r argymhellion a'r theori newid a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, ac ni ddylid eu hystyried yn argymhellion y Bwrdd.

### Cyd-destun yr ymchwil

*Cyd-destun polisi*

1.4 Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydlog i gefnogi plant a phobl ifanc. Mae sawl darn o ddeddfwriaeth yn ymdrin ag anghenion a hawliau pobl ifanc ac yn rheoleiddio sut yr eir i'r afael â materion ieuenctid, gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf Cydraddoldeb 2010

1.5 Yn benodol gysylltiedig â gwaith ieuenctid, mae Llywodraeth Cymru, trwy Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 123, wedi cyfarwyddo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid, i sicrhau darpariaeth o'r fath, neu i gymryd rhan yn y gwaith o ddarparu'r gwasanaethau hyn, sef rhai sy'n galluogi pobl ifanc i:

- gymryd rhan yn llwyddiannus mewn addysg a hyfforddiant
- manteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth
- cymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

1.6 Gan adeiladu ar Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ystod o bolisïau ar waith i sicrhau cefnogaeth briodol ac i amlinellu hawliau pobl ifanc trwy waith ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid. Yn fwyaf nodedig ymhlith y rhain y mae Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru: Cyfarwyddyd a Chanllawiau (2002) sydd wedi rhoi arweiniad i awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid ehangach, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid statudol, gwirfoddol ac annibynnol yn y sector er mwyn:

- rhoi trefniadau ar waith ar gyfer darparu gwasanaeth ieuenctid;
- creu Partneriaeth Pobl Ifanc i gynllunio a sicrhau y darperir ystod gydlynol o wasanaethau i bob person ifanc yn eu hardal gan weithio mewn cydweithrediad agos â phobl ifanc.

1.7 Rôl Ymestyn Hawliau oedd rhoi cefnogaeth i ddarparu gwasanaethau ieuenctid yn lleol ledled Cymru. Roedd disgwyl i bob awdurdod lleol weithio gyda'i Bartneriaeth Pobl Ifanc leol i ddatblygu cynllun strategol lleol. Roedd yn ofynnol hefyd i Bartneriaethau Pobl Ifanc Leol archwilio'r angen a'r ddarpariaeth yn eu hardal leol.

1.8 Sail Ymestyn Hawliau oedd yr ymrwymiad bod gwaith ieuenctid yn hawl gyffredinol i bobl ifanc. Cryfhawyd y dull hwn o fod yn seiliedig ar hawliau drwy fabwysiadu Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Yn ogystal, roedd penodi Comisiynydd Plant gan Lywodraeth Cymru yn atgyfnerthu'r ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau wrth ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth i bobl ifanc.

1.9 Er mwyn cefnogi gweledigaeth Ymestyn Hawliau, gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda rhanddeiliaid yn y sector i ddatblygu Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru (2007) ac yna Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-2018 (2014). Gweithiodd Llywodraeth Cymru hefyd gyda'r sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol i nodi egwyddorion allweddol

gwaith ieuenctid yng Nghymru, gan fanylu ar yr egwyddorion hyn yn nogfen Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru sef Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion (2013 & 2018).

1.10 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwaith ieuenctid trwy roi cyllid i awdurdodau lleol. Mae'r grant cymorth ieuenctid yn cynnig cyllid blynyddol i awdurdodau lleol i'w galluogi i gynnal gwaith ieuenctid wedi'i dargedu a gwaith ieuenctid mynediad agored yn ogystal â chefnogi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.[1]

*Ein Dyfodol: Adolygiad o Ymestyn Hawliau*

1.11 Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o Ymestyn Hawliau (Jervis, 2018). Canfu'r adolygiad fod angen adnewyddu'r strategaeth genedlaethol, a hyn yn adlewyrchu'r rhwystredigaeth ymhlith y sector bod y cyd-destun wedi newid ers ysgrifennu Ymestyn Hawliau oherwydd fod y ffocws ar waith ieuenctid wedi'i dargedu wedi digwydd ar draul darpariaeth mynediad agored yn y gymuned. Nodwyd y dylai'r strategaeth gynnwys:

- darpariaeth gyffredinol mynediad agored
- gwaith ieuenctid ar-lein
- cymorth wedi'i dargedu i ieuenctid
- pobl ifanc i gymryd rhan
- asesiadau digonolrwydd wedi'u cynnal gan Awdurdodau Lleol.

1.12 Er mwyn cefnogi'r strategaeth, argymhellodd yr adolygiad hefyd yr angen am ymdrechion o'r newydd i gydgynhyrchu gwasanaethau gyda phobl ifanc ar lefel leol yn debyg i'r Partneriaethau Pobl Ifanc, yn ogystal â'r angen am gorff cenedlaethol i gefnogi gwaith ieuenctid ledled Cymru gyfan. Nododd yr adolygiad hefyd yr angen am sector sydd ag adnoddau da, yn gweithio yn effeithiol drwy bartneriaethau rhwng darparwyr statudol a gwirfoddol, sydd â gweithlu medrus ar draws y sector, ac sydd â gwybodaeth am ieuenctid i gefnogi gweledigaeth gyffredinol strategaeth gwaith ieuenctid.

*Adolygu Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru*

[1] Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn rhoi mecanwaith systematig i awdurdodau lleol i nodi'r bobl ifanc hynny sydd angen cymorth, i weld pa gymorth sydd ar gael, ac i olrhain datblygiad pobl ifanc wrth iddynt bontio o addysg i addysg bellach neu gyflogaeth. Amcan cyffredinol y fframwaith yw lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET.

1.13 Yn 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad o Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-2018 (Prifysgol Glyndŵr Wrecsam et al. 2017). Canfu'r adroddiad fod cefnogaeth gref ar draws y sector i Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru, a chroesawodd y sector ymrwymiad newydd Llywodraeth Cymru i waith ieuenctid, gan ganfod "fod bwriadau a nodau Llywodraeth Cymru wedi cael derbyniad da gan y cyfranogwyr yn genedlaethol" (Prifysgol Glyndŵr Wrecsam et al. 2017, t. 49). Yn ogystal, cytunai rhanddeiliaid fod y weledigaeth ar gyfer y sector a amlinellwyd yn y ddogfen Egwyddorion a Dibenion yn dal i fod yn berthnasol ac y dylent fod yn sail i unrhyw strategaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, canfu'r adolygiad fod diffyg eglurder ynghylch sut mae dogfennau polisi allweddol fel Egwyddorion a Dibenion yn gweithio i ategu ei gilydd. Argymhellai adroddiad yr adolygiad y dylid cael Polisi Ieuenctid Cenedlaethol i ddwyn ynghyd yr holl bolisïau a strategaethau perthnasol.

1.14 Canfu'r adolygiad hefyd fod y berthynas rhwng addysg ffurfiol a gwaith ieuenctid yn gymhleth. Er bod cysylltiadau rhwng addysg ffurfiol a gwaith ieuenctid wedi datblygu'n organig, nododd rhanddeiliaid fod angen i waith ieuenctid fod â ffocws ehangach na sefydlu cysylltiad â'r sector addysg ffurfiol yn unig. Oherwydd ffocws addysgiadol strategaeth 2014-2018, pryderai rhanddeiliaid nad oedd anghenion mwy cyfannol pobl ifanc, o ran eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwleidyddol, yn cael eu diwallu'n llawn. Ar ben hynny, canfu fod angen i unrhyw strategaeth yn y dyfodol sicrhau bod dealltwriaeth strategol glir o'r berthynas rhwng gwaith ieuenctid a'r sector addysg.

1.15 Thema amlwg yn yr ymchwil oedd nifer yr achosion o wahaniaethau rhwng sefydliadau gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol. Yn yr adolygiad tynnwyd sylw at faterion fel cyllid, darparu gwasanaethau, cyfeiriad strategol, a mynediad at hyfforddiant a datblygiad staff. Daeth yr adroddiad adolygu i'r casgliad y dylai strategaeth gwaith ieuenctid yn y dyfodol gynnwys mesurau i sicrhau bod sefydliadau'r sector statudol a gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd i rannu adnoddau a chyllid.

*Adolygu Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru*

1.16 Gan ddefnyddio canfyddiadau ymchwil blaenorol, gweithiodd Llywodraeth Cymru ar y cyd â'r sector a rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio gyda phobl ifanc i ddatblygu strategaeth ar lefel uchel ar gyfer darparu gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae'r

strategaeth yn seiliedig ar weledigaeth a rennir yn y sector o Gymru fel gwlad lle mae:

- pob person ifanc yn ffynnu, ac yn cael mynediad at gyfleoedd a phrofiadau, yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n rhoi mwynhad ac yn cyfoethogi eu datblygiad personol drwy waith ieuenctid
- gwaith ieuenctid yn seiliedig ar hawliau, yn cael ei arwain gan bobl ifanc, ac yn cael ei gynllunio a'i gefnogi ar y cyd gan weithlu medrus o wirfoddolwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu talu
- pobl yn deall gwerth gwaith ieuenctid, a bod llinellau atebolrwydd clir.

1.17 I wireddu'r weledigaeth hon, mae'r strategaeth yn amlinellu pum nod:

1. mae pobl ifanc yn ffynnu
2. mae gwaith ieuenctid yn hygyrch ac yn gynhwysol
3. mae gweithwyr ieuenctid proffesiynol sy'n wirfoddol neu'n gweithio am dâl yn cael eu cefnogi i wella eu hymarfer drwy gydol eu gyrfa
4. mae gwaith ieuenctid yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall
5. model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid

1.18 Yn dilyn cyhoeddi'r strategaeth, ym mis Hydref 2019 cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ddogfen Weithredu yn nodi sut y caiff y nodau hyn eu cyflawni. Yna, aeth y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro ati i sefydlu pedwar Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth i weithio tuag at gyflawni pedwar nod cyntaf y strategaeth. Yn ogystal, mae tri grŵp 'Gorchwyl a Gorffen' arall yn ymdrin â'r Gymraeg, digidol a marchnata, a bydd eu gwaith yn cysylltu â phob un o Grwpiau Cyfranogiad y Strategaeth.

### Amcanion yr Ymchwil

1.19 Prif nod yr ymchwil hwn oedd cydgrynhoi gwybodaeth am waith ieuenctid yng Nghymru a llywio'r broses o weithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru. Y bwriad, ar ôl cwblhau'r ymchwil hwn, yw y bydd yr adroddiad yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, Grwpiau Cyfranogiad y Strategaeth, a Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn y dyfodol.

*Amcanion Penodol a Chwestiynau Ymchwil*

1.20 Roedd dau amcan uwch i'r ymchwil hwn, sef yn benodol:

- Creu dealltwriaeth o ymyriadau gwaith ieuenctid effeithiol a'r dystiolaeth gyfredol am amrywiaeth ac ansawdd modelau gwaith ieuenctid sy'n bodoli ledled Cymru, gan gynnwys unrhyw rwystrau a chyfleoedd y dylid rhoi sylw iddynt.
- Hwyluso'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro i greu theori newid a rennir ar gyfer y Strategaeth Gwaith Ieuenctid yn seiliedig ar y ddealltwriaeth honno.

1.21 Yn ogystal â'r amcanion trosfwaol hyn, roedd hefyd gyfres o amcanion ymchwil penodol a chwestiynau cysylltiedig y ceisiodd yr ymchwil hwn fynd i'r afael â nhw. Amlinellir y rhain isod.

1.22 **Amcan un: Datblygu dealltwriaeth o ymarfer gwaith ieuenctid effeithiol a sut i'w fesur**

- Beth mae tystiolaeth a gynhyrchwyd am Gymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, dros y 5 mlynedd diwethaf, yn dweud wrthym am fuddion gwaith ieuenctid fel dull gweithredu, gan gynnwys ar gyfer pobl ifanc?
- Pa fodelau arfer da sydd yna ar gyfer gwerthuso dulliau gwneud gwaith ieuenctid mewn partneriaeth ac ar gyfer asesu gwerth gwaith ieuenctid?

1.23 **Amcan dau: Datblygu darlun o waith ieuenctid yng Nghymru a'r heriau a'r cyfleoedd ar hyn o bryd.**

- Yn benodol, beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym am ystod, cyfanswm, ansawdd, buddion ac effaith gwaith ieuenctid yng Nghymru?
- Pa ganfyddiadau a adroddwyd, a pha argymhellion a wnaed eisoes, mewn ymchwil i waith ieuenctid yng Nghymru a sut mae'r sector, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wedi ymateb?
- Beth sy'n hysbys am yr heriau a'r cyfleoedd cyfredol oedd yn wynebu gwaith ieuenctid cyn COVID-19 a phellter cymdeithasol, a'r heriau a'r cyfleoedd sydd wedi codi oherwydd y pandemig?
- Sut mae heriau a chyfleoedd yn amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl ifanc, gan gynnwys: ar draws lleoliadau trefol, gwledig ac arfordirol; y rhai sydd fwyaf agored i niwed; a'r rheiny sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig?
- Beth mae pobl ifanc yn ei werthfawrogi fwyaf a pha gyfleoedd a heriau y maen nhw'n eu gweld? Beth ddylai eu rôl fod wrth wella ansawdd gwaith ieuenctid yng Nghymru?

- Beth sydd eisoes yn hysbys am faint o waith ieuenctid a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig?
- Beth mae aelodau'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a chynrychiolwyr pedwar Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth a chynrychiolwyr pobl ifanc eisoes yn ei wybod am ymarfer da yn y maes gwaith ieuenctid yng Nghymru, y cyfleoedd y gellir eu meithrin a'r heriau sydd angen sylw?

1.24 **Amcan tri: Ymgysylltu â'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro wrth ddatblygu theori newid sy'n seiliedig ar dystiolaeth**

- Ar gyfer dibenion Strategaeth Gwaith Ieuenctid, beth yw 'gwaith ieuenctid'?
- Beth yw rhagdybiaethau'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro ynghylch sut y bydd y Strategaeth Gwaith Ieuenctid yn esgor ar effaith gadarnhaol a model gwaith ieuenctid cynaliadwy?
- Pa rôl y disgwylir i gydweithio ei chael wrth sicrhau bod gweithgareddau yn cynhyrchu allbynnau a chanlyniadau?
- Pa fentrau polisi neu raglenni gwaith sy'n cael eu hystyried yn rhan o ymagwedd Strategaeth Gwaith Ieuenctid?
- Beth arall sy'n digwydd a allai gyfrannu at y canlyniadau y mae'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid yn ceisio eu cyflawni neu a allai amharu ar y canlyniadau hynny? Sut y dylai'r gwerthuso fynd ati i bwyso a mesur y rhain?
- Sut y gall canfyddiadau o dystiolaeth ddiweddar gryfhau eu dull gweithio? Beth mae'n ei ddweud wrthym am ffyrdd i asesu gwerth ac effeithiau'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid?
- Beth sydd eisoes yn hysbys am faint o gyfleoedd sydd yna i bobl ifanc a gweithwyr ieuenctid ymgysylltu â gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg? A ellid cynyddu'r cyfleoedd hyn? Os gellid, sut?

1.25 Yn ychwanegol at y cwestiynau penodol hyn, rhoddodd yr ymchwil ystyriaeth hefyd i waith ieuenctid yng nghyd-destun polisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg, Cymraeg 2050.

*Strwythur yr Adroddiad hwn*

1.26 Mae ail bennod yr adroddiad yn cyflwyno'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr ymchwil. Mae'r drydedd bennod yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth mewn perthynas â'r dystiolaeth brofedig ar gyfer buddion gwaith ieuenctid. Yn y

bedwaredd bennod archwilir modelau partneriaeth ar gyfer darparu gwaith ieuenctid a dulliau o asesu eu heffeithiolrwydd. Amlinella'r pumed bennod yr hyn a wyddys am waith ieuenctid yng Nghymru ac mae'n nodi bylchau yn y dystiolaeth. Edrycha'r chweched bennod ar yr heriau a'r cyfleoedd i'r sector, yn seiliedig ar farn rhanddeiliaid a gasglwyd yn ystod ymchwil sylfaenol. Mae'r seithfed bennod yn crynhoi canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth ac ymchwil sylfaenol mewn perthynas â sut mae COVID-19 wedi effeithio ar y sector. Amlinella'r wythfed bennod y farn ynghylch sut y gall Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru oresgyn rhai o'r heriau sy'n wynebu'r sector a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael iddo. Yn olaf, mae'r nawfed bennod yn cyflwyno theori newid sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

## 2. Methodoleg

### Amlinelliad o’r Dull

2.1 Yn dilyn cyfres o gyfweliadau cwmpasu gyda rhanddeiliaid allweddol, cytunwyd mynd ati i gynnal yr ymchwil hwn drwy ddefnyddio dulliau cymysg. Gan adlewyrchu’r angen i gydgrynhoi’r hyn a oedd eisoes yn hysbys yn y sector ac mewn llenyddiaeth ehangach ar waith ieuenctid, roedd y dull a ddefnyddiwyd yn dwyn ynghyd fewnwelediadau o ymchwil desg a chanfyddiadau’r ymgynghoriadau â rhanddeiliaid y sector a chynrychiolwyr pobl ifanc.

2.2 Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng Gorffennaf a Hydref 2020 ac roedd yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Cyfweliadau cwmpasu â 17 o randdeiliaid
- Cyfweliadau manwl â 60 o randdeiliaid eraill yn y sector a chynrychiolwyr pobl ifanc
- Tri gweithdy theori newid gydag aelodau’r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, Grwpiau Cyfranogiad y Strategaeth, a Grwpiau Gorchwyl a Gorffen
- Dau weithdy theori newid gyda chynrychiolwyr pobl ifanc
- Adolygiad ar lenyddiaeth sy’n berthnasol i’r prif themâu ymchwil
- Dadansoddi data blynyddol am y sector a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru

2.3 Er mwyn cefnogi dehongliad y data a sicrhau deialog barhaus rhwng yr ymchwil a gwaith y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, rhoddwyd dau gyflwyniad ar y canfyddiadau wrth iddynt ddatblygu.

2.4 Rhoddodd Llywodraeth Cymru restr gychwynnol o gysylltiadau ar gyfer cyfweliadau â rhanddeiliaid, a chafwyd nifer fach o gysylltiadau ychwanegol trwy’r cyfweliadau cyntaf. Roedd y rhestr o gysylltiadau yn bennaf yn cynnwys unigolion sydd wedi gweithio ar wahanol adegau gyda’r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro fel aelodau, ar Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth neu Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Nodwyd pump o’r rhanddeiliaid hyn i fod yn ‘gynrychiolwyr pobl ifanc’ sydd wedi bod yn rhan o waith y Bwrdd yn datblygu’r Strategaeth Gwaith Ieuenctid.

2.5 Yn ogystal ag unigolion sy’n ymwneud â gwaith y Bwrdd, cafwyd enwau cysylltiadau hefyd ar gyfer Prif Swyddogion Ieuenctid ledled Cymru, ac unigolion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru i fod yn rhai a allai gyfrannu at yr ymchwil fel cynrychiolwyr

sefydliadau gwaith ieuenctid neu sy'n gweithio mewn meysydd cysylltiedig. Cafodd nifer fach o gysylltiadau eu codi fel 'pelen eira' o'r cyfweliadau cychwynnol.[2]

2.6 Oherwydd pandemig COVID-19, o bell y cynhaliwyd yr holl weithgareddau ymchwil a chyflwyniadau. Pan gynhaliwyd ymchwil sylfaenol, gwnaed hyn drwy ddefnyddio Microsoft Teams. Roedd cyfradd yr ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gymharol debyg i'r hyn a ddisgwylid ar gyfer ymchwil o'r math hwn, er bod y nifer a gymerodd ran mewn gweithdai i gynrychiolwyr pobl ifanc yn is na'r hyn a ragwelwyd cyn yr ymchwil. Mae copïau llawn o'r canllawiau trafod a ddefnyddiwyd i hwyluso cyfweliadau wedi'u cynnwys yn atodiad i'r adroddiad hwn.

2.7 Gan fod natur yr ymchwil yn strategol, penderfynwyd cael persbectif pobl ifanc ar yr ymchwil trwy ymgysylltu â'r bobl ifanc hynny a oedd eisoes yn ymwneud â gwaith y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro ac er mwyn manteisio cymaint ag y bo modd ar fewnwelediadau a gasglwyd eisoes gan y Bwrdd.

2.8 Roedd pobl ifanc a oedd eisoes yn ymwneud â gwaith y Bwrdd fel 'cynrychiolwyr pobl ifanc' wedi cymryd rhan yn yr ymchwil trwy gyfweliadau cwmpasu, gweithdai theori newid a gwahoddiad i 'herio' y theori newid wrth iddi ddatblygu. Ymgysylltodd pum cynrychiolydd pobl ifanc â'r ymchwil trwy'r dulliau hyn, er mai dim ond dau a gymerodd ran yn y gweithdai terfynol. Mae'n bosibl fod niferoedd isel yr ymgysylltu â'r gweithdai terfynol hyn wedi digwydd oherwydd blinder ymchwil neu natur ar-lein yr ymgysylltu.

2.9 Yn ogystal â'r ymgysylltiad hwn â chynrychiolwyr pobl ifanc, mae'r adroddiad hwn wedi tynnu ar ymchwil flaenorol a wnaed gan y Bwrdd, gan gynnwys y canlynol:

- Grwpiau ffocws ac ymgynghoriad ysgrifenedig a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2020 gyda 25 o bobl ifanc ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar sut mae COVID-19 wedi effeithio ar eu bywydau a'u gwasanaethau ieuenctid, yn ogystal â'u dyheadau ar gyfer gwaith ieuenctid ar ôl y cyfnod clo.
- Ymgynghoriad helaeth â phobl ifanc a gynhaliwyd ddiwedd 2018 a dechrau 2019, gan ganolbwyntio ar yr hyn y mae gwaith ieuenctid yn ei olygu i bobl ifanc, eu dyheadau ar gyfer dyfodol gwaith ieuenctid yng Nghymru, a'r hyn a gânt o waith ieuenctid. Ymatebodd cyfanswm o 23 o sefydliadau i'r ymgynghoriad, gan

[2] Diffinnir samplu pelen eira fel defnyddio "a small pool of initial informants to nominate other participants who meet the eligibility criteria for a study. The name reflects and analogy to a snowball increasing in size as it rolls downhill". Morgan, D.L. (2008) 'Snowball Sampling' yn Given, L.M. (gol.) The SAGE Encyclopedia of Qualitative Research Methods cyfrol 2: mynegai M-Z, Los Angeles: SAGE, t. 815.

gynnwys barn 633 o bobl ifanc. Mae'r ymgynghoriad yn cynrychioli barn ystod eang o bobl ifanc sy'n ymwneud â darpariaeth gwaith ieuenctid ledled Cymru.

2.10 Er mwyn cefnogi a chael gwybodaeth i'r ymchwil, aethpwyd ati i adolygu llenyddiaeth gan fapio'r dystiolaeth gyfredol a'i gwerthuso'n feirniadol i gefnogi ein dealltwriaeth o'r canlynol:

- buddion a manteision gwaith ieuenctid fel ffordd o weithio.
- modelau arfer da i werthuso dulliau darparu gwaith ieuenctid mewn partneriaeth ac asesu gwerth gwaith ieuenctid.
- yr hyn sy'n hysbys ynghylch sut mae COVID-19 wedi effeithio ar y sector gwaith ieuenctid.

2.11 Ar gyfer pob pwnc o bwys, nodwyd ystod o bapurau academaidd a llenyddiaeth lwyd. Gan ddefnyddio llinynnau chwilio wedi'u diffinio ymlaen llaw, chwiliwyd a sgriniwyd cronfeydd data llyfryddol gan gynnwys Web of Science a Google Scholar. Pan nodwyd papurau perthnasol, aethpwyd ati am yn ôl i fapio'r cyfeiriadau er mwyn canfod ymchwil mwy diweddar. Cafwyd rhywfaint o'r llenyddiaeth sydd yn yr adolygiad gan staff Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, a rhanddeiliaid eraill. Er mwyn cefnogi'r dadansoddi ar y sylfaen dystiolaeth, codwyd data o bapurau perthnasol, gan gynnwys dyfarniadau bras ynghylch cryfderau a chyfyngiadau'r ymchwil. Oherwydd prinder ymddangosiadol y sylfaen dystiolaeth ar gyfer rhai o'r cwestiynau, roedd yr awduron wedi cynnwys ymchwil o'r 20 mlynedd diwethaf.

**Cyfyngiadau'r Dull**

2.12 Fel y nodwyd uchod, daeth y cysylltiadau ar gyfer yr ymgynghoriadau â rhanddeiliaid drwy law Llywodraeth Cymru a hynny'n seiliedig ar berthynas sy'n bodoli eisoes â'r rhanddeiliaid. O ganlyniad i'r sampl a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil sylfaenol, er bod cydbwysedd da rhwng darparwyr gwaith ieuenctid gwirfoddol a statudol a lledaeniad daearyddol y sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy, ni ddylid dirnad bod y canfyddiadau'n gwbl gynrychioliadol o'r sector cyfan. Mae'r farn a fynegwyd yn ystod yr ymchwil yn debygol o adlewyrchu barn y sefydliadau hynny sydd eisoes yn ymwneud â gwaith y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro.

2.13 Yn yr un modd, oherwydd cyfyngiadau amser, caiff y dystiolaeth eilaidd a adolygwyd yn ystod yr astudiaeth ei gwerthuso drwy ddefnyddio adolygiad

llenyddiaeth yn hytrach na thechnegau adolygu systematig. Mae adolygiadau llenyddiaeth yn llai cadarn nag adolygiadau systematig wrth gynhyrchu sylfaen dystiolaeth, a gallant adlewyrchu'r cyd-destun cyfredol a rhagdybiaethau rhanddeiliaid (Robinson & Lowe, 2015). Gyda'i gilydd, dylid cofio mai rhoi syniad o natur a chyfanswm y sylfaen dystiolaeth y mae'r adolygiadau llenyddiaeth sy'n cefnogi'r ymchwil hwn, yn hytrach na bod yn ddatganiad diffiniol o effeithiolrwydd ymarfer gwaith ieuenctid, neu effaith COVID-19 ar y sector.

2.14 Yn olaf, mae'n bwysig cydnabod na cheisiodd y gwaith hwn fapio nac archwilio'r sector gwaith ieuenctid yng Nghymru yn systematig. Wrth geisio meithrin dealltwriaeth o ystod, cyfanswm, ansawdd ac effaith gwaith ieuenctid ar draws pob rhan o Gymru, mae'r ymchwil wedi ceisio cydgrynhoi'r hyn sy'n hysbys ymhlith aelodau'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a rhanddeiliaid eraill yn y sector, yn hytrach na datblygu gwybodaeth yn seiliedig ar ymchwil sylfaenol.

## 3. Canfyddiadau – yr hyn y mae'r dystiolaeth gyhoeddedig yn ei ddweud am fuddion dull Gwaith Ieuenctid

3.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r adolygiad llenyddiaeth, gan astudio'r ymchwil sy'n bodoli eisoes ar effeithiolrwydd a buddion y 'dull gwaith ieuenctid'. Daw'r mewnwelediadau hyn yn sgil astudiaeth fanylach sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

**Sut mae gwaith ieuenctid wedi'i ddiffinio ar gyfer yr adolygiad hwn**

3.2 Nid yw'n hawdd diffinio gwaith ieuenctid. Defnyddir y term yn helaeth, ond nid yw bob amser yn glir bod pobl yn golygu'r un peth wrth ddefnyddio'r term. Yn wir, mae cryn ddadlau academaidd ynghylch beth yw gwaith ieuenctid (Davies & Batsleer 2010). Mae ymchwil hefyd yn dangos bod ystyr y term wedi newid dros amser, gan gyd-fynd ag amcanion llywodraethau wrth ddatblygu polisïau i gefnogi a meithrin gwaith ieuenctid (Smith, 2013).

3.3 Yr hyn sy'n arbennig o heriol wrth geisio cael diffiniad clir o waith ieuenctid yw nad yw hi bob amser yn glir ble mae gwaith ieuenctid yn gorffen a ffyrdd eraill o weithio gyda phobl ifanc yn dechrau. Mae Dunne et al. (2014, t. 60) yn nodi gorgyffwrdd rhwng gwaith ieuenctid a'r canlynol:

- Addysg ffurfiol
- Gwaith cymdeithasol
- Iechyd
- Cyfiawnder
- Chwaraeon
- Arweiniad a Chwnsela
- Diwylliant

3.4 Oherwydd hyn, mae'r rhan fwyaf o ddiffiniadau cyfoes o waith ieuenctid yn diffinio gwaith ieuenctid fel ffordd o weithio gyda phobl ifanc a bod pwrpas i'r gwaith a wneir gyda phobl ifanc (Youth Link Scotland, 2005 a Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, 2018). Mae'r egwyddorion a'r ffyrdd hyn o weithio fel arfer yn ymwneud ag ymgysylltiad gwirfoddol pobl ifanc fel partneriaid wedi'u grymuso, gan gydnabod pwrpas gwaith ieuenctid i fod yn ymwneud â datblygu pobl ifanc yn gyfannol a'u cefnogi i wireddu eu potensial, fel yr amlygir yn Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y DU ar gyfer Gwaith Ieuenctid (Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol 2014, t. 4), sy'n nodi mai diben gwaith ieuenctid yw:

“Galluogi pobl ifanc i ddatblygu’n gyfannol, gan weithio gyda nhw i hybu eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu llais, eu dylanwad a’u lle mewn cymdeithas a chyrraedd eu potensial llawn.”

3.5 Er bod gwaith ieuenctid yn torri drwy’r meysydd eraill a nodwyd uchod, ni fydd yr holl weithgareddau yn y meysydd hyn sy’n cynnwys pobl ifanc yn waith ieuenctid gan nad ydynt yn blaenoriaethu datblygiad cyfannol y person ifanc. Mae Dunne et al. (2014) yn nodi’r gwahaniaeth yn ôl hierarchaeth yr amcanion sydd wrth wraidd y gweithgareddau a gyflawnir. Er enghraifft, mae’n debygol na fyddai gweithgareddau chwaraeon sy’n seiliedig yn llwyr ar wella perfformiad a chyrraedd rhagoriaeth yn cael eu hystyried yn waith ieuenctid. Ond eto, mae rhai clybiau chwaraeon sy’n gwneud gwaith ieuenctid. Mae clwb chwaraeon yn gallu bod yn debyg iawn i glybiau ieuenctid eraill os yw’n cynnig gweithgareddau chwaraeon i bobl ifanc gyda’r bwriad o’u cynnwys mewn gweithgareddau cadarnhaol, dysgu bod yn nhw eu hunain, datblygu sgiliau rhyngbersonol a mynegi eu hunain a lle mae’r elfen berfformio yn gyfwerth neu’n debyg i’r amcanion eraill hyn.

3.6 At ddibenion yr adolygiad hwn, felly, rydym wedi ceisio deall y dystiolaeth ar gyfer buddion gwaith ieuenctid fel dull o weithio gyda phobl ifanc, ni waeth ym mha leoliad y mae’r dull gwaith ieuenctid hwnnw’n cael ei gynnal. Er ein bod yn cydnabod bod diffiniadau’n amrywio mewn gwahanol leoliadau cenedlaethol, mae’r rhan fwyaf o ddiffiniadau’n cyd-fynd â’r diffiniad a geir yn niffiniad y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

**Cwmpas ac ymagweddau’r llenyddiaeth**

3.7 Dengys yr adolygiad llenyddiaeth nad yw’r sylfaen dystiolaeth ar gyfer buddion y dull gwaith ieuenctid yn arbennig o gryf. Canfu ymchwil a luniwyd ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd fod diffyg data a gwerthuso cadarn cyffredinol yn rhwystro’r sector rhag dangos effeithiolrwydd (Dunne 2014, t.7). Un o’r prif broblemau yn y maes hwn yw bod y llenyddiaeth yn aml yn wael wrth wahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a ffyrdd eraill o weithio gyda phobl ifanc. Her arall yw bod gwaith ieuenctid yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio amrywiaeth eang o weithgareddau, ac nid yw’n amlwg bod y buddion gwaith ieuenctid a nodwyd gan y llenyddiaeth yn berthnasol i bob dull o ddarparu gwaith ieuenctid. Er gwaethaf yr heriau hyn, cynyddu y mae’r dystiolaeth sydd ar gael am fuddion y dull gwaith ieuenctid.

3.8 Pan fo'r ymchwil yn ymwneud â gwaith ieuenctid mynediad agored, mae'r dulliau ymchwil fel arfer wedi defnyddio dull ansoddol. Mabwysiadwyd methodolegau fel Newid Mwyaf Arwyddocaol a Gwerthuso Trawsnewidiol gan eu bod yn cynnig methodoleg sy'n sefydlu deialog rhwng pobl ifanc, gweithwyr ieuenctid a rhanddeiliaid (Cooper, 2012 & Cooper, 2017).[3]

**Beth mae'r llenyddiaeth yn ei ddweud wrthym**

3.9 Ystyriaeth allweddol wrth ddeall buddion gwaith ieuenctid fel dull gweithredu yw'r amrywiaeth sylweddol o ddulliau a ddefnyddir yn ymarferol ledled Cymru ac yn rhyngwladol. Mae amrywiaeth eang, er enghraifft, yn yr union amcanion, lleoliadau, dulliau ymgysylltu, grwpiau oedran, cynnwys, ac yn y cysyniadau a'r damcaniaethau sylfaenol sy'n fframio ac yn llywio gwasanaethau a chefnogaeth gwaith ieuenctid (Davies & Batsleer, 2010).

3.10 Mae yna ystod eang o ymchwil a thystiolaeth sy'n cefnogi ein dealltwriaeth o rôl a photensial y dull gwaith ieuenctid yn ymarferol. Mae'r sylfaen dystiolaeth ar ei chryfaf wrth ddangos manteision posibl gwaith ieuenctid fel dull gweithredu. Rydym yn gwybod, er enghraifft, y gall y ffocws ar ddatblygu perthynas ryngbersonol gadarnhaol fod â buddion tymor hir i bobl ifanc. Pan fydd yn effeithiol, gall yr ymgysylltu rhwng gweithiwr ieuenctid a pherson ifanc gefnogi canlyniadau cadarnhaol ar draws ystod o feysydd. Gall feithrin hunanhyder mewn person ifanc, er enghraifft, ac mae hynny'n rhagfynegydd pwysig o ganlyniadau eraill i'r tymor hirach, gan gynnwys gwella cyfranogiad a chyrhaeddiad addysgol (Jeffs & Smith, 2010). Awgryma ymchwil ehangach y gall y berthynas hon fod yn fwy effeithiol na mathau eraill o gefnogaeth ffurfiol, gan gynnwys mentora (Hirsch, 2005).

3.11 Pan fo bylchau yn ein gwybodaeth, mae'r rhain yn fwyaf amlwg wrth geisio deall i ba raddau y caiff effeithiau posibl darpariaeth benodol eu trosi'n ganlyniadau gwirioneddol. Ar draws gwaith ieuenctid mae'r union amcanion, dulliau ymgysylltu a chynnwys y gefnogaeth yn niferus ac yn amrywiol. Mae natur y dystiolaeth sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid cyffredinol mynediad agored yn wahanol o ran

---

[3] Mae'r dull Newid Mwyaf Arwyddocaol (Most Significant Change) yn cynnwys cynhyrchu a dadansoddi adroddiadau personol o newid a phenderfynu pa un o'r adroddiadau hyn yw'r mwyaf arwyddocaol – a pham. Yn gyffredinol caiff ei ystyried yn ddull cydweithredol o werthuso, er yn un sy'n cymryd llawer o amser. Mae Gwerthuso Trawsnewidiol (Transformative Evaluation) yn ddull o werthuso a ddatblygwyd o'r un uchod, gan ganolbwyntio ar dystiolaethu'r gwahaniaeth y mae gwaith ieuenctid a chymunedol yn ei wneud i fywydau pobl ifanc, ac wedi'i ddatblygu gan Dr Susan Cooper.

ansawdd i ddarpariaeth wedi'i thargedu'n well. Ymddengys bod mwy o sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi dulliau wedi'u targedu.

Fodd bynnag, prin yw'r ymchwil sy'n nodi ac yn esbonio'n gywir y newid a ddaw yn sgil dulliau ac arferion penodol a ddefnyddir mewn lleoliadau gwaith ieuenctid. Mae hyn yn arbennig o amlwg wrth ddeall buddion darpariaeth i'r tymor hirach (McGregor, 2015).

3.12 Nid yw absenoldeb tystiolaeth yn awgrymu nad yw rhai dulliau yn effeithiol nac o bosibl yn fuddiol. Mae deall ac ymchwilio i'r newid a ddaw yn sgil gwaith ieuenctid yn werthfawr. Gall gefnogi adnabod a chydnabod arfer da a gall helpu i adeiladu cefnogaeth ehangach ar gyfer darpariaeth gwaith ieuenctid a rhoi hyder ynddo. Yn bwysig, gall dealltwriaeth arwain at ddarpariaeth fwy sensitif, gan nodi a darparu cefnogaeth a fyddai fwyaf addas ac effeithiol ar gyfer gwahanol bobl ifanc sy'n ymgysylltu â gweithwyr ieuenctid (Fraser, 2009). Byddai comisiynu ymchwil bellach yn y maes hwn yn rhoi sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer datblygu model darparu mwy cynaliadwy ac effeithiol ar gyfer gwaith ieuenctid.

3.13 Er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau hyn yn ein dealltwriaeth, gallai ymchwil yn y dyfodol edrych ar siwrneiau pobl ifanc y tu hwnt i'r gefnogaeth a gânt. Gallai hyn gynnwys:

- ymchwil i wella ein dealltwriaeth o sut y gall ymgorffori gwaith ieuenctid yn ecoleg ehangach gwasanaethau sy'n ceisio cefnogi pobl ifanc wella canlyniadau i bobl ifanc
- astudiaethau hydredol pellach i archwilio'r berthynas rhwng cefnogaeth a chanlyniadau tymor hwy, megis ymgysylltu addysgol a chyrhaeddiad addysgol
- archwilio i ba raddau y mae dulliau gwaith ieuenctid yn sicrhau newid yn annibynnol ar ffactorau eraill ym mywyd person ifanc, a byddai hyn angen ymchwil yn defnyddio dyluniadau arbrofol a lled-arbrofol, megis defnyddio sefyllfaoedd gwrthffeithiol.

*Tystiolaeth o fuddion gwaith ieuenctid mynediad agored*

3.14 Mae tystiolaeth o fuddion gwaith ieuenctid mynediad agored ar ei gryfaf ym maes canlyniadau meddal. Mae ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd yn yr Alban gan ddefnyddio dull Gwerthuso Trawsnewidiol (Fyfe et al., 2018) wedi canfod bod cyfleoedd gwaith ieuenctid mynediad agored fel arfer yn arwain at y canlyniadau meddal canlynol:

- hyder
- sgiliau oes
- yn gydradd ac wedi'u cynnwys
- cyfeillgarwch
- yn ddiogel ac yn iach
- gallu arwain a helpu eraill
- cyd-dynnu'n dda ag eraill

3.15 Gwelodd yr ymchwil yn ogystal fod canlyniadau i bobl ifanc hefyd yn benodol i ddiddordebau ac anghenion y bobl ifanc sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth.

3.16 Mae ymchwil a wnaed gan Sefydliad Young ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol (McNeil et al., 2012) wedi canfod bod gwaith ieuenctid yn arwain at ganlyniadau ar draws saith clwstwr galluogrwydd:

- gwytnwch a phenderfyniad
- hyder a gallu gweithredu
- creadigrwydd
- cyfathrebu
- perthynas ac arweinyddiaeth
- cynllunio a datrys problemau
- rheoli teimladau

3.17 Diwygiwyd y fframwaith hwn maes o law (McNeil et al., 2019), gan nodi chwe pharth o ran sgiliau cymdeithasol ac emosiynol sy'n codi o ymarfer gwaith ieuenctid a lleisiau pobl ifanc:

- cyfrifoldeb
- empathi
- datrys problemau
- blaengarwch
- gwaith tîm
- rheoli emosiynau

*Tystiolaeth o'r gwerth a geir drwy fuddsoddi mewn gwaith ieuenctid*

3.18 Mae ymchwil a gynhyrchwyd gan y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Faterion Ieuenctid wedi canfod bod gwaith ieuenctid yn cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc, yn enwedig ar lefel gwasanaethau cyffredinol mynediad agored

(Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid 2019, t. 32). I gyrff cyhoeddus, mae buddsoddi mewn gwaith ieuenctid yn cynnig y potensial i roi arbediad hirdymor sylweddol, gyda Chowdry a Fitzsimons (2016) yn dod i'r casgliad bod gwasanaethau adfer ac oedi cyn ymyrraeth yn costio £17bn yn flynyddol yng Nghymru a Lloegr, neu £287 i bob dyn, dynes a phlentyn.

3.19 Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau dadansoddiadau budd cymdeithasol o fuddsoddi (SROI) a gynhaliwyd yn yr Alban ac Iwerddon, sydd wedi canfod budd cadarnhaol i fuddsoddi mewn gwaith ieuenctid mynediad agored. Canfu ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer Cyngor Cenedlaethol Ieuenctid Iwerddon fod pob €1 a fuddsoddwyd yn arwain at sefydliadau gwaith ieuenctid yn creu gwerth €2.22 o fudd i gymdeithas Iwerddon (Cyngor Cenedlaethol Ieuenctid Iwerddon, 2012). Canfu astudiaeth debyg a gynhaliwyd yn yr Alban am bob £1 o ymdrech a fuddsoddir mewn gwaith ieuenctid, ceir enillion sy'n werth o leiaf £3 a "bod cyfanswm gwerth gwaith ieuenctid yn yr Alban o bosibl yn werth o leiaf £656 miliwn – sy'n fudd o £7 am bob £1 o arian cyhoeddus" (Hall Aitken 2016, t. 6). Mae ymchwil yr Alban wedi nodi canlyniadau sy'n deillio o waith ieuenctid, a'r canlyniadau hynny'n cynnwys:

- Gwell datblygiad iaith, llythrennedd a rhifedd
- Ennill cymwysterau
- Ymgysylltu ag addysg a dysgu
- Mewn cyflogaeth neu hyfforddiant
- Ymddygiad cadarnhaol mewn perthynas ag iechyd
- Llai o droseddu
- Llai dibynnol ar les
- Rhianta a pherthnasoedd cadarnhaol (Hall Aitken 2016, t. 44).

Yna, defnyddiwyd yr arbedion cost i bwrs y wlad yn sgil y canlyniadau hyn i gyfrifo'r enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad mewn gwaith ieuenctid yn yr Alban.

# 4. Canfyddiadau – Modelau Arfer Da ar gyfer gwerthuso dulliau gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwaith ieuenctid, ac asesu gwerth gwaith ieuenctid

4.1 Un o amcanion allweddol yr ymchwil hwn oedd deall dulliau cydweithio wrth ddarparu gwaith ieuenctid a sut y gellir eu gwerthuso. Roedd y Strategaeth Gwaith Ieuenctid wedi sefydlu dyhead i sicrhau bod gwaith ieuenctid "yn cael ei gynllunio, ei ddarparu a'i adolygu drwy ddull partneriaeth (gyda'i gilydd a chyda phobl ifanc) sy'n gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau, gwybodaeth, arbenigedd ac adnoddau sydd ar gael" (Llywodraeth Cymru 2019a, t. 16). Gan ddefnyddio'r adolygiad llenyddiaeth manylach sydd yn atodiad yr adroddiad hwn, mae'r bennod hon yn crynhoi'r hyn sy'n hysbys am ddatblygu dulliau partneriaeth o ddarparu gwaith ieuenctid. Mae'n mynd ymlaen wedyn i grynhoi dulliau a fframweithiau ar gyfer asesu gwerth gwaith ieuenctid.

**Gwerthuso dulliau gweithio mewn partneriaeth**

4.2 Gall dulliau gweithio mewn partneriaeth gynnwys ystod eang o drefniadau sefydliadol a ffyrdd o weithio, o rwydweithio anffurfiol rhwng unigolion ar draws sefydliadau, i drefniadau mwy ffurfiol. Gellir ystyried gweithio mewn partneriaeth i fod yn gydweithio sy'n seiliedig ar berthynas a diddordebau ac amcanion a rennir, a hynny rhwng sefydliadau sy'n cydweithio tuag at nod cyffredin (Himmelman, 1996).

4.3 Mewn gwaith ieuenctid, ystyrir bod partneriaethau'n bwysig er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth a gynigir i bobl ifanc o'r ystod o sefydliadau a mudiadau sy'n gweithio mewn cymuned yn gydlynol ac yn effeithiol. Mae Dunne et al. (2014), er enghraifft, yn nodi bod partneriaethau rhwng sefydliadau gwaith ieuenctid a grwpiau a sefydliadau eraill, gan gynnwys ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, y cyfryngau, yr heddlu, a'r gymuned leol, yn ffactorau allweddol sy'n sail i ymarfer gwaith ieuenctid llwyddiannus ar draws Ewrop. Canfu ymchwil ehangach o Unol Daleithiau America fod sefydliadau cymunedol sydd mewn partneriaethau effeithiol a mwy ffurfiol yn gallu cael gafael ar fwy o grantiau a chynnig mwy o gefnogaeth (Rieker, 2011).

4.4 Fodd bynnag, mae sawl rhwystr i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Gall gwahaniaethau yn amcanion, gwerthoedd a diwylliannau'r sefydliadau sydd mewn

partneriaeth, er enghraifft, arwain at wahaniaethau barn ynghylch natur yr heriau sy'n wynebu'r bartneriaeth, y blaenoriaethau y dylid canolbwyntio arnynt, ac atebion posibl (Harrison, 2016).

4.5 Awgryma ymchwil bellach hefyd fod gwahaniaethau ideolegol a hunaniaethau proffesiynol yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol i weithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth, yn enwedig ymysg y rheiny sy'n cefnogi pobl ifanc (Deuchar ac Ellis, 2013). Gall hyn gynnwys gwahaniaethau a thensiynau ymddangosiadol o ran gwerthoedd, dulliau a chymhellion cyfunol sydd gan wahanol grwpiau partner, megis rhwng gweithwyr ieuenctid ac athrawon. Tensiwn allweddol a ddaeth i'r amlwg mewn ymchwil yw gwahaniaethau ymddangosiadol mewn barn ynghylch pwrpas a dulliau meithrin perthynas effeithiol a chefnogol gyda phobl ifanc. Awgryma ymchwil ansoddol mai rhwystr sylweddol i weithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus yw gwahaniaethau ideolegol a hunaniaethau proffesiynol sydd wedi hen ymwreiddio (Deuchar ac Ellis, 2013).

4.6 Mae ystod eang o offer ymarferol, modelau, fframweithiau ac adnoddau ar gael i helpu i arwain y broses o werthuso dulliau cyffredinol trefniadau partneriaeth. Fodd bynnag, mae gweithio mewn partneriaeth yn cwmpasu ystod eang o ymarfer proffesiynol a threfniadau sefydliadol sy'n golygu na all fod un glasbrint nac un dull penodol. Yn fras, ar draws gwahanol offer a fframweithiau, mae tair elfen arwyddocaol sy'n bwysig o ran deall effeithiolrwydd partneriaeth:

- **Perthynas** – y math o gysylltiadau rhwng sefydliadau sy'n ffurfio partneriaeth, ynghyd â chryfder ac aeddfedrwydd y cysylltiadau hynny. Gall hyn gynnwys archwilio i ba raddau y mae partneriaeth yn anffurfiol neu'n ffurfiol. Tuedda'r dulliau hyn i edrych ar agweddau mwy ansoddol megis nodi amcanion cyffredin neu rwystrau canfyddedig i'r bartneriaeth.
- **Prosesau** a gweithdrefnau'r bartneriaeth, gan gynnwys unrhyw strwythurau llywodraethu, cylch gorchwyl, cydlynu a darparu cefnogaeth trwy'r bartneriaeth. Mae'r dull hwn yn fwy perthnasol i drefniadau partneriaeth mwy ffurfiol.
- **Canlyniadau**, gan gynnwys deall y gwahaniaeth y mae partneriaeth yn ei wneud yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys i blant a phobl ifanc. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, edrych ar brofiadau pobl ifanc a chydlyniant y gefnogaeth a ddarperir trwy bartneriaeth, yn ogystal â deall y canlyniadau ehangach y gallai'r bartneriaeth fod wedi esgor arnynt.

4.7 Ar draws y materion hyn, gall fod ystod o ddulliau a modelau posibl ar gyfer edrych ar agweddau penodol ar bartneriaeth, gan gynnwys mewn lleoliadau gwaith ieuenctid. Mae strwythur cryf i rai dulliau ac mae ganddynt offer i gynorthwyo sefydliadau â'r broses o gasglu gwybodaeth.

4.8 Er enghraifft, datblygodd Sefydliad Nuffield offeryn asesu, gan gynnwys holiadur, y gellir ei rannu gyda phartneriaid er mwyn llunio cipolwg cyflym ar bartneriaeth heb orfod buddsoddi llawer o amser ac adnoddau (Hardy et al., 2003).

4.9 Mae dulliau eraill yn cynnig fframweithiau eang sy'n galluogi partneriaethau i nodi ac archwilio agweddau y teimlant sy'n bwysig, gan gynnwys y canlyniadau a fwriadwyd. Gall hyn gynnwys dulliau sy'n dod â phartneriaid ynghyd i drafod a chytuno ar ganlyniadau fel sail ar gyfer pennu effeithiolrwydd y bartneriaeth (Evaluation Support Scotland, 2020). Mae'r dulliau hyn yn cynnig mwy o ddyfnder a dealltwriaeth, a gallant gefnogi datblygiad cyffredinol y bartneriaeth ei hun. Fodd bynnag, gall y dulliau hyn gymryd mwy o amser, ac mae angen i'r bartneriaeth gyfan fod yn ymrwymedig ac yn agored er mwyn iddi lwyddo.

4.10 Bydd yr union brosesau a modelau a ddefnyddir i werthuso partneriaethau, ynghyd â ffocws unrhyw ymchwiliad, yn dibynnu ar aeddfedrwydd, maint a blaenoriaethau'r bartneriaeth. Efallai na fyddai'n briodol, er enghraifft, archwilio canlyniadau partneriaeth gymharol newydd ac anffurfiol, gan y byddai archwilio agweddau ar y berthynas a'r prosesau gweithio yn fwy priodol yn y tymor byr i ffurfioli trefniadau. Gall hyn helpu i greu cydweledigaeth a chyd-ddealltwriaeth o'r hyn y gall pob partner ei gyfrannu tuag at gyflawni'r amcanion, ac wrth gefnogi cysylltiadau cryfach rhwng, er enghraifft, y sectorau a gynhelir a'r sectorau gwirfoddol. Yn yr un modd, os yw galluoedd, adnoddau ac amser yn brin yn y bartneriaeth, yna gallai offer mwy strwythuredig fod yn fwy priodol wrth archwilio effeithiolrwydd y bartneriaeth.

4.11 Ystyrir yn fanylach yn Atodiad A sut y gellid cyflawni hyn, a'r egwyddorion a'r arferion da a allai lywio unrhyw asesu ar bartneriaeth.

**Asesu buddion gwaith ieuenctid**

4.12 Gan droi at ddeall ac asesu buddion ymarfer gwaith ieuenctid, mae'r ystyriaethau a'r heriau yn debyg i'r rheiny a geir wrth werthuso partneriaethau. O ystyried yr amrywiaeth helaeth yn yr union amcanion, y dulliau ymgysylltu, ac yng nghanlyniadau bwriadedig y gefnogaeth ledled gwaith ieuenctid, ni fydd unrhyw ddull gweithredu, fframwaith na methodoleg unigol yn briodol ym mhob achos.

Gallai ystyriaethau ymarferol a strategol bennu pa ddull sydd fwyaf priodol, a bydd yr ystyriaethau hynny yn cynnwys amcanion yr ymchwil, yr adnoddau sydd ar gael, galluoedd a hyder y tîm sy'n ymwneud â mesur yr effaith, a'r buddion neu ganlyniadau o ddiddordeb.

4.13 Wedi dweud hynny, mae rhai tueddiadau ac ystyriaethau cyffredinol a allai wella'r sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi gwaith ieuenctid. Gallai hyn wella hyder rhai grwpiau rhanddeiliaid yn rôl a photensial gwaith ieuenctid. Mae tystiolaeth o fuddion gwaith ieuenctid yn debygol o barhau i fod â rhan bwysig wrth bennu blaenoriaethau a chyllid y llywodraeth a'r trydydd sector, nawr ac i'r dyfodol. Mae hyn yn her i'r sector ieuenctid, yn enwedig y rheiny sy'n ceisio sicrhau cyllid cyhoeddus neu gyllid sefydliadau dyngarol i gefnogi eu gwaith (McGregor, 2015). Gall ymchwil o ansawdd uchel hefyd nodi a lledaenu meysydd arfer da, gan gryfhau'r ddarpariaeth ar draws cymunedau a lleoliadau (Fraser, 2009).

4.14 Dylai ymchwil yn y dyfodol geisio mynd i'r afael â bylchau yn ein gwybodaeth a gwella ansawdd a chydlyniant cyffredinol y sylfaen dystiolaeth. Mae bylchau yn ein gwybodaeth wedi'u creu yn rhannol yn sgil tueddiadau yn ffocws ymchwiliadau gwahanol, ynghyd â'r dulliau a ddefnyddid i archwilio buddion gwaith ieuenctid. Archwilir yn fanylach y bylchau ymddangosiadol yn ein gwybodaeth, megis buddion tymor canolig a hirdymor gwaith ieuenctid, yn yr adolygiad llenyddiaeth yn Atodiad A.

4.15 O ran gwella ansawdd a chydlyniant cyffredinol y sylfaen dystiolaeth, rhaid ystyried yr hyn sy'n gwneud ymchwil da o ansawdd uchel. Mae gwella trylwyredd cyffredinol wrth gynnal yr ymchwil yn ystyriaeth allweddol, gan fod dulliau trylwyr yn debygol o gynhyrchu mewnwelediadau sy'n fwy cywir a chraff.

4.16 O ran trylwyredd, bydd meini prawf gwahanol gan wahanol fethodau, fframweithiau neu ddulliau gweithredu, boed yn bennaf seiliedig ar wybodaeth ansoddol neu feintiol. Wrth benderfynu a yw ymchwiliad yn gadarn ai peidio, rhaid ystyried materion fel cadernid y method neu'r dull a ddewisir i astudio buddion gwaith ieuenctid, p'un a yw'r dull yn sensitif i newid ai peidio, a'r cydlyniant cymharol rhwng y gweithgareddau a'r canlyniadau sy'n destun ymchwiliad.

4.17 O ran asesu gwerth gwaith ieuenctid, mae ystod amrywiol o ddulliau gweithredu, methodau a fframweithiau yn bodoli. Mae'r rhain yn cynnwys dulliau a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer sefydliadau gwaith ieuenctid, yn ogystal â dulliau a ddatblygwyd

ar gyfer sectorau eraill. Wrth archwilio a yw dull neu fframwaith penodol yn addas, gallai sefydliadau ystyried nifer o nodweddion:

- **Hyblygrwydd**: I ba raddau y gellir cymhwyso fframwaith yn effeithiol i wahanol senarios a gweithgareddau. Mae hyn yn adlewyrchu i ba raddau y gellir addasu canlyniadau sy'n deillio o un dull penodol i wahanol amcanion, gweithgareddau neu leoliadau.
- **Perthnasedd i ymarfer gwaith ieuenctid**: Yn gysylltiedig â hyblygrwydd, mae hyn yn archwilio pa mor berthnasol fyddai dull neu fframwaith ar gyfer deall gweithgarwch gwaith ieuenctid. Daw rhai dulliau a fframweithiau o sectorau eraill, gan gynnwys gwaith cymdeithasol ac iechyd.
- **Gofynion Gwybodaeth:** Archwilia hyn faint o wybodaeth y mae'n rhaid i sefydliadau ei chywain er mwyn cwblhau asesiad ar effaith neu brosiect ymchwil, mewn perthynas â dulliau eraill. Mae hyn yn bwysig oherwydd gallai fod goblygiadau adnoddau i sefydliadau ac unigolion.
- **Gofynion Galluogrwydd**: Mae hyn yn adlewyrchu graddau'r galluogrwydd y mae'n rhaid i unigolion neu sefydliadau fod â hwy er mwyn mynd i'r afael yn llwyddiannus ag ymchwil effaith. Pan fydd dull neu fframwaith yn gofyn am dechnegau dadansoddi data cymharol gymhleth neu'n cael ei fframio mewn ffordd sy'n gofyn am sgiliau ac arbenigedd penodol, gall y dulliau hyn olygu y bydd angen galluogrwydd uwch ar unigolion neu sefydliadau.
- **Cadernid:** Mae hyn yn gysylltiedig â gallu'r dull neu'r ymagwedd i lunio dadansoddiadau sy'n cynnig adlewyrchiad cywir o effaith gweithgaredd.
- **Hyder:** Mae hyn yn ymwneud â hyder ystod o randdeiliaid yn y fframwaith, gan gynnwys ymhlith llunwyr polisi a chyllidwyr. Efallai y bydd rhai rhanddeiliaid yn ystyried rhai dulliau yn fwy priodol.

4.18 O ran hyblygrwydd, mae'r dulliau gweithredu, methodau a fframweithiau hynny sy'n llai gorchmynnol yn tueddu i fod yn fwy hyblyg. Gallant gynorthwyo sefydliadau i archwilio ystyr a gwerth eu gwaith neu weithgaredd er mwyn llywio a ffurfio sut i fynd ati i fesur effaith. Canolbwyntia'r dulliau hyn ar amlinellu'r prosesau lle gall sefydliadau ddiffinio a thystio eu heffaith. Trwy dechnegau fel Theori Newid, Modelu Rhesymeg, neu Werthuso Trawsnewidiol, mae'r dulliau hyn yn rhagdybio ac yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar brosesau ar gyfer mesur effaith. Mae hyn yn

cynnwys hybu trafodaethau, o fewn sefydliad a chyda phobl ifanc, er mwyn archwilio amcanion a gwerthoedd y sefydliad, gweithgareddau cysylltiedig, a dangos canlyniadau perthnasol.

4.19 Yn bwysig, mae’r dulliau hyn yn cynnig hyblygrwydd, gan alluogi sefydliadau i ddatblygu dulliau mwy cydlynol o fesur effaith sy’n fwy cydnaws â gwerthoedd ac amcanion y sefydliad, ac yn fwy cydnaws â’r union weithgareddau y maent yn eu cefnogi. Yn eu plith hefyd mae dulliau sy’n cynnwys pobl ifanc ac oedolion fel partneriaid yn y broses ymchwil, megis Ymchwil Gweithredu Cyfranogol.

4.20 Enghraifft o ddull sy’n canolbwyntio ar brosesau yw Ymyriad Ansawdd Rhaglenni Ieuenctid (Canolfan Effaith Ieuenctid, 2019). Dyma broses gwella ansawdd sydd wedi’i chynllunio i ddeall buddion darpariaeth yn ogystal â’u cyfleu, a hynny wrth geisio ymgorffori dysgu a gwella canlyniadau. Datblygwyd y broses yn yr UDA, ac mae ymchwil helaeth wedi dangos ei heffeithiolrwydd wrth wella canlyniadau i bobl ifanc, wrth hyrwyddo diwylliant cynaliadwy a chefnogol o adfyfyrio a gwella sefydliadol, ac wrth newid ffocws gwerthuso i fod ar ansawdd y berthynas mewn gwahanol leoliadau.

4.21 Tuedda’r mathau hyn o ddulliau i fod yn fwy cymhleth eu natur, fodd bynnag. Maent yn aml yn cefnogi dull defnyddio systemau, lle mae mesur effaith wedi’i ymgorffori yn agweddau eraill ar waith sefydliad mewn proses ailadroddol. Yn fwriadol, ceisia’r dulliau hyn hefyd fesur effaith trwy broses wedi’i negodi sy’n dwyn ynghyd ystod o unigolion a grwpiau rhanddeiliaid i gyd-ddylunio Theori Newid ac offer mesur effaith. Gall hwyluso’r broses hon ynddo’i hun fod yn dasg anodd, a hynny’n ychwanegol at y dasg yr un mor gymhleth o gasglu data a gwybodaeth. Tuedda’r dulliau hyn hefyd i fod â gofynion uwch o ran galluogrwydd a gwybodaeth na dulliau neu fethodau eraill. Yn gyffredinol, mae angen gweithgareddau casglu data mwy cynhwysfawr arnynt, gan gynnwys defnyddio dulliau cymysg i gasglu gwybodaeth ansoddol a meintiol. Awgryma hyn y gallai’r dulliau a’r fframweithiau hyn fod yn fwy perthnasol i sefydliadau sy’n hyderus wrth fesur effaith ac/neu sydd ag amser i ymgorffori prosesau ar draws sefydliad.

4.22 Mae dulliau eraill yn ceisio cynnig prosesau symlach, mwy hygyrch a strwythuredig i sefydliadau fynd ati i fesur effaith. Tuedda’r rhain i ganolbwyntio ar y weithred o gasglu data ei hun, gan ddarparu offer ymchwil ac arweiniad i gasglu gwybodaeth berthnasol yn effeithiol ac yn effeithlon. Maent yn aml yn cynnwys canlyniadau o ddiddordeb wedi’u diffinio ymlaen llaw, gydag offer casglu data i helpu sefydliadau i

gasglu gwybodaeth. Mae hyn yn lleihau'r baich adnoddau ar sefydliadau ac yn cynorthwyo â buddion eraill ymchwil megis gallu cymharu.

4.23 Mae'r Ganolfan Effaith Ieuenctid wedi creu compendiwm o offer asesu a allai gynorthwyo unrhyw ymchwil a gwerthuso (2020). Mae'n tynnu sylw, er enghraifft, at fanc cwestiynau Gwasanaeth Data'r Deyrnas Unedig sy'n cynnwys amrywiaeth enfawr o gwestiynau sy'n edrych ar ystod amrywiol o bynciau, o les i brofiadau o droseddu. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedyn, er enghraifft, wedi datblygu pedwar cwestiwn sy'n rhoi cipolwg cyflym ar les unigolyn (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2019). Mae'r rhain yn hawdd iawn i'w defnyddio, gan gynnwys wrth gasglu a dadansoddi gwybodaeth; gall sefydliadau gael ymdeimlad o les cyffredinol yr ymatebydd, gallant olrhain unrhyw newidiadau dros amser, a chymharu lefelau lles cyffredinol grŵp o bobl ifanc â grwpiau eraill. Gellir defnyddio'r cwestiynau llesiant hyn mewn arolygon i asesu newid a allai ddeillio o ymyrraeth, ac i dynnu sylw at yr angen am wasanaethau a chefnogaeth yn y gymuned y mae sefydliad yn ei gwasanaethu.

4.24 Er ei bod yn haws mynd i'r afael â'r dulliau hyn, o ran y canlyniadau o ddiddordeb maent yn tueddu i fod yn fwy gorchmynnol eu natur. Mae hyn yn cyfyngu ar eu hyblygrwydd a'u gallu i ymateb i amcanion neu weithgareddau penodol. Gallai hyn danbrisio effaith mentrau o'r fath, yn enwedig os oes diffyg cyfatebiaeth sylweddol yn y dulliau ymgysylltu a'r canlyniadau a gesglir trwy ddull o'r fath.

# 5. Canfyddiadau – yr hyn a wyddys am waith ieuenctid yng Nghymru

**Yr hyn sy'n hysbys am raddfa a chwmpas gwaith ieuenctid yng Nghymru**

5.1 Dengys yr ymchwil hwn mai anghyson ac anghyflawn yw'r darlun am y ddarpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae llawer mwy yn hysbys am ddarpariaeth statudol na darpariaeth wirfoddol a darpariaeth y trydydd sector. Caiff gwybodaeth am ddarpariaeth statudol ei chyflwyno gan awdurdodau lleol a'i chasglu gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol, a hynny'n rhoi manylion am yr ystod a'r cyllid sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gwaith ieuenctid mewn lleoliadau awdurdodau lleol (Llywodraeth Cymru, 2019b).

5.2 O edrych ar y data a ddarparwyd gan 21 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, cyfanswm yr incwm ar gyfer gwaith ieuenctid awdurdodau lleol yng Nghymru oedd £31.4m yn 2018-19. Mae cyllidebau ar gyfer gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn cynnwys cyllideb gwasanaeth ieuenctid craidd o £17.2m ledled Cymru, a £14.2m o ffynonellau eraill, gan gynnwys £3.5m yn genedlaethol gan Teuluoedd yn Gyntaf a £3.2m o'r Grant Cymorth Ieuenctid (Llywodraeth Cymru 2019b, t. 10). Mae cyfanswm y cyllid ar gyfer gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru wedi gostwng o fwy nag 20% o'r ffigwr £40.2m yn 2013-14 (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae cyfanswm y gwariant ledled Cymru o £29.6m yn golygu gwariant cyfartalog o £56 y pen ymhlith y boblogaeth 11-25 oed ledled Cymru ar gyfer 2019 (Llywodraeth Cymru 2019b, t. 10),[4] sy'n cymharu â £71 y pen o'r boblogaeth 11-25 oed yn 2013-14 (Llywodraeth Cymru 2014, t. 14).

5.3 Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y gwahanol awdurdodau lleol yn eu cyllidebau gwaith ieuenctid, a'r gwariant yn amrywio o £2.6m yn Abertawe i £0.4m yng Ngheredigion (Llywodraeth Cymru 2019b, t. 10). Mae gwariant y pen ledled Cymru yn cuddio cryn wahaniaethau yn rhanbarthol, gan fod gwariant awdurdodau lleol fesul person 11-25 oed yn amrywio o £113 y pen ym Mlaenau Gwent i £25 y pen yng Nghaerdydd.

5.4 Roedd mwyafrif gwariant y gwasanaethau ieuenctid ar staffio (77% o'r holl wariant), gydag 8% wedi'i wario ar adnoddau a 6% ar lety. Mae un y cant o wariant gwasanaethau ieuenctid yn gymorth grant o'r sector gwaith ieuenctid statudol i'r sector gwirfoddol, gydag awdurdodau lleol yn rhoi £540,000 mewn cymorth grant i wasanaethau ieuenctid gwirfoddol yn ystod 2018-19 (Llywodraeth Cymru 2019b, t.

---

[4] Nid yw cyfanswm y gwariant fesul pen ar gyfer 2018-19 yn cynnwys ffigyrau ar gyfer Powys nac Ynys Môn.

10). Nid oes ffigyrau ar gael ar hyn o bryd er mwyn cymharu cyfanswm y cyllid a gaiff sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol a rhai'r trydydd sector. Er bod gan Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) ddata am ei aelodaeth, nid yw hyn yn cynnwys mudiadau a sefydliadau nad ydynt yn aelodau o CWVYS.

5.5 Dengys ffigyrau Llywodraeth Cymru fod 82,400 o bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, sef 15% o'r boblogaeth gymwys, yn aelodau cofrestredig o ddarpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru yn 2018-19 (Llywodraeth Cymru 2019b, t. 2). Mae hyn yn is nag amcangyfrifon 2013-14 o 117,200 o bobl ifanc yn aelodau cofrestredig o ddarpariaeth ieuenctid y sector statudol, neu 20% o'r boblogaeth gymwys (Llywodraeth Cymru 2014b, t. 1). Mae'n debygol y bydd cryn nifer o bobl ifanc sy'n ymwneud â sefydliadau gwaith ieuenctid yng Nghymru nad ydynt yn 'hysbys' i awdurdodau lleol. Er y byddai gan sefydliadau gwaith ieuenctid eu hunain fel rheol syniad o faint o bobl y maent wedi ymgysylltu â hwy, nid yw'r wybodaeth hon wedi'i chasglu'n systematig ar lefel Cymru gyfan.

5.6 Mae ffigyrau o 2018-19 yn dangos mai pobl ifanc 11-13 oed yw cyfran uchaf y bobl ifanc sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid awdurdodau lleol, gyda chyfraddau cyfranogi yn gostwng yn sydyn ar ôl 16 oed (Llywodraeth Cymru 2019b, t. 2). Mae cryn amrywiad hefyd yng nghanran y bobl ifanc sydd wedi'u cofrestru gyda darpariaeth, wrth i'r ffigyrau nodi bod 38% o bobl ifanc 11-25 oed yn aelodau cofrestredig o ddarpariaeth gwaith ieuenctid dan arweiniad awdurdod lleol yn Wrecsam yn 2018-19, ond dim ond 4% oedd wedi cofrestru gyda darpariaeth gwaith ieuenctid dan arweiniad awdurdod lleol yn Abertawe (Llywodraeth Cymru 2019b, t. 3).

5.7 Yn ogystal â ffigyrau ymgysylltu, mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth am y lleoliadau y mae pobl ifanc yn ymwneud â gwasanaethau ieuenctid ynddynt. Yn Nhabl 5.1 gwelir ffigyrau ar gyfer aelodaeth gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n dangos mai gwaith ieuenctid yn yr ysgol neu'r coleg yw'r math mwyaf cyffredin o waith ieuenctid, ac yna clybiau ieuenctid, canolfannau ieuenctid a siopau gwybodaeth.

**Tabl 5.1: Aelodau cofrestredig gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol sy'n mynychu prosiectau mewn lleoliadau gwahanol**

| Math y Lleoliad | Cyfanswm nifer y lleoliadau | Cyfanswm nifer yr aelodau cofrestredig |
|---|---|---|
| Mewn ysgol neu goleg | 260 | 37,300 |
| Clwb ieuenctid | 225 | 31,200 |
| Canolfan ieuenctid | 100 | 24,200 |
| Tîm datgysylltiedig neu allgymorth | 85 | 16,600 |
| Siop wybodaeth | 20 | 21,000 |
| Gwasanaeth ieuenctid teithiol | 20 | 16,800 |
| **Cyfanswm** | 710 | 147, 100 |

Ffynhonnell: archwiliad gwaith ieuenctid statudol Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru 2019b, t. 5)

*Sylwer: Mae'r aelodau'n ymwneud â sawl lleoliad, felly mae cyfanswm y niferoedd yn fwy na'r ffigwr ymgysylltu cyffredinol o 82,200.*

5.8 Gan adlewyrchu'r cyfyngiadau yn yr wybodaeth sydd ar gael trwy adroddiadau awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru, yn ystod yr ymchwil hwn, gofynnwyd i randdeiliaid ynghylch maint a chwmpas gwaith ieuenctid, er bod natur y prosiect hwn yn golygu nad yw'r canfyddiadau mor gynhwysfawr ag y ceid gan archwiliad llawn o ddarpariaeth gwaith ieuenctid.

5.9 Gofynnwyd i randdeiliaid am eu barn am amrywiaeth y gwaith ieuenctid a gynigir yn eu hardal ar hyn o bryd. Nodwyd ystod o weithgareddau mewn amrywiaeth o leoliadau, a hynny i raddau helaeth yn gyson â'r wybodaeth ystadegol a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y lleoliadau a grybwyllwyd yn ystod cyfweliadau ansoddol yn cynnwys darpariaeth mewn canolfan (9), darpariaeth mewn ysgol (8), darpariaeth yn y gymuned (8), a darpariaeth ar-lein (7).

5.10 Awgrymodd tua chwarter (9) y rhanddeiliaid sy'n ymwneud â darparu gwaith ieuenctid eu bod yn ystyried gwaith ieuenctid yn rhywbeth sydd wedi newid yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mewn rhai achosion, nodwyd bod hyn o ganlyniad i dargedu grwpiau newydd neu ymateb i'r galw gan bobl ifanc, ond mewn achosion eraill gwelwyd newid tymor hir yn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid o ran trosglwyddo o ddarpariaeth mynediad agored i ffurfiau mwy penodol o waith ieuenctid.

> *"O ran gwaith ieuenctid, yr hyn rydyn ni wedi'i weld yw newid dros amser. Roeddem yn cael mwy o ryddid yn yr 1980au a'r 1990au ac wedi llithro'n araf i ffurfiau gwaith ieuenctid sydd wedi'i dargedu'n fwy, a hynny ar draul y gweithlu cymunedol."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*“Ers 2012, mae toriadau i gyllid wedi golygu ein bod wedi gorfod targedu ein gwaith ieuenctid fwy at bobl ifanc agored i niwed ac mewn perygl. Mae toriadau wedi effeithio ar ansawdd hefyd.”* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

5.11 Nid yw Cymru yn unigryw wrth ganfod mwy o bwyslais ar waith ieuenctid wedi’i dargedu, gyda McGregor (2015, t. 4) yn nodi tuedd tuag at “ymyriadau wedi’u targedu sy’n benodol i broblem ac sydd wedi’u hanelu at grwpiau ‘mewn perygl’ neu ‘sydd wedi’u hallgáu’n gymdeithasol’; ffocws ar gyflogadwyedd; a gwaith ieuenctid ar sail tystiolaeth”. Yng nghyd-destun Ewrop, nododd Dunne et al. (2014, t.11-12) fod blaenoriaethau cyllid cyhoeddus ar gyfer gwaith ieuenctid wedi newid. Mae mwy o bwyslais ar waith ieuenctid sydd wedi’i dargedu i roi gwell cyfleoedd i bobl ifanc yn y farchnad lafur ac mewn addysg. Mae’r ffocws yn gynyddol ar gymorth ariannol i’r rheiny sydd wedi’u hallgáu’n gymdeithasol. Mae sefydliadau sy’n darparu gwaith ieuenctid cyffredinol yn ei chael hi'n fwyfwy anodd cael gafael ar gyllid cyhoeddus.

5.12 Mae’r ddealltwriaeth hon yn cyd-fynd ag adroddiadau gan y rhanddeiliaid yng Nghymru yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr ymchwil hwn gan iddynt nodi mwyfwy o reidrwydd i ganolbwyntio gwaith ar grwpiau rhanddeiliaid sy’n cynnwys: pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid (6), pobl ifanc sydd angen cyflogaeth (6), pobl ifanc sydd â heriau iechyd meddwl (5).

5.13 Nodwyd bod darpariaeth wirfoddol a thrydydd sector yn rhan bwysig o frithwaith gwaith ieuenctid mewn ardal leol, gan ategu darpariaeth awdurdodau lleol. Adroddodd rhanddeiliaid nad oedd yr hyn a gynigiai’r awdurdod lleol, mewn rhai ardaloedd, wedi cyd-fynd yn daclus â’r hyn a gynigiai sefydliadau’r trydydd sector, ond mewn ardaloedd eraill câi gwasanaethau eu comisiynu’n fwy ar y cyd.

*“Un o elfennau pwysicaf y strategaeth newydd yw ein bod ni i gyd yn un tîm: mae’r trydydd sector yr un mor bwysig â’r gwasanaeth statudol wrth ddarparu cyfleoedd gwaith ieuenctid i’r ardal leol.”* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*“Rydyn ni’n cydweithio’n agos gyda’r trydydd sector gan nad ydyn ni am ddyblygu gwasanaethau. Mae demograffeg y bobl ifanc a fyddai’n cael mynediad at gefnogaeth trwy’r Ffermwyr Ifanc neu’r Urdd yn wahanol iawn i’n demograffeg ni, felly rydyn ni’n defnyddio dull partneriaeth. Mae hyn yn arwain at fedru cyrraedd yn ehangach a phobl ifanc yn cael gwell cefnogaeth, felly mae’n hanfodol ein bod ni’n meddwl am y pethau hyn gyda’n gilydd.”* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

5.14 Cefnoga hyn ganfyddiadau'r adolygiad ar Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-2018 a gynhaliwyd gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam (2018), ac ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar waith ieuenctid y sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth (2016). Nododd y ddau adroddiad fod sefydliadau'r sectorau gwirfoddol a statudol yn darparu mwy a mwy o wasanaethau gwaith ieuenctid mewn partneriaeth (Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, 2018 a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, 2016).

5.15 Ar y cyfan, mae'r sefydliadau y soniwyd amdanynt yn y cyfweliadau â rhanddeiliaid yn sefydliadau mawr sydd â phroffil cenedlaethol uchel. Fodd bynnag, mae yna hefyd sefydliadau darparu gwaith ieuenctid sy'n rhai lleol a dylid nodi nad yw barn y rhanddeiliaid a fynegwyd yn yr ymchwil hwn o bosibl wedi adlewyrchu eu bodolaeth yn llawn.

5.16 Yn ogystal â darganfod beth yw gwaith ieuenctid yng Nghymru ar hyn o bryd, anogwyd rhanddeiliaid hefyd i drafod yr hyn y teimlent oedd y prif fylchau yn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid, o ran ardaloedd a grwpiau o bobl ifanc nad yw'r arlwy gwaith ieuenctid presennol yn eu gwasanaethu'n ddigonol.

5.17 O ran bylchau daearyddol yn y ddarpariaeth, y ddau fath o gymuned lle cytunid bod diffyg cefnogaeth oedd cymunedau gwledig (8) a chymunedau yn y cymoedd (5). Un rheswm a gyflwynwyd gan draean (7) y rhanddeiliaid a wnaeth sylwadau am y bylchau hyn, oedd oherwydd bod yr ardaloedd penodol hyn mor fawr o ran arwynebedd, roedd cyni a chau darpariaeth mewn canolfannau wedi gwaethygu problemau i'r cymunedau. Mae'r bylchau hyn yn aml wedi arwain awdurdodau lleol i edrych ar wahanol fodelau darparu i lenwi'r bylchau hyn.

*"Mae daearyddiaeth yn broblem i ni. Mae gennym ganolfannau gwledig ond yn tueddu i ganolbwyntio ar glybiau yng nghanol trefi – y cyfan ohonyn nhw yn ymyl gorsafoedd bysiau ond mae disgwyliad y bydd pobl ifanc yn dod atom ni yn hytrach nag ein bod ni'n mynd i'r man lle maen nhw. Rydyn ni nawr yn ceisio gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol i sefydlu canolfannau yn yr ardaloedd hynny eu hunain gan nad oes gennym ni'r gallu i wneud hynny."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*"Fel Prif Swyddog Ieuenctid mewn sir wledig, rydym wedi bod yn ymwybodol bod 150 o bobl ifanc yn rhannau gwledig y sir heb unrhyw ddarpariaeth leol. Rydym yn symud tuag at waith ieuenctid symudol – trwy gael gafael ar fws – fel ffordd o ddarparu ar eu cyfer."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

5.18 Roedd bylchau daearyddol eraill a awgrymwyd yn cynnwys: cymunedau mwy cyfoethog nad ydynt yn derbyn cyllid ar gyfer ymyriadau gwaith ieuenctid wedi'u targedu, Gogledd Cymru, cymunedau trefol, ardaloedd heb ysgolion, ac ardaloedd Cymraeg eu hiaith.

*"Un o'r problemau mwyaf sydd gen i yw 12 clwb cymunedol ar gyfer 43 ward. Maen nhw i gyd mewn adeiladau cymunedol, mae pob ward eisiau clwb ieuenctid, ond allwn ni mo'i fforddio. Mae gan rai o'r wardiau gysylltiad mor agos â wardiau eraill rydyn ni'n llwyddo yno ond mae rhai ardaloedd eraill sydd eu hangen ond does dim cyllid." (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)*

5.19 Ymhlith y grwpiau y mae rhanddeiliaid wedi nodi bod diffyg cefnogaeth ar eu cyfer mae pobl ifanc LGBTQ+ (7), pobl ifanc sy'n mynd yn ddigartref (6), a phobl ifanc hŷn rhwng 18 a 25 oed (6).

*"Mae'r gymuned LGBTQ+* [yn faes lle gellid gwella'r ddarpariaeth]*: rydym wedi ceisio dechrau grwpiau wedi'u targedu ond mae wedi bod yn anodd cael momentwm. Mae ein cymunedau amaethyddol yn un arall. Mae digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn faes newydd i ni, rydyn ni'n gweithio'n agos gyda phartneriaid tai i geisio gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl neu sy'n mynd yn ddigartref, ond mae'r ddarpariaeth wrthi'n dal ar y gweill."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

5.20 Yn groes i hyn, fodd bynnag, awgrymodd nifer o randdeiliaid (7) fod pobl ifanc nad oeddent yn cael eu hunain mewn grŵp wedi'i dargedu gan waith ieuenctid yn wynebu cyfyngiadau o ran y ddarpariaeth y gallent gael mynediad ati gan fod gwaith ieuenctid wedi symud o fod yn fodel oedd yn canolbwyntio fwy ar fynediad agored i fod â ffocws ar strategaethau mwy penodol.

*"Bydd wastad grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, ond yr her yw'r rheini sydd â phroblemau nad ydynt yn gymwys ar gyfer y grwpiau a dargedir. Fel y rheini sydd jest eisiau cymdeithasu, neu sydd â phroblem benodol iawn maen nhw am ei datrys. Mae cau clybiau ieuenctid yn lleihau hyn ymhellach."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*"Os oes bwlch, y bwlch yw nad oes darpariaeth ataliol na chyffredinol: mae'r cyfan wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau cythryblus."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

5.21 Mae'r syniad bod y cydbwysedd rhwng darpariaeth gwaith ieuenctid cyffredinol a darpariaeth wedi'i thargedu wedi gogwyddo'n rhy bell i gyfeiriad gwaith ieuenctid

wedi'i dargedu yn adleisio canfyddiadau diweddar y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Faterion Ieuenctid. Canfu eu hymchwil fod gostyngiad mawr wedi bod yng Nghymru a Lloegr yng ngwasanaethau ieuenctid mynediad agored ('cyffredinol'), gan effeithio hefyd ar ddarpariaeth y sector gwirfoddol (Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Faterion Ieuenctid 2019, t. 7). Canfu'r adroddiad hefyd fod cyllid sy'n gynyddol byrdymor wedi achosi newid at ymyriadau wedi'u targedu ac i'r byrdymor. Mae gwasanaethau ieuenctid mynediad agored neu gyffredinol fwy na heb wedi diflannu o sawl cymuned (Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Faterion Ieuenctid 2019, t. 7). Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r adolygiad ar y Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol flaenorol, a oedd wedi canfod bod "angen gwarchod gwaith ieuenctid mynediad agored yn ddigonol fel y gall gefnogi a galluogi darpariaeth wedi'i thargedu, yn hytrach na gadael iddo gael ei danseilio [gan y ddarpariaeth honno]" ac "y byddai strategaeth yn y dyfodol angen sicrhau darpariaeth mynediad agored" (Prifysgol Glyndŵr Wrecsam et al. 2017, t. 13).

5.22 Mae'r diffyg gwybodaeth systematig am ddarpariaeth gwaith ieuenctid ledled Cymru yn ei gwneud hi'n anodd asesu i ba raddau y mae gwaith ieuenctid ar gael yn gyffredinol i bobl ifanc yng Nghymru. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n anodd asesu pa ardaloedd, os o gwbl, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan y ddarpariaeth bresennol. Mae cywiro'r diffyg hwn, a chreu dealltwriaeth fwy systematig o'r cyfleoedd gwaith ieuenctid sydd ar gael i bobl ifanc, gan gynnwys rôl bwysig darpariaeth gwaith ieuenctid y trydydd sector a gwirfoddol, yn bwysig er mwyn sicrhau bod cyfleoedd gwaith ieuenctid ar gael i holl bobl ifanc Cymru.

5.23 Bydd hi'n bwysig mynd ar drywydd hyn i sicrhau bod y cyfeiriad strategol yn cael ei lywio gan ddarlun cywir a diweddar o'r hyn sydd ar gael ac ymhle. Gallai gofyn i awdurdodau lleol gynnal cyfeirlyfr o wasanaethau yn ardal yr awdurdod lleol, gan gynnwys darpariaeth awdurdod lleol, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol, fod yn sail i wasanaeth gwybodaeth mwy cynhwysfawr i bobl ifanc, ac arwain at gomisiynu gwasanaethau mwy cydgysylltiedig a chydweithredol yn y dyfodol.

**Argymhelliad 1:** O ystyried y diffyg gwybodaeth systematig am waith ieuenctid yng Nghymru, yn enwedig mewn cysylltiad â darpariaeth anstatudol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried ehangu cwmpas y data y mae'n ei gasglu am ddarpariaeth gwaith ieuenctid i gynnwys yr holl sefydliadau gwaith ieuenctid yng Nghymru, gan gynnwys darpariaeth gwaith ieuenctid gwirfoddol. Byddai hyn yn mynd y tu hwnt i'r wybodaeth bresennol y mae awdurdodau lleol yn ei rhoi i Lywodraeth Cymru a byddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i sefydlu i ba raddau y cyflawnir yr hawl gyffredinol i ddarpariaeth gwaith ieuenctid.

**Yr hyn sy'n hysbys am faint o waith ieuenctid a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg**

5.24 Cydnabyddir pwysigrwydd gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg gan y strategaeth gwaith ieuenctid lefel uchel, sy'n nodi bod "gwaith ieuenctid yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth iaith a diwylliant, yn enwedig iaith a diwylliant Cymru, a'r angen i hybu'r defnydd o'r Gymraeg" (Llywodraeth Cymru 2019a, t. 5). Yn ôl barn rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr ymchwil hwn mae gan waith ieuenctid y potensial i gyfrannu at strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018).

5.25 Fodd bynnag, awgrymodd rhanddeiliaid mai prif bwysigrwydd gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg yw bod gwaith ieuenctid yn gallu "dechrau ar unrhyw adeg ym mha gyfnod bynnag y mae pobl ifanc yn eu bywydau" (Llywodraeth Cymru 2019a, t. 5), ac mae llawer o bobl ifanc yng Nghymru eisiau ymgysylltu â darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd bod darparu gwasanaethau Cymraeg yn rhywbeth sy'n allweddol i berthynas gwaith ieuenctid ei hun, a bod rhwymedigaeth ar sefydliadau gwaith ieuenctid i sicrhau bod gwasanaethau ar gael i bobl ifanc yn yr iaith y maent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio. Yn ystod cyfweliadau â rhanddeiliaid, mynegwyd barn mai'r hyn ddylai fod yn nod i'r strategaeth yn y maes hwn fyddai cael arlwy cyffredinol, sef model darparu gwaith ieuenctid sy'n sicrhau bod gwaith ieuenctid cyfrwng Gymraeg ar gael i bob person ifanc yng Nghymru sydd am gael mynediad iddo.

5.26 Yn yr un modd â darpariaeth gwaith ieuenctid yn gyffredinol, mae gwybodaeth ystadegol am ystod a chyfanswm y gwaith ieuenctid sy'n cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg yn brin a dim ond gwaith ieuenctid a ddarperir gan awdurdodau

lleol sydd wedi'i gynnwys. Felly mae'n anodd asesu i ba raddau y gall pob person ifanc sydd am gael mynediad at waith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny ar hyn o bryd.

5.27 Yn ôl datganiad ystadegol Gwaith Ieuenctid yng Nghymru 2018-19, caiff 17% o brosiectau gwasanaeth ieuenctid awdurdodau lleol eu darparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg (Llywodraeth Cymru 2019b, t. 6). Mae cryn amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru, fodd bynnag, gyda Gwynedd yn nodi bod 100% o'i brosiectau gwaith ieuenctid yn cael eu cynnal yn gyfan gwbl neu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg, tra na chafodd unrhyw brosiect gwaith ieuenctid awdurdod lleol ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir y Fflint yn 2018-19 (Llywodraeth Cymru 2019b, t. 6).

5.28 Yn y cyfweliadau â rhanddeiliaid, archwiliwyd i ba raddau y mae cyfleoedd gwaith ieuenctid yng Nghymru ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r darlun a gododd o'r cyfweliadau hyn yn cyd-fynd â'r data ystadegol a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru, sef bod darpariaeth gyfrwng Gymraeg yn cael ei chydnabod yn rhan bwysig o gynnig gwaith ieuenctid yng Nghymru, ond ar hyn o bryd, mae'n bell o fod yn hygyrch i bobl ifanc yn gyffredinol. Yn y rhan fwyaf o Gymru, dim ond rhai gweithgareddau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

5.29 Dywedodd y rhan fwyaf o'r sefydliadau gwaith ieuenctid a oedd yn rhan o'r ymchwil fod darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhywbeth y maent yn ei gynnig, gyda 27 o 29 o randdeiliaid o sefydliadau sy'n gwneud gwaith ieuenctid yn nodi bod eu sefydliadau'n cynnig rhai cyfleoedd gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, nododd mwyafrif y rhanddeiliaid (15) mai dim ond rhai canolfannau, gwasanaethau neu gyfleoedd yn eu darpariaeth a oedd yn cynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

5.30 Nododd sawl rhanddeiliad fod darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhywbeth sydd wedi'i gontractio allan i ddarparwr arall, a dywedodd eraill mai dim ond rhai staff sy'n gallu cynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Lleiafrif yn unig o sefydliadau darparu gwaith ieuenctid (3) a nododd fod eu sefydliadau yn gallu darparu gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr holl wasanaethau.

5.31 O ran gallu darparu gwaith ieuenctid yn effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg, awgryma rhanddeiliaid fod tair prif ffordd y gallent lwyddo i gyflawni hyn. Y rhain oedd:

defnyddio darparwyr gwaith ieuenctid allanol (11), dod yn gysylltiedig â'r Urdd (9), a chyflogi staff dwyieithog (9).

> *"Mae hyn yn rhywbeth rydyn ni'n ymwybodol ohono: prin yw'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwaith ieuenctid yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Yn fod yn onest, nid yw'n rhan integredig o wasanaethau gwaith ieuenctid statudol. Er y gallwch gael cyfleoedd gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai rhannau o Gymru, mewn ardaloedd eraill mae wedi'i gyfyngu i'r Ffermwyr Ifanc a'r Urdd."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

5.32 Yna gofynnwyd i'r rhanddeiliaid ymhelaethu ar yr hyn y credent oedd yr heriau pennaf o ran cyflwyno gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel y dengys Ffigwr 5.1, nodwyd ystod o heriau, ond yr amlycaf o bell ffordd (18) oedd gallu sefydliadau gwaith ieuenctid i recriwtio siaradwyr Cymraeg. Soniodd sefydliadau am anawsterau wrth ddod o hyd i siaradwyr Cymraeg oedd â'r cymwysterau a'r profiad cywir.

> *"Yr her fwyaf sy'n ein hwynebu yw recriwtio staff dwyieithog cymwys. Nid oes gan y rhan fwyaf o'n staff sy'n siarad Cymraeg gymwysterau i lefel gradd. Mae'r Urdd yn rhedeg cynllun prentisiaeth llwyddiannus iawn, gan wir ddod â phobl ifanc dda iawn i mewn i waith ieuenctid – ond yna maen nhw'n aml yn symud i feysydd eraill – felly mae'r gyfradd gadw yn wael ymhlith y rheini."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

5.33 Yr her nesaf i gael ei nodi amlaf (6) oedd hyfforddi staff presennol i allu cynnal gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd bod diffyg deunyddiau i hyfforddi gweithwyr ieuenctid Cymraeg yn rhwystr allweddol yma. Roedd y drafodaeth yn y maes hwn nid yn unig yn canolbwyntio ar hyfforddi'r rheini nad oedd ganddynt unrhyw wybodaeth o'r iaith i fod â dealltwriaeth sylfaenol o'r Gymraeg ond hefyd ar feithrin hyder staff a ystyriai eu hunain yn siaradwyr Cymraeg er mwyn iddynt fedru ei defnyddio fel rhan o'u gwaith.

> *"Rydyn ni wedi sylweddoli eu bod nhw'n hapus i sgwrsio yn Gymraeg ond ddim i gwblhau eu gwaith yn Gymraeg. Mae yna ddiffyg hyder ymhlith gweithwyr ieuenctid sy'n siarad Cymraeg yn anffurfiol, felly rydyn ni'n darparu'r deunyddiau i'w cynorthwyo i'w defnyddio yn y gweithle."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

5.34 Codwyd pryderon ynghylch dibynnu ar ddarparwyr allanol i wneud gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg, gan fod hynny'n golygu nad oedd mor integredig i'w

gwaith ag yr hoffai'r ymatebwyr (5). Golyga hyn nad yw pobl ifanc yn gallu cymryd rhan ym mhob cyfle gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg ond yn hytrach gallant ddewis cymryd rhan mewn un o ddwy 'ffrwd' o gyfleoedd gwaith ieuenctid.

5.35 Roedd peth awgrym bod y farn mai 'iaith yr ysgol' yw'r Gymraeg neu'n rhywbeth sy'n cael ei 'gorfodi ar bobl ifanc' (4), yn rhwystr i ymgysylltu rhagor o bobl ifanc â chyfleoedd gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.36 Mynegwyd yr argraff hefyd nad oedd deunyddiau i gefnogi gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael mor rhwydd â deunyddiau yn Saesneg (3), rhywbeth a oedd yn golygu bod cyfieithu yn rhwystr i ddarparu gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

5.37 Gofynnwyd i randdeiliaid hefyd am eu barn ynghylch y prif gyfleoedd y gallai cyflwyno gwaith ieuenctid trwy'r Gymraeg eu cynnig. Nodwyd sawl cyfle gwahanol ar gyfer gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg.


5.38 Roedd gallu defnyddio'r Gymraeg i gynnig mwy o addysg ddiwylliannol yn cael ei ystyried yn un o'r cyfleoedd allweddol (7), ynghyd â gallu defnyddio gwaith ieuenctid fel offeryn i dyfu'r iaith (7), nid yn unig trwy hyfforddi staff ond hefyd trwy annog pobl ifanc i'w siarad:

> *"Mae'n ymwneud â chael pobl ifanc i ddeall manteision dwyieithrwydd. Pan edrychwch ar wledydd bychain eraill fel Gwlad yr Iâ lle mae pobl yn siarad sawl iaith mae'n eu helpu yn ddiwylliannol a gyda'u hunaniaeth. Byddwn hefyd yn dweud y dylid annog Cymraeg y cymoedd a Chymraeg llafar yn hytrach na stampio arnynt. Os dydych chi ddim yn dysgu pobl i siarad Cymraeg, byddwch chi'n ei cholli felly mae angen ffyrdd arnom i annog siarad Cymraeg yn eang."*
> (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

5.39 Credai llawer o randdeiliaid fod darparu gwaith ieuenctid trwy'r iaith y mae pobl ifanc yn ei dewis yn rhan bwysig o'r fethodoleg gwaith ieuenctid ac felly'n hanfodol i gyflawni gwaith ieuenctid da, yn hytrach na rhywbeth sy'n cael ei yrru'n bennaf gan ystyriaethau allanol, megis strategaeth iaith.

5.40 Nodwyd bod cynnal gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfle i greu partneriaethau â sefydliadau sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, nodwyd bod gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfle i gynnig cyfleoedd cyflogaeth i bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg.

**Ffigwr 5.1: Y cyfleoedd a ddaw o wneud gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl rhanddeiliaid (wedi'i godio)**




Ffynhonnell: Cyfweliadau â rhanddeiliaid (N=20)

5.41 Er gwaethaf canfyddiadau sy'n gadarnhaol drwyddi draw ynghylch gwerth gwaith ieuenctid cyfrwng-Cymraeg, a'r consensws ynghylch pwysigrwydd rhoi modd i bob person ifanc sydd eisiau ymgysylltu trwy gyfrwng y Gymraeg fedru gwneud hynny, ychydig a wyddys ynghylch pa mor gyffredin mewn gwirionedd yw cael arlwy gwaith ieuenctid cyfrwng-Cymraeg. Bydd datblygu darlun llawnach o ble y cynigir gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg – yn seiliedig ar archwiliad cywir o sefydliadau gwaith ieuenctid – yn hanfodol i ddatblygu cefnogaeth effeithiol i'r gweithgareddau hyn.

**Argymhelliad 2:** Dylai'r graddau y mae darpariaeth gwaith ieuenctid ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg fod yn rhan allweddol o'r broses casglu data a argymhellir yn Argymhelliad 1. Mae deall pa ddarpariaeth sydd ar gael a deall ymhle mae bylchau yn hanfodol i sefydlu pa gefnogaeth sydd ei hangen i sicrhau bod pob person ifanc sydd am gael mynediad at waith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu gwneud hynny.

**Yr hyn a wyddys am effeithiolrwydd ac ansawdd y gwaith ieuenctid yng Nghymru**

5.42 Holwyd rhanddeiliaid hefyd am effeithiolrwydd ac ansawdd cyffredinol y gwaith ieuenctid sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd. Roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol ar y cyfan yn eu hymatebion, ond nodwyd hefyd fod cyfyngiadau sylweddol ar y casgliadau y gellir eu tynnu ynghylch effeithiolrwydd ac ansawdd gwaith ieuenctid yng Nghymru o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael.

5.43 Os cafwyd ymateb cadarnhaol gan randdeiliaid, gofynnwyd iddynt am y dystiolaeth oedd yn sail i'w dyfarniad. Mae'r canlynol ymhlith yr ymatebion a gafwyd: lefel y Marc Ansawdd a gyflawnwyd gan sefydliadau lleol (9), nifer y gweithwyr ieuenctid cymwysedig sydd ar gael mewn ardal (5), a chanlyniadau arolwg Estyn (2).

5.44 Yn ogystal, rhoddwyd rhesymau llai mesuradwy am y positifrwydd cyffredinol ynghylch ansawdd y gwaith ieuenctid sy'n cael ei gynnal. Roedd y rhesymau llai diriaethol hyn am y farn hon yn cynnwys: partneriaethau cryf rhwng sefydliadau (6), gweithwyr ieuenctid wedi llwyddo i ymgysylltu ag ystod eang o bobl ifanc (5), a'r ffaith y cydnabyddir bod staff yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i gynnal gwaith ieuenctid (4).

5.45 I'r rhai a nododd farn fwy negyddol am effeithiolrwydd ac ansawdd gwaith ieuenctid yn eu hardal, ymddengys bod pryderon ynghylch y diffyg darpariaeth wedi dylanwadu'n negyddol ar yr argraff am ansawdd y ddarpariaeth gwaith ieuenctid. Roedd y rhanddeiliaid hynny a nododd farn negyddol am ansawdd ac effeithiolrwydd darpariaeth gwaith ieuenctid fel rheol wedi sôn am broblemau yn ymwneud â gwaith ieuenctid fel y rheswm dros eu barn negyddol: materion yn ymwneud â chyllid (2), gormod o bwyslais ar ddarparu gwaith ieuenctid wedi'i dargedu (2), a chau clybiau ieuenctid (1).

> *"Rwy'n credu bod pobl ifanc yn colli mas gan fod clybiau'n cau, mae yna rai enghreifftiau da o waith ieuenctid yn y gymuned ond mae yna enghreifftiau da o ddulliau wedi'u targedu hefyd, ond i'r un graddau weithiau mae'r gweithwyr ieuenctid hynny wedi'u cyfyngu o ran pwy y gallant eu cefnogi."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

5.46 Gofynnwyd i randdeiliaid a deimlent fod unrhyw amrywiad yn ansawdd ac effeithiolrwydd y gwaith ieuenctid a ddarperir yng Nghymru. Nid oedd gan y mwyafrif o gyfranogwyr unrhyw beth i'w ddweud wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, ond

roedd nifer fach o randdeiliaid wedi nodi amrywiad yn ansawdd y cynnig gwaith ieuenctid a oedd ar gael.

5.47 Roedd rhai o'r meysydd amrywiad a awgrymwyd yn cynnwys: gwahaniaethau yn ansawdd y gwaith a gynigir mewn gwahanol leoliadau, er enghraifft ansawdd y gwaith a ddarperir mewn canolfannau o'i gymharu ag ar y stryd (6), neu pan ddefnyddir gwahanol safonau i fesur llwyddiant gwaith ieuenctid (5). Ymhlith y meysydd eraill a amrywiai, nodwyd y gwahanol lefelau o gyllid oedd ar gael (3), ansawdd staff (3), diffyg cydgysylltu gan yr arweinyddiaeth (2), a gwahaniaethau daearyddol rhwng awdurdodau lleol (2).

*Mesur effeithiolrwydd gwaith ieuenctid yng Nghymru*

5.48 Un o amcanion yr ymchwil hwn oedd pennu'r ffordd orau i fesur ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith ieuenctid. Yn sgil hyn, gofynnwyd i randdeiliaid sut y maent yn mesur effeithiolrwydd gwaith ieuenctid ar hyn o bryd.

5.49 Mae'r arferion y dywedwyd sy'n cael eu defnyddio i fonitro a gwerthuso safon gwaith ieuenctid yn cynnwys: y Marc Ansawdd (11), asesiadau mewnol mewn sefydliad (6), arolwg Estyn (5) ac adborth gan y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw (2).

5.50 Gofynnwyd i randdeiliaid sut y credent y dylid sicrhau effeithiolrwydd ac ansawdd gwaith ieuenctid. Mae hyn yn rhywbeth a nodwyd gan 15 o wahanol randdeiliaid i fod yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen. Ymhlith yr awgrymiadau a gafwyd yr oedd datblygu ymhellach y system ar gyfer arolygu a sicrhau ansawdd a ddarperir gan Estyn a'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid.

> *"Gallaf gofio'r dyddiau pan oedd Estyn yn cynnal arolwg, mae angen rhyw fath o safon waeth pa fath o wasanaeth rydych chi'n gweithio iddo. Adolygu cymheiriaid efallai: byddai hyn yn rhannu arfer da ac yn annog beirniadaeth adeiladol gan grwpiau tebyg."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid*

5.51 Teimlai'r rhandeiliaid fod y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yn ddylanwad cadarnhaol ar safon y gwaith ieuenctid a wneir yng Nghymru. Cyflwynwyd y Marc Ansawdd ar ôl i Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014-18 nodi'r angen am farc ansawdd i waith ieuenctid er mwyn "herio gwasanaethau, gwella safon darpariaeth gwaith ieuenctid, helpu i ddatblygu cynnig gwaith ieuenctid mwy

cyson ledled Cymru i bobl ifanc a meithrin ymddiriedaeth rhwng gwasanaethau" (Llywodraeth Cymru, 2014a). Mae iddo ddwy elfen wahanol:

- **Safonau Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid;** casgliad o Safonau Ansawdd y gall sefydliadau eu defnyddio i hunanasesu ansawdd ac effaith eu gwaith gyda phobl ifanc a datblygu cynlluniau ar gyfer gwella.
- **Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru;** dyfarniad ansawdd a gydnabyddir yn genedlaethol y gall sefydliadau wneud cais amdano trwy ddatblygu hunanasesiad a thystiolaeth gysylltiedig, ac sydd wedyn yn cael ei asesu'n allanol.

5.52 Mae'r Marc Ansawdd wedi'i rannu yn dair lefel er mwyn i ystod eang o sefydliadau o wahanol feintiau gael cyfle i'w ddefnyddio. Mae pob un o'r tair lefel yn adeiladu ar y lefel flaenorol, a bwriedir i'r Marc Ansawdd gael ei ddefnyddio fel offeryn ar gyfer datblygu a gwella. Comisiynodd Llywodraeth Cymru Gyngor y Gweithlu Addysg (EWC) a Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru (ETS) i ddatblygu'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid ymhellach a'i weithredu hyd at fis Ionawr 2023.

5.53 Roedd rhanddeiliaid a fynegodd farn ar y Marc Ansawdd ar y cyfan yn gadarnhaol am ei rôl yn annog sefydliadau i fabwysiadu arfer da yn ymwneud â gwaith ieuenctid.

> *"Mae'r Marc Ansawdd yn ymarfer meincnodi da. Fe wnaethon ni ei ddefnyddio fel cyfle i weld lle roedden ni a beth oedd angen i ni ei wneud. Rydyn ni'n gallu gweld y meysydd yr oedd angen eu datblygu."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

> *"Mae'r Marc Ansawdd yn bwysig. Rwy'n credu y gallai gael ei hyrwyddo mwy a rhoi mwy o gyllid iddo ledled Cymru er mwyn ei wneud yn safonol. Mae angen cyllid y tu ôl iddo a chydnabyddiaeth genedlaethol, dylid hefyd ei ystyried i fod ar gyfer y tymor hirach."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

5.54 Fodd bynnag, awgrymodd rhanddeiliaid hefyd y gellid gwneud mwy i sicrhau bod y sector yn rhannu arfer gorau ac yn dysgu ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Mae hyn yn cyd-fynd â chasgliad Wylie mai "anaml iawn y caiff prototeipiau o arferion da eu cydnabod a'u datblygu ymhellach" (Wylie 2016).

> *"Y peth mawr y mae'n rhaid i ni ei wneud yw dod o hyd i ffyrdd o rannu arfer gorau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Mae angen inni ddod o hyd i fecanwaith gwell i wneud hynny."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*“Mae angen i ni fod yn annog mwy o gydweithio i rannu dysgu ac arfer gorau. Er enghraifft, yn fy ardal i mae mentrau diddorol yng Nghaerffili a Chasnewydd, ond nid wyf yn teimlo ein bod ni’n cael sgyrsiau ynghylch a ydyn nhw’n gweithio ai peidio ac a ddylai mannau eraill eu mabwysiadu.”* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*Casglu tystiolaeth o effaith gwaith ieuenctid*

5.55 Gofynnwyd i randdeiliaid hefyd sut y dylai’r sector fod yn mesur ac yn cael tystiolaeth o effaith y gwaith y mae’n ei wneud. Cyflwynwyd ystod o awgrymiadau gan randdeiliaid. Y ddwy elfen fwyaf cyffredin oedd y dylid cynnwys casglu a dadansoddi data ansoddol a meintiol (12), ac y dylai gynnwys mewnbwn y bobl ifanc sy’n cael eu cefnogi gan waith ieuenctid (11).

*“Mae angen i chi ofyn i bobl ifanc pa wahaniaeth y maen nhw’n teimlo sydd wedi digwydd. Mae pobl angen y ffigyrau a’r setiau data – allwn i ddim mynd i’r cabinet hebddyn nhw – ond mae angen i ni hefyd fesur effeithiolrwydd o ran straeon a barn y bobl rydyn ni’n gweithio gyda nhw.”* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

5.56 Cyfeiriwyd hefyd y dylai mewnbwn gweithwyr ieuenctid fod yn hanfodol i dystiolaethu’r effaith (6), a’r ffaith y dylai’r dull werthfawrogi canlyniadau cymdeithasol meddalach yn hytrach na chanlyniadau caletach addysg neu hyfforddiant yn unig, gan na roddwyd sylw i’r rhain mewn gwerthusiadau blaenorol.

*“Mae yna heriau o ran sut rydyn ni’n casglu canlyniadau meddal o ran lles a hyder. Byddai’n beryglus pe baem yn symud yn rhy bell tuag at ganlyniadau caletach o ran achrediad a ffigyrau. Mae’r canlyniadau meddal yn bwysig iawn, ond yn aml dydyn ni ddim yn gallu trosglwyddo’r rhain i gyllidwyr a llunwyr polisïau.”* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

5.57 Roedd y dulliau casglu data a awgrymwyd yn cynnwys: arolwg allanol (3), holiaduron (2), ffurflenni gwerthuso (2), a chasglu tystiolaeth anecdotaidd (2).


**Barn pobl ifanc am waith ieuenctid yng Nghymru**

5.58 Er mwyn casglu barn pobl ifanc am waith ieuenctid yng Nghymru, mae’r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro wedi cynnal sawl sgwrs â phobl ifanc. Roedd y drafodaeth gyntaf o’r rhain, sef ‘Dewch i Drafod/Let’s Talk’, wedi ymgysylltu â 633 o bobl ifanc drwy 23 o sefydliadau gwaith ieuenctid gwahanol. Roedd yr holiadur

Dewch i Drafod yn cynnwys cwestiynau am farn pobl ifanc am waith ieuenctid yn gyffredinol.

5.59 Er enghraifft, gofynnwyd i bobl ifanc beth mae gwaith ieuenctid yn ei olygu iddyn nhw. Yr ymateb mwyaf poblogaidd i'r cwestiwn hwn oedd cymdeithasu (96 y cant, 605 o ymatebwyr). Roedd ymatebion poblogaidd eraill yn cynnwys cefnogaeth (74 y cant, 467 o ymatebwyr), y cyfle i roi cynnig ar bethau newydd (59 y cant, 372 o ymatebwyr) a mynediad at gyngor ac arweiniad (55 y cant, 347 o ymatebwyr).

**Ffigwr 5.2: Beth mae gwaith ieuenctid yn ei olygu i chi? (aml-ddewis)**




Ffynhonnell: Holiadur Dewch i Drafod (N=633)

5.60 Gofynnodd yr holiadur hefyd i bobl ifanc beth yr oeddent am i waith ieuenctid roi mwy o bwyslais arno, a beth i roi llai o bwyslais arno. Adroddodd pobl ifanc eu bod eisiau gweld mwy o ddarpariaeth yn gyffredinol (penwythnosau, gweithgareddau gwyliau haf ac oriau hirach), yn ogystal â mwy o deithiau, hyfforddiant sgiliau bywyd (e.e. cyllidebu a choginio), a chymorth iechyd a lles.

5.61 Roedd pobl ifanc yn gwerthfawrogi dull llai strwythuredig, gan sôn am fod eisiau llai o bwyslais ar weithgareddau sy'n cynnwys gwaith papur a rhai y teimlent oedd yn debyg i'r hyn a oedd ar gael iddynt yn yr ysgol.

5.62 Roedd cyfweliadau a gynhaliwyd yn ystod yr ymchwil hwn yn adleisio'n fras ganfyddiadau Holiadur Dewch i Drafod. Fodd bynnag, daeth dwy thema ychwanegol i'r amlwg yn ystod y cyfweliadau hyn nad oedd wedi codi mewn ymarferion blaenorol.

5.63 Y thema gyntaf a gododd o’r cyfweliadau â chynrychiolwyr pobl ifanc oedd bod sawl un ohonynt wedi cwestiynu ystod oedran gweithgareddau gwaith ieuenctid. Yn gyntaf, awgrymwyd bod diffyg eglurder ynghylch pam fod gwaith ieuenctid yn faes polisi sy’n dechrau yn 11 oed. Adleisia hyn awgrymiadau rhanddeiliaid y gallai fod gorgyffwrdd o bosibl rhwng gwaith ieuenctid a’r arweiniad a’r gefnogaeth ar gyfer chwarae yn *Cymru: gwlad lle mae cyfle i chwarae.* Yr ail awgrym yn y maes hwn oedd bod 11-25 oed yn grŵp oedran eang, ac mae pobl ifanc ar y pen iau yn yr ystod oedran hon yn debygol o fod ag anghenion cymorth gwahanol iawn i’r bobl ar y pen hŷn, ac nid oedd yn glir i gynrychiolwyr pobl ifanc pam fod yr ystod oedran mor eang.[5]

5.64 Yr ail thema a ddaeth i’r amlwg o’r cyfweliadau hyn oedd pwysigrwydd amrywiaeth yng ngweithlu gwaith ieuenctid. Awgrymwyd bod amrywiaeth, a gweld gweithwyr ieuenctid o gefndiroedd tebyg iddyn nhw eu hunain, yn bwysig i bobl ifanc. Awgrymwyd bod angen i’r sector gwaith ieuenctid barhau i ddatblygu yn y maes hwn, er mwyn sicrhau ei fod yn gynrychioliadol o’r nifer o gymunedau amrywiol yng Nghymru.

[5] Mae gweithwyr chwarae yn gweithredu o dan ethos yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, sy’n pennu eu fframwaith proffesiynol a moesegol. Mae rhai gweithwyr ieuenctid wedi gwneud hyfforddiant gwaith chwarae.

# 6. Canfyddiadau – heriau a chyfleoedd sy’n wynebu gwaith ieuenctid yng Nghymru

### Heriau sy’n wynebu’r sector

6.1 Gofynnwyd i randdeiliaid am eu barn ynghylch y prif heriau sy’n wynebu gwaith ieuenctid yng Nghymru ar hyn o bryd ac eithrio’r rhai wedi’u hachosi gan bandemig COVID-19 a drafodir maes o law yn yr adran hon.

6.2 Cyllid yn amlwg oedd yr her fwyaf y soniodd rhanddeiliaid (22) amdani. Cyflwynwyd sawl barn wahanol mewn perthynas â chyllid gan gynnwys y ffaith bod rhanddeiliaid yn credu eu bod fel arfer yn un o’r gwasanaethau cyntaf i gael eu torri ar adegau o lymder (5), yn ogystal â’r ffaith nad yw eu cyllid trwy’r Grant Cymorth Refeniw wedi’i glustnodi ac felly wedi’i ddefnyddio gan awdurdodau lleol i ariannu blaenoriaethau eraill (4).

> *“Bu’n rhaid i ni gau llawer o’n darpariaeth mynediad agored oherwydd cyllid. Ar un adeg roedd rhaid dewis rhwng cadw ein hadeiladau neu gadw ein staff – ond doedd dim dewis oherwydd mai’r staff sy’n bwysig. Mae cymunedau gwledig wedi colli allan oherwydd ein bod bellach yn rhedeg clybiau mewn ychydig drefi yn unig.”* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

6.3 Fel y nodwyd eisoes, mae toriadau yng nghyllid y gwasanaeth ieuenctid yn aml wedi arwain at leihau’r ddarpariaeth mynediad agored sydd ar gael yn lleol. Nododd rhanddeiliaid fod y toriadau hyn yn rhywbeth sydd wedi’i ganiatáu gan sail ddeddfwriaethol y gofyniad ar awdurdodau lleol i ariannu gwaith ieuenctid; yn y pen draw ystyrir bod Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 wedi caniatáu dargyfeirio cyllid gwaith ieuenctid i feysydd blaenoriaeth eraill. Nid yw dargyfeirio fel hyn i feysydd blaenoriaeth eraill yn her sy’n unigryw i Gymru, ac mae ymchwil a wnaed gan Dunne et al. (2014, t. 12) yn nodi bod y rhan fwyaf o wledydd yr UE rhwng 2009 a 2014 wedi torri arian cyhoeddus i waith ieuenctid oherwydd yr argyfwng economaidd (ar lefel genedlaethol a bwrdeistrefol).

6.4 Problem fawr arall yn ôl rhanddeiliaid oedd diffyg cydnabyddiaeth i waith ieuenctid gan wneuthurwyr polisi a rhanddeiliaid eraill (14). Soniodd llawer o randdeiliaid mewn awdurdodau lleol am heriau argyhoeddi gwneuthurwyr penderfyniadau uwch yn eu sefydliadau o werth ariannu gwaith ieuenctid. Hyd yn oed yn yr achosion hynny lle darparwyd cyllid sylweddol ar gyfer gwaith gyda phobl ifanc, awgrymai eraill fod rhanddeiliaid yn aml yn camddeall union werth gwaith ieuenctid (5), ac adroddodd eraill fod gwaith ieuenctid mynediad agored wedi bod ar ei golled

oherwydd cefnogaeth wedi'i thargedu at bobl ifanc yn canolbwyntio ar ganlyniadau cyflogaeth (4).

> *"[Her fawr iawn] yw'r ffaith nad yw gwaith ieuenctid yn aml yn cael ei ddeall am y proffesiwn ydyw. Rydyn ni'n gwneud gwaith ataliol, felly os nad oes dim byd o'i le mewn cymunedau, mae hynny'n aml yn seiliedig ar y gwaith rydyn ni'n ei wneud, gallwn ni gael ein diystyru."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

6.5 Roedd pryderon hefyd ynghylch materion staffio, o ran hyfforddiant (6) a recriwtio (6). Adroddodd rhanddeiliaid fod problemau wrth hyfforddi gwirfoddolwyr i allu cyflawni gwaith ieuenctid yn fwy effeithiol, yn ogystal â phroblemau yng ngallu sefydliadau i recriwtio staff sydd â'r sgiliau perthnasol ac sy'n meddu ar y cymwysterau perthnasol.

> *"Y prif heriau yw datblygu'r gweithlu, gan sicrhau bod safonau yn gwella ar gyfer gweithwyr ieuenctid yn y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol. Yr her fydd sicrhau bod dwy ran y sector yn symud ymlaen gyda'i gilydd yn yr un ffordd. Mae angen gwell cydnabyddiaeth arnom a chymwysterau cludadwy i sicrhau bod gwahanol sefydliadau gwaith ieuenctid yn gweithio tuag at yr un peth yn yr un ffordd."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

6.6 Yn ychwanegol at yr heriau a nodwyd mewn perthynas â'r cwestiwn hwn, gofynnwyd i randdeiliaid pa mor effeithiol y mae'r sector gwaith ieuenctid yn cydweithio gyda'i gilydd. Cymysg oedd yr ymateb a gafwyd gan fwyafrif y rhanddeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn (18), er ei bod yn bwysig nodi mai dim ond nifer fach o randdeiliaid (2) a roddodd ymateb cwbl negyddol ac roedd y rhanddeiliaid eraill (10) yn gwbl gadarnhaol am y ffordd y mae'r sector gwaith ieuenctid yn cydweithio gyda'i gilydd.

6.7 Soniodd sawl ymatebydd fod pryderon ynghylch cyllid yn destun tensiwn o bwys rhwng gwahanol sectorau, gyda chynrychiolwyr sefydliadau'r trydydd sector yn awgrymu nad yw'r sector statudol yn arbennig o dda am rannu cyllid. Nododd rhai rhanddeiliaid fod angen cael gwared ar y syniad bod gwahanol rannau'r sector yn cystadlu â'i gilydd. Er bod y sector gwirfoddol yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gwaith ieuenctid, yn enwedig o gofio bod y gostyngiad mewn cyllid i ddarparwyr y sector statudol wedi golygu bod y sector gwirfoddol wedi gorfod 'llenwi'r bwlch' yn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid (Estyn 2018, t. 4), nid yw'r sefydliadau sector gwirfoddol bob amser wedi teimlo eu bod yn cael eu cynnwys

mewn sgyrsiau ehangach am gynllunio a darparu gwaith ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid ehangach.

6.8 Adlewyrcha hyn bryderon ehangach – ar lefel Cymru gyfan – nad yw'r strwythurau sydd ar waith ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau ar lefel leol mor gydweithredol nac mor gynhwysol ag y byddai angen iddynt fod i ddarparu cynnig gwaith ieuenctid cynhwysfawr. Mae cryn amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol o ran pa mor effeithiol y mae sefydliadau gwaith ieuenctid yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a darparu gwasanaethau.

6.9 Mae hon yn her sy'n codi dro ar ôl tro i'r sector. Yn 2018, canfu adroddiad gan Estyn: "Ar hyn o bryd, nid oes model integredig ar gyfer cynllunio gwasanaethau sy'n adeiladu ar y ddarpariaeth yn y sector cyfan. Mae deddfwriaeth ddiweddar sy'n effeithio ar awdurdodau lleol wedi arwain at chwalu partneriaethau ffurfiol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau cymorth ieuenctid." (Estyn 2018, t. 4).

**Cyfleoedd sydd ar gael i'r sector**

6.10 Nododd rhanddeiliaid mai'r prif gyfle i waith ieuenctid yng Nghymru oedd y cyfleoedd i ychwanegu gwerth i bobl ifanc a chymunedau (12). Mae hyn yn enwedig o wir o ran ei hanes profedig o weithio mewn cydweithrediad â sectorau eraill (11) sy'n golygu y gall sicrhau canlyniadau yn annibynnol ac mewn partneriaeth.

> *"Rwy'n credu mai'r prif gyfleoedd yw'r ffaith ei bod yn broffesiwn sydd yno bob amser, ac y gellir ei ymarfer mewn amrywiaeth o wahanol leoliadau at amrywiaeth o wahanol ddibenion, mae'r person ifanc bob amser wrth wraidd y peth. Mae cyfle enfawr o ran cymunedau gan ei fod yn rhoi darlun ffafriol o bobl ifanc, rydyn ni'n dangos daioni a disgleirdeb pobl ifanc*." (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

6.11 Dyma rai o'r cyfleoedd eraill y mae gwaith ieuenctid yn esgor arnynt, yn ôl y rhanddeiliaid: defnyddio cyrhaeddiad gwaith ieuenctid i hyrwyddo gwasanaethau eraill (6), gwaith ieuenctid yn gallu helpu pobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau cymorth eraill a all eu helpu i fynd i'r afael â'u hanghenion datblygu a chael cymorth (5), y cyfle i ddod ag amrywiaeth newydd a gwahanol o bobl i'r proffesiwn gwaith ieuenctid.

# 7. Canfyddiadau – sut mae COVID-19 wedi effeithio ar y sector a'r heriau a'r cyfleoedd yn sgil y pandemig

7.1 Fel llawer o sectorau eraill yng Nghymru, mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar waith ieuenctid. Mae'n bwysig ystyried yr effaith hwn ar wahân i'r heriau a'r cyfleoedd ehangach i sefydliadau gwaith ieuenctid. Yma, dyma gyflwyno crynodeb o'r materion a gododd yn ystod cyfweliadau â rhanddeiliaid, yn ogystal â thynnu ar dystiolaeth ac ymchwil ehangach a nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth. Mae canfyddiadau manylach yr adolygiad llenyddiaeth wedi'u crynhoi yn Atodiad A.

**Goblygiadau COVID-19 ar ddarparu gwasanaeth gwaith ieuenctid**

7.2 Yn ymarferol, mae llawer o sefydliadau gwaith ieuenctid yng Nghymru wedi gorfod ail-lunio'r gefnogaeth y gallant ei chynnig i bobl ifanc. Roedd hyn mewn ymateb i gyfyngiadau symud a'r cyfnod clo, ac er mwyn cydymffurfio â chanllawiau a rheoliadau ehangach y llywodraeth. Cafodd ymatebion eu llywio hefyd gan ddyletswydd gofal i leihau'r risg i staff a'r bobl ifanc y maent yn ymgysylltu â nhw. Cydweithiodd y sector â Llywodraeth Cymru i gyfrannu at y canllawiau ar gyfer lleoliadau gwaith ieuenctid a ddosbarthwyd gan Lywodraeth Cymru.

7.3 Dywedodd yr holl randdeiliaid a gymerodd ran yn yr ymchwil ansoddol ac a oedd yn ymwneud â darparu gwaith ieuenctid fod eu sefydliadau wedi trosglwyddo o ddarparu wyneb yn wyneb i fathau eraill o gefnogaeth, gan gynnwys darparu'n ddigidol yn ystod y cyfnod clo cychwynnol. Ers i gyfyngiadau'r cyfnod clo cychwynnol gael eu codi yn haf 2020, mae sefydliadau darparu gwaith ieuenctid wedi gweithredu gwahanol fathau o wasanaeth hybrid, gan gynnwys rhywfaint o ddarpariaeth wyneb yn wyneb a rhywfaint o ddarpariaeth ddigidol.

> *"O'r hyn rwy'n ei ddeall cafwyd amrywiaeth o ymatebion gwahanol, rhai wedi cau, rhai wedi symud i rithwir a rhai sefydliadau wedi ailagor eto ac yn hyfforddi cydweithwyr gyda chanllawiau diogelwch a rhai Llywodraeth Cymru."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

7.4 Adlewyrchir y profiad hwn mewn sefydliadau gwaith ieuenctid ledled Ewrop. Mae tystiolaeth ehangach yn awgrymu bod darpariaeth ar lawr gwlad wedi symud tuag at fathau o gefnogaeth ddigidol neu gyfunol. Canfu astudiaeth o sefydliadau gwaith ieuenctid ledled Ewrop, er enghraifft, fod 17 y cant o sefydliadau wedi trosglwyddo pob cefnogaeth i lwyfannau digidol, tra nododd 7 y cant nad oeddent wedi defnyddio'r dull digidol o gwbl ac wedi lleihau'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc.

Roedd llawer o sefydliadau ledled Ewrop wedi datblygu arlwy cyfunol, gan gynnig cefnogaeth ddigidol i gyd-fynd â dulliau eraill mwy traddodiadol (RAY-COR, 2020).


7.5 Yr hyn ddaeth hefyd yn amlwg yn ystod y cyfweliadau â rhanddeiliaid oedd bod gweithwyr ieuenctid yn arloesi ac wedi archwilio llwybrau eraill i gefnogi pobl ifanc. Dywedodd wyth ymatebydd eu bod wedi cyfrannu at ddarparu gwasanaethau gwahanol yn ystod y pandemig. Roedd rhai wedi dod yn rhan o ddosbarthu bwyd mewn cymunedau, er enghraifft, tra bod eraill wedi dod yn rhan o weithgareddau allgymorth gyda rhai o'r bobl ifanc mwy agored i niwed yn eu hardal (5).

> *"Cafodd gweithwyr ieuenctid eu trosglwyddo i ddarparu prydau ysgol am ddim i blant cymwys. Trwy wneud hynny, fe lwyddom i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd mwyaf bregus y sir – ac felly'n cadw mewn cysylltiad â'r plant mwyaf agored i niwed, efallai nad oedd rhieni'r plant yn gallu mynd ar y rhyngrwyd i wneud gwaith ysgol – wedyn gweithio gyda'r ysgol i ddatrys hynny."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

> *"Yn ystod gwyliau'r haf, roeddem yn gweithio mewn clybiau gofal plant pan oedd yr ysgolion ar gau ac yn stopio derbyn plant sy'n agored i niwed."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

7.6 Er mai amcanion eraill oedd sail llawer o'r gweithgareddau hyn, mae'r ffaith bod staff wedi gallu gwneud gwaith ieuenctid a chyflawni amcanion gwaith ieuenctid wrth gyflawni gweithgareddau eraill yn ffurfiol, yn dangos pa mor berthnasol yw'r dull ar draws amrywiaeth o leoliadau, ynghyd â dangos gallu'r gweithlu i addasu.

**Ffigwr 7.1: Barn rhanddeiliaid am y ffyrdd y mae COVID-19 wedi effeithio ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid (wedi'i godio)**




Ffynhonnell: Cyfweliadau â rhanddeiliaid (N=37)

7.7 Nododd llawer o randdeiliaid fod y newid i fodelau darparu newydd wedi bod yn llwyddiant, a theimlent fod eu darpariaeth yn ystod yr amser hwn wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae ymchwil ehangach yn awgrymu, ar draws gwasanaethau cyhoeddus megis gofal cymdeithasol oedolion, yr heddlu ac ysgolion, fod sefydliadau oedd â darpariaeth ar-lein fwy sefydledig wrth fynd i mewn i'r cyfnod clo, yn ogystal â'r rhai â galluoedd ac adnoddau TG digonol yn fewnol, mewn sefyllfa well i ymateb i heriau trosglwyddo i fwy o ddarparu ar-lein (Institute for Government, 2020).

7.8 Soniodd rhanddeiliaid hefyd y teimlid bod rhai o'r newidiadau yn fuddiol a'u bod yn bwriadu eu parhau y tu hwnt i ddiwedd y pandemig. Credai llawer o randdeiliaid y dylai sefydliadau geisio integreiddio'r gwaith digidol a ddefnyddid i ennyn diddordeb pobl ifanc yn ystod y pandemig yn eu darpariaeth reolaidd (25). Roedd yn werth nodi fodd bynnag bod nifer o randdeiliaid yn teimlo'n gryf y dylid defnyddio'r math hwn o gyflenwi yn ychwanegol at ddarpariaeth wyneb yn wyneb ac na ddylid ei ystyried i gymryd ei le (9).

> *"Rwy'n credu mai'r hyn y mae COVID wedi'i wneud yw ein gwneud ni'n fwy ymwybodol o ddefnyddio technoleg i gwrdd â phobl a dydw i ddim yn meddwl y bydd hyn yn cymryd lle cwrdd pobl wyneb yn wyneb. Fydd y cyfrwng hwn byth yn cymryd lle hynny ond bydd yn ei ategu."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

7.9 Yn ôl y rhanddeiliaid, roedd yr arferion arloesol a nodweddion eraill y dylid eu cadw i'r dyfodol yn cynnwys datblygu gwefannau'r sefydliadau a chynyddu presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc (4), parhau i wneud gwaith allgymorth wrth ymgysylltu â phobl ifanc agored i niwed (2), a pharhau i weithio o bell er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i staff (2). Ymhlith yr enghreifftiau eraill a roddwyd y mae'r bwriad i barhau i gefnogi lles staff a lleihau maint swyddfeydd i adlewyrchu llwyddiant y gweithio o gartref.

> *"Mae ein ffurflen cymorth digidol yn rhywbeth rydyn ni am barhau ag e: os ydych chi am siarad â gweithiwr neu gael gwybodaeth ac ati, rydych chi'n llenwi'r ffurflen fer, mae'n mynd i'r mewnflwch canolog ac yn cael ei hanfon at y gweithiwr ieuenctid cywir. Rydyn ni wedi cael rhieni yn cysylltu â ni fel hyn hefyd. Cynhyrchu cynnwys ar-lein ar y cyfryngau cymdeithasol, lanlwytho fideos gweithgareddau hefyd."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

7.10 Datgelodd rhanddeiliaid fod gweithio trwy'r cyfnod clo wedi cyflwyno rhai buddion a chyfleoedd i'w sefydliadau. Un budd amlwg a nodwyd gan randdeiliaid oedd bod y pandemig wedi rhoi amser ar gyfer hyfforddiant a datblygu sgiliau na fyddai cyfle wedi bod ar ei gyfer fel arall (7). Credid hefyd fod rhai sefydliadau wedi dod yn fwy effeithlon yn ystod y cyfnod clo oherwydd ffactorau megis dim angen teithio i wahanol gyfarfodydd ac apwyntiadau (6).

> *"Bydd sesiynau lles rhithwir yn parhau, ynghyd â helpu gyda chwilio am swydd neu hyfforddiant, gan ein bod nawr yn gallu ei gynnig yn hawdd ar-lein. Mae pobl yn tueddu i fod yn fwy hamddenol ar-lein yn eu hamgylchedd eu hunain gan eu bod nhw gartref, ac i rai pobl gallwch chi gael llawer mwy allan ohonyn nhw."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

> *"Mae gweithio gartref a galwadau zoom i gael cyfarfodydd wedi bod yn dda. Mae'r awdurdod lleol yn ardal fawr felly mae pobl yn colli hanner diwrnod wrth deithio i gyfarfodydd. Mae'r pethau rhithwir yn helpu pobl ifanc a allai hefyd fod ar wasgar, byddai'n ddrud ac yn anodd ond mae ei wneud ar-lein yn fuddiol."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

7.11 Roedd rhanddeiliaid hefyd o'r farn fod y cyfnod clo a phrofiadau COVID-19 wedi codi proffil gwaith ieuenctid ac wedi tynnu sylw at ei bwysigrwydd. Adroddodd rhanddeiliaid y credent fod mwy o angen wedi bod am waith ieuenctid yn ystod y pandemig (6), bod mwy o werthfawrogiad i'r sector (4), a bod ymgysylltu wedi tyfu yn ystod y cyfnod clo (4) gyda mwy o gysylltiadau â phobl ifanc wedi cael eu gwneud (3) ac ymgysylltu â'u rhieni.

> *"Mae wedi rhoi amser inni ailwerthuso'r hyn rydyn ni eisoes yn ei gynnig a sut y gall newid, mae ein partneriaeth gref â gofal cymdeithasol wedi ein helpu i greu gwasanaeth newydd i bobl ifanc ar eu pennau eu hunain, agweddau digidol hefyd, rydym wedi bod yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Oherwydd ein bod ni'n gweithio mewn canolfannau gofal plant, rydyn ni hefyd wedi cryfhau ein cysylltiadau ag ysgolion uwchradd ac maen nhw'n fwy croesawgar i ni nawr, maen nhw'n ein derbyn yn frwd."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

7.12 Mae tystiolaeth ehangach i awgrymu bod cyllid yn dod yn broblem i sefydliadau gwaith ieuenctid a grwpiau cymunedol eraill. Roedd hyn fel arfer yn effeithio ar sefydliadau gwaith ieuenctid y trydydd sector a rhai gwirfoddol yn fwy na darparwyr statudol gan fod mathau refeniw traddodiadol, gan gynnwys darparu gwasanaethau

ac incwm arall, wedi lleihau. Dywedodd 17 y cant o'r sefydliadau gwaith ieuenctid a atebodd arolwg gan UK Youth fod cau parhaol yn debygol o ddigwydd o ganlyniad i bryderon ynghylch cyllid, yn enwedig sefydliadau bach neu ficro. Hefyd, nododd 31 y cant fod diswyddiadau staff yn debygol, gyda llawer o rai eraill yn dibynnu ar y cynllun ffyrlo a hynny wedi lleihau'n sylweddol y gallu i gefnogi pobl ifanc (UK Youth, 2020).

7.13 Roedd yr effaith ar staff yn faes pryder arall a nodwyd gan randdeiliaid, yn enwedig o ran cadw staff (6). Nodwyd ffactorau fel straen ac ansicrwydd ariannol yn ymwneud â materion fel cyllid a'r angen posibl am ddiswyddiadau (6), yn ogystal â sicrhau eu lles meddyliol a chorfforol a'u hiechyd corfforol wrth ddarparu gwasanaethau a allai fod â risg o drosglwyddo'r firws (5).

> *"Mae lles staff yn bryder gan nad ydym wedi stopio mewn gwirionedd, rydym hefyd wedi colli llawer o bobl ifanc ac efallai na fyddwn yn gallu ailgysylltu â nhw yn fuan. Os bydd hyn yn mynd ymlaen am ychydig yn hirach, byddai 6 mis arall o gyfyngiadau a chyllid gwael yn peryglu swyddi sydd gennym."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

> *"Rwy'n pryderu bod llawer o sefydliadau, yn enwedig yn y sector gwirfoddol, wedi rhoi eu staff ar ffyrlo ac efallai na fydd ganddyn nhw swyddi pan ddaw'r cynllun i ben. Bydd llwythi o ddiswyddiadau yn lleihau capasiti'r sector yn sylweddol ar adeg pan fydd angen cefnogaeth ar lawer o bobl ifanc."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

**Effaith COVID-19 ar bobl ifanc**

7.14 Ynghyd â'r heriau sy'n wynebu sefydliadau, pryderai rhanddeiliaid am effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc. Roedd dirywiad lles pobl ifanc o ganlyniad i'r pandemig yn bryder allweddol (6), a'r risg y byddai'r bobl ifanc yr oeddynt wedi gweithio gyda nhw cyn COVID-19 yn dewis ymddieithrio (7).

> *"Mae pobl yn mynd o gwmpas y lle ac yn cymysgu ac mae angen gwaith stryd, mae gweithwyr ieuenctid yn peryglu eu lles i ddelio â hynny oherwydd eu bod yn poeni am hyn. Mae trais yn y cartref wedi codi 53% yn ystod y pandemig ac mae pobl ifanc yn sownd yn y sefyllfaoedd hyn, bydd yn cael effaith enfawr arnynt. Bydd yn ein gadael â llawer o bobl ifanc wedi'u niweidio."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

7.15 Mae tystiolaeth ehangach sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu bod effeithiau COVID-19 ar blant a phobl ifanc yn syrthio ar draws sawl maes, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Lles a iechyd corfforol
- Iechyd meddwl
- Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
- Canlyniadau addysgol
- Effeithiau tymor hwy gan gynnwys y trawsnewid i fod yn oedolion.

7.16 Pryder allweddol ynghylch iechyd corfforol, er enghraifft, yw'r cynnydd sylweddol mewn ymddygiad llonydd a gostyngiad yn lefelau gweithgarwch pobl ifanc (Dunton et al., 2020). Teimlai awduron yr astudiaeth y gallai'r newidiadau hyn ymsefydlu'n barhaol, gan arwain at risg uwch o ordewdra, diabetes, a chlefyd cardiofasgwlaidd ymysg plant a phobl ifanc yn ddiweddarach yn eu bywydau.

7.17 Digon cymysg yw'r darlun a gyflwynir gan ymchwil ar iechyd meddwl a lles pobl ifanc. Er bod rhai astudiaethau cadarn wedi canfod bod lles goddrychol wedi aros yn gyson i raddau helaeth dros amser (e.e. ONS, 2020), mae eraill wedi dangos gostyngiadau bychain. Darlun cymysg a gyflwynir hefyd yn yr astudiaethau sy'n edrych ar orbryder. Canfu un astudiaeth fod pobl ifanc ar gyfartaledd yn dioddef gorbryder ysgafn (ImpactEd, 2020), ac astudiaeth arall wedi canfod bod nifer sylweddol o bobl ifanc wedi dioddef lefelau pryder sy'n uwch na'r arfer (Levita L. et al., 2020).

7.18 Mae materion ehangach yn ymwneud â lles ac effaith y cyfnod clo wedi cyfrannu at newidiadau ym mhroblemau emosiynol pobl ifanc a'u hymddygiad. Er enghraifft, aeth astudiaeth Co-SPACE ati i olrhain ystod o ddangosyddion dros amser ymhlith 600 o bobl ifanc. Yn annibynnol ar effeithiau rhyw, ethnigrwydd, incwm cartref, a statws cyflogaeth rhieni, awgrymai'r data fod pobl ifanc o oedran ysgol uwchradd yn llai tebygol o ddangos problemau emosiynol, yr un mor debygol o ddangos problemau ymddygiad, a'u bod yn fwy tebygol o arddangos problemau canolbwyntio neu eistedd yn llonydd (Pearcey et al., 2020). Awgryma hyn, gyda phob peth arall yn gyfartal, fod problemau fel bod yn aflonydd a methu canolbwyntio yn tyfu ymhlith pobl ifanc.

7.19 Roedd pobl ifanc a oedd yn dioddef problemau neu bryderon iechyd meddwl mwy amlwg ar adeg dechrau'r cyfnod clo yn fwy tebygol o ddweud bod y cyfyngiadau symud wedi gwaethygu eu bywyd (NHS Digital, 2020a). Gwnaed hyn oll yn waeth yn sgil yr amharu sylweddol ar wasanaethau a chefnogaeth yn ystod y pandemig, gyda gostyngiadau mawr mewn atgyfeiriadau yn ail chwarter 2020 (NHS Digital, 2020b).

7.20 Ymddengys mai cymysg yw effeithiau ehangach y cyfnod clo ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol pobl ifanc. At ei gilydd, awgryma tystiolaeth nad yw plant a phobl ifanc rhwng 10 a 17 oed ledled y Deyrnas Unedig mor hapus â'u perthynas â'u ffrindiau ag y buont mewn blynyddoedd blaenorol, ond roeddent yn hapus ar y cyfan â'u teulu (Cymdeithas y Plant, 2020). Roedd pobl ifanc hŷn (14-17 oed) yn fwy tebygol o aros mewn cysylltiad â ffrindiau ar-lein, trwy lwyfannau gemau, y cyfryngau cymdeithasol ac yn uniongyrchol trwy ffôn, neges destun a fideo. Prin oedd y gwahaniaethau ar hyd gwahanol grwpiau, ond roedd pobl ifanc o aelwydydd incwm is yn llai tebygol, wrth holi eu rhieni, o fod mewn cysylltiad rheolaidd â ffrindiau drwy unrhyw fodd o gyfathrebu trwy gydol y cyfnod rhwng diwedd mis Mawrth ac Awst (Cymdeithas y Plant, 2020). Gallai hyn fod o ganlyniad i'r gagendor digidol, o ran y byddai'r rhai o gefndiroedd tlotach yn llai tebygol o gael mynediad cyson at ddyfeisiau a'r rhyngrwyd.

7.21 Tarfwyd yn fawr iawn ar gyfranogiad pobl ifanc mewn addysg. Mae tystiolaeth sy'n datblygu yn y Deyrnas Unedig yn awgrymu bod llawer o blant a phobl ifanc wedi gweld gostyngiad sylweddol a pharhaus yn eu haddysg yn y cyfnod pan oeddynt yn gaeth gartref. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth, dim ond ychydig o dan bedwar o bob deg (38 y cant) a gafodd addysg lawn gartref pan oedd yr ysgolion wedi cau (Major et al., 2020). Yn ôl tystiolaeth ehangach, awgrymir bod cau ysgolion dros dro yn annisgwyl, a llai o amser rhoi cyfarwyddiadau, yn lleihau cyfranogiad a chyflawniad addysgol, yn y tymor byr a'r tymor hir (Eyles et al., 2020).

*Effeithiau hirdymor COVID-19*

7.22 Mae cryn ansicrwydd hefyd ynghylch effeithiau COVID-19 i'r tymor hirach. Awgryma tystiolaeth ehangach am drychinebau a digwyddiadau mawr eraill sydd wedi tarfu y gall yr effeithiau tymor hir fod yn sylweddol ac yn fwy tebygol o effeithio ar bobl ifanc ddifreintiedig (Williams, 2020). At ei gilydd, dengys y dystiolaeth hon y gallai sefydliadau gwaith ieuenctid wynebu problemau mwy o faint a mwy amlwg ymhlith rhai o'r bobl ifanc y maent yn eu cefnogi. Mae hwn yn gyd-destun pwysig i

Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru ei ystyried, a gallai ddangos angen am fwy o waith wedi'i dargedu yn y maes hwn yn y dyfodol.

7.23 Mae tystiolaeth i awgrymu y bydd gan COVID-19 ganlyniadau negyddol hirdymor i bobl ifanc yng Nghymru (Williams, 2020). Gallai cyfyngiadau pellach ar symud yn y dyfodol arwain at darfu tebyg ar y ddarpariaeth gwaith ieuenctid a lleoliadau addysgol, ac mae'r tarfu economaidd yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar bobl ifanc sy'n trawsnewid i fod yn oedolion ac yn pontio i fyd gwaith.

7.24 Mae'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) wedi nodi bod y pandemig ledled y byd wedi effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc, gyda mwy nag un o bob chwech o bobl ifanc yn ddi-waith (ILO 2020). Ers y pandemig, mae nifer y bobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru sy'n hawlio budd-daliadau wedi mwy na dyblu, o 4.7% ym mis Mawrth 2020 i 9.5% ym mis Medi 2020 (Ymchwil y Senedd 2020).

7.25 Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith, ar yr adeg pan oedd diweithdra ar ei uchaf yn 2012 yn dilyn y dirwasgiad diwethaf, roedd 23.5% o bobl 16-24 oed y Deyrnas Unedig yn ddi-waith, dros bedair gwaith yn uwch na'r gyfradd diweithdra ar gyfer rhai 25 oed a throsodd (Hagendyk, & Finnegan 2020, t. 8). Gan fod coronafirws wedi effeithio'n anghymesur ar y sectorau y tuedda pobl ifanc i weithio ynddynt, megis manwerthu, teithio, twristiaeth a hamdden (Llywodraeth Cymru, 2020), mae'n bosibl y bydd patrwm cliriach fyth yn ôl oedran yn dod i'r amlwg yn dilyn y pandemig (Henehan 2020, t. 34).

7.26 Mae hyn yn arbennig o bryderus i bobl ifanc, gan "y gall ychydig flynyddoedd cyntaf oes waith person fod yn hollbwysig ar gyfer eu cyfleoedd yn yr hirdymor ac y gall cyfnod o ddiweithdra di-baid gael effaith niweidiol hirdymor ar ragolygon cyflogaeth ac enillion person ifanc" (Hagendyk & Finnegan 2020, t. 8).

7.27 I weld astudiaeth fanylach am effeithiau COVID-19 ar sefydliadau gwaith ieuenctid ac ar bobl ifanc, gweler Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

*Goblygiadau posibl*

7.28 Drwyddi draw, cyflwyna'r dystiolaeth ddarlun cymharol gadarnhaol ar gyfer mwyafrif y plant a'r bobl ifanc. Fodd bynnag, gall hyn ddiystyru profiadau rhai grwpiau o bobl ifanc. Mae tystiolaeth sy'n datblygu yn awgrymu bod effeithiau negyddol COVID-19 wedi'u dosbarthu'n anghyson ledled plant a phobl ifanc yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Ar draws ystod o fesurau, er enghraifft, roedd y rhai o gefndiroedd mwy difreintiedig yn fwy tebygol o fod wedi dioddef mwy o darfu ar eu bywydau na'r

rhai nad ydynt o gefndiroedd difreintiedig. Mae hyn yn cynnwys bod yn llai tebygol o gael mynediad i addysg lawn, yn fwy tebygol o fod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu eu diswyddo, ac yn fwy tebygol o fod wedi dioddef canlyniadau negyddol ar draws ystod o fesurau iechyd a lles (Abdinasir & Glick 2020, t. 19). Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg hefyd fod y bobl ifanc hynny a ddioddefai broblemau sylweddol cyn y cyfnod clo yn debygol o fod wedi ei chael hi'n anodd iawn. Mae'r rheiny oedd â phroblemau iechyd meddwl ar ddechrau'r cyfnod clo, gan gynnwys gorbryder, iselder ysbryd ac anhwylderau bwyta er enghraifft, yn debygol o fod wedi gweld eu cyflyrau'n gwaethygu oherwydd y tarfu ar y gefnogaeth iddynt.

7.29 Awgrym hyn oll yw y gallai sefydliadau gwaith ieuenctid gael eu hunain yn gweithredu o dan amodau lle ceir mwy o alw gan bobl ifanc am wasanaethau a chefnogaeth. Mae'n bosibl y bydd mathau'r problemau y bydd gan bobl ifanc yn rhai tebyg i'r rheiny cyn y pandemig, ond gallant fod yn fwy amlwg, wedi ymwreiddio a bod nifer yr achosion yn uwch. Bydd sefydliadau a gweithwyr ieuenctid yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau cefnogaeth i bobl ifanc yn sgil canlyniadau negyddol y pandemig.

## 8. Canfyddiadau – barn y sector ynghylch sut y gall y strategaeth gwaith ieuenctid oresgyn heriau

8.1 Mae'r bennod hon yn edrych ar ddyheadau rhanddeiliaid y sector ar gyfer y strategaeth, a sut mae rhanddeiliaid yn credu y dylid gwireddu amcanion strategaeth lefel uchel Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru.

**Sut mae'r sector yn diffinio gwaith ieuenctid**


8.2 Mae gwaith ieuenctid yn derm sydd fel rheol yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau a wneir mewn amrywiaeth o leoliadau. Un ffordd o wneud synnwyr o'r amrywiaeth sylweddol ledled gwaith ieuenctid yw ystyried yr ymarfer ar hyd continwwm rhwng dulliau cymunedol cyffredinol ar un pen o'r sbectrwm, ac ar y llall ceir cefnogaeth fwy targededig wedi'i hanelu at grwpiau o bobl ifanc ynghylch materion penodol, fel y dangosir yn Ffigwr 8.1.

**Ffigwr 8.1: Teipoleg gwaith ieuenctid, addaswyd o Dunne et al. (2014)**

Dulliau mynediad agored ⟷ Dulliau wedi'u targedu

8.3 Awgryma Dunne et al. (2014) hefyd deipoleg ymyriadau gwaith ieuenctid sy'n fwy cymhleth, sydd â dwy echel gwahaniaethu, i nodi a yw'r gwaith ieuenctid wedi'i anelu at grŵp penodol o bobl ifanc neu bobl ifanc yn gyffredinol, ac a yw'n seiliedig ar bwnc penodol, neu'n anelu at ddatblygiad personol yn gyffredinol (Ffigwr 8.2 dros y dudalen).

**Ffigwr 8.2: Teipoleg ymyrraeth gwaith ieuenctid, addaswyd o Dunne et al. (2014)**




8.4 Er bod gwaith ieuenctid yng Nghymru yn amlwg yn cynnwys gweithgareddau ar bob rhan o'r matrics hwn, mynegwyd peth pryder gan randdeiliaid nad yw'r gwahaniaeth rhwng dulliau gwaith ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid bob amser wedi'i ddeall yn glir. Canfu ymchwil gan Estyn fod "diffyg eglurder ymhlith darparwyr gwasanaeth a llunwyr polisi ynglŷn â'r derminoleg a ddefnyddir wrth drafod gwasanaethau i gynorthwyo pobl ifanc" (Estyn 2018, t. 4). Aeth yr adroddiad rhagddo i awgrymu bod gan lunwyr polisi yn aml ddealltwriaeth ddryslyd o'r hyn yw gwaith ieuenctid, gan gydgysylltu gwaith ieuenctid, sy'n "fethodoleg broffesiynol ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc" gydag unrhyw waith sy'n ymwneud â phobl ifanc (Estyn 2018, t. 4-5). Er bod gwasanaethau cymorth ieuenctid yn amlwg yn cefnogi datblygiad pobl ifanc, nid ydynt bob amser yn rhannu holl nodweddion y dull gwaith ieuenctid, sydd ag ymgysylltu gwirfoddol yn flaenoriaeth a datblygiad cyfannol y person ifanc yn ffocws iddo.

8.5 Ymhlith y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr ymchwil roedd rhywfaint o rwystredigaeth bod y diffiniad o waith ieuenctid yn dal i gael ei drafod, gan y teimlent ei fod eisoes wedi'i drafod mewn gwaith datblygu ac ymchwil blaenorol. Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at ddogfen Egwyddorion a Dibenion (2018) Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru i fod yn ddiffiniad digonol wrth ddisgrifio

gwaith ieuenctid i fod “yn seiliedig yn bennaf ar berthynas wirfoddol rhwng pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid. Mae’r Gwasanaeth Ieuenctid yn hawl cyffredinol sydd ar gael i bob person ifanc rhwng 11 a 25 oed” (Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (2018, t. 2). Mae Egwyddorion a Dibenion yn tynnu ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid wrth nodi mai diben gwaith ieuenctid yw:

> *‘Galluogi pobl ifanc i ddatblygu’n gyfannol, gan weithio gyda nhw i hybu eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu llais, eu dylanwad a’u lle mewn cymdeithas a chyrraedd eu potensial llawn.’* (Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid, 2014, t. 4)

8.6 Yn ymarferol, fodd bynnag, mae gwaith ieuenctid yn aml wedi’i grwpio gyda gwasanaethau cymorth eraill sy’n gweithio gyda phobl ifanc, neu ymyriadau mwy targededig nad ydynt yn wirfoddol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau penodol, fel cyflogaeth. Er bod llawer o synergedd rhwng methodolegau gwaith ieuenctid a’r dulliau hyn, mae’r dulliau hyn y tu allan i gylch gwaith Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru. Byddai llawer o’r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr ymchwil hwn yn croesawu mwy o eglurder ynghylch y berthynas rhwng gwaith ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid.


*Barn rhanddeiliaid ar sut y dylid diffinio gwaith ieuenctid*

8.7 Gofynnwyd i randdeiliaid sut y byddent yn diffinio gwaith ieuenctid. Nododd y rhan fwyaf a atebodd y cwestiwn hwn eu bod yn teimlo bod y diffiniadau cyfredol a ddefnyddir yn ddigon da (31/43).

8.8 Cafodd yr ymatebion i’r cwestiwn hwn eu codio ac fe’u cyflwynir yn Ffigwr 8.3 ond elfennau’r diffiniad a awgrymwyd amlaf gan randdeiliaid oedd bod gwaith ieuenctid yn wirfoddol (14), yn addysgiadol (12), ac yn arwain at ddatblygiad cymdeithasol pobl ifanc (11) a’u datblygiad personol (9).


> *“Rwy’n credu bod gwaith ieuenctid yn unigryw oherwydd fod pobl ifanc yn ymgysylltu o’u gwirfodd ac yn cymryd rhan weithredol mewn rhywbeth maen nhw’n dewis ei wneud. Mae’r ymgysylltu yn amlwg yn seiliedig ar gynnig man diogel, cyfleoedd i ffynnu, yn seiliedig ar addysg a grymuso ... mae pobl ifanc yn delio â phob math o faterion trwy waith ieuenctid. Dylai fod yn hawl.”* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

**Ffigwr 8.3: Diffiniadau rhanddeiliaid o waith ieuenctid (wedi'i godio) – siart bar**




Ffynhonnell: Cyfweliadau â rhanddeiliaid (N=43)

**Ffigwr 8.4: Diffiniadau rhanddeiliaid o waith ieuenctid (wedi'i godio) – cwmwl geiriau**



8.9 Gofynnwyd i randdeiliaid hefyd a yw gwaith ieuenctid yn ffordd o weithio sy'n wahanol i ffyrdd eraill o weithio gyda phobl ifanc, a sut hynny. Ar y cyfan, cytunai rhanddeiliaid â'r asesiad a wnaed gan Estyn ynghylch diffyg eglurder a nodwyd sawl ffordd ganddynt y mae gwaith ieuenctid yn wahanol i ffyrdd eraill o weithio gyda phobl ifanc.

8.10 Mae'r berthynas sydd gan bobl ifanc gyda gweithwyr ieuenctid trwy waith ieuenctid yn wahanol iawn i fathau eraill o weithio gyda phobl ifanc. Soniwyd am elfennau megis cryfder y berthynas (11), yr ymddiriedaeth rhwng y ddwy ochr (7), a chydbwysedd pŵer rhwng y person ifanc a'r gweithiwr ieuenctid.

> *"Y berthynas rydych chi'n ei datblygu gyda phobl ifanc ac rydych chi'n edrych ar eu cryfderau ac nid dim ond ar eu gwendidau, mae'n ddatblygiad holistig nid un peth yn unig. Maen nhw'n eich ystyried yn gydweithiwr proffesiynol yn hyn o beth ac maen nhw'n derbyn y gallwch chi herio eu hymddygiad. Mae pobl ifanc yn dal i ddod yn ôl pan fydd pethau'n mynd yn anodd gan eu bod yn gwybod nad oes agenda gudd a dwi'n credu eu bod yn parchu hynny."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

8.11 Mae'r ffaith bod gwaith ieuenctid yn cael ei yrru i raddau helaeth gan y person ifanc yn rhan allweddol arall o'r hyn sy'n ei wneud yn wahanol i ddulliau eraill. Awgrymwyd bod pethau megis mai'r person ifanc sy'n gwneud penderfyniadau (9), cymryd rhan yn seiliedig ar berthynas wirfoddol (8), ac anffurfioldeb y berthynas rhwng y person ifanc a'r gweithiwr ieuenctid (3) i gyd yn elfennau sy'n ei wneud yn wahanol.

> *"Gall y person ifanc ddewis gyda phwy i fod, ac mae hynny'n allweddol. Mewn prosesau mwy ffurfiol mae'n rhaid i bobl fod yno, gyda gwaith ieuenctid gallant ddewis bod. Gall pobl ifanc fynd at y gweithiwr ieuenctid fel oedolyn dibynadwy ac uchel ei barch, ond nhw sydd â'r pŵer."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

8.12 Nododd rhanddeiliaid hefyd y farn fod angen sgiliau penodol ar waith ieuenctid nad oes gan bawb sy'n gweithio gyda phobl ifanc mohonynt (9), bod gan waith ieuenctid set o werthoedd gwahanol o'i gymharu â gwasanaethau eraill (8), a'r ffaith bod gwaith ieuenctid yn gydnaws â ffyrdd eraill o ymgysylltu â phobl ifanc, sy'n golygu y gall ddarparu gwerth ychwanegol i wasanaethau eraill (8).

*“Pe bai gwaith ieuenctid yn rhy ar wahân, byddai’n atal y sector rhag mabwysiadu dull partneriaeth-ganolog. Does dim diben iddo fod yn hollol wahanol a thu allan i bethau eraill fel addysg a gwasanaethau troseddu ieuenctid.”* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

**Dyheadau ar gyfer gweithredu’r strategaeth**

8.13 Gofynnwyd i randdeiliaid ystyried pa gamau y credent y mae’n rhaid i’r sector eu cymryd i symud ymlaen, yn ogystal â’u dyheadau ar gyfer yr hyn y gall gwaith ieuenctid ei gyflawni yng Nghymru.

8.14 Dywedodd llawer o randdeiliaid eu bod yn teimlo bod angen i’r sector godi ymwybyddiaeth o’r hyn y mae darparu gwaith ieuenctid wedi’i gyflawni, a’r hyn y gall gweithwyr ieuenctid ei wneud (18). Ar hyn o bryd mae ymdeimlad ymhlith sefydliadau gwaith ieuenctid nad yw eu gwaith yn cael ei werthfawrogi gan lunwyr polisi a chydweithwyr mewn gwasanaethau eraill, ac yn aml caiff ei gamddehongli fel ‘delio â phlant drwg’ neu ‘chwarae tenis bwrdd’.

*“Mae’n hanfodol bod pobl yn sylweddoli’r rôl bwysig sydd gan waith ieuenctid ym mywydau pobl ifanc. Ar hyn o bryd mae’n wasanaeth sydd wedi’i guddio mewn cornel dywyll. Doedd dim un o’r bobl ifanc yn dod i’r gwasanaeth yn gwybod beth oeddem yn ei wneud. Rydyn ni angen i bobl fod yn fwy ymwybodol o beth yw gwaith ieuenctid a beth mae’n ei wneud.”* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*“Mae angen codi proffil gwaith ieuenctid ac mae angen cyllid digonol i helpu’r holl bobl sydd angen ein cefnogaeth. Mae angen gwerthfawrogi’r gwaith a wnawn yn well a’i ddeall yn well. Nid yw pobl yn deall ein bod yn weithwyr proffesiynol sydd â dull clir o weithio.”* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

8.15 Safbwynt cyffredin arall oedd bod yn rhaid sicrhau cyllid ychwanegol (12) er mwyn i waith ieuenctid gyrraedd ei lawn botensial. Fel y soniwyd yn yr adran yn sôn am yr heriau, mae sefydliadau gwaith ieuenctid yn credu’n eang eu bod yn aml ar y bwrdd torri ar adegau pan fo angen gwneud toriadau a bod disgwyl iddynt barhau i weithredu ar yr un safon ar gyllideb lai.


8.16 Hefyd yn amlwg yn nyheadau rhanddeiliaid (9) roedd galwadau i waith ieuenctid fod â phroffil gwleidyddol uwch (Ffigwr 8.5 dros y dudalen). Awgrymodd rhanddeiliaid mai gwael oedd dealltwriaeth llunwyr polisi ar lefel awdurdod lleol a chenedlaethol o waith ieuenctid ar adegau, a bod y sector angen hyrwyddwyr mwy gweithredol ymhlith llunwyr polisi. Credwyd bod angen i uwch randdeiliaid y sector chwarae

mwy o ran mewn trafodaethau ehangach ynghylch polisïau i gefnogi pobl ifanc ac y byddai cael bwrdd ieuenctid parhaol neu asiantaeth genedlaethol ieuenctid yn helpu i siarad o blaid gwaith ieuenctid yn y trafodaethau hyn (4).

> *"Mae gwaith ieuenctid yn dda am siarad ag ef ei hun, ond mae angen iddo siarad mwy ag eraill. Rydyn ni angen i'r Bwrdd a hyrwyddwyr eraill gyflwyno gweledigaeth ar gyfer y dyfodol er mwyn inni symud ymlaen ac mae angen mewnbwn gan hyrwyddwyr gwleidyddol ar gyfer hynny. Mae hyn hefyd yn golygu mwy o gydweithredu yn rhanbarthol."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

8.17 Roedd dyheadau eraill yn cynnwys: rhoi cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn mwy o brosesau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r strategaeth (6), llunio dull safonol ar gyfer mesur a gwerthuso gwaith sefydliadau gwaith ieuenctid (5), a pharhau i feithrin gallu'r sector i gydweithio â sefydliadau eraill yn y sector a rhanddeiliaid allanol (4).

**Ffigwr 8.5: Dyheadau rhanddeiliaid ynghylch gweithredu'r strategaeth (wedi'i godio)**




Ffynhonnell: Cyfweliadau â rhanddeiliaid (N=32)

**Ffocws y strategaeth**

*Pwysigrwydd gwaith ieuenctid mynediad agored*

8.18 Er y cafwyd llawer o elfennau da mewn strategaethau blaenorol, mae ymdeimlad ymhlith rhanddeiliaid fod y strategaethau hyn wedi caniatáu symud tuag at ffocws cynyddol ar ddarpariaeth wedi'i thargedu a gwasanaethau cymorth ieuenctid, gan weithio gyda phobl ifanc sydd, neu sydd mewn perygl o ddod, yn NEET, a hynny ar draul darpariaeth gwaith ieuenctid sydd â mynediad agored i bawb.

*"Canlyniad llymder a chyni yw tynnu mwy o ddarparwyr i mewn i wneud gwaith wedi'i dargedu: roedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant yn rhan enfawr o'r strategaeth waith ieuenctid flaenorol. Mae'r syniad o gynnig arlwy cyffredinol wedi crebachu oherwydd y ffocws hwn."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

8.19 Ystyrir bod sefydlu sail ddeddfwriaethol gryfach ar gyfer darparu gwaith ieuenctid yn alluogwr allweddol i'r newid hwn. Nododd llawer o randdeiliaid mai gwendidau allweddol yn y model gwaith ieuenctid cyfredol yw nad oes ynddo safonau gofynnol clir ar gyfer y gwaith ieuenctid sy'n cael ei gyflawni gan awdurdodau lleol a bod diffyg cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer darpariaeth gyffredinol mynediad agored.

*"Mae gwaith ieuenctid wedi colli cyllid yn gyson dros y 10 mlynedd diwethaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn dweud na chafwyd toriad, ond nid yw'r arian y maent yn ei roi i awdurdodau lleol yn mynd yn llwyr i waith ieuenctid: mae'n mynd i feysydd eraill."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*"Mae angen sylfaen statudol gryfach ar waith ieuenctid. Dylid clustnodi cyllid iddo. Ar hyn o bryd [fel Prif Swyddog Ieuenctid] rwy'n teimlo bod yn rhaid i mi gyfiawnhau'r cyllid a gawn gan yr awdurdod lleol bob blwyddyn."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*"Pe byddai yna un peth y byddwn yn ei newid ynglŷn â gwaith ieuenctid, gwella ei sail ddeddfwriaethol yn y Ddeddf Dysgu a Sgiliau fyddai hynny."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

8.20 Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ymchwil blaenorol, a nododd fod "[y] Ddeddf Dysgu a Sgiliau yn oddefol, ac yn sgil absenoldeb disgwyliadau cenedlaethol neu safonau diffiniedig, mae hyn wedi arwain at anghysondeb yn y ddarpariaeth i bobl ifanc, o ran amrywiaeth, cyfanswm ac ansawdd" (Wylie 2016, t. 1).

8.21 Mae galw amlwg o fewn y sector i waith ieuenctid mynediad agored fod yn greiddiol i fodel cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid. Mae hyn oherwydd mai gwaith ieuenctid mynediad agored sy'n cadw'n fwyaf eglur at egwyddorion gwaith ieuenctid o roi anghenion a diddordebau pobl ifanc wrth galon y gwaith.

8.22 Er y dylid ystyried darpariaeth gyffredinol mynediad agored yn elfen graidd gwaith ieuenctid, dylid cymryd gofal i sicrhau bod y sector gwaith ieuenctid yn gweithio'n agos ac yn effeithiol gyda sectorau eraill. Fel y noda Dunne et al. (2014, t. 7), rhaid i'r sector gwaith ieuenctid ledled Ewrop ddod o hyd i gydbwysedd rhwng:

- bodloni'r blaenoriaethau a gyflwynir mewn polisïau a mecanweithiau ariannu sydd â thuedd gynyddol i ymarfer gwaith ieuenctid fod yn fwy seiliedig ar grwpiau targed, datrys problemau penodol a bod yn seiliedig ar ymyrraeth
- ymateb i ddiddordeb ac anghenion unigol pobl ifanc
- cadw'r egwyddorion craidd sy'n creu sylfaen ymarfer gwaith ieuenctid

8.23 Gan adlewyrchu hyn, byddai'n fanteisiol gwneud gwaith ieuenctid yn wasanaeth sy'n cyflawni'n strategol mewn cysylltiad â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Ffyniant i Bawb.

8.24 Fodd bynnag, ceir argraff mai gwael yw'r ddealltwriaeth am werth gwaith ieuenctid cyffredinol ymysg rhai rhanddeiliaid a llunwyr polisi sy'n gweithio gyda'r sector. Rhan allweddol o'r strategaeth wrth symud ymlaen yw y dylid ystyried adeiladu sylfaen dystiolaeth sy'n dangos gwerth gwaith ieuenctid cyffredinol, a'i gyfraniad i'r weledigaeth strategol ehangach hon. Dylai Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro ystyried comisiynu ymchwil debyg i'r hyn a gomisiynwyd gan YouthLink Scotland a oedd yn edrych ar waith ieuenctid cyffredinol yn y gymuned yn yr Alban.

8.25 Roedd yr ymchwil a gomisiynwyd gan YouthLink Scotland, er enghraifft, yn cynnwys prosiect cydweithredol 11 mis a oedd â'r nod o ymchwilio i ganlyniadau sydd fel arfer yn deillio o waith ieuenctid mynediad agored (Fyfe et al., 2018). Gwnaed yr ymchwil mewn tair cymuned yn yr Alban a defnyddiwyd methodoleg Gwerthuso Trawsnewidiol. Mae Gwerthuso Trawsnewidiol yn sefydlu deialog rhwng pobl ifanc, gweithwyr ieuenctid a rhanddeiliaid, ac mae'n seiliedig ar egwyddorion y fethodoleg Newid Mwyaf Arwyddocaol (Davies & Dart, 2005).

8.26 Mae Gwerthuso Trawsnewidiol wedi'i nodi i fod yn fethodoleg sy'n mynd law yn llaw ag egwyddorion gwaith ieuenctid ac sy'n rhoi modd i bobl ifanc fod yn bartneriaid cyfartal gydag ymarferwyr ac ymchwilwyr. Mewn gwirionedd, mae'n casglu straeon am waith ieuenctid ac ymarfer gwaith ieuenctid llwyddiannus ac yn gweithio gyda phobl ifanc ac ymarferwyr i nodi themâu pwysig ac effeithiau o bwys.

8.27 Gallai comisiynu ymchwil debyg gryfhau'r achos dros fuddsoddi pellach mewn gwaith ieuenctid cyffredinol mynediad agored.

> **Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu ymchwil i'r cyfraniad y mae gwaith ieuenctid cyffredinol mynediad agored yn ei wneud. Dylai ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth hon i gyfiawnhau ac ailasesu gwariant yn y maes hwn.

8.28 Dylai'r hyn sy'n gweithio wrth ddarparu gwaith ieuenctid cyffredinol mynediad agored fod yn ffocws i'r ymchwil hwn hefyd. Byddai hyn yn rhoi sylfaen ar gyfer defnyddio enghreifftiau o arfer gorau a'u prif ffrydio yn ehangach ledled gwaith ieuenctid Cymru.

8.29 Mae angen mwy o eglurder ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ariannu wrth gyllido gwaith ieuenctid, yn ogystal â sut mae'n cael ei ariannu. O ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau tuag at waith ieuenctid yn ei strategaeth lefel uchel Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru (Llywodraeth Cymru, 2019a), mae'n debygol bod angen mecanwaith i sicrhau bod safon ofynnol gyson i waith ieuenctid mynediad agored ledled y wlad.

> **Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried mesurau i sicrhau bod cynnig gwaith ieuenctid cyffredinol mynediad agored ar gael ledled y wlad. Gallai mesurau gynnwys clustnodi cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid mynediad agored yn y cyllidebau gwaith ieuenctid craidd a roddir i awdurdodau lleol neu sefydlu dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod darpariaeth gwaith ieuenctid ddigonol ar gael i bobl ifanc yn eu hardal.

8.30 Os yw gwaith ieuenctid i gael ei ystyried yn wasanaeth strategol, mae angen cysylltu'n well hefyd â pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi pobl ifanc. Nodwyd mewn adolygiadau o'r strategaeth flaenorol fod datgysylltiad amlwg rhwng Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru a pholisïau eraill yn y maes hwn.

8.31 Yn fersiynau blaenorol Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru, nid oedd unrhyw gysylltiadau â meysydd eraill polisi ieuenctid, ac yn yr un modd nid oedd y dogfennau polisi hyn yn cysylltu'n ôl â'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol flaenorol (Prifysgol Glyndŵr Wrecsam 2018, t. 12). Mae hyn wedi gwella yn Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd Cymru, gyda Ffyniant i Bawb, Cwricwlwm i Gymru 2022 a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid oll wedi'u nodi i fod yn bwyntiau cyfeirio allweddol i Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru (Llywodraeth Cymru 2019a, t. 23).

8.32 Yn fwy ymarferol, mae hefyd angen sicrhau bod gwaith ieuenctid mynediad agored yn cyd-fynd yn daclus â gwasanaethau eraill i bobl ifanc, heb gael ei lyncu ynddo. Er nad oes angen atgyfeirio pob person ifanc at wasanaethau eraill, mae atgyfeirio i ffurfiau mwy penodol o waith ieuenctid a chydweithio agos â gwasanaethau allanol yn bwysig i rai ohonynt, fodd bynnag. Serch hynny, mae bylchau gwybodaeth sylweddol yn parhau ynghylch y ffordd orau o integreiddio gwasanaethau, ac mae angen mwy o ymchwil i ddeall arfer gorau yn y maes hwn.

**Argymhelliad 5**: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu ymchwil i ddeall llwybrau i bobl ifanc o waith ieuenctid i fathau eraill o gefnogaeth a sut y gall gwaith ieuenctid weithio'n agos gyda darpariaeth sydd wedi'i thargedu'n fwy penodol.

*Gwella arweinyddiaeth ar lefel genedlaethol*

8.33 Nododd rhanddeiliaid fod arweinyddiaeth yn elfen i sicrhau Strategaeth Gwaith Ieuenctid lwyddiannus. Mae'r darlun a gyflwynir gan randdeiliaid y sector yn ddarlun o sector lle mae'r arweinyddiaeth yn gwella, yn enwedig trwy waith y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, ond mae'n fater o nid da lle gellir gwell.

8.34 Awgrymodd rhanddeiliaid fod y problemau amlwg sy'n wynebu'r sector nid yn ymwneud gymaint â strategaethau gwaith ieuenctid blaenorol ond yn hytrach eu rhoi ar waith. Un o'r ffactorau a nodwyd yn y maes hwn oedd ymdeimlad o ddiffyg arweinyddiaeth a momentwm i symud ymlaen, sydd wedi golygu nad yw gweledigaeth strategol wedi arwain at rymuso'r sector i ddarparu gwell cyfleoedd gwaith ieuenctid i bobl ifanc. Mae rhanddeiliaid o'r farn fod yr arweinyddiaeth wleidyddol wedi bod yn anghyson, a hynny yn bennaf yn sgil newid Gweinidogion ac argraff nad yw pob Gweinidog wedi deall gwaith ieuenctid. Mae cred hefyd fod

gwaith ieuenctid yn dioddef o fod yn rhan o'r portffolio addysg, gydag ysgolion yn anochel yn cael proffil uwch na gwaith ieuenctid.

*"Mae effeithiolrwydd y strategaeth yn seiliedig ar y Gweinidog sydd gennych chi. Mae Gweinidog da sy'n deall gwaith ieuenctid yn helpu, ond gan ei fod yn dod o dan addysg, mae'n gallu dioddef yn aml oherwydd fod ysgolion bob amser yn cael blaenoriaeth. Ar adegau rydym wedi cael Gweinidogion nad ydym yn teimlo eu bod wedi deall gwaith ieuenctid mewn gwirionedd."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*"Mae'r Gweinidog yn newid bob ychydig flynyddoedd felly does dim strategaeth benodol: mae popeth yn newidiol iawn."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

8.35 Problem arall sy'n effeithio ar ansawdd arweinyddiaeth ar gyfer y sector yw gostyngiad yn nifer y staff a staff yn newid yn aml o fewn Llywodraeth Cymru. O'i chymharu ag Asiantaeth Ieuenctid Cymru, mae Cangen Ymgysylltu ag Ieuenctid Llywodraeth Cymru yn fach iawn, ac yn ôl barn rhanddeiliaid, gyda mwy o adnoddau a chysondeb staff, byddai Llywodraeth Cymru yn gallu cynnig arweinyddiaeth a chefnogaeth fwy effeithiol i'r sector.

*"O adeg y strategaeth gwaith ieuenctid gyntaf hyd at heddiw, mae'r gefnogaeth a gynigir gan Lywodraeth Cymru wedi erydu'n fawr. Pan oedd pethau'n dechrau, byddent yn dod i ymweld â ni'n gyson, dydyn nhw byth yn gallu gwneud hynny nawr. Nid bai'r tîm yw hyn: tîm bach iawn ydyn nhw, yn gweithredu heb ddigon o adnoddau."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*"Mae yna bobl abl iawn yn gweithio yn Llywodraeth Cymru, ond mae fel petai llawer o fynd a dod ymhlith swyddogion gwaith ieuenctid. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn i bethau ennill momentwm."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*"Does dim sefydlogrwydd na chysondeb a chyfyngedig iawn yn wir yw capasiti'r gangen gwaith ieuenctid. Mae adnoddau ac ymrwymiad o du Llywodraeth Cymru wedi bod yn fach iawn."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

8.36 Mae canfyddiad, fodd bynnag, yn hytrach na gofyn i Lywodraeth Cymru wneud mwy, ei bod hi'n allweddol dod o hyd i ffyrdd i rymuso'r sector i gymryd yr awenau i roi'r weledigaeth strategol newydd ar waith.

*"Mae'r arweinyddiaeth yn y sector yn ofnadwy. Nid yw hyn yn adlewyrchiad o Lywodraeth Cymru, mae'r gangen gwaith ieuenctid yn wych ac yn ymgysylltiol, ond nid oes ganddynt ddigon o adnoddau na chefndir mewn gwaith ieuenctid: gweision*

*sifil ydyn nhw. Y broblem yw nad yw'r sector yn cael ei arwain gan arbenigwyr mewn gwaith ieuenctid."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

8.37 Oherwydd ffurfio'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, cred rhanddeiliaid mai hwn yw'r cyfeiriad teithio, ac ar y cyfan maent yn gadarnhaol am y rôl sydd gan y Bwrdd wrth gyfrannu at gyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth yn y sector. Gwerth y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro yw ei allu i ddwyn ynghyd randdeiliaid o bob rhan o'r sector, ac mae ei annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru yn gaffaeliad allweddol. Fodd bynnag, mae pryder y collir y momentwm cadarnhaol y mae'r Bwrdd wedi'i greu os na chyflwynir strwythurau parhaol sy'n cynrychioli'r sector i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.

*"Y brif broblem fu diffyg arweinyddiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cynnig ar lawer o bethau, ond roedd diffyg cysondeb bob tro. Fodd bynnag, mae'n mynd i gyfeiriad gwell gyda rôl bresennol y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*"Mae'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro yn rhywbeth cadarnhaol iawn ac mae wedi helpu wrth ddarparu arweinyddiaeth. Ond mae angen iddo arwain at ryw fath o strwythur parhaol."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*"Mae gennych chi'r Bwrdd Dros Dro nawr, sy'n dda ond mae angen iddo fod yn rhywbeth i'r tymor hir, rhywbeth a all wneud pobl yn atebol. Mae gan gyfiawnder ieuenctid fwrdd tebyg. Mae gwaith ieuenctid angen rhywbeth sydd â'r un swyddogaeth, un sydd wedi'i integreiddio i'r amgylchedd, ond yn annibynnol ar y llywodraeth."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

8.38 Mae gwerth posibl i barhau â gwaith y Bwrdd y tu hwnt i'w fandad ar hyn o bryd. Byddai gwneud hynny yn cynnal y cydweithredu agosach rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector, ac yn sicrhau deialog barhaus rhwng y ddau. Mae hyn yn bwysig ar gyfer dal ati i ddatblygu a chyflawni'r strategaeth. Er enghraifft, nid oedd gwendidau Ymestyn Hawliau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002) yn anorfod yn y strategaeth ei hun. Yn hytrach, daethant yn amlwg oherwydd twf dulliau 'wedi'u targedu' o weithio gyda phobl ifanc a newidiadau i'r cyd-destun polisi ehangach. Mae'r heriau y mae hyn wedi esgor arnynt yn tynnu sylw at bwysigrwydd gweithio gyda'r sector i ddiweddaru Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru i sicrhau ei bod yn adlewyrchu newidiadau ehangach mewn polisi ac anghenion newidiol pobl ifanc.

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud rôl y Bwrdd yn barhaol neu ei benodi am gyfnod hirach er mwyn parhau i roi mewnbwn i ddatblygiad y strategaeth gwaith ieuenctid.

8.39 Dywedodd sawl rhanddeiliad mai'r datgysylltiad rhwng y strategaeth a'i gweithredu'n ymarferol gan ddarparwyr gwaith ieuenctid yw'r broblem allweddol sydd wedi arwain at arlwy gwaith ieuenctid anghyson yng Nghymru, gyda diffyg asiantaethau ac adnoddau rhwng y lefel strategol a lefel y sefydliadau darparu.

*"Yn fy marn i, nid y broblem yw'r strategaeth ond yn hytrach ei gweithredu. Does yna ddim corff cyfryngol rhwng y strategaeth a sefydliadau darparu. Does gan [Dîm Ymgysylltu ag Ieuenctid] Llywodraeth Cymru ddim adnoddau i wneud hyn. Felly pwy sy'n mynd i roi pethau ar waith i wneud i'r strategaeth ddigwydd?"* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*"Mae yna'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, ond heblaw amdanyn nhw nid oes corff penodol i gefnogi gwaith ieuenctid yng Nghymru heblaw am y 'Tîm Gwaith Ieuenctid' yn Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, mae yna ddatgysylltiad rhwng y rhai ar y talcen glo a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau strategol."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

8.40 O ganlyniad, thema amlwg yn yr ymgynghoriad oedd pwysigrwydd ystyried y strwythurau ar gyfer gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru. Roedd rhanddeiliaid yn gryf o'r farn fod angen rhyw fath o asiantaeth i roi Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru ar waith a gwneud llywodraeth, yn lleol ac yn genedlaethol, yn atebol am y gwaith ieuenctid a ddarperir i bobl ifanc.

*"Mae angen corff cydnabyddedig ar gyfer gwaith ieuenctid, fel yr hen Asiantaeth Ieuenctid, ond un sy'n adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o hynny, un sy'n fwy cydweithredol ac yn cynrychioli gwahanol rannau'r sector."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*"Mae'n dda gweld bod y llywodraeth yn bwrw ati â strategaeth newydd, ond mae angen rhyw fath o gorff arnom i'w gyrru ymlaen. Gallai asiantaeth genedlaethol ieuenctid fod yn arwain ymchwil a thrafodaeth gyhoeddus ar faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc, yn cydweithredu â'r gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, yn arwain datblygiad y gweithlu, ac yn sicrhau cysylltiadau strategol rhwng darpariaeth statudol a darpariaeth y trydydd sector."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

8.41 Cyfeiriai rhanddeiliaid yn aml at YouthLink Scotland fel model i'w chwennych i gydgysylltu'r sector, ac mae adroddiadau blaenorol wedi tynnu sylw ato fel templed sefydliad posibl i gefnogi gwaith ieuenctid yng Nghymru (Fowler et al., 2015). Manteision model YouthLink Scotland yw ei fod yn dwyn ynghyd darparwyr gwirfoddol a statudol, ac mae ei annibyniaeth ar y llywodraeth yn golygu y gall weithio'n agos gyda'r llywodraeth ar yr un pryd â herio llywodraeth leol a chenedlaethol yn annibynnol ar ran y sector a phobl ifanc.

*"I ni, mae gwir absenoldeb arweinyddiaeth yn dod yn ôl i ddiffyg asiantaeth ieuenctid genedlaethol. Byddem o blaid cael sefydliad sy'n cynrychioli sefydliadau sector ieuenctid statudol a'r rhai gwirfoddol ar lefel genedlaethol. Mae Youth Link Scotland yn fodel y byddai gennym ddiddordeb ei astudio ymhellach."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*"Yr hyn sy'n hollbwysig yw sefydlu asiantaeth genedlaethol ieuenctid yn debyg i'r strwythur sydd ganddynt yn yr Alban (YouthLink) sydd ar gyfer poblogaeth fwy na Chymru ac sy'n cynrychioli darpariaeth statudol ac anstatudol. Mae hwn yn fwy gweladwy y tu hwnt i'r sector nag sy'n amlwg ar hyn o bryd yng Nghymru."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

8.42 Ar yr un pryd, camgymeriad fyddai addasu model yr Alban heb ystyried a yw'n diwallu union anghenion y sector yng Nghymru. Byddai angen pwyso a mesur yn ofalus i ddeall yr union swyddogaeth y byddai corff cynrychioliadol cenedlaethol yn ei chwarae, a sicrhau ei fod yn adlewyrchu amrywiaeth y gwaith ieuenctid sy'n cael ei ddarparu ac anghenion y sector yng Nghymru.

8.43 Roedd ymchwil blaenorol a wnaed gan Fowler et al. (2015) yn cynnwys gwerthusiad ar opsiynau i ailstrwythuro llywodraethu gwaith ieuenctid yng Nghymru. Edrychodd yr ymchwil ar bedwar opsiwn ar gyfer ailstrwythuro:

- **Model un: Fersiwn wedi'i ehangu o'r model presennol**, gan gynnwys grant wedi'i neilltuo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ieuenctid, arolygiadau Estyn, a phroses sicrhau ansawdd gyffredin i bawb.
- **Model dau: Ailstrwythuro fel consortia rhanbarthol**, ad-drefnu darpariaeth statudol yn rhanbarthau, gan roi cyllid i gyrff rhanbarthol i fod yn gyfrifol am gynllunio a darparu gwaith ieuenctid gyda darparwyr eraill.
- **Model tri: gwasanaeth ieuenctid cenedlaethol**, gyda Llywodraeth Cymru yn cadw'r grantiau gwaith ieuenctid a roddir ar hyn o bryd i awdurdodau lleol, a'u

defnyddio i ffurfio gwasanaeth ieuenctid cenedlaethol, gyda'r holl ddarpariaeth statudol yn atebol i Lywodraeth Cymru yn unig.

- **Model pedwar**: **y model darparu presennol gyda chorff strategol cenedlaetho**l, gyda'r corff yn llais i'r sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol, yn datblygu strategaethau a mentrau gyda Llywodraeth Cymru, wedi'i ariannu gan grant Llywodraeth Cymru wedi'i frigdorri, ond yn gallu cael gafael ar gyllid ychwanegol nad yw ar gael i gyrff cyhoeddus.

8.44 Y pedwerydd model a gynigiwyd yn y gwerthusiad opsiynau yw 'model yr Alban', a nodir ganddynt fod y model hwn yn yr Alban wedi bod yn effeithiol wrth gysylltu gwaith ieuenctid â fframwaith perfformiad a chanlyniadau ehangach yr Alban (Fowler et al. 2015, t. 26). Ar yr un pryd, cyrff lleol fel awdurdodau lleol a darparwyr trydydd sector fyddai'n gyfrifol am y darparu. Byddai hyn yn cyfateb yn dda i'r strwythur presennol ar gyfer darparu gwaith ieuenctid yng Nghymru.

8.45 Gallai corff gwaith ieuenctid cenedlaethol adeiladu ar synergeddau gyda sefydliadau fel CWVYS ac adeiladu ar fentrau datblygu gweithlu sy'n bodoli eisoes fel y rhai a gyflawnir ar hyn o bryd gan ETS Cymru a Marc Ansawdd Gwaith Ieuenctid Cymru, yn ogystal â swyddogaethau cofrestru'r gweithlu wedi'i wneud gan Gyngor y Gweithlu Addysg (EWC). Gallai swyddogaethau eraill i'w cyflawni gan y corff gynnwys casglu data a darparu gwybodaeth am waith ieuenctid. Cyfrifoldeb arall posibl i'r corff cenedlaethol hwn fyddai cyfrifiad posibl ar y sector gwaith ieuenctid neu ehangu'r archwilio a wneir ar hyn o bryd ar ddarpariaeth awdurdod lleol.

8.46 Manteision allweddol y model yw na fyddai angen ad-drefnu mawr ar y llywodraethu, yr atebolrwydd a'r trefniadau cyfreithiol cyfredol sy'n gysylltiedig â gwaith ieuenctid yng Nghymru, gan y byddai'r ddarpariaeth yn parhau i gael ei ddarparu gan awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes. Mae YouthLink Scotland wedi cyfrannu'n sylweddol at broffil uchel presennol 'brand ieuenctid' yn yr Alban (Fowler et al. 2015, t. 30), rhywbeth sy'n bwysig ar gyfer cynrychioli'r sector yn allanol, a chreu cyfalaf cymdeithasol a chydlyniant ar gyfer yr unigolion a'r sefydliadau sydd ynddo.

8.47 Daeth Fowler et al. (2015) i'r casgliad, er y byddai corff cenedlaethol hyd braich yn gofyn am fuddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig yn ystod ei sefydlu, byddai ganddo'r potensial i ddenu cyllid i'r sector o ffynonellau eraill, gan gynnwys cynyddu'r cyllid ychwanegol y mae gwaith ieuenctid yn ei gael gan

adrannau eraill y llywodraeth mewn perthynas â meysydd penodol ac o ffynonellau cyllid allanol. Nodir yn Fowler et al. (2015, t. 30) fod YouthLink Scotland yn costio £635k i Lywodraeth yr Alban mewn cyllid craidd, buddsoddiad sy'n cael ei ddyblu gan yr arian cyfatebol y llwydda YouthLink Scotland i'w gael fel corff elusennol annibynnol drwy greu incwm o gontractau eraill gan y llywodraeth, a sefydliadau haelionus ac elusennol. Byddai cynhyrchu cyllid ychwanegol i'r sector yn lleihau'r risg y byddai brigdorri ar gyllid gwaith ieuenctid yn lleihau'r ddarpariaeth rheng flaen.

8.48 Mae'n bwysig cydnabod rôl CWVYS yng Nghymru fel sefydliad ymbarél ar gyfer sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol a lleol. Dylid sylweddoli cryfder rôl gynrychioliadol bresennol CWVYS wrth gynllunio unrhyw ddarpariaeth debyg, er mwyn adeiladu ar yr asedau sydd eisoes ar gael i sector gwaith ieuenctid Cymru.

8.49 Awgryma'r ymgynghoriad â'r rhanddeiliaid y dylai'r gwerthusiad opsiynau hwn barhau i fod yn fan cychwyn ar gyfer meddwl am drefniadau llywodraethu ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru yn y dyfodol. Fel y nodwyd uchod, 'model yr Alban' sydd fwyaf poblogaidd ymhlith rhanddeiliaid, ac mae achos cryf dros gefnogi a gwella'r gymysgedd o ddarparu statudol a thrydydd sector sydd ar gael ar hyn o bryd, er nad dyna'r unig opsiwn y dylid ei ystyried.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ymchwil blaenorol wrth ystyried model darparu gwaith ieuenctid yn y dyfodol yng Nghymru. Dylai ystyried cefnogi datblygu corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid. Dylai ystyried sut mae darparwyr statudol a gwirfoddol yn cael eu cynrychioli a sicrhau bod llais ieuenctid yn ganolog i'w waith. Mae'n bwysig fod beth bynnag a ddatblygir yn rhywbeth sy'n benodol i anghenion y sector yng Nghymru.

*Gwella cydlynu a chomisiynu lleol*

8.50 Er mai union siâp y model cenedlaethol fyddai'n pennu gofynion y llywodraethu lleol, mae'n bwysig bod yna strwythurau ar waith i gefnogi cydlynu lleol ar yr arlwy gwaith ieuenctid. Mae darparu gwasanaeth lleol yn gryfder allweddol i'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru.

8.51 Fel y nodwyd eisoes, mae'r tensiwn rhwng darparu statudol, darparu gwirfoddol a darparu'r trydydd sector yn rhwystr sylweddol i sicrhau arlwy cyson o waith ieuenctid cyffredinol. Yn yr un modd, mae ymdeimlad bod y diffyg ymgysylltu â

sefydliadau eraill sy'n comisiynu gwasanaethau i bobl ifanc wedi bod yn andwyol i'r sector gwaith ieuenctid, ac i ansawdd y gwasanaethau a gomisiynir i bobl ifanc.

8.52 Er y sylweddolir bod strwythurau megis y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid wedi codi ymwybyddiaeth am waith ieuenctid mewn ysgolion (Prifysgol Glyndŵr Wrecsam 2018, t. 26), mae argraff gref ymhlith rhanddeiliaid nad yw'r cydweithredu sydd wedi digwydd drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid hyd yma wedi bod mor effeithiol â'r cydweithredu a gyflawnwyd trwy'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

8.53 Os yw'r strategaeth i barhau i ddibynnu ar ddarparu'n lleol, mae'n bwysig adolygu effeithiolrwydd y strwythurau hyn, a rôl gwaith ieuenctid ynddynt. Mae sefydliadau gwaith ieuenctid yn frwd i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i "[d]diweddaru ac ail-lansio'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, gan egluro swyddogaeth gwaith ieuenctid er mwyn helpu i'w gyflawni" (Llywodraeth Cymru 2019a, t. 25).

8.54 Mewn unrhyw asesiad o'r strwythurau hyn, dylid ystyried hefyd eu hygyrchedd i sefydliadau nad ydynt yn rhai'r sector cyhoeddus. Un o'r elfennau allweddol i gyflawni Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru fydd gweithio'n agosach mewn partneriaeth rhwng sectorau, a bydd cynnwys sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau gwirfoddol ochr yn ochr â'r sector cyhoeddus mewn penderfyniadau ynghylch comisiynu gwaith ieuenctid yn bwysig er mwyn cydweithredu i ddarparu gwasanaeth cydlynol.

**Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut orau i gefnogi'r cydlynu ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid, a'r cydlynu rhwng gwaith ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid eraill, ar lefel awdurdod lleol. Dylai'r strwythurau partneriaeth hyn gofleidio rôl sefydliadau gwirfoddol fel partneriaid darparu i gydweithio gydag awdurdodau lleol.

**Rôl pobl ifanc wrth gyflawni'r strategaeth**

8.55 Trwy gydol yr ymchwil hwn, roedd rhanddeiliaid yn cytuno'n unfrydol y dylai pobl ifanc fod yn rhan o lywio model darparu newydd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae cyfranogi yn un o egwyddorion allweddol ymagwedd hawliau plant a hynny'n golygu y "dylai eu barn gael ei chymryd o ddifri wrth wneud penderfyniadau

neu gymryd camau sy'n cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar eu bywydau" (Swyddfa'r Comisiynydd Plant 2017, t. 12).

8.56 Mae cyfranogi yn gallu digwydd ar sawl ffurf wahanol, ac roedd rhywfaint o anghytuno ynghylch y ffordd orau o sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan. Roedd rhywfaint o anghytuno hefyd ynghylch a ddylai pobl ifanc gynrychioli eu hunain yn uniongyrchol wrth ddatblygu strategaethau a gwasanaethau ai peidio, gyda lleiafrif o randdeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy yn awgrymu mai gweithwyr ieuenctid sydd yn y sefyllfa orau i asesu a chywain barn yr ystod eang o bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw.

*"Mae'r ffocws ar gynrychiolaeth yn aml iawn yn symbolaidd braidd. Wrth iddyn nhw ddatblygu, bydd pobl ifanc yn aml yn cynrychioli eu hunain ac nid y garfan gyfan. Rydyn ni'n mynd i sefyllfa anodd pan dybiwn fod y bobl ifanc hyn yn cynrychioli pobl ifanc yn eu cyfanrwydd. Dylem fod yn defnyddio'r gadwyn gyfathrebu i ddefnyddio gweithwyr ieuenctid fel cyfrwng i gynrychioli pob person ifanc."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*"Mae hyn yn anodd gan na fydd unrhyw berson ifanc neu grŵp sy'n cymryd rhan yn cynrychioli amrywiaeth y bobl ifanc ledled Cymru. Rydyn ni wedi cael heriau tebyg gyda strwythurau fel Seneddau Ieuenctid – er eu bod nhw'n gwneud gwaith da, dydyn nhw ddim o reidrwydd yn llais pobl ifanc."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

8.57 Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o randdeiliaid eu bod am weld mwy o gyfranogiad uniongyrchol gan bobl ifanc wrth ddatblygu a monitro strategaethau cenedlaethol a lleol.

*"Er mwyn newid sut mae gwaith ieuenctid yn edrych, rydym angen pobl ifanc i ddylanwadu ar benderfyniadau a sut beth fydd gwaith ieuenctid wrth symud ymlaen. Mae'n rhaid bwrw ymlaen drwy gynhyrchu ar y cyd."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

*"Mae angen i bobl ifanc a gweithwyr ieuenctid gymryd mwy o ran ar lefel genedlaethol a lleol. Nid yw lleisiau pobl ifanc ar yr ymylon yn cael eu clywed a hynny'n golygu nad yw'r gefnogaeth yn gweithio'n dda iawn iddyn nhw."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)


*"Rwy'n credu bod angen llais uwch ar weithwyr ieuenctid a phobl ifanc ar yr hyn sy'n digwydd, does dim modd gwneud penderfyniadau am waith ieuenctid y tu allan i waith ieuenctid, mae'n rhaid iddo fod yn fewnol."* (Cyfweliad â rhanddeiliad, 2020)

8.58 Mae'r ddau safbwynt hyn fel ei gilydd yn ymrwymo i sicrhau bod y strategaeth yn cydnabod lleisiau'r ystod amrywiol o bobl ifanc yng Nghymru. Mae llawer o randdeiliaid yn ystyried cyfranogiad ehangach pobl ifanc yn y broses llywodraethu gwaith ieuenctid fel rhywbeth a fydd yn helpu'r sector i ddiwallu ehangder anghenion pobl yng Nghymru.

8.59 Ymgynghorwyd â phobl ifanc hefyd ynghylch sut yr hoffent fod yn rhan o lunio gwaith ieuenctid yn y dyfodol (Ffigwr 8.6 dros y dudalen). Ar gyfer y cwestiwn hwn rhoddwyd tri opsiwn iddynt ddewis ohonynt: trwy'r cyfryngau cymdeithasol, trwy ddigwyddiadau a gweithdai, a thrwy eu gweithiwr ieuenctid.

8.60 Yr opsiwn mwyaf poblogaidd o'r rhain oedd y cyfryngau cymdeithasol (74%) gyda llwyfannau megis Facebook, Instagram a Snapchat yn cael eu cyflwyno fel y rhai a ffefrir. Y dewis gorau ganddynt wedyn oedd trwy weithwyr ieuenctid (67%) a hyn oherwydd fe'u hystyrir yn gyfrwng i leisiau a barn pobl ifanc. Yn olaf, dywedodd 64% yr hoffent fod yn rhan o ddigwyddiadau neu weithdai er mwyn cyfranogi.

**Ffigwr 8.6: Barn pobl ifanc ar sut y maent am fod yn rhan o lunio dyfodol y strategaeth gwaith ieuenctid**




Ffynhonnell: Holiadur Dewch i Drafod (N=633)

8.61 Dywedodd rhanddeiliaid fod sefydliadau darparu gwaith ieuenctid, ar y cyfan, yn dda am sicrhau bod pobl ifanc yn rhan o wneud penderfyniadau ynghylch y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae pobl ifanc yn cyfranogi llai ar lefel strategol, gan gynnwys sgyrsiau ynghylch pa wasanaethau gwaith ieuenctid sy'n cael eu comisiynu ar eu cyfer. Yn ddelfrydol, dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol annog mwy o gyfranogiad gan bobl ifanc wrth ddatblygu strategaethau ar lefel genedlaethol a lleol. Roedd hon yn thema a adleisiwyd mewn cyfweliadau â

chynrychiolwyr pobl ifanc, a oedd yn credu'n gryf fod angen i bobl ifanc fod â mwy o ran yn y ffordd y mae sefydliadau gwaith ieuenctid a llywodraeth yn cynllunio darpariaeth gwaith ieuenctid.

*"Rydyn ni angen rhagor o bobl ifanc wrth y bwrdd ac mae angen inni eu galluogi i gyfrannu'n ystyrlon. Mae angen i sefydliadau ymgorffori pobl ifanc a gwahanol grwpiau o bobl ifanc yn yr arweinyddiaeth – ar y lefelau uchaf, nid at ddibenion symbolaidd yn unig."* (Cyfweliad gyda chynrychiolydd pobl ifanc, 2020)

*"Mae plant yng Nghymru yn rhan o gynllunio a datblygu'r strategaeth ac rydw i wedi bod yn ymwneud â'r Bwrdd. Ond ar y cyfan, doedd dim digon o bobl ifanc yn cymryd rhan o'r brig i'r gwaelod*." (Cyfweliad gyda chynrychiolydd pobl ifanc, 2020)

8.62 Roedd rhanddeiliaid hefyd yn gryf eu cefnogaeth i egwyddor atebolrwydd sydd wrth wraidd ymagwedd hawliau plant sy'n mynnu y "dylai awdurdodau fod yn atebol i blant am benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau" (Swyddfa'r Comisiynydd Plant 2017, t. 13). Awgrymodd rhanddeiliaid y dylid ymgorffori'r egwyddor atebolrwydd i bobl ifanc ar bob lefel o'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru ac wrth ei chyflawni.

8.63 Mae rhanddeiliaid o'r farn bod gwaith y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro yn gadarnhaol yn y maes hwn. Ystyrir bod rhan cynrychiolwyr pobl ifanc yng ngwaith y Bwrdd a'u hymgynghoriadau â phobl ifanc wedi cyfrannu at fwy o gyfranogiad gan bobl ifanc a mwy o atebolrwydd iddynt. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy i ffurfioli hyn mewn trefniadau llywodraethu ar gyfer gwaith ieuenctid yn y dyfodol. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau cynrychiolaeth ieuenctid mewn strwythurau llywodraethu yn y dyfodol ar lefel Cymru gyfan, ac ymgorffori cynrychiolaeth ieuenctid yn nhrefniadau llywodraethu awdurdodau lleol.

**Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut mae llais ieuenctid yn cael ei gynnwys mewn strwythurau llywodraethu cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys lleisiau pobl ifanc yn y strwythurau llywodraethu ar lefel awdurdodau lleol. Dylid deall Argymhellion 1-8 yng nghyd-destun Argymhelliad 9, a dylid plethu llais ieuenctid i bob lefel o gynllunio a darparu gwaith ieuenctid yng Nghymru.

# 9. Canfyddiadau – Theori Newid ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru

9.1 Mae’r adran hon yn amlinellu theori newid ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru, gan adeiladu ar ganfyddiadau’r ymchwil a gasglwyd ynghyd yn yr adrannau blaenorol. Map cysyniadol yw theori newid sy’n dangos y cysylltiadau rhagdybiedig, neu ddamcaniaethol, rhwng gweithgareddau a’r canlyniadau y rhagwelir y byddant yn esgor arnynt (Davies 2013, Vogel 2012). Fel y noda Vogel (2012), mae theorïau newid yn amrywio yn dibynnu ar y lefel y maent yn gweithredu ynddi, yn enwedig rhwng theorïau newid lefel uchel sy’n ymwneud â maes polisi cyffredinol, a theorïau newid sy’n canolbwyntio ar bolisi neu raglen benodol. Er bod theorïau newid yn y maes cyntaf fel arfer yn nodi ysgogwyr eang ac uchelgeisiau cyffredinol, mae theorïau newid sy’n canolbwyntio ar raglenni penodol yn tueddu i ganolbwyntio’n fwy penodol ar y gadwyn achosol o sut y rhagwelir y bydd yr ymyrraeth yn arwain at ganlyniadau.

9.2 Mae’r theori newid a gyflwynir yn y bennod hon yn theori newid lefel uchel. O ganlyniad, mae’n ceisio mapio’r ysgogwyr polisi eang a fydd yn helpu i gyflawni’r amcanion strategol lefel uchel ac yn dangos y berthynas rhwng canlyniadau gwaith ieuenctid ac amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod y theori newid a amlinellir yma yn cynnig map o sut y byddai’r sector gwaith ieuenctid yn edrych pe bai’r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cael eu rhoi ar waith.

### Ystyriaethau a wnaed yn y Theori Newid

9.3 Gwnaed sawl ystyriaeth wrth ddatblygu’r theori newid. Mae’n bwysig cydnabod y rhain gan eu bod yn dybiaethau allweddol sy’n sail i’r theori newid, ac, os ydynt yn anghywir, maent yn codi amheuon am weddill y theori newid. Mae’r ystyriaethau hyn yn cynnwys:

- <u>Diffiniad o waith ieuenctid</u>: mae theori newid wedi adeiladu ar y diffiniad o waith ieuenctid y cytunwyd arno yn y ddogfen Egwyddorion a Dibenion (Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, 2018). Mae’r diffiniad hwn yn canolbwyntio ar werth gwaith ieuenctid fel perthynas wirfoddol rhwng pobl ifanc ac oedolyn dibynadwy, gan sefydlu gwaith ieuenctid cyffredinol mynediad agored yn elfen graidd o waith ieuenctid yng Nghymru, ac yn cydnabod pwysigrwydd y gwaith

ieuenctid hwn yn atgyfeirio pobl ifanc at waith sydd yn fwy targededig sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd, troseddu a meysydd polisi penodol eraill.

- Cyd-destun polisi: mae'r theori newid wedi ystyried y cyd-destun polisi y gweithredir y strategaeth ynddo. Mae wedi ceisio sefydlu'r berthynas rhwng canlyniadau gwaith ieuenctid a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a sefydlwyd drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Ffyniant i Bawb a Cymraeg 2050.
- Cynaliadwyedd: nod y theori newid yw datblygu model darparu cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. I'r perwyl hwn, mae'n canolbwyntio ar sut y gellid cefnogi'r ddarpariaeth drwy fodel cyllido mwy cynaliadwy, gan gynnwys cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer gwaith ieuenctid mynediad agored, a chorff cynrychioliadol cenedlaethol a allai sicrhau cyllid ychwanegol i'r sector.
- Cydweithredu: datblygwyd y theori newid i fod yn gydnaws â'r egwyddor bod y sector gwaith ieuenctid yn fwyaf effeithiol pan fydd sefydliadau statudol, gwirfoddol a thrydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd. Nid yw'n glir, fodd bynnag, i ba raddau y mae'r sectorau hyn yn rhannu gweledigaeth gydlynol o'r sector a'i gyfeiriad teithio.
- Comisiynu a chynllunio gwasanaethau yn lleol: mae'r theori newid yn cydnabod pwysigrwydd comisiynu lleol i gyflawni ei nodau. Nod strategaeth genedlaethol, felly, yw grymuso sefydliadau lleol sy'n darparu gwaith ieuenctid i wneud hynny mewn modd mwy effeithiol.
- Strategaeth ar sail tystiolaeth: mae'r theori newid wedi ystyried y sylfaen dystiolaeth a drafodwyd yn gynharach yn y bennod hon, ac mae'n nodi'r cysylltiadau rhwng gwaith ieuenctid a chanlyniadau a gefnogir gan ymchwil lefel uchel.
- Sefydlu sylfaen ar gyfer mesur: mae'r theori newid yn nodi'r ffyrdd posibl y gellir mesur perfformiad Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru. Mae'n sefydlu gwahanol feini prawf ar gyfer mesur ar wahanol gamau yn y theori newid, ac yn nodi pwy sydd â chyfrifoldeb am eu mesur, yn ogystal â pham fod mesur yn bwysig ar bob cam o'r theori newid.

9.4 Gan adeiladu ar yr ymagwedd hawliau plant sydd yn y strategaeth lefel uchel, mae'r theori newid yn ymgorffori egwyddor gwaith ieuenctid fel rhywbeth y mae gan bobl ifanc yng Nghymru hawl iddo, gan gefnogi cyfranogiad pobl ifanc ar bob lefel o'r strategaeth, ac yn ystyried Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a darparwyr gwaith ieuenctid yn atebol am y gwaith ieuenctid y maent yn ei ddarparu.

9.5 Gan gofio’r ystyriaethau hyn, mae theori newid yn canolbwyntio ar hawl gyffredinol, gan arddel nod cyffredinol Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru o sicrhau bod gan bob person ifanc yng Nghymru fynediad at gyfleoedd gwaith ieuenctid o ansawdd uchel, a hynny’n cael ei ddeall i fod yn rhywbeth y mae gan bob person ifanc yr hawl iddo. O’r man cychwyn hwn, datblygwyd theori newid i ddau gyfeiriad. Y cyntaf oedd sefydlu’r ysgogwyr (*drivers*) a’r galluogwyr (*enablers*) sy’n ei gwneud yn bosibl cyflawni’r strategaeth yn effeithiol. Gan weithio i’r cyfeiriad arall, mapiodd y theori newid y canlyniadau a ddeilliai o gynnal gwaith ieuenctid yn effeithiol, a pherthynas y canlyniadau hyn ag amcanion ehangach Llywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a Ffyniant i Bawb.

**Sut mae elfennau gwahanol y Theori Newid yn cyd-fynd â’i gilydd**

9.6 Mae Ffigwr 9.1 dros y dudalen yn amlinellu sut mae gwahanol gamau’r theori newid yn cyd-fynd â’i gilydd, ac ymhle y mae’r cyfrifoldeb am bob cam. Mae cam cyntaf y theori newid yn strategol, ac mae’n dangos yr ysgogwyr strategol a all hwyluso gwaith ieuenctid i ddod yn adnodd cyffredinol i bobl ifanc yng Nghymru, a dyma gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid y sector. Ail gam y theori newid yw ymarfer gwaith ieuenctid, ac mae’n cyfeirio at ddarparu cyfleoedd gwaith ieuenctid i bobl ifanc. Cyfrifoldeb sefydliadau darparu gwaith ieuenctid a gweithwyr ieuenctid yw cam hwn y theori newid ac mae’n cydnabod pwysigrwydd ansawdd y gwaith ieuenctid sy’n cael ei ddarparu i’r strategaeth.

**Ffigwr 9.1: Sut y mae rhannau gwahanol y theori newid yn cyd-fynd â'i gilydd a phwy sy'n gyfrifol am bob cam**

| | Cam y Broses | | Cam y Canlyniad a'r Effaith | |
|---|---|---|---|---|
| **Cam:** | **Strategaeth** | **Ymarfer gwaith ieuenctid** | **Canlyniadau i fuddiolwyr** | **Effaith polisi** |
| **Pam fod hyn yn rhan o'n theori newid?** | Polisi Llywodraeth Cymru a'r strwythurau llywodraethu yn gweithio'n effeithiol i fod yn sail i ddarparu gwaith ieuenctid yn llwyddiannus ar lefel leol. | Mae ymarfer effeithiol yn hanfodol i ddiben gwaith ieuenctid. Bydd gwaith ieuenctid o ansawdd da yn arwain at ganlyniadau yn y tymor byr a'r tymor hir. | Mae deall y canlyniadau nodweddiadol i fuddiolwyr yn bwysig er mwyn cyfleu gwerth gwaith ieuenctid i randdeiliaid a'r cyhoedd. | Gwaith ieuenctid yn cyfrannu at bolisi ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Ddeddf Llesiant, ac yn cynrychioli cyfraniad gwaith ieuenctid i'r 'darlun mawr'. |
| **Pwy sy'n gyfrifol am y rhan hon o'r theori newid?** | Llywodraeth Cymru, y Bwrdd, rhanddeiliaid yn y sector gwaith ieuenctid. | Sefydliadau darparu gwaith ieuenctid, gweithwyr ieuenctid. | Llywodraeth Cymru, y Bwrdd, rhanddeiliaid yn y sector gwaith ieuenctid. | Llywodraeth Cymru. |
| **Beth yw diben mesur y rhan hon o'r theori newid?** | Deall effeithiolrwydd polisi a llywodraethu wrth gefnogi gwaith ieuenctid. | Deall ansawdd y gwaith ieuenctid sy'n cael ei gynnal, a barn pobl ifanc. | Deall / dangos gwerth gwaith ieuenctid i randdeiliaid allanol. | Deall cyfraniad gwaith ieuenctid i amcanion Llywodraeth Cymru. |
| **Sut y gellir mesur y rhan hon o'r theori newid?** | Ymgynghoriad sector, atebolrwydd i bobl ifanc trwy gyrff cynrychioliadol. | Arsylwi gan gymheiriaid, ymgysylltu â phobl ifanc (holiaduron, grwpiau ffocws). | Nifer fach o astudiaethau yn defnyddio dulliau ymchwil ansoddol wedi'u gwirio. | Astudiaethau hydredol ar gyfranogwyr gwaith ieuenctid. |

9.7 Mae trydedd ran y theori newid yn ymwneud â chanlyniadau tymor hirach i bobl ifanc. Gan adeiladu ar ymchwil a wnaed gan y Ganolfan Effaith Ieuenctid, mae'n nodi meysydd canlyniadau safonol lle caiff canlyniadau eu gweld fel arfer. Er nad pwrpas gwaith ieuenctid yw cyflawni nodau yn y meysydd canlyniadau safonol hyn, gall eu mesur helpu i ddangos cyfraniad gwaith ieuenctid i lunwyr polisi a rhanddeiliaid allanol a chyfiawnhau buddsoddi pellach mewn gwaith ieuenctid. Yn olaf, mae pedwaredd ran y theori newid yn archwilio'r berthynas rhwng gwaith ieuenctid ac amcanion tymor hir Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw deall yr effaith yn y meysydd hyn – a'r graddau y mae gwaith ieuenctid yn cyfrannu at ei hamcanion strategol cyffredinol.

**Galluogwyr Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru**

9.8 O gofio man cychwyn Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru a nodwyd uchod, sef y dylai ei hamcanion sicrhau arlwy gwaith ieuenctid cyffredinol, deellir mai amcanion cyffredinol y strategaeth yn sicrhau bod gan bob person ifanc yng Nghymru fynediad at gyfleoedd gwaith ieuenctid o ansawdd uchel, a hynny'n cael ei ddeall i fod yn rhywbeth y mae gan bob person ifanc yr hawl iddo.

9.9 Amlinellir ysgogwyr y strategaeth hon yn adrannau blaenorol yr adroddiad, ac maent yn cynnwys y ffactorau canlynol:

- Sail ddeddfwriaethol gryfach ar gyfer gwaith ieuenctid, gan sefydlu gofyniad ar awdurdodau lleol i ddarparu gwaith ieuenctid mynediad agored i safon ofynnol.
- Arweinyddiaeth gref ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru, drwy gael Llywodraeth Cymru yn darparu gweledigaeth ar gyfer ei buddsoddiad mewn gwaith ieuenctid a thrwy gael arweinwyr sector yn cynrychioli'r sector i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol.
- Mwy o gydlynu gwaith ieuenctid ar lefel genedlaethol, gan gynnwys darparwyr a sefydliadau statudol, gwirfoddol a'r trydydd sector. Mae posibilrwydd y gallai corff cynrychioliadol cenedlaethol wneud hyn.
- Sefydliadau darparu lleol yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a darparu gwaith ieuenctid, gyda chydweithredu rhwng darparwyr statudol a gwirfoddol, a sefydliadau gwaith ieuenctid yn gweithio gyda sefydliadau eraill sy'n cynnig gwasanaethau i bobl ifanc.
- Bydd recriwtio a chefnogi gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru yn galluogi'r gweithlu i gynnig gwaith ieuenctid o ansawdd uchel. Dylai hyn gynnwys

ymrwymiad parhaus i sicrhau ansawdd gwaith ieuenctid yng Nghymru a'i wella, gan gynnwys trwy fecanweithiau sy'n bodoli eisoes megis cofrestru'r gweithlu a marc ansawdd gwaith ieuenctid.

- Bydd llenwi bylchau data yn ymwneud â chyfanswm a natur y gwaith ieuenctid sy'n cael ei ddarparu yng Nghymru yn galluogi dyrannu adnoddau i sicrhau bod y rhai sy'n cael eu gwasanaethu'n wael gan y cynnig gwaith ieuenctid presennol hefyd yn cael mynediad at gyfleoedd gwaith ieuenctid.
- Sefydliadau gwaith ieuenctid i dderbyn cyllid priodol a chynaliadwy i gyflawni gwaith ieuenctid, gan gynnwys gwaith mynediad agored. Mae hyn yn cynnwys cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru, a chyllid ychwanegol wedi'i drosoli gan sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli gwaith ieuenctid yng Nghymru.
- Gan adlewyrchu'r ymagwedd hawliau plant a geir ar lefel uchel yn Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru, bydd ymgorffori pobl ifanc ym mhob lefel o ddatblygu strategaethau a dylunio gwasanaethau yn bwysig er mwyn sicrhau bod sefydliadau sy'n ymwneud â chyllido a darparu gwaith ieuenctid yn atebol i bobl ifanc am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

9.10 Disgrifir yr ysgogwyr hyn yn Ffigwr 9.2, dros y dudalen.

**Ffigwr 9.2: Rôl Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru wrth sicrhau gwaith ieuenctid cyffredinol**

| Gweithgareddau | | Canlyniadau |
|---|---|---|
| **Cryfhau sail ddeddfwriaethol gwaith ieuenctid yng Nghymru.** | Mae sail ddeddfwriaethol gwaith ieuenctid wedi'i nodi yn rhwystr sy'n atal cyflwyno gwaith ieuenctid yn effeithiol, yn enwedig mewn perthynas â gwaith ieuenctid cyffredinol mynediad agored. Bydd clustnodi cyllidebau ar gyfer darparu gwaith ieuenctid, neu sefydlu sut olwg fyddai ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid 'ddigonol' mewn awdurdod lleol, yn rhoi gofyniad cryfach ar awdurdodau lleol i gomisiynu a sicrhau gwaith ieuenctid cyffredinol mynediad agored. | **Pob person ifanc yng Nghymru yn gallu cael mynediad at gyfleoedd gwaith ieuenctid o ansawdd uchel, a hynny'n cael ei ddeall i fod yn rhywbeth y mae gan bob person ifanc yr hawl iddo.** |
| **Arweinyddiaeth gref gan y sector gwaith ieuenctid, o du Llywodraeth Cymru ac arweinwyr yn y sector.** | Mae arweinyddiaeth gref yn bwysig er mwyn sicrhau rhannu gweledigaeth gydlynol ledled y sector a bod y weledigaeth honno yn cael ei gweithredu. Gallai Llywodraeth Cymru gefnogi hyn trwy fod yn gliriach ynghylch yr hyn y mae disgwyl i'w buddsoddiad mewn gwaith ieuenctid ei gyflawni. Mae angen i'r sector hefyd ysgwyddo mwy o arweinyddiaeth, rhywbeth y gellid o bosibl ei gyflawni trwy ffurfio corff cynrychioliadol cenedlaethol a gwneud rôl y Bwrdd yn barhaol. | **Gwaith ieuenctid wedi'i ariannu'n briodol, gan dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru a chael gafael ar gyllid ychwanegol o ffynonellau eraill.** |
| **Cydlynu gwaith ieuenctid ar lefel genedlaethol, o bosibl gan gorff gwaith ieuenctid cenedlaethol.** | Mae diffyg cydlynu ar lefel Cymru gyfan wedi effeithio'n negyddol ar strategaethau blaenorol. Gallai corff cynrychioliadol cenedlaethol drefnu'r cydlynu hwn, gan gynrychioli'r sectorau a gynhelir, y sector gwirfoddol a'r trydydd sector, yn ogystal â bod â rôl yn comisiynu gwaith ieuenctid, yn sefydlu ac yn gwella ansawdd gwaith ieuenctid, yn datblygu'r gweithlu ac yn sicrhau cyllid o ffynonellau allanol. | |
| **Sefydliadau darparu lleol yn cydlynu comisiynu gwaith ieuenctid, gan gynnwys sefydliadau ledled y sectorau.** | Mae darparu lleol yn gryfder allweddol yn y model darparu gwaith ieuenctid cyfredol. Fodd bynnag, nodwyd bod colli Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc wedi arwain at fwlch o ran cydlynu, yn enwedig rhwng awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Bydd ailgyflwyno rhyw fath o gydlynu lleol, o bosibl trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn sicrhau bod darpariaeth leol yn ateb anghenion y boblogaeth leol. | **Sefydliadau a rhanddeiliaid y sector ar draws y sectorau statudol, gwirfoddol a'r trydydd sector yn cydsynio i un weledigaeth gydlynol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.** |

| Gweithgareddau | |
|---|---|
| **Recriwtio gweithlu sy'n adlewyrchu amrywioldeb Cymru.** | Yn ystod yr ymchwil, dywedodd pobl ifanc eu bod eisiau gweld gweithlu gwaith ieuenctid a oedd yn cynrychioli amrywioldeb Cymru. Bydd cyflawni hyn, gan gynnwys gweithlu sy'n gallu darparu gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg, yn helpu i gyflawni gwaith ieuenctid sy'n dechrau lle mae'r bobl ifanc eu hunain. |
| **Gweithlu sydd wedi'i hyfforddi a'i ddatblygu'n effeithiol i ddarparu gwaith ieuenctid o ansawdd uchel.** | Mae ansawdd gwaith ieuenctid yn dibynnu i raddau helaeth ar y gweithwyr ieuenctid sy'n ei gyflawni. Galluogwr allweddol i'r weledigaeth hon yw gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n briodol (ar hyd y sbectrwm o'r gwirfoddolwyr i'r gweithwyr ieuenctid proffesiynol), gweithlu sydd â'r pŵer i ddatblygu'n broffesiynol a gweithlu sy'n cael ei annog i aros yn y proffesiwn. I gefnogi hyn gellid cryfhau mesurau presennol fel y marc ansawdd a chofrestru'r gweithlu. |
| **Bylchau mewn data yn cael eu llenwi, a defnyddir y data i deilwra'r arlwy gwaith ieuenctid i sicrhau ei fod ar gael i bob person ifanc yng Nghymru.** | Mae llenwi bylchau data yn bwysig i gyflawni'r strategaeth gwaith ieuenctid, gan y bydd yn galluogi cynllunio gwaith ieuenctid a dyrannu adnoddau i gynnig cyfleoedd gwaith ieuenctid i bob person ifanc yng Nghymru. Er mwyn cynorthwyo'r cynllunio, bydd yn rhaid deall i ba raddau y mae gwaith ieuenctid ar gael ar draws ardaloedd gwledig/trefol/arfordirol, ac a yw'n hygyrch i unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Sefydliadau gwaith ieuenctid yn derbyn cyllid priodol a chynaliadwy i ddarparu gwaith ieuenctid.** | Trwy gydol yr ymchwil ansoddol, nodwyd bod cyllid yn rhwystr parhaus sy'n atal darparu gwaith ieuenctid yn effeithiol. Yn hollbwysig i gynnig arlwy cydgysylltiedig yw sicrhau cyllid digonol ar amserlenni sy'n caniatáu ar gyfer cynllunio sefydliadol hirdymor, sy'n ymrwymo i waith ieuenctid cyffredinol mynediad agored, ac wedi'i ddosbarthu ar draws y sector gwirfoddol a'r sector a gynhelir. |
| **Pobl ifanc yn rhan o ddatblygu strategaethau a dylunio gwasanaethau.** | Mae Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn dweud 'Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried'. Dylai lleisiau pobl ifanc gael lle amlwg ar bob lefel llywodraethu. |

**Canlyniadau**

- **Darpariaeth gwaith ieuenctid yn cael ei gydgynllunio a'i gydgomisiynu ar lefel leol mewn ffordd sy'n cynnwys pobl ifanc.**
- **Llinellau atebolrwydd clir ar gyfer y gwaith ieuenctid yng Nghymru, gan gynnwys atebolrwydd Llywodraeth Cymru a darparwyr gwaith ieuenctid i bobl ifanc.**
- **Llunwyr polisi, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn deall gwerth gwaith ieuenctid.**

**Ymarfer gwaith ieuenctid a chanlyniadau sy'n deillio o waith ieuenctid**


9.11 Mae Ffigwr 9.3, dros y dudalen, yn amlinellu perthynas gwaith ieuenctid a'r canlyniadau sy'n deillio ohoni. Trafodir yr elfennau hyn yn eu tro, isod.

*Ymarfer gwaith ieuenctid*

9.12 Aiff y theori newid yn ei blaen i archwilio natur ymarfer gwaith ieuenctid a'r canlyniadau tymor byr i bobl ifanc sy'n deillio ohono. Mae'r rhan hon o'r theori newid yn seiliedig ar y diffiniad o waith ieuenctid a geir yn y ddogfen Egwyddorion a Dibenion. Mae'n cydnabod bod gwaith ieuenctid yn seiliedig ar y berthynas wirfoddol rhwng pobl ifanc ac oedolyn dibynadwy, sef yn addysgol, yn fynegiannol, yn gyfranogol, yn gynhwysol, ac yn rymusol. Pwrpas y gwaith hwn yw galluogi pobl ifanc i ddatblygu'n gyfannol, a chyrraedd eu potensial llawn, a bod pwynt terfyn y daith wedi'i yrru gan y bobl ifanc eu hunain. Ar yr un pryd, mae'r theori newid yn cydnabod bod Egwyddorion a Dibenion yn nodi nifer o ganlyniadau i bobl ifanc, gan gynnwys dysgu cymryd mwy o reolaeth ar eu bywydau, datblygu gwybodaeth a sgiliau, adnabod a gwrthsefyll dylanwadau niweidiol a allai effeithio arnynt, a datblygu eu llais, eu dylanwad a'u lle mewn cymdeithas.

Dylid mesur ansawdd y gwaith ieuenctid hwn, ac a yw'r canlyniadau hyn yn digwydd ai peidio, fel rhan o arfer adfyfyrio gweithwyr ieuenctid a sefydliadau gwaith ieuenctid. Dylid datblygu mesurau asesu canlyniadau yn ogystal â datblygu ffyrdd eraill o asesu pa mor effeithiol yw ymarfer gwaith ieuenctid yn dibynnu ar natur y gweithgareddau a wneir.

**Ffigwr 9.3: Ymarfer gwaith ieuenctid a'r canlyniadau a'r effeithiau a ragwelir**



**Yn seiliedig ar yr hyn rydyn ni'n ei wybod am waith ieuenctid yng Nghymru a lleoliadau eraill, mae'n rhesymol tybio bod dysgu cymdeithasol ac emosiynol (SEL) sy'n deillio o waith ieuenctid yn cynnwys y meysydd canlyniadau canlynol...**

| Cyfrifoldeb | Empathi | Datrys Problemau | Blaengarwch | Gwaith Tîm | Rheoli Emosiynau |
|---|---|---|---|---|---|

**Mae canlyniadau gwaith ieuenctid i bobl ifanc yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol mewn meysydd polisi cyhoeddus, gan gynnwys cyfrannu at brif themâu strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb...**

| Ffyniannus a diogel | Iach ac egnïol | Uchelgeisiol ac yn dysgu | Unedig a chysylltiedig |
|---|---|---|---|

**Ac mae'n cyfrannu at y saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru iachach | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|

*Canlyniadau i fuddiolwyr*

9.13 Mae cam nesaf y theori newid, a gynrychiolir eto yn Ffigwr 9.3, yn ymdrin â chanlyniadau tymor hirach nodweddiadol sy'n deillio o waith ieuenctid. Nid pwrpas gwaith ieuenctid yw'r canlyniadau hyn, ac nid oes angen eu mesur gan bob sefydliad gwaith ieuenctid ac ar gyfer pob person ifanc a gefnogir. Fodd bynnag, mae'n rhesymol tybio y cynhyrchir canlyniadau yn y meysydd hyn gan yr holl weithgareddau gwaith ieuenctid. Mae'n bwysig cael tystiolaeth effeithiol yn y maes hwn er mwyn galluogi rhanddeiliaid yn y sector i gynrychioli gwaith ieuenctid yn allanol, ac felly'n cyfrannu at gyflawni un o amcanion y strategaeth, sef codi proffil gwaith ieuenctid a chynyddu dealltwriaeth o'r cyfraniad a wneir ganddo. Gellid diwallu'r angen hwn am ymchwil trwy gomisiynu nifer fach o astudiaethau o ansawdd uchel am effaith hirdymor gwaith ieuenctid ar bobl ifanc sy'n elwa ohono, neu ddefnyddio'r llenyddiaeth bresennol am waith ieuenctid mewn cyd-destunau eraill.

9.14 Yn y theori newid hon, codwyd y canlyniadau dysgu cymdeithasol ac emosiynol o ymchwil a gynhaliwyd gan y Ganolfan Effaith Ieuenctid ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol (McNeil et al. 2020). Roedd yr ymchwil hwn yn seiliedig ar ymchwil blaenorol ac wedi'i ddiweddaru, ac fe'i cyhoeddwyd yn Fframwaith Catalydd i nodi canlyniadau i bobl ifanc mewn un fframwaith cysyniadol (McNeil et al. 2020). Mae'r canlyniadau hyn wedi'u hymgorffori yn y theori newid oherwydd eu bod yn cynrychioli corff sefydledig o dystiolaeth. Fodd bynnag, gellir addasu'r rhain yn dibynnu ar ymchwil yn y dyfodol a wneir yng nghyd-destun Cymru.

*Effaith polisi hirdymor*

9.15 Mae'r theori newid yn clymu canlyniadau ymyriadau gwaith ieuenctid ag amcanion polisi hirdymor Llywodraeth Cymru. Efallai y byddai Llywodraeth Cymru am adolygu'r monitro ar sut mae gwaith ieuenctid yn cyfrannu at yr amcanion hyn er mwyn asesu ei buddsoddiad, ond ni ddylai hyn fod yn rhan safonol o broses gweithwyr ieuenctid neu sefydliadau darparu gwaith ieuenctid yn mesur ansawdd eu gwaith ieuenctid.

**Rhagdybiaethau, galluogwyr, a rhwystrau**

9.16 Yn olaf, mae Ffigwr 9.4 dros y dudalen yn amlinellu cyfres o ragdybiaethau, galluogwyr a rhwystrau sydd wedi'u cynnwys yn y theori newid hon.

**Ffigwr 9.4: Rhagdybiaethau, galluogwyr, a rhwystrau yn y theori newid**

**Rhagdybiaethau:**

- Mae Llywodraeth Cymru yn cadw at ei hymrwymiad hirdymor i ariannu gwaith ieuenctid fel ffordd o weithio gyda phobl ifanc ac mae'n gwerthfawrogi gwaith ieuenctid cyffredinol mynediad agored.
- Mae Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid ledled y sectorau ac asiantaethau allanol yn rhannu'r un weledigaeth ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru ac yn barod i ymrwymo i'w chyflawni.
- Sefydliadau darparu lleol sydd yn y sefyllfa orau i gomisiynu a gwneud gwaith ieuenctid sy'n adlewyrchu anghenion eu cymunedau lleol.
- Mae sefydliadau darparu gwaith ieuenctid yn fodlon gweithio gyda'i gilydd i gydgomisiynu darpariaeth gwaith ieuenctid.
- Bydd Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill y sector yn barod i gefnogi datblygiad rôl arweinyddiaeth ffurfiol ar gyfer y Bwrdd a rhoi cyllid i gefnogi datblygiad corff cynrychioliadol cenedlaethol.
- Bydd yn bosibl cael gafael ar gyllid allanol i'r sector i ategu'r ffynonellau cyllid presennol gan Lywodraeth Cymru.
- Bydd Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau darparu gwaith ieuenctid yn ddigon hyblyg i weithredu'r ymagwedd hawliau plant yn llawn.

**Galluogwyr:**

- Gweledigaeth gref o'r cyfraniad y rhagwelir y bydd gwaith ieuenctid yn ei wneud i Gymru wedi'i mynegi gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid y sector.
- Ymrwymiad i gyd-weledigaeth ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru, rhanddeiliaid y sector ar draws sefydliadau statudol, gwirfoddol a thrydydd sector yn ogystal â chan randdeiliaid allanol perthnasol.
- Mentrau sy'n bodoli eisoes (megis y marc ansawdd, a chofrestru'r gweithlu) yn fodlon gweithio ar y cyd â chorff cenedlaethol sy'n cynrychioli gwaith ieuenctid.
- Ymrwymiad gan randdeiliaid y sector ynghylch pwysigrwydd datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn sy'n dangos gwerth gwaith ieuenctid.
- Dysgu o ymyriadau gwaith ieuenctid, a chasglu tystiolaeth o ymyriadau gwaith ieuenctid effeithiol a'u rhannu â rhanddeiliaid perthnasol.
- Ymrwymiad i ymagwedd hawliau plant gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau darparu gwaith ieuenctid.

**Rhwystrau:**

- Gallai diffyg cyd-weledigaeth i'r sector rhwng y sefydliadau sy'n derbyn cyllid Llywodraeth Cymru a'r rhai nad ydynt rwystro unrhyw weithio mewn partneriaeth.
- Gallai bylchau data sy'n ymwneud â gwybodaeth allweddol am waith ieuenctid yng Nghymru atal gwneud addasiadau i sicrhau bod gwaith ieuenctid ar gael i bawb.
- Gallai tueddiad sefydliadau i geisio sicrhau eu cyllid eu hunain wneud comisiynu traws-sector a thraws-sefydliad yn anymarferol.
- Gallai amheuaeth ynghylch perthnasedd 'canlyniadau' i waith ieuenctid arwain at rai unigolion a rhai sefydliadau yn peidio â chyfrannu at strategaeth a rennir yn ymwneud â thystiolaeth.
- Gall COVID-19 arwain at ddargyfeirio cyllid o ariannu gwaith ieuenctid i feysydd polisi eraill.

## 10. Casgliadau ac Argymhellion

10.1 Comisiynwyd yr ymchwil hwn i gydgrynhoi'r hyn a wyddys am waith ieuenctid yng Nghymru ac i lunio theori newid i fod yn sail i waith y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro wrth ddatblygu argymhellion ar gyfer strategaeth newydd Llywodraeth Cymru. Gan adlewyrchu'r amcanion hyn, mae'r adroddiad wedi defnyddio adroddiadau ymchwil blaenorol yn ogystal ag ymchwil sylfaenol gyda rhanddeiliaid sy'n ymwneud â gwaith y Bwrdd neu randdeiliaid a nodwyd gan Lywodraeth Cymru i fod â phersbectif perthnasol ar y strategaeth. Gan nad oedd yr ymchwil ansoddol yn seiliedig ar sampl systematig o'r sector, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau a godwyd o'r cyfweliadau a gynhaliwyd.

**Yr hyn y mae'r dystiolaeth gyhoeddedig yn ei ddweud wrthym am fuddion dull Gwaith Ieuenctid**

10.2 Mae'r ymchwil hwn wedi ceisio nodi'r hyn y mae ymchwil a luniwyd am Gymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol yn ei ddweud wrthym am fuddion gwaith ieuenctid fel dull gweithredu, gan gynnwys ar gyfer pobl ifanc. Datgelodd yr adolygiad llenyddiaeth nad yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer buddion gwaith ieuenctid yn arbennig o gryf, yn enwedig yr agweddau hynny ar yr ymchwil a gynhaliwyd yng nghyd-destun Cymru.

10.3 Er gwaethaf y gwendid hwn yn y sylfaen dystiolaeth, cynyddu mae'r ystod o ymchwil a thystiolaeth yn y maes hwn. Mae'r sylfaen dystiolaeth ar ei chryfaf wrth ddangos manteision posibl ymgysylltu â gwaith ieuenctid ac mae'n ymwneud yn bennaf â chanlyniadau meddal. Nodir ystod sylweddol o ganlyniadau meddal yn y llenyddiaeth, gan gynnwys perthnasoedd rhyngbersonol cadarnhaol, hunanhyder a chanlyniadau meddal eraill sy'n cyfrannu at ganlyniadau i'r tymor hirach, gan gynnwys gwella cyfranogiad a chyrhaeddiad addysgol.

10.4 Mae tystiolaeth a gynhyrchwyd yng nghyd-destunau Iwerddon a'r Alban wedi dangos bod gwaith ieuenctid cyffredinol yn esgor ar fudd ariannol ar fuddsoddiad sy'n sylweddol fwy na'r buddsoddiad cychwynnol. Yn y cyd-destun hwn, mae tystiolaeth dda bod buddsoddi mewn gwaith ieuenctid mynediad agored yn cynhyrchu budd cadarnhaol ar eu buddsoddiad i lywodraethau yn yr Alban ac Iwerddon.

10.5 Defnyddiwyd ystod o ddulliau ymchwil gan astudiaethau blaenorol. Mae'r rhain yn cynnwys methodolegau Gwerthuso Trawsnewidiol sy'n defnyddio methodolegau ansoddol helaeth i greu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y canlyniadau sy'n deillio o waith ieuenctid. Mae'r methodolegau hyn yn gyfranogol ac yn unol ag egwyddorion methodoleg gwaith ieuenctid a gallent fod yn sail i waith yn y dyfodol i ddeall effaith gwaith ieuenctid yng Nghymru.

**Modelau arfer da i werthuso dulliau darparu gwaith ieuenctid mewn partneriaeth ac i asesu gwerth gwaith ieuenctid**

10.6 Mae'r ymchwil hwn wedi adolygu'r llenyddiaeth sydd ar gael ynghylch cynnal gwaith ieuenctid drwy ddulliau partneriaeth. Gall dulliau partneriaeth gynnwys ystod eang o ffyrdd o weithio a threfniadau sefydliadol, o rwydweithio anffurfiol rhwng unigolion ar draws sefydliadau, i drefniadau mwy ffurfiol. Ceir enghreifftiau amrywiol yn y llenyddiaeth ryngwladol o ddulliau partneriaeth i ddarparu gwaith ieuenctid. Mae llawer o fodelau gwaith ieuenctid yn cynnwys rhywfaint o bartneriaeth, gan gynnwys graddau gwahanol o weithio traws-sector rhwng sefydliadau gwaith ieuenctid statudol a rhai yn y sector gwirfoddol.

**Yr hyn a wyddys am waith ieuenctid yng Nghymru**

*Yr hyn sy'n hysbys am raddfa a chwmpas gwaith ieuenctid yng Nghymru*

10.7 Canfu'r ymchwil mai anghyson ac anghyflawn yw darlun y ddarpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru. Oherwydd y gofynion adrodd ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid statudol, mae darlun da o'r ddarpariaeth statudol yng Nghymru. Mae gwybodaeth am ddarpariaeth statudol yn cael ei chyflwyno gan awdurdodau lleol a'i chasglu gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol, gan roi manylion am yr ystod o gyllid sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gwaith ieuenctid mewn lleoliadau awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae cryn dipyn yn llai yn hysbys am ystod a chyfanswm y ddarpariaeth wirfoddol a'r trydydd sector.

10.8 Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod cyllid wedi gostwng i wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol rhwng 2013-14 a 2018-19, sef o £40.2m i £31.4m. Yn ystod y cyfnod hwn, gostwng hefyd wnaeth nifer y bobl ifanc y gwyddys sy'n cymryd rhan weithredol mewn gwaith ieuenctid awdurdodau lleol, o 20% o'r boblogaeth gymwys yn 2013-14, i 15% o'r boblogaeth gymwys yn 2018-19.

10.9 Mae cryn amrywiaeth, mewn termau real a fesul pen, yng nghyllidebau gwaith ieuenctid awdurdodau lleol. Mae gwariant awdurdodau lleol fesul pen y boblogaeth

gymwys yn amrywio o £113 y pen ym Mlaenau Gwent, i £25 y pen yng Nghaerdydd. Yn ogystal, awgryma data ansoddol a gasglwyd drwy gyfweliadau â rhanddeiliaid fod newid wedi bod yn y mathau o waith ieuenctid a wneir. Yn benodol, ceir teimlad bod darpariaeth gwaith ieuenctid wedi symud fwyfwy tuag at ddarpariaethau wedi'u targedu, ar draul darpariaeth gyffredinol mynediad agored. Mater pwysig yma yw sail ddeddfwriaethol gwaith ieuenctid yng Nghymru, gan yr ystyrir bod y Ddeddf Dysgu a Sgiliau yn rhy ganiataol a goddefol, gan arwain at anghysondeb yn y ddarpariaeth ieuenctid o ran amrywiaeth, cyfanswm ac ansawdd (Wylie, 2016).

10.10 Yn y cyd-destun hwn, ac o gofio'r bylchau data allweddol sy'n wynebu'r sector, nid yw'n bosibl dod i gasgliad ynghylch i ba raddau y mae gwaith ieuenctid yng Nghymru yn wasanaeth sy'n hygyrch i bawb neu sy'n cyflawni hawl pobl ifanc i gael mynediad at gyfleoedd gwaith ieuenctid o ansawdd uchel.

**Argymhelliad 1:** O ystyried y diffyg gwybodaeth systematig am waith ieuenctid yng Nghymru, yn enwedig mewn cysylltiad â darpariaeth anstatudol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried ehangu cwmpas y data y mae'n ei gasglu am ddarpariaeth gwaith ieuenctid i gynnwys yr holl sefydliadau gwaith ieuenctid yng Nghymru, gan gynnwys darpariaeth gwaith ieuenctid gwirfoddol. Byddai hyn yn mynd y tu hwnt i'r wybodaeth bresennol y mae awdurdodau lleol yn ei rhoi i Lywodraeth Cymru a byddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i sefydlu i ba raddau y cyflawnir yr hawl gyffredinol i ddarpariaeth gwaith ieuenctid.

*Yr hyn sy'n hysbys am faint o waith ieuenctid a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg*

10.11 Yn yr un modd â gwaith ieuenctid yn fwy cyffredinol, anghyflawn yw'r sylfaen dystiolaeth am waith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda mwy yn hysbys am ddarpariaeth statudol na'r ddarpariaeth a gynigir gan y sectorau gwirfoddol a thrydydd sector. Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru fod tua 17% o ddarpariaeth statudol wedi'i darparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cryn amrywiaeth hefyd rhwng ardaloedd yn hyn o beth, er enghraifft caiff yr holl waith ieuenctid yng Ngwynedd ei gynnal yn gyfan gwbl neu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg, ond yn Sir y Fflint ni chynhelir unrhyw ddarpariaeth yn gyfan gwbl neu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg.

10.12 Roedd data ansoddol a gasglwyd yn ystod yr ymchwil hwn yn dangos bod rhanddeiliaid y sector yn credu bod y Gymraeg yn bwysig i ddarparu arlwy gwaith ieuenctid cyffredinol cynhwysfawr yng Nghymru. Fodd bynnag, cred rhanddeiliaid fod bylchau yn narpariaeth gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Gyda rhai eithriadau, yn enwedig yng Ngwynedd, dim ond rhai cyfleoedd gwaith ieuenctid sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Mewn ardaloedd eraill, mae gwasanaethau ieuenctid yn dibynnu'n bennaf, neu'n gyfan gwbl, ar ddarpariaeth gan ddarparwyr allanol megis yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc.

10.13 Y rhwystrau a nodwyd sy'n atal darparu gwaith ieuenctid yn fwy effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg yw ffactorau megis anawsterau dod o hyd i staff sy'n siarad Cymraeg, heriau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i ddeunyddiau a deunyddiau hyfforddi i gefnogi gwneud gwaith ieuenctid yn Gymraeg, ac annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn lleoliad proffesiynol.

10.14 Yn y cyd-destun hwn, ymddengys y gellid gwneud mwy i sicrhau bod pob person ifanc yn cael cyfle i ymgysylltu â gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant hynny. Fodd bynnag, yn y tymor byr, mae'n debyg mai'r brif her yn y maes hwn yw cael gafael ar wybodaeth ynghylch pa mor gynhwysfawr yw gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob ardal awdurdod lleol. Er bod ystadegau ar gael ar gyfer darpariaeth gwaith ieuenctid a wneir gan awdurdodau lleol, dim ond rhan yn unig o'r ddarpariaeth ym mhob ardal awdurdod lleol yw gwaith ieuenctid awdurdodau lleol. Mae angen arolwg mwy cynhwysfawr o ddarpariaeth gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r galw amdano, er mwyn neilltuo adnoddau i unrhyw ardaloedd lle nad yw'r angen yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 2:** Dylai'r graddau y mae darpariaeth gwaith ieuenctid ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg fod yn rhan allweddol o'r broses casglu data a argymhellir yn Argymhelliad 1. Mae deall pa ddarpariaeth sydd ar gael a deall ymhle mae bylchau yn hanfodol i sefydlu pa gefnogaeth sydd ei hangen i sicrhau bod pob person ifanc sydd am gael mynediad at waith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu gwneud hynny.

**Heriau a chyfleoedd i waith ieuenctid yng Nghymru**

*Ariannu gwaith ieuenctid yng Nghymru*

10.15 Nododd rhanddeiliaid mai'r brif her sy'n wynebu'r sector yw argaeledd cyllid i gefnogi gwaith ieuenctid yng Nghymru. Ar draws rhanddeiliaid statudol, gwirfoddol a'r trydydd sector, mae ymdeimlad bod gofyn i sefydliadau gwaith ieuenctid wneud mwy gyda llai.

10.16 Mae newidiadau diweddar i gyllid gwaith ieuenctid wedi golygu canolbwyntio gwaith ieuenctid ar fathau mwy penodol o ddarpariaeth, gan leihau'r cyllid sydd ar gael ar gyfer darpariaeth mynediad agored, er bod llawer o randdeiliaid o'r farn y dylai darpariaeth o'r fath fod yn greiddiol i'r cynnig gwaith ieuenctid. Ystyrir bod y newid hwn, ac anghysondebau ehangach ynghylch pa gyfleoedd gwaith ieuenctid sydd ar gael mewn gwahanol ardaloedd, yn deillio o natur ganiataol y Ddeddf Dysgu a Sgiliau (Wylie, 2016).

10.17 Awgrymodd rhanddeiliaid hefyd y gellid gwneud mwy i sicrhau bod darparwyr statudol yn rhannu cyllid gyda phartneriaid yn y trydydd sector a'r sector gwirfoddol a'u cynnwys yn y broses gomisiynu. Er bod yna lawer o enghreifftiau o arfer da, ni theimlir bod hyn yn wir yn gyffredinol ledled Cymru. Her allweddol y mae'n rhaid i'r strategaeth ei goresgyn yw'r gwrthdaro ynghylch cyllid rhwng gwahanol rannau o'r sector, rhai a ddylai fod yn gweithio gyda'i gilydd tuag at nod gyffredin i bawb.

10.18 Gwelwyd bod strwythurau cyllido ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru yn wannach na'r hyn fyddai'n ddelfrydol. Canfu ymchwil yn astudio'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol flaenorol fod mecanweithiau ariannu gwaith ieuenctid Cymru yn wan (Wylie, 2016) ac nad ydynt yn ddigonol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwaith ieuenctid mynediad agored fel gwasanaeth cyffredinol (Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, 2018).

10.19 Problem arall yw gallu'r sector i drosoli cyllid o ffynonellau allanol, heblaw llywodraeth. Ar hyn o bryd, teimlir bod y sector yn wael am wneud hynny ac, oherwydd hyn, mae'n or-ddibynnol ar gyllid grant (Wylie, 2016, Fowler et al., 2015). Bydd dod o hyd i fodel cyllido tymor hir sy'n arallgyfeirio cyllid sydd ar gael i'r sector ar yr un pryd â chadw cyllid craidd ar gyfer gwaith ieuenctid mynediad agored yn ganolog i'r strategaeth er mwyn cyflawni ei hamcanion cyffredinol.

*Codi proffil y sector*

10.20 Her arall i'r sector a nodwyd gan randdeiliaid oedd sicrhau bod gwaith ieuenctid, a'i werth, yn cael ei gydnabod gan lunwyr polisi, rhanddeiliaid allanol, a'r cyhoedd. Mae argraff ymhlith y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy bod llunwyr polisi yn aml yn camddeall gwaith ieuenctid, nad ydynt bob amser yn cydnabod y sgiliau proffesiynol sy'n gysylltiedig â gwaith ieuenctid nac yn deall sut mae gwaith ieuenctid yn wahanol i ffyrdd eraill o weithio gyda phobl ifanc.

10.21 I'r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr ymchwil hwn, eu dyheadau i'r tymor hirach yw bod gwaith ieuenctid yn cael mwy o gydnabyddiaeth, gan sefyll ochr yn ochr ag addysgu fel ffordd fedrus a phroffesiynol o weithio gyda phobl ifanc.

### Sut mae COVID-19 wedi effeithio ar waith ieuenctid yng Nghymru

10.22 Fel sawl sector arall yng Nghymru, mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar waith ieuenctid. Awgryma'r dystiolaeth sydd ar gael fod gwaith ieuenctid wedi addasu'n dda i'r heriau a ddaeth yn sgil COVID-19, ond bod COVID-19 a'r tarfu economaidd dilynol yn debygol o waethygu llawer o'r problemau sydd gan bobl ifanc.

*Goblygiadau gweithredol pandemig COVID-19*

10.23 O ran gweithredu, mae llawer o sefydliadau gwaith ieuenctid yng Nghymru wedi gorfod ailwampio'r gefnogaeth y gallant ei chynnig i bobl ifanc, gan ddarparu cefnogaeth ar-lein oherwydd gofynion pellter cymdeithasol y llywodraeth. Yn ogystal, tarfwyd ar gynnal gwaith ieuenctid gan fod staff yn cael eu rhoi ar ffyrlo, neu weithwyr ieuenctid a swyddogion ar lefel awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru yn cael eu hadleoli i feysydd gwaith eraill. Er gwaethaf hyn, nododd sawl rhanddeiliad fod hwn yn gyfle pwysig i'r sector, i ddangos i randdeiliaid eraill werth gwaith ieuenctid fel 'thema drawsbynciol' ar draws gwahanol feysydd darparu gwasanaeth.

10.24 Credir bod y gwaith ieuenctid digidol y mae sefydliadau gwaith ieuenctid wedi'i gyflwyno yn ystod y pandemig wedi bod yn llwyddiannus, a dywedodd rhan fwyaf y rhanddeiliaid eu bod o'r farn y dylai hyn ddod yn rhan bwysicach o ddarparu gwaith ieuenctid yn y dyfodol. Gall gwaith ieuenctid digidol ymgysylltu mewn ffordd wahanol â phobl ifanc sydd eisoes yn ymwneud â gwaith ieuenctid; gall gynnwys rhai pobl ifanc nad ydyn nhw'n ymwneud â gwaith ieuenctid ar hyn o bryd, ac mae'n ychwanegu gwerth at ffyrdd eraill o weithio gyda phobl ifanc. Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid yn cytuno'n gyffredinol y byddai perygl i'r model darparu newydd roi gormod o bwyslais ar hyn. Er bod rhanddeiliaid yn gadarnhaol ynghylch gwerth

ychwanegol gwaith ieuenctid digidol, mynegwyd teimlad cryf nad oes modd iddo gymryd lle darparu wyneb yn wyneb.

*Tystiolaeth am effaith COVID-19 ar bobl ifanc*

10.25 Mynegodd rhanddeiliaid bryder hefyd am effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc. Cynhyrchwyd tystiolaeth sy'n dangos bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl pobl ifanc. Ar ben hynny, mae tystiolaeth bod y canlyniadau negyddol hyn wedi'u dosbarthu'n anwastad ar draws y boblogaeth, gyda, er enghraifft, y rhai o gefndiroedd mwy difreintiedig yn fwy tebygol o weld mwy o aflonyddu ar eu bywydau. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg hefyd fod y bobl ifanc hynny a ddioddefai broblemau iechyd meddwl sylweddol cyn y cyfnod clo yn debygol o fod wedi ei chael hi'n anodd iawn yn ystod y pandemig.

10.26 Mae effeithiau'r pandemig a'r tarfu economaidd cysylltiedig yn debygol o fod yn rhai hirdymor, gydag effeithiau creithiau'r pandemig yn debygol o ddilyn pobl ifanc yn ôl i addysg, yn ogystal ag effeithio'n negyddol ar y bobl ifanc sy'n pontio ymlaen i gamau pellach addysg a chyflogaeth. I lawer o bobl ifanc sydd wedi gadael addysg, mae'r pandemig yn debygol o effeithio ar ragolygon cyflogaeth.

10.27 Yn ogystal â gwaethygu problemau sylfaenol pobl ifanc, mae COVID-19 hefyd wedi effeithio'n negyddol ar y ffordd y mae pobl ifanc yn ymgysylltu â gwaith ieuenctid a gwasanaethau eraill sy'n eu cefnogi. Adroddodd rhanddeiliaid fod nifer o bobl ifanc a oedd gynt mewn cysylltiad rheolaidd â gwasanaethau ieuenctid wedi ymddieithrio ers dechrau'r pandemig. O roi hyn ochr yn ochr â chau ysgolion, mae'n debygol o arwain at ganlyniadau negyddol sylweddol iddynt.

### Barn y sector ynghylch sut y gellid cyflawni Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru

*Diffinio gwaith ieuenctid a chylch gweithredu'r Strategaeth*

10.28 Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr ymchwil hwn wedi dweud eu bod yn cefnogi'r ffordd y mae gwaith ieuenctid wedi'i ddiffinio eisoes, gan gynnwys yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid ac yn Egwyddorion a Dibenion. Un maes lle anghytunai rhanddeiliaid ychydig â'r diffiniadau hyn, oedd tynnu sylw at bwysigrwydd 'addysg wleidyddol' a 'dinasyddiaeth weithgar' i waith ieuenctid, rhywbeth yr awgrymodd nifer o randdeiliaid a phobl ifanc sydd ar goll o'r strategaeth.

10.29 Maes arall lle awgrymodd rhanddeiliaid fod angen newid pwyslais ar y diffiniad, oedd y ffordd y mae gwaith ieuenctid wedi'i gysylltu ag ymyriadau sy'n fwy targededig. Gan bwysleisio pwysigrwydd y berthynas wirfoddol rhwng pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid, a natur methodoleg gwaith ieuenctid o fod ag ieuenctid yn ganolog iddo, holodd sawl rhanddeiliad a ddylai gwaith ieuenctid gael ei lywodraethu gan yr un strategaeth ag sydd gan ffyrdd o weithio mwy targededig.

*Cynyddu ffocws y Strategaeth ar waith ieuenctid mynediad agored*

10.30 Fel y nodwyd uchod, ystyrir bod sail ddeddfwriaethol gwaith ieuenctid yng Nghymru yn wendid sylweddol yn y strategaeth gyfredol. Mae rhanddeiliaid o'r farn ei bod wedi achosi'r newid tuag at waith ieuenctid wedi'i dargedu a lleihad yn faint o waith ieuenctid mynediad agored sydd ar gael.

10.31 Er bod y sector yn gryf o'r farn y dylai gwaith ieuenctid cyffredinol mynediad agored fod yn gonglfaen i Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru, mae diffyg tystiolaeth am y cyfraniad a wneir gan waith ieuenctid yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro weithio i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth hon, yn ogystal â defnyddio ymchwil i nodi ac adeiladu ar arfer da o fewn darpariaeth gwaith ieuenctid.

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu ymchwil i'r cyfraniad y mae gwaith ieuenctid cyffredinol mynediad agored yn ei wneud. Dylai ddefnyddio'r sylfaen dystiolaeth hon i gyfiawnhau ac ailasesu gwariant yn y maes hwn.

10.32 Os yw gwaith ieuenctid, fel yr awgryma Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru, yn cael ei ystyried yn hawl gyffredinol i bobl ifanc, dylai Llywodraeth Cymru weithio i sefydlu gwasanaeth ieuenctid sy'n hygyrch i bob person ifanc yng Nghymru. Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw o'r farn y byddai clustnodi cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid mynediad agored neu sefydlu safonau gofynnol ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei ddarparu, naill ai trwy wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol neu ddarparwyr allanol, yn helpu i gyflawni'r amcanion hyn.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried mesurau i sicrhau bod cynnig gwaith ieuenctid cyffredinol mynediad agored ar gael ledled y wlad. Gallai mesurau gynnwys clustnodi cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid mynediad agored yn y cyllidebau gwaith ieuenctid craidd a roddir i awdurdodau lleol neu sefydlu dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod darpariaeth gwaith ieuenctid ddigonol ar gael i bobl ifanc yn eu hardal.

10.33 Er bod ysfa i sicrhau mwy o ymrwymiad i waith ieuenctid mynediad agored fel hawl gyffredinol, rhaid integreiddio'r ddarpariaeth hon â darpariaeth arall, gan gynnwys gwaith ieuenctid wedi'i dargedu a gwasanaethau cymorth eraill i bobl ifanc. Mae angen mwy o dystiolaeth i ddatblygu gwell dealltwriaeth o lwybrau i ddarpariaeth arall o'r gwaith ieuenctid mynediad agored, a'r ffordd orau o integreiddio gwaith ieuenctid i wasanaethau eraill sydd ar gael i bobl ifanc.

**Argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu ymchwil i ddeall llwybrau i bobl ifanc o waith ieuenctid i fathau eraill o gefnogaeth a sut y gall gwaith ieuenctid weithio'n agos gyda darpariaeth sydd wedi'i thargedu'n fwy penodol.

*Gwella arweinyddiaeth yn y sector gwaith ieuenctid*

10.34 Er bod rhanddeiliaid yn gadarnhaol am y cynnydd y mae'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro wedi'i wneud, roedd awgrym hefyd bod agweddau mwy negyddol strategaethau blaenorol wedi deillio yn fwy na heb o weithredu'r strategaethau hyn nag o ddiffygion yn y strategaethau eu hunain. Nodwyd bod arweinyddiaeth anghyson gwaith ieuenctid yn broblem sylweddol wrth roi strategaethau ar waith. Credir i raddau helaeth fod hyn wedi deillio o newid cyson ymhlith staff a'r diffyg adnoddau oedd ar gael i Lywodraeth Cymru.

10.35 Er hynny, roedd rhanddeiliaid hefyd o'r farn fod hyn yn rhywbeth sydd wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf, gyda gwaith y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro yn cael ei weld yn rhywbeth cadarnhaol. Mynegwyd pryder, fodd bynnag, y collir y momentwm a enillwyd os na chyflwynir strwythurau priodol i barhau â'r berthynas hon rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector.

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud rôl y Bwrdd yn barhaol neu ei benodi am gyfnod hirach er mwyn parhau i gael mewnbwn i ddatblygiad y strategaeth gwaith ieuenctid.

*Model darparu cenedlaethol cynaliadwy*

10.36 Nodwyd mai nodwedd bwysig arall i strategaeth y dyfodol oedd cydlynu gwell rhwng y sector ar lefel genedlaethol. Galluogwr allweddol rhag gwella'r gwaith ieuenctid a gynigir yng Nghymru yw'r diffyg gweithio cydgysylltiedig, oherwydd diffyg adnoddau Llywodraeth Cymru, ac ymdeimlad mewn rhannau o'r sector eu bod yn cystadlu â'i gilydd am gyfleoedd cyllido prin.

10.37 Canfu'r ymchwil hwn fod ymchwil blaenorol a archwiliai ddull cenedlaethol o ddarparu gwaith ieuenctid yng Nghymru yn parhau i fod yn berthnasol i'r amgylchiadau presennol. Mae'r modelau a ddatblygwyd gan Fowler et al. (2015) yn dal i fod y prif opsiynau ar gyfer cefnogi gwaith ieuenctid yng Nghymru:

- Gwella'r strwythur presennol drwy gryfhau sicrwydd ansawdd a mwy o ofynion statudol
- Symud i gonsortia comisiynu rhanbarthol ar gyfer cynllunio a threfnu gwaith ieuenctid i gyd-fynd â chonsortia gwella ysgolion rhanbarthol
- Datblygu gwasanaeth ieuenctid cenedlaethol sy'n darparu gwaith ieuenctid yn uniongyrchol i bobl ifanc ledled Cymru
- Datblygu corff strategol cenedlaethol annibynnol i gefnogi'r model darparu lleol

10.38 Ar y cyfan cefnogai'r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod yr ymchwil hwn ddatblygiad corff strategol cenedlaethol annibynnol i gefnogi darparu gwaith ieuenctid. Mynegwyd cefnogaeth yn benodol i gorff gwaith ieuenctid a fyddai'n debyg i YouthLink yn yr Alban. Byddai datblygu sefydliad cenedlaethol i gynrychioli gwaith ieuenctid yn golygu potensial i:

- gynrychioli'r sector yn allanol, i Lywodraeth Cymru, sectorau eraill a'r cyhoedd
- rhoi cyngor, cefnogaeth, eiriolaeth a chyllid i sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol a statudol
- cymeradwyo cymwysterau gwaith ieuenctid proffesiynol – ar y cyd ag ETS
- casglu data am wasanaethau gwaith ieuenctid, ac yn hytrach na'r archwiliad gwaith ieuenctid cenedlaethol a wneir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd,

gellid sefydlu trefn sy’n cynnwys darpariaethau statudol, gwirfoddol a thrydydd sector.

- gweithio gyda Llywodraeth Cymru i asesu pa mor ddigonol yw darpariaeth gwaith ieuenctid ym mhob ardal
- sicrhau cyllid ychwanegol o’r tu allan i’r sector i ariannu’r ddarpariaeth gwaith ieuenctid

10.39 Er y byddai hyn yn gofyn am gyllid cychwynnol gan Lywodraeth Cymru yn y lle cyntaf, gellid ei ariannu trwy frigdorri cyllid presennol gwaith ieuenctid, gydag unrhyw ddiffyg y mae hyn yn ei achosi i’w lenwi drwy gael y sefydliad sy’n cynrychioli gwaith ieuenctid i ddenu cyllid ychwanegol i’r sector.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ymchwil blaenorol wrth ystyried model darparu gwaith ieuenctid yn y dyfodol yng Nghymru. Dylai ystyried cefnogi datblygu corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid. Dylai ystyried sut mae darparwyr statudol a gwirfoddol yn cael eu cynrychioli a sicrhau bod llais ieuenctid yn ganolog i’w waith. Mae’n bwysig fod beth bynnag a ddatblygir yn rhywbeth sy’n benodol i anghenion y sector yng Nghymru.

*Cefnogi darpariaeth leol fwy cydgysylltiedig*

10.40 Yn ogystal â chefnogi mwy o gydlynu ar lefel genedlaethol, mae’n bwysig fod y strategaeth hefyd yn cefnogi cydlynu mwy effeithiol wrth gomisiynu a darparu gwaith ieuenctid ar lefel awdurdod lleol.

10.41 Adroddodd rhanddeiliaid fod colli Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc wedi effeithio’n negyddol ar gynllunio strategol ar lefel leol, a bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a’r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid wedi bod yn llai llwyddiannus wrth gydlynu gwasanaethau i gefnogi pobl ifanc na’r trefniadau blaenorol.

10.42 Os yw’r strategaeth am gefnogi darparu lleol sy’n fwy effeithiol, dylid adolygu strwythurau comisiynu lleol i asesu pa mor effeithiol y mae sefydliadau gwaith ieuenctid yn gweithio gyda’i gilydd ar draws sectorau, ac ar y cyd â sefydliadau y tu allan i’r sector, wrth gynllunio a dylunio gwasanaethau.

**Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut orau i gefnogi'r cydlynu ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid, a'r cydlynu rhwng gwaith ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid eraill, ar lefel awdurdod lleol. Dylai'r strwythurau partneriaeth hyn gofleidio rôl sefydliadau gwirfoddol fel partneriaid darparu i gydweithio gydag awdurdodau lleol.

*Rôl pobl ifanc wrth gyflawni'r Strategaeth*

10.43 Yn unol ag ymagwedd hawliau plant tuag at waith ieuenctid, roedd consensws ymhlith rhanddeiliaid ei bod yn bwysig i lais pobl ifanc fod yn amlwg wrth gyflawni Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru. Mae egwyddorion cyfranogi ac atebolrwydd yn rhannau pwysig o'r ymagwedd hawliau plant, ac ar y cyfan mae'r rhanddeiliaid o'r farn y gellid gwneud mwy i sicrhau bod llunwyr polisi a rhanddeiliaid yn atebol i bobl ifanc ac yn eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch sut mae gwaith ieuenctid yn cael ei ddylunio a'i ddarparu.

**Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut mae llais ieuenctid yn cael ei gynnwys mewn strwythurau llywodraethu cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys lleisiau pobl ifanc yn y strwythurau llywodraethu ar lefel awdurdodau lleol. Dylid deall Argymhellion 1-8 yng nghyd-destun Argymhelliad 9, a dylid plethu llais ieuenctid i bob lefel o gynllunio a darparu gwaith ieuenctid yng Nghymru.

## 11. Adran Cyfeiriadau


Abdinasir, K & Glick, O. (2020), Children and Young People's Mental Health Coalition annual report 2020.

Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid (2019) Youth Work Inquiry: Final Report, adroddiad a luniwyd ar gyfer y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Faterion Ieuenctid.

Canolfan Effaith Ieuenctid/Centre for Youth Impact (2019) Ymyriad Ansawdd Rhaglenni Ieuenctid (YPQI) Cyd-destun polisi ac arferion yng Nghymru

Ymyriad Ansawdd Rhaglenni Ieuenctid (YPQI) - Cyd-destun polisi ac arferion Gwaith ieuenctid yng Nghymru - Hydref 2019

Canolfan Effaith Ieuenctid/Centre for Youth Impact (2020) Pecynnau cymorth gwerthuso / Evaluation Toolkits

Chowdry, H a Fitzsimons (2016), The Cost of Late Intervention: EIF Analysis 2016.

Cooper, S (2012), Transformative Evaluation: An Interpretive Study of Youth Workers' Experience of Using Participatory Evaluation, traethawd PhD a gyflwynwyd ym Mhrifysgol Caerwysg/Exeter.

Cooper, S (2017) Participatory Evaluation in Youth and Community Work: Theory and Practice, Llundain: Routledge.

Cyngor Cenedlaethol Ieuenctid Iwerddon (2012) Assessment of the Economic Value of Youth Work, NYCI

Cymdeithas y Plant. (2020). The Good Childhood Report 2020. [Ar-lein]. Llundain: Cymdeithas y Plant.

Davies, R. (2013) Planning Evaluability Assessments: A Synthesis of the Literature with Recommendations, *Department for International Development Working Paper 40, October 2013*.

Davies, R. & Dart, J. (2005) The Most Significant Change (MSC) Technique: A Guide to Its Use

Deuchar, R. & Ellis, J., (2013). 'It's helped me with my anger and I'm realising where I go in life': The impact of a Scottish youth work / schools intervention on young people's responses to social strain and engagement with anti-social behaviour and gang culture. Research in Post Compulsory Education, 18(1-2), tt.98–114.

Dunne, A. et al., 2014. Working with young people: The value of youth work in the European Union, Brwsel.

Dunton, Do & Wang (2020) Early effects of the COVID-19 pandemic on physical activity and sedentary behavior in children living in the U.S. yn BMC Public Health 20, 1351 (2020).

Estyn (2018) Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru: Gwerth Gwaith Ieuenctid, Gorffennaf 2018, Caerdydd: Estyn.

Evaluation Support Scotland (2020) Is the whole greater than the sum of its parts? Taking an outcomes-based approach to evaluating your partnership.

Eyles A, Gibbons S, & Montebruno (2020) Covid-19 school shutdowns: What will they do to our children's education?, Canolfan Perfformiad Economaidd, LSE, CEP COVID-19 Working Paper 1.

Fowler, M. Drowley, S., Reed, A. (2015) A National Approach to Youth Work Delivery in Wales, adroddiad heb ei gyhoeddi wedi'i lunio ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Fraser M, Richman J, Galinsky M & Day S (2009) Intervention Research, Developing Social Programs, OUP

Fyfe, I, Biggs, H, Hunter, S, McAteer, J & Milne, D (2018) The Impact of Community-based Universal Youth Work in Scotland, astudiaeth a gomisiynwyd gan Grŵp Llywio Ymchwil Gwaith Ieuenctid yr Alban, ar gael yn:.

Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (2013), Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion.

Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (2018), Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion

Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Faterion Ieuenctid (2019), Youth Work Inquiry: Final Report, Caerlŷr: Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid.

Hagendyk, D. & Finnegan, J. (2020) Deall effaith bosibl y coronafeirws yng Nghymru, Caerlŷr/Leicester: Sefydliad Dysgu a Gwaith.

Hardy, Bob Hudson & Eileen Waddington (2003) Assessing Strategic Partnership: The Partnership Assessment Tool, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog.

Harrison R (2016) Partnerships and networks in work with young people, Y Brifysgol Agored

Henehan, K (2020) Class of 2020: Education leavers in the current crisis, Resolution Foundation, Mai 2020.

Himmelman, A.T. (1996) 'On the theory and practice of transformational collaboration: from social service to social justice', yn Huxham, C. (gol.) Creating Collaborative Advantage, Llundain, Sage.

Hirsch, B. J. (2005) A Place to Call Home. After-school programs for urban youth, Efrog Newydd: Teachers College Press.

Hodges, R. Prys, C., Orrell, A., Williams, S. & Williams, E. (2015) Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned: Astudiaeth Ymchwil, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

ImpactEd. (2020). Interim data summary May to July 2020. [Ar-lein]. Llundain: ImpactEd

Institute for Government (2020) How fit were public services for coronavirus.

Jeffs, T. & Smith, M. K. (goln) (2010) Youth work practice. Basingstoke: Palgrave Macmillan.

Jervis, M. (2018), Ein Dyfodol: Adolygiad o Ymestyn Hawl, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Kluve J, Puerto S, Robalino D, Romero J M, Rother F, Stöterau J, Weidenkaff F, Witte M. (2017) Interventions to improve the labour market outcomes of youth: a systematic review of training, entrepreneurship promotion, employment services, and subsidized employment interventions, Campbell Systematic Reviews 2017:12

Levita L, Gibson Miller J, Hartman TK, Murphy J, Shevlin M, McBride O, et al. (2020) Report 2: Impact of Covid-19 on young people aged 13-24 in the UK- preliminary findings. [Ar-lein]. PsyArXiv [cyn argraffu].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002), Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007), Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014a), Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014–2018, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014b), Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, 2013-14, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2015a), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – yr Hanfodion, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2015b), Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Cyflwyniad ac arweiniad, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2018a), Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2019a), Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2019b), Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, 2018-19, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2020), Coronafeirws a chyflogaeth: dadansoddiad ar nodweddion gwarchodedig.

Major L, Eyles A & Machin S (2020) Generation COVID: Emerging Work and Education Inequalities CEP COVID-19 Working Paper 11

McGregor C (2015) Universal Youth Work: a Critical Review of the Literature, Consortiwm Gwaith Ieuenctid Caeredin a Phrifysgol Caeredi

McNeil, B., Reeder, N. & Rich, J. (2012) A Framework of Outcomes for Young People, Llundain: The Young Foundation

McNeil, B., Millar, G. & Fernandez, S. (2019) A Framework of Outcomes for Young People 2.0: Revisiting and revising the Catalyst Framework of Outcomes 2012, Llundain: Cymdeithas Llywodraeth Leol.

Morgan, D.L. (2008) 'Snowball Sampling' yn Given, L.M. (gol.) The SAGE Encyclopedia of Qualitative Research Methods cyfrol 2: mynegai M-Z, Los Angeles: SAGE.

NHS Digital (2020a) Mental Health of Children and Young People in England, 2020: Wave 1 follow up to the 2017 survey

NHS Digital. (2020b) Mental Health Services Monthly Statistics. [Ar-lein]. Leeds: NHS Digital.

Pearcey, S., Shum, A., Waite, P., Patalay, P., Creswell, C. (2020) Report 04: Changes in children and young people's emotional and behavioural difficulties through lockdown [Ar-lein] Rhydychen: astudiaeth Co-SPACE; Prifysgol Rhydychen.

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (2016), Adroddiad mewn perthynas â chontract i ddatblygu argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru ar sut gall y sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol gydweithio'n fwy effeithiol, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Prifysgol Metropolitan Caerdydd & Rauprich, S. (2017), Adolygiad o Effaith Strategaeth Genedlaethol Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru 2014-2018, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Rieker, P (2011) Partnership Evaluation, Centers for Disease Control and Prevention, Evaluation Technical Assistance Document: Division of Nutrition, Physical Activity, and Obesity (DNPAO) Partnership Evaluation Guidebook and Resources, 2011.

Roberts, A. & Roberts, M. (2016) Cyfraniad Gwaith Ieuenctid Awdurdodau Lleol i Strategaeth yr Iaith Gymraeg, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Robinson, P. & Lowe, J. (2015) Literature reviews vs systematic reviews, *Australian and New Zealand Journal of Public Health* 39(2).

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (2014) Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid: Cyflwyniad

Sefydliad Llafur Rhyngwladol (2020) ILO Monitor: COVID-19 and the world of work, 4ydd argraffiad, 27ain Mai 2020.

Smith, M. K. (2013) 'What is youth work? Exploring the history, theory and practice of youth work', *The encyclopedia of pedagogy and informal education*.

Swyddfa'r Comisiynydd Plant (2017) Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru, Abertawe: Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019) Measures of National Well-being Dashboard.

Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2020) Children's views on well-being and what makes a happy life, UK: 2020. [Ar-lein]. Casnewydd: Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Vogel, I. (2012), Review of the use of 'Theory of Change' in international development, *Report produced for the UK Department of International Development,* ar gael ar-lein yn:.

Wylie, T. (2016), Datblygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Ymchwil y Senedd (2020) Coronafirws: cyflogaeth ieuenctid, 13eg Hydref 2020.

Youth Link Scotland (2005) Statement on the Nature and Purpose of Youth Work

## Atodiad A: Adolygiad Llenyddiaeth

Mae’r adran hon yn amlinellu’n fanylach yr adolygiadau llenyddiaeth a gyfrannodd at ddatblygu ein dadansoddiad. Mae’n cynnwys tair adran sy’n crynhoi:

- Yr hyn y mae’r dystiolaeth gyhoeddedig yn ei ddweud am fuddion gwaith ieuenctid fel dull o ymgysylltu â phobl ifanc.
- Modelau arfer da i werthuso dulliau darparu gwaith ieuenctid mewn partneriaeth ac asesu gwerth gwaith ieuenctid.
- Yr hyn sy’n hysbys ynghylch sut mae COVID-19 wedi effeithio ar y sector gwaith ieuenctid.

### Buddion gwaith ieuenctid

Mae’r adran hon yn amlinellu’r ymchwil sy’n cefnogi ein dealltwriaeth o fuddion gwaith ieuenctid. Mae’n mapio’r ystod o ganlyniadau posibl sy’n gysylltiedig ag ymgysylltu â phobl ifanc, cyn asesu’r sylfaen dystiolaeth yn feirniadol. Daw’r adran i ben trwy amlinellu bylchau yn ein dealltwriaeth.

*Deall yr effaith*

Mae manteision posibl gwaith ieuenctid yn glir. Gwyddom, er enghraifft, fod y bobl hynny sydd ag ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned neu grŵp yn tueddu i fod yn hapusach ac yn iachach na’r rhai nad ydynt. Mae cymunedau sy’n weithgar ac yn ymgysylltu yn tueddu i fod yn fwy diogel ac yn fwy ffyniannus yn economaidd. Rydym hefyd yn gwybod y gall lles perthynas – sef y berthynas a’r cysylltiadau y mae gweithwyr ieuenctid yn eu ffurfio â phobl ifanc – fod yn effeithiol wrth gefnogi newid a datblygiad (Jeffs a Smith, 2010). Awgryma ymchwil pellach y gall y berthynas hon fod yn fwy effeithiol na mathau eraill o gefnogaeth ffurfiol, gan gynnwys mentora (Hirsch, 2005).

Ystyriaeth allweddol wrth ddeall effaith yw’r amrywiaeth mawr o ddulliau gwaith ieuenctid sydd ar waith ledled Cymru ac yn rhyngwladol. Mae cryn amrywiad, er enghraifft, yn yr union amcanion, lleoliadau, dulliau ymgysylltu, poblogaethau, cynnwys, ac yn y cysyniadau a’r damcaniaethau sylfaenol sy’n fframio ac yn llywio gwasanaethau a chefnogaeth gwaith ieuenctid (Davies & Batsleer, 2010).

Mae'r amrywiaeth hon yn deillio, yn rhannol, o'r traddodiadau cyferbyniol sydd wedi cyfrannu'n barhaol at y ffyrdd rydyn ni'n meddwl am bobl ifanc, ac yn eu cefnogi. Tarddiad gwaith ieuenctid ei hun yw clytwaith o grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol a oedd oll yn ceisio meithrin cysylltiad, perthynas ac ymdeimlad o gymuned ymhlith pobl ifanc (Davies, 1999). Er bod union ffurf, amcanion a chyllid sefydliadau gwaith ieuenctid wedi newid dros amser, mae'r amrywiaeth mawr yn parhau hyd heddiw yn eu dulliau penodol o weithio ar draws gwaith ieuenctid (Baldridge, 2020).

Un ffordd o wneud synnwyr o'r heterogenedd sylweddol ledled gwaith ieuenctid yw ei ystyried ar hyd continwwm sydd â dulliau cymunedol cyffredinol ar un pen y sbectrwm, ac ar y pen arall ceir cefnogaeth sydd wedi'i thargedu'n fwy ac sydd wedi'i hanelu at grwpiau o bobl ifanc yn ymwneud â materion penodol:

Dulliau cyffredinol ↔ Dulliau wedi'u targedu

**Teipoleg gwaith ieuenctid, addaswyd o Dunne et al. (2014)**

Mae dulliau cyffredinol yn cynnwys arferion a chefnogaeth sydd ar gael yn agored i bob plentyn ac oedolyn ifanc mewn cymuned. Nid yw pwrpas datganedig y gefnogaeth o reidrwydd wedi'i bennu ymlaen llaw nac wedi'i anelu at fynd i'r afael â materion neu broblemau penodol y mae person ifanc yn mynd drwyddynt. Y mecanwaith allweddol ar gyfer cefnogi newid ar draws dulliau cyffredinol yw egwyddor lles perthynas. Mae natur wirfoddol ac agored dulliau cyffredinol yn creu lle ar gyfer deialog ac ymddiriedaeth rhwng person ifanc a gweithiwr ieuenctid. O fewn hyn, gall gweithwyr ieuenctid gefnogi person ifanc i fagu hyder a meithrin cryfderau eraill a all eu helpu i ffynnu (Smith, 2013).

Mae dulliau wedi'u targedu, ar y llaw arall, yn tueddu i ganolbwyntio ar faterion penodol sy'n wynebu person ifanc. Gall hyn gynnwys ymgysylltu ar draws ystod eang o faterion, gan gynnwys eu cefnogi i drosglwyddo'n llwyddiannus i addysg bellach neu gyflogaeth. Mae prif ddulliau'r ymgysylltu a chynnwys y ddarpariaeth yn aml yn canolbwyntio ar fagu hyder a sgiliau yr ystyrir eu bod yn bwysig i gefnogi datblygu canlyniadau cadarnhaol. Maent hefyd yn tueddu i ymgysylltu â phobl ifanc benodol yn y gymuned, gan gynnwys grwpiau 'mewn perygl' neu grwpiau sydd wedi'u 'heithrio yn gymdeithasol' (Smith, 2013).

Mewn gwirionedd, mae llawer o'r ddarpariaeth i'w gosod rywle ar hyd y continwwm. Gall darpariaeth gwaith ieuenctid cyffredinol ddarparu elfennau mynediad agored ar yr un pryd â darparu cynnwys a chefnogaeth sydd â mwy o ffocws ar faterion neu ganlyniadau penodol. Yn yr un modd, gall darpariaeth sy'n gyffredinol mewn egwyddor dargedu grwpiau penodol, p'un a yw'r targedu hwn yn ddealledig neu'n ymhlyg o fewn dull penodol. Gall ymgysylltu trwy ymyriadau wedi'u targedu fod yn llwybrau i ddarpariaeth fwy agored a chyffredinol (Smith, 2013).

*Mapio canlyniadau*

Mae canlyniadau yn ffordd ddefnyddiol o ddeall buddion gwaith ieuenctid. Penderfynir ar y canlyniadau o ddiddordeb, i raddau helaeth, gan union ffocws neu amcanion y ddarpariaeth. O fewn ac ar draws gwahanol ddulliau a lleoliadau, gall fod set penodol o ganlyniadau posibl y mae gwasanaeth neu gefnogaeth yn gweithio tuag atynt. Er y gall yr amcanion a'r ffocws amrywio ledled lleoliadau a sefydliadau gwaith ieuenctid, mae yna elfennau a thueddiadau cyffredin ar draws darpariaeth o ran y canlyniadau y maent yn anelu atynt.

Gall y rhain gynnwys canlyniadau procsimal (cychwynnol) sy'n ffocws y gefnogaeth neu gymorth yn ogystal â chanlyniadau distal (eilaidd) maes o law sy'n digwydd dros amser. Canlyniadau procsimal yn aml yw ffocws uniongyrchol cefnogaeth a gallant fod yn bwysig ynddynt eu hunain. Gallant gynnwys canlyniadau megis meithrin hyder neu godi lefelau gweithgarwch corfforol. Ystyrir canlyniadau procsimal yn aml yn ffactorau amddiffynnol a all hefyd arwain at ganlyniadau distal pwysig eraill yn y dyfodol. Gall hunanhyder, er enghraifft, fod yn ymatebol i gefnogaeth, ac mae'n rhagfynegydd pwysig o ganlyniadau distal eraill, gan gynnwys cyfranogiad a chyrhaeddiad addysgol (Kendall et al., 2008). Efallai nad yw cyrhaeddiad addysgol yn ffocws uniongyrchol i gefnogaeth ond mae'n digwydd oherwydd y twf a'r datblygiad y gallai gweithiwr ieuenctid fod wedi eu creu mewn person ifanc.

Gwahaniaeth pwysig arall wrth ddeall a mapio canlyniadau yw eu bod yn amrywio o'r canlyniadau i'r bobl ifanc eu hunain yn sgil cyfranogiad neu ymgysylltu, i fuddion ehangach sy'n cronni i'r gymuned neu'r gymdeithas ehangach. Gall canlyniadau ar lefel unigolyn hefyd gynnwys ystod amrywiol o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys canlyniadau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan unigolion ac sy'n ymwneud yn bennaf ag unigolion, megis hapusrwydd, hunan-barch a hyder. Weithiau ystyrir y rhain yn ganlyniadau meddal, neu gynhenid. Mae llawer o arferion gwaith ieuenctid ei hun yn canolbwyntio ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol pobl ifanc.

Mae gwella galluoedd personol, megis gwell hunanymwybyddiaeth, hyder a hunan-barch, gwytnwch a rheoli emosiynau, yn gallu bod yn ymatebol i gefnogaeth gan weithwyr ieuenctid, ac mae'n amcan allweddol ar draws llawer o ddarpariaeth (McNeil et al., 2012). Mae yna hefyd ystod amrywiol o ganlyniadau cyfrannol neu anghynhenid (*extrinsic*) yn gysylltiedig â gwaith ieuenctid, gan gynnwys gwell ymgysylltiad a chyflawniad addysgol, llythrennedd a rhifedd, neu well iechyd a lles. Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, mae canlyniadau cynhenid er ei fwyn ei hun a chyfrannol yn aml yn gysylltiedig, gan gynnwys dros amser. Mae plant a phobl ifanc sy'n fwy hyderus ac sydd â mwy o gymhelliant yn fwy tebygol o gymryd rhan yn yr ysgol a sicrhau canlyniadau gwell (Kendall et al., 2008).

Mae yna hefyd ganlyniadau neu fuddion ehangach ar lefel gymunedol a all ddeillio o weithgareddau gwaith ieuenctid. Gall y rhain gynnwys buddion cymunedol ehangach (canlyniadau distal) sy'n cronni yn sgil gwelliannau i ganlyniadau ar lefel unigolyn (procsimal) sef ffocws penodol menter o bosibl. Er enghraifft, os yw menter gwaith ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc yn llwyddiannus rhag troseddu, yna dros amser mae buddion ehangach yn cronni i'r gymuned gyfan. Efallai y bydd llai o achosion o droseddu a'i effeithiau emosiynol, er enghraifft, yn ogystal ag arbedion dilynol o ran cost ac amser i'r system cyfiawnder troseddol y gellir eu rhoi i faterion neu fentrau eraill.

Yn ogystal, mae canlyniadau ar lefel gymunedol yn cyfeirio at y ffyrdd y mae pobl yn ymwneud â'i gilydd. Mae cymryd rhan mewn gwaith ieuenctid yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc fod yn rhan o weithgareddau cymdeithasol adeiladol sy'n cynnig llwybr ar gyfer cyd-effeithiolrwydd ac ymgysylltu dinesig. Gall cymryd rhan gynyddu'r ymdeimlad i bawb o gysylltiad â lle ac â chymuned, gan felly ehangu cwmpas a chryfder cysylltiadau cymdeithasol mewn cymuned. Felly mae mentrau gwaith ieuenctid yn cynnig y potensial i wneud cyfraniadau ystyrlon at gwestiynau cymdeithasol dybryd megis adeiladu cydlyniant cymunedol a chael gwared ar ynysigrwydd cymdeithasol.

Mae yna hefyd ganlyniadau mwy penodol yn ymwneud â gwaith mwy targededig gyda phobl ifanc. Gall y rhain fod yn benodol i'r gweithgaredd neu'r cynnwys a wneir gyda phobl ifanc. Gall y canlyniadau gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- **Hunaneffeithiolrwydd** (*self-efficacy*): dyma gred unigolyn ei fod yn gallu cyflawni tasg benodol yn llwyddiannus. Gall ymdeimlad rhywun o'i allu ei hun ddylanwadu ar

ei farn, ei gymhelliant a'i berfformiad mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw. O ran cefnogaeth sydd â'r nod o helpu pobl ifanc i drosglwyddo i fyd gwaith, er enghraifft, gall hunaneffeithiolrwydd ddylanwadu ar y nodau a'r amcanion gyrfa y mae pobl yn eu gosod iddynt eu hunain, yr ymdrech a wnânt i ddod o hyd i waith, a'u gallu i oresgyn helbulon neu rwystrau (Kluwer et al., 2017). Po fwyaf hyderus y mae person yn ei allu ei hun, yn yr enghraifft hon, y mwyaf tebygol y bydd o gymryd camau tuag at ddod o hyd i gyflogaeth a dyfalbarhau i wneud hynny. Mae hunaneffeithiolrwydd yn rhagfynegydd pwysig o ystod o ganlyniadau, gan gynnwys ymddygiad iach, cyfranogiad addysgol a chymdeithasol, ac wrth drawsnewid yn llwyddiannus i fod yn oedolion.

- **Sgiliau neu ymddygiadau sy'n benodol a chymhwysol:** Gall hyn gynnwys ystod amrywiol o sgiliau sy'n gysylltiedig ag amcanion a ffocws cefnogaeth. Gall y rhain gynnwys ystod amrywiol o ganlyniadau procsimal a distal, gan gynnwys er enghraifft ynghylch ffyrdd iach o ymddwyn a llesiant ehangach. Gall gynnwys ystod amrywiol o sgiliau ac arbenigedd cymhwysol, o lythrennedd ariannol i atgyweirio beic.

*Adolygiadau sy'n bodoli eisoes sy'n crynhoi'r dystiolaeth*

Mae sawl adolygiad sy'n dwyn ynghyd astudiaethau ymchwil yn bodoli eisoes ac yn archwilio buddion darpariaeth gwaith ieuenctid. Gall y rhain fod yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer deall buddion gwaith ieuenctid, yn ogystal ag amlygu cryfderau a chyfyngiadau ymddangosiadol y sylfaen dystiolaeth.

Roedd McGregor (2015), er enghraifft, wedi datblygu crynodeb manwl a gafaelgar o'r dystiolaeth sy'n cefnogi dulliau gweithredu cyffredinol o wneud gwaith ieuenctid. Gan ddefnyddio dadansoddiad naratif adolygiadau presennol o'r dystiolaeth, canfu'r astudiaeth fod gwaith ieuenctid cyffredinol yn cefnogi datblygiad canlyniadau cadarnhaol ar draws ystod o feysydd. Canfu McGregor dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft, y gall gwaith ieuenctid cyffredinol gefnogi canlyniadau iechyd a lles cadarnhaol, gall wneud cyfraniad cadarnhaol at wella canlyniadau addysgol ffurfiol, a gall gael rhywfaint o effaith ar gyflogadwyedd. Gall darpariaeth gyffredinol hefyd ddarparu mannau diogel ond heriol ar gyfer datblygiad a dysgu personol a chymdeithasol.

Ceir adolygiadau ehangach hefyd a all gefnogi ein dealltwriaeth o fuddion gwaith ieuenctid. Mae adolygiadau, er enghraifft, sy'n canolbwyntio ar ddulliau mwy targededig ac ynddynt gynnwys strwythuredig a chefnogaeth i gyrraedd eu hamcanion. Canfu adolygiad systematig ar adolygiadau fod rhaglenni a ddyluniwyd i fynd i'r afael ag ymddygiadau gwrthgymdeithasol ymysg pobl ifanc yn effeithiol, er enghraifft, wrth wella rhyngweithio rhag-gymdeithasol a chanlyniadau mwy distal gan gynnwys cyfranogiad a chyrhaeddiad addysgol (Farrington et al., 2017). Yn yr un modd, mae rhaglenni cymunedol sy'n cefnogi pobl ifanc i gyflogaeth yn tueddu i wella canlyniadau pobl ifanc yn y farchnad (Kluver et al., 2017). Yn ôl adolygiad ar ddulliau cael ieuenctid i fod yn weithgar yn gymdeithasol – y rhai sy'n ceisio rhoi cyfleoedd i bobl ifanc wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eu cymunedau – mae tystiolaeth i gefnogi eu heffeithiolrwydd ar draws ystod o ganlyniadau, gan gynnwys gwell hunaneffeithiolrwydd a sgiliau cymdeithasol ac emosiynol cryfach (Barry et al., 2018).

Mae pocedi pellach o ymchwil sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo canlyniadau penodol ymhlith pobl ifanc. Mae'n bosibl y bydd yr ymchwil hwn yn tynnu sylw at rôl a photensial cefnogaeth sydd â mwy o ffocws iddo mewn lleoliadau gwaith ieuenctid. Yn ôl adolygiadau systematig gwelwyd bod cefnogaeth a ddarperir gan y gymuned ac wedi'i hanelu at bobl ifanc yn effeithiol wrth ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol (Clarke et al., 2015), wrth fynd i'r afael â gordewdra (Moores et al., 2018), wrth fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau (Das et al., 2016) ac wrth wella iechyd meddwl a lles (Ahlen et al., 2015). Nid yw hon o bell ffordd yn rhestr gynhwysfawr o adolygiadau a allai fod yn berthnasol, ond mae'n tynnu sylw at yr ystod o effeithiau posibl y gallai darpariaeth gwaith ieuenctid eu cefnogi.

*Tystiolaeth ehangach*

Mae astudiaethau unigol hefyd yn cynnig ystod o fewnwelediadau a safbwyntiau sy'n ein helpu i ddeall buddion posibl gwaith ieuenctid, yn ogystal â meysydd posibl ymarfer sy'n effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys astudiaethau unigol sydd wedi astudio dulliau gwaith ieuenctid, cyd-destunau neu gymunedau penodol. Comisiynodd YouthLink Scotland, er enghraifft, dair astudiaeth sylweddol i geisio adeiladu'r sylfaen dystiolaeth yn yr Alban. Roedd hyn yn cynnwys yr adolygiad beirniadol ar ddulliau cyffredinol a gynhaliwyd gan McGregor yn 2015, a ddaeth o hyd i dystiolaeth sy'n dal yn datblygu a hefyd bylchau a chyfyngiadau sylweddol yn ein dealltwriaeth. O ganlyniad i'r canfyddiadau, comisiynodd YouthLink Scotland astudiaethau pellach wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r bylchau a'r cyfyngiadau hyn.

Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, brosiect cydweithredol 11 mis a oedd â'r nod o ymchwilio i ganlyniadau sydd fel arfer yn deillio o waith ieuenctid mynediad agored (Fyfe et al., 2018). Gwnaed yr ymchwil mewn tair cymuned yn yr Alban a defnyddiwyd methodoleg Gwerthuso Trawsnewidiol. Mae Gwerthuso Trawsnewidiol yn cynnig methodoleg sy'n sefydlu deialog rhwng pobl ifanc, gweithwyr ieuenctid a rhanddeiliaid, ac mae'n seiliedig ar egwyddorion y fethodoleg Newid Mwyaf Arwyddocaol (Cooper, 2012).

Nodwyd bod Gwerthuso Trawsnewidiol yn fethodoleg sy'n mynd law yn llaw ag egwyddorion gwaith ieuenctid ac sy'n rhoi modd i bobl ifanc fod yn bartneriaid cyfartal i ymarferwyr ac ymchwilwyr. Yn ymarferol, mae'n cynnwys casglu straeon am waith ieuenctid ac ymarfer gwaith ieuenctid llwyddiannus a gweithio gyda phobl ifanc ac ymarferwyr i nodi themâu pwysig ac effeithiau arwyddocaol.

Canfu'r ymchwil fod gwaith ieuenctid yn chwarae rhan ganolog wrth gefnogi a meithrin datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth. Nodwyd effaith yn y meysydd thematig canlynol:

- hyder
- sgiliau oes
- yn gydradd ac wedi'u cynnwys
- cyfeillgarwch
- yn ddiogel ac yn iach
- gallu arwain a helpu eraill
- cyd-dynnu'n dda ag eraill

Yn ogystal â nodi beth yw canlyniadau gwaith ieuenctid cyffredinol, nododd yr ymchwil hefyd y mecanweithiau iddynt fedru digwydd. Cafodd y ffyrdd hyn o weithio eu grwpio i'r themâu canlynol:

- Oedolyn dibynadwy
- Darparu man i gael eu clywed
- Rhoi canmoliaeth ac anogaeth
- Cydweithio'n effeithiol ag eraill
- Ymarferwyr fel modelau rôl
- Perthynas hirdymor
- Dysgu wedi'i negodi
- Ymarfer cynhwysol

Cynhaliodd Ord et al. (2018) astudiaeth yn cymharu'n rhyngwladol gan ddefnyddio dulliau cyfranogol a gwerthuso trawsnewidiol. Casglodd yr astudiaeth adroddiadau'r bobl ifanc eu hunain am effaith gwaith ieuenctid ar eu bywydau ar draws pum gwlad yn Ewrop.

Dadansoddwyd y data yn annibynnol ac yna ei gymharu a'i gyferbynnu i chwilio am dueddiadau ar draws y gwledydd. Yn weithredol, canfu'r astudiaeth heriau cyffredin ar draws cyd-destunau wrth gydbwyso a hyrwyddo ymreolaeth a rhyddid ar y naill law, a phwysigrwydd amddiffyn a lleihau risg ar y llaw arall. Canfu'r astudiaeth hefyd fod pobl ifanc ar draws gwahanol gyd-destunau yn deall ac yn mynegi buddion gwaith ieuenctid mewn termau cyffredin, gan gynnwys 'cyfeillgarwch' a 'hyder', eu galluogi i 'uniaethu ag eraill', datblygu 'ymdeimlad o'u hunain', a gwneud y trosglwyddo trwy'r ysgol ac i gyflogaeth yn well (Ord et al., 2018).

Yn ogystal â'r adolygiad a'r gwerthusiad, comisiynodd Youth Link Scotland astudiaeth Budd Cymdeithasol o Fuddsoddi (SROI) i amcangyfrif gwerth gwaith ieuenctid ledled yr Alban. Nod y dadansoddiad oedd cyfleu buddion gwaith ieuenctid, gan gynnwys:

- dyrannu adnoddau i waith ieuenctid gan gydnabod ei wir effaith o'i gymharu ag ymyriadau cyhoeddus a gwirfoddol eraill;
- gweithwyr gwirfoddol a phroffesiynol i dderbyn adborth ar werth eu gwaith;
- cymryd camau pellach i nodi pa arferion gwaith ieuenctid penodol sy'n arwain at effaith hirdymor – er mwyn gallu gwella'r effaith yn raddol (Hall Aitken 2016, t. 4).

Ymhlith prif ganfyddiadau'r adroddiad gwelwyd bod gwaith ieuenctid yn gwneud gwahaniaeth 'mawr' i fywydau dros 450,000 o bobl yn yr Alban, sef mwy na 13% o boblogaeth yr Alban (Hall Aitken 2016, t. 3). Canfu'r astudiaeth hefyd am bob £1 o ymdrech a fuddsoddir mewn gwaith ieuenctid, ceir enillion sy'n werth o leiaf £3 a "bod cyfanswm gwerth gwaith ieuenctid yn yr Alban o bosibl yn werth o leiaf £656 miliwn – sy'n fudd o £7 am bob £1 o arian cyhoeddus (Hall Aitken 2016, t. 6). Yn arwyddocaol, dengys yr ymchwil fod gwerth edrych ar waith ieuenctid fel buddsoddiad sydd â buddion posibl i'r hirdymor.

Roedd dadansoddiad arall ar gost a budd gwaith ieuenctid yn Iwerddon wedi cymharu buddion uniongyrchol ac anuniongyrchol gwaith ieuenctid â chostau rhedeg darpariaeth a gynhelir gan y wladwriaeth (Cyngor Cenedlaethol Ieuenctid Iwerddon, 2012). Amcangyfrifodd yr astudiaeth y canlyniadau posibl sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu ar draws ystod o fesurau, gan gynnwys cyfiawnder, iechyd, lles ac addysg. Amcangyfrifodd yr astudiaeth hefyd werth economaidd gwirfoddoli a chyflogaeth â thâl, ynghyd ag effeithiau lluosydd gwario gan sefydliadau ieuenctid. Yna ystyriwyd y rhain o fewn fframwaith Dadansoddiad Cost a Budd economaidd (CBA).

Mae Dadansoddiad Cost a Budd yn dechneg gwerthuso arferion gorau er mwyn cydgrynhoi a chymharu costau a buddion sy'n digwydd ar wahanol adegau mewn termau gwerth presennol (gan ddefnyddio disgowntio priodol), gyda'r nod o ddarganfod a yw rhaglen neu brosiect yn esgor ar enillion net. Canfu'r dadansoddiad fod cymharu buddion amcangyfrifedig rhaglenni ieuenctid â'r costau i'r Trysorlys yn dangos enillion economaidd net cyffredinol o €1.21 biliwn, neu Gymhareb Cost a Budd (BCR) o 2.22:1 – am bob €1 a fuddsoddwyd, mae sefydliadau gwaith ieuenctid yn creu gwerth €2.22 o fuddion.

Mae yna astudiaethau unigol sy'n cefnogi ein dealltwriaeth o ddarpariaeth benodol. Er enghraifft, archwiliodd Rogers (2016) bersbectif athrawon a phobl ifanc tuag at ddarpariaeth gwaith ieuenctid mewn ysgolion ledled Cymru. Gan ddefnyddio nifer o offer a dulliau ymgysylltu, tynnodd yr astudiaeth ystod amrywiol o wybodaeth ynghyd, gan gynnwys barn a safbwyntiau athrawon a phobl ifanc tuag at effaith y ddarpariaeth. Canfu Rogers fod gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn cynnig cefnogaeth werthfawr i bobl ifanc ar draws amryw o feysydd. Mae'n cynnig cyswllt hanfodol rhwng pobl ifanc, teuluoedd, cymunedau ac ysgol. Gellid datblygu a sefydlu gwaith ieuenctid yn llwyddiannus mewn ysgolion heb gyfaddawdu ar foeseg broffesiynol ymgysylltu gwirfoddol.

Ymhellach, roedd ymyrraeth gynnar a'r gefnogaeth ychwanegol yr oedd gweithwyr ieuenctid yn gallu eu cynnig yn ystod cyfnodau trosglwyddo allweddol yn galluogi disgyblion bregus i barhau i ymgysylltu ag addysg, gan gynyddu lefelau presenoldeb a lleihau nifer ac amlder y gwaharddiadau. Er mai anecdotaidd ei natur yw'r astudiaeth hon, eto mae'n cynnig mewnwelediadau i sut mae partneriaethau rhwng ysgolion a gweithwyr ieuenctid a sefydliadau ieuenctid yn gweithredu, a buddion posibl cydweithredu. Nododd yr astudiaeth sawl ffactor sy'n arwain at bartneriaethau mwy effeithiol, gan gynnwys arweinyddiaeth ragweithiol a chefnogol (Rogers, 2016).

*Bylchau a chyfyngiadau yn yr ymchwil sy'n bodoli eisoes*

Er bod y sylfaen dystiolaeth yn cynnig dealltwriaeth eang i ni, mae nifer o gyfyngiadau sy'n tanseilio hyder a defnyddioldeb yr ymchwil sy'n bodoli eisoes. Canfyddiad cyson ledled yr adolygiadau ar ymchwil sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid yw maint cyfyngedig y sylfaen dystiolaeth. Ymddengys mai nifer fechan o astudiaethau sydd wedi astudio sawl maes ymarfer gwaith ieuenctid i archwilio'r cysylltiadau rhwng gweithgareddau neu ddulliau penodol a chanlyniadau (e.e. McGregor, 2015, Barry et al., 2018).

Mae hyn yn cyfrannu, yn rhannol, at nifer o fylchau yn ein dealltwriaeth. Tuedda astudiaethau presennol i ganolbwyntio ar archwilio buddion tymor byr a ddaw yn sgil pobl ifanc yn ymgysylltu er enghraifft. Ledled y ddarpariaeth gwaith ieuenctid gyffredinol a darpariaeth wedi'i thargedu, mae bylchau sylweddol ar effaith tymor canolig a thymor hir y ddarpariaeth.

Dywed Barry et al. (2018), er enghraifft, y gall cyfyngiadau yn y sylfaen dystiolaeth a phrinder ymchwil hydredol gyfyngu ar honiadau rhai dulliau gwaith ieuenctid o hyrwyddo canlyniadau distal yn effeithiol, gan gynnwys cyfranogiad a chyrhaeddiad addysgol. Mae diffyg ymchwil hydredol hefyd yn cyfyngu ar ein gallu i archwilio'r cysylltiadau rhwng buddion a chostau. Prin yw'r astudiaethau ymchwil sy'n rhoi gwybodaeth sy'n cymharu costau gwasanaeth neu raglen ag amcangyfrifon o unrhyw arbedion cost neu effeithiau economaidd dilynol (Cyngor Cenedlaethol Ieuenctid Iwerddon, 2012).

Mae bylchau sylweddol hefyd o ran deall pa ddulliau a methodau ymgysylltu yw'r rhai mwyaf addas ac effeithiol ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl ifanc (e.e. Clarke et al., 2015). Mae hyn yn creu ansicrwydd ynghylch effeithiau tegwch rhai darpariaeth gwaith ieuenctid, yn ogystal â thanseilio gallu rhai dulliau i ddangos a chyfathrebu, y tu hwnt i dystiolaeth anecdotaidd, bod darpariaeth yn cefnogi pob grŵp o bobl ifanc yn llwyddiannus, gan gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed.

Cyfyngiad arall sy'n codi'n gyson mewn adolygiadau yw ansawdd yr astudiaethau sy'n ffurfio'r sylfaen dystiolaeth. Soniodd McGregor (2015), er enghraifft, fod ymchwil ar ddulliau cyffredinol yn bennaf yn cynnwys astudiaethau achos ansoddol neu ymchwil trawsdoriadol yn bennaf. Er eu bod yn cynnig dealltwriaethau pwysig a gwerthfawr, mae'r dulliau hyn yn gyfyngedig yn eu gallu i ddatgysylltu a deall buddion cefnogaeth yn gywir. Mae'r samplau ymddangosiadol fach mewn llawer o astudiaethau yn tanseilio pa mor fanwl gywir y gall astudiaethau bennu'r buddion, gan gynnwys er enghraifft ar draws gwahanol grwpiau o bobl ifanc. Canfu Clarke et al. (2015) hefyd ffocws cryf ar ymchwil sy'n canolbwyntio ar brosesau a oedd yn tueddu i gofnodi allbynnau gwasanaethau yn hytrach na chanlyniadau. Argymhellodd yr adolygiad y dylid defnyddio mwy ar grwpiau rheoli, defnyddio mesurau canlyniadau sy'n safonol a chymaradwy a chael samplau mwy o faint o bobl ifanc.

Er mwyn bod yn gywir wrth bennu buddion dulliau neu ddarpariaeth benodol, rhaid i ymchwil fod yn sensitif i'r cysylltiadau rhwng yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni (amcanion), y ffyrdd y mae'n ymgysylltu â phobl ifanc ac yn eu cefnogi (gweithgareddau), a'r newid y mae'n dymuno ei sicrhau (canlyniadau). Dangosodd ein darlleniad o lenyddiaeth ar waith ieuenctid fod diffyg eglurder yn aml ynghylch union amcanion a chyfansoddiad llawer o'r gweithgaredd sy'n destun ymchwiliad. Mewn rhai achosion, mae hyn yn ymestyn i ddiffyg cydlyniant rhwng gweithgareddau, y canlyniadau a astudiwyd, a'r honiadau wedi'u cyffredinoli am effeithiolrwydd. Gyda'i gilydd, mae hyn yn cyfyngu ar allu gwaith ieuenctid i ddiffinio natur eu cyfraniad at agendâu polisi a blaenoriaethau cyllido.

Mae sylw arall sy'n codi o'n darlleniad ar y sylfaen dystiolaeth yn ymwneud â'r safonau adrodd, gan gynnwys allbynnau academaidd a chymhwysol. Mae allbynnau ymchwil, gan gynnwys papurau ac adroddiadau, yn allweddol i gefnogi dysgu a lledaenu ymchwil. Gwelwyd bod y safonau adrodd ar draws llawer o'r sylfaen dystiolaeth yn gyffredinol wael. Nid oedd llawer o astudiaethau wedi hyd yn oed rhoi gwybodaeth gyd-destunol sylfaenol, gan gynnwys union ddemograffeg y bobl ifanc oedd yn rhan o'r ymchwiliad. Ychydig o astudiaethau a roddodd amlinelliad o'u modelau rhesymeg, theorïau newid, neu gysyniadau a damcaniaethau ehangach a oedd yn sail i ddulliau gweithredu neu ffyrdd o roi cefnogaeth. Yn aml, prin iawn oedd yr wybodaeth a geid yn yr adroddiad am ffocws y gefnogaeth, ei chynnwys a sut y cafodd ei rhoi, gan gynnwys prosesau atgyfeirio a faint o gefnogaeth a roddwyd.

Mae deall ffactorau fel cymwysterau a phrofiad y gweithwyr ieuenctid sy'n rhoi'r gefnogaeth yr ymchwilir iddi, er enghraifft, yn bwysig wrth ddeall goblygiadau ac addasrwydd y dull i sefydliadau eraill. Ymhlith y meysydd eraill lle gellid gwella safonau adrodd mae mwy o wybodaeth am ddyluniad yr astudiaeth a mwy o drafodaeth ar gyfyngiadau cynhenid a'u dylanwad posibl ar y canfyddiadau. Gall adrodd gwael gyfyngu ar y gallu i ddyblygu ymchwil, ac yn bwysig gall gyfyngu ar ddeall pa mor gyffredin yw'r materion dan sylw a pha mor ddefnyddiol ydynt i'r sector cyfan.

Ynghyd â safonau adrodd, mae ystyriaeth yn codi ynghylch sut y disgrifir gwaith ieuenctid yn yr ymchwil. Mae'r mater hwn yn cysylltu â'r ffaith bod natur a phwrpas gwaith ieuenctid yn hanesyddol amrywiol ac yn destun sawl diffiniad gweithio amrywiol (McGregor, 2015). Er enghraifft, nid yw llawer o ymarfer gwaith ieuenctid o reidrwydd wedi'i ddiffinio felly. Mae 'datblygiad ieuenctid sy'n gadarnhaol', 'gwasanaethau ieuenctid', 'allgymorth', 'cyfleoedd

ieuenctid' a 'rhaglenni cymunedol' i gyd wedi'u defnyddio i ddisgrifio dulliau y gellid eu hystyried yn waith ieuenctid. Mae diffyg geirfa gyson ar draws amser ac mewn mannau gwahanol yn ei dro yn creu anawsterau wrth adnabod ymchwil sy'n archwilio buddion a chanlyniadau gwaith ieuenctid (Dickson et al., 2013).

*Goblygiadau a chyfeiriad ymchwil i'r dyfodol*

Mae cryn dystiolaeth sy'n cynyddu yn nodi bod datblygu'r galluoedd cymdeithasol ac emosiynol sy'n dylanwadu ar newid personol yn cefnogi sicrhau canlyniadau bywyd cadarnhaol, gan gynnwys cyrhaeddiad addysgol, cyflogaeth ac iechyd. Awgryma tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg y gall dulliau sy'n canolbwyntio ar adeiladu galluoedd cymdeithasol ac emosiynol arwain at effeithiau eraill yn y tymor hirach na'r dulliau hynny sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar geisio lleihau symptomau canlyniadau gwael i bobl ifanc.

Mae nifer o oblygiadau posibl i waith ieuenctid yn codi o ymchwil sy'n bodoli eisoes. Mae hyn yn cynnwys cefnogi adnabod egwyddorion ac arferion effeithiol posibl a all lywio cynllunio a chynnal darpariaeth ar draws gwahanol leoliadau a chymunedau. Yn seiliedig ar eu hadolygiad o'r dystiolaeth, er enghraifft, nododd Dunne et al. (2014) ffactorau a allai gefnogi canlyniadau cadarnhaol ar draws y ddarpariaeth, gan gynnwys:

- Ffactorau sy'n adlewyrchu dull gweithredu ac athroniaeth sy'n seiliedig ar werth gwaith ieuenctid, y gellir eu galw hefyd yn 'agweddau'.
- Ffactorau sy'n adlewyrchu sylfaen wybodaeth, trefniadaeth a dull strategol a thactegol gwaith ieuenctid, y gellir eu galw'n 'methodau'.

Mae'r agweddau yn cynnwys ymrwymiad gweithwyr ieuenctid i ddatblygiad unigol a budd pennaf pobl ifanc, a'u hawl i gymryd rhan mewn cymdeithas. O'r safbwynt hwn, gall gwahanol agweddau a gwerthoedd rhwng gweithiwr ieuenctid a pherson ifanc greu rhwystrau i lwyddiant gwaith ieuenctid. Ymddengys bod ymgysylltu â phobl ifanc fel partneriaid cyfartal a chael eu budd pennaf yn flaenoriaeth yn nodwedd hanfodol ym mwyafrif y mentrau gwaith ieuenctid llwyddiannus ar draws astudiaethau.

Mae methodau yn cynnwys elfennau o ddulliau proffesiynol o wneud gwaith ieuenctid. Gall hyn gynnwys methodau a gweithgareddau ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc, y gallu i sicrhau'r cydbwysedd rhwng cefnogaeth ac annibyniaeth, gallu gweithiwr ieuenctid i feithrin perthynas gynaliadwy, a darparu fframweithiau a chyfleoedd ar gyfer gosod nodau a

chyfleoedd dysgu. Cyflwynwyd ffordd arall o ddeall y ffactorau sy'n cyfrannu at waith ieuenctid effeithiol gan Williamson (2008). Nododd bump o feini prawf ar gyfer cefnogi pobl ifanc yn effeithiol, gan gynnwys:

- Perthynas gweithwyr ieuenctid â phobl ifanc, a chyswllt agos â hwy;
- Cynaliadwyedd a phartneriaethau â gweithredwyr eraill (e.e. addysg ffurfiol, gwaith cymdeithasol);
- Galluogi pobl ifanc i brofi bywyd, i wneud camgymeriadau ac i gymryd rhan gyda'u cyfoedion mewn gweithgareddau amser hamdden;
- 'Sefyll ar eu traed eu hunain': gadael i bobl ifanc arwain eu dysg a'u datblygiad eu hunain a chael annibyniaeth;
- Ymrwymiad gan bobl ifanc, gweithwyr ieuenctid a'r gymuned.

O'r safbwynt hwn, mae llwybrau llwyddiannus mewn ymarfer gwaith ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc drwy gefnogaeth ac arweiniad hyd at annibyniaeth a hunanddibyniaeth (Williamson, 2008).

Mae'r themâu a gyflwynwyd gan Dunne et al. (2014) a Williamson (2008) yn cael eu hailadrodd ar draws y llenyddiaeth. Ymddengys fod ymchwil yn gyson yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu hir a sefydlog dros amser, gan nodi pa mor ganolog yw'r berthynas wirfoddol rhwng pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid; pwysigrwydd ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar brofiadau byw pobl ifanc; a darparu cyfleoedd strwythuredig i ddatrys problemau ac adfyfyrio ar y profiad byw hwnnw er mwyn chwilio am atebion posibl.

Er bod cynnwys a natur y gefnogaeth yn bwysig wrth lunio profiadau a chanlyniadau, gall ffactorau eraill ddylanwadu ar effeithiolrwydd darpariaeth gwaith ieuenctid. Mae'r ffyrdd y mae cefnogaeth yn cael ei threfnu, y systemau sy'n cefnogi gweithwyr ieuenctid, ac ymwybyddiaeth gweithwyr ieuenctid eu hunain oll yn cyfrannu at effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Gall dull neu raglen sydd wedi'i gweithredu'n dda nad yw'n seiliedig ar dystiolaeth fod yn fwy effeithiol na rhaglen sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi'i gweithredu'n wael (Fraser et al., 2009). Awgryma hyn fod ffactorau ehangach ar waith sy'n cyfrannu at lwyddiant rhaglen heblaw natur a ffocws y ddarpariaeth.

Pan fo bylchau yn ein gwybodaeth, mae'r rhain yn fwyaf amlwg wrth ddeall i ba raddau y caiff effeithiau posibl darpariaeth benodol eu trosi'n ganlyniadau gwirioneddol. Mae

darpariaeth gwaith ieuenctid ei hun yn strategaeth newid sydd, trwy ymgysylltu â phobl ifanc, yn ceisio cyflawni rhai amcanion a chanlyniadau. Ar draws gwaith ieuenctid mae union amcanion, dulliau ymgysylltu a chynnwys y gefnogaeth yn niferus ac yn amrywiol. Fodd bynnag, prin yw'r ymchwil sy'n nodi ac yn esbonio'n gywir y newid a ddaw yn sgil dulliau ac arferion penodol a ddefnyddir mewn lleoliadau gwaith ieuenctid. Mae hyn yn arbennig o amlwg wrth ddeall buddion darpariaeth i'r tymor hirach (McGregor, 2015). At ei gilydd, mae ehangder, cwmpas ac ansawdd cyfyngedig llawer o'r sylfaen dystiolaeth yn cyflwyno nifer o heriau wrth ddeall a chyfleu buddion gwaith ieuenctid.

Nid yw absenoldeb tystiolaeth yn awgrymu nad yw rhai dulliau yn effeithiol nac o bosibl yn fuddiol. Fodd bynnag, mae absenoldeb corff cadarn o ymchwil yn cyfyngu ar yr honiadau y gellir eu gwneud am fuddion dull penodol. Mae deall ac ymchwilio i'r newid a ddaw yn sgil gwaith ieuenctid yn werthfawr. Gall gefnogi adnabod a chydnabod arfer da a gall helpu i adeiladu cefnogaeth ehangach ar gyfer darpariaeth gwaith ieuenctid a rhoi hyder ynddo. Yn bwysig, gall arwain at ddarpariaeth fwy sensitif, gan nodi a darparu'r gefnogaeth a fyddai fwyaf addas ac effeithiol ar gyfer gwahanol bobl ifanc sy'n ymgysylltu â gweithwyr ieuenctid (Fraser, 2009). Byddai comisiynu ymchwil bellach yn y maes hwn yn rhoi sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer datblygu model darparu mwy cynaliadwy ac effeithiol ar gyfer gwaith ieuenctid.

Er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau hyn yn ein dealltwriaeth, gallai ymchwil yn y dyfodol roi sylw i siwrneiau pobl ifanc y tu hwnt i'r gefnogaeth a gânt. Gallai hyn gynnwys gwella ein dealltwriaeth o sut y gall cynnal gwaith ieuenctid mewn partneriaeth â darpariaethau eraill wella canlyniadau i bobl ifanc. Byddai deall llwybrau pobl ifanc yn bwysig i gynorthwyo ymarfer gwaith ieuenctid i ymgorffori'n ddyfnach yn ecoleg y gwasanaethau sy'n ceisio cefnogi pobl ifanc. Gallai hyn gynnwys defnyddio cynlluniau astudio mwy amrywiol, gan gynnwys dulliau cymysg i werthuso prosesau a chanlyniadau. Gallai hyn gynnwys dulliau cyfranogi sy'n ennyn diddordeb pobl ifanc yn fwy gweithredol yn y broses ymchwil.

Gellid cryfhau'r sylfaen dystiolaeth drwy ymchwil mwy hydredol sy'n archwilio'r berthynas rhwng cefnogaeth a chanlyniadau tymor hwy, megis ymgysylltu addysgol a chyrhaeddiad addysgol. Gellid gwneud mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol, gan gynnwys setiau data arbrofol sy'n cyfuno gwybodaeth ledled amryw o feysydd, gan gynnwys canlyniadau addysg a chyflogaeth. O ran gwaith ieuenctid mewn ysgolion, gallai data gweinyddol ar lefel ysgol hefyd gefnogi dadansoddiadau mewn clystyrau.

Gallai ymchwil yn y dyfodol hefyd elwa o geisio archwilio i ba raddau y mae dulliau gwaith ieuenctid yn sicrhau newid yn annibynnol ar ffactorau eraill ym mywyd person ifanc. Byddai hyn angen ymchwil sy'n sensitif i sefyllfaoedd gwrthffeithiol posibl, gan gynnwys dyluniadau arbrofol a lled-arbrofol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio naill ai rheolyddion ystadegol, neu drwy bennu ar hap ar lefel yr unigolyn (Hap-dreialon wedi'u Rheoli) neu'n fwy priodol ar lefel y lleoliad (Hap-dreialon Clwstwr wedi'u Rheoli).

**Modelau Arfer Da**

Mae'r adran hon yn sôn am ddulliau posibl a modelau arfer da ar gyfer gwerthuso dulliau gwneud gwaith ieuenctid mewn partneriaeth. Mae'n mynd ymlaen i drafod tueddiadau a dulliau asesu gwerth gwaith ieuenctid.

**Gwerthuso Dulliau Gweithio mewn Partneriaeth**

*Deall Dulliau Partneriaeth*

Nid yw'r syniad o weithio mewn partneriaeth a'i bwysigrwydd yn newydd. Mae gwaith gyda phobl ifanc a chymunedau bob amser wedi cynnwys rhywfaint o gydweithio rhwng gwahanol sefydliadau a grwpiau cymunedol. Sylweddolir fwyfwy fod cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth yn llwybr ymarferol a gwerthfawr i sicrhau bod y gefnogaeth a gynigir i bobl ifanc yn gydlynol ac yn effeithiol (Harrison, 2016). Mae hyn yn cael ei ystyried yn arbennig o bwysig yn y gefnogaeth a gynigir i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, yn enwedig o ran diogelu, ond hefyd mewn cydweithrediad rhwng ysgolion a sefydliadau gwaith ieuenctid. Roedd Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru 2014–2018 ei hun wedi amlygu pwysigrwydd partneriaeth a chydweithio rhwng gwahanol sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifanc, gan gynnwys cryfhau'r berthynas strategol rhwng sefydliadau gwaith ieuenctid ac addysg ffurfiol.

Gellir defnyddio'r term partneriaethau i ddisgrifio ystod eang o drefniadau sefydliadol a ffyrdd o weithio, o rwydweithio anffurfiol rhwng unigolion ar draws sefydliadau a mudiadau, i drefniadau a strwythurau partneriaeth mwy ffurfiol. Datblygodd Himmelman (1996) un ffordd o ddeall yr amrywiad yn y trefniadau yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth. O'r safbwynt hwn, mae gweithio mewn partneriaeth yn seiliedig ar berthynas, ymrwymiad, ac ar

rannu diddordebau ac amcanion. Roedd Himmelman o’r farn fod partneriaethau’n gweithredu ar hyd continwwm:

| Rhwydweithio | Cydlynu | Cydweithio | Cydweithredu |
|---|---|---|---|
| | | | Gwella capasiti ei gilydd er budd y naill a’r llall |
| | | Rhannu adnoddau | Rhannu adnoddau |
| | Addasu gweithgareddau/ffyrdd o weithio er mwyn cyflawni pwrpas cyffredin | Addasu gweithgareddau/ffyrdd o weithio er mwyn cyflawni pwrpas cyffredin | Addasu gweithgareddau/ffyrdd o weithio er mwyn cyflawni pwrpas cyffredin |
| Cyfnewid gwybodaeth er budd ei gilydd | Cyfnewid gwybodaeth er budd ei gilydd | Cyfnewid gwybodaeth er budd ei gilydd | Cyfnewid gwybodaeth er budd ei gilydd |

**Lefelau partneriaeth, addaswyd o Himmelman, 1996**

Rhwydweithio yw lefel mwyaf anffurfiol gweithio mewn partneriaeth ac mae’n cynnwys cyfnewid gwybodaeth er budd pawb. Mae hyn yn gofyn am ychydig o ymddiriedaeth a pharodrwydd i rannu gwybodaeth, a’r cysylltiadau wedi’u gwneud fel arfer yn anffurfiol rhwng pobl unigol yn hytrach na rhwng sefydliadau. Mae Himmelman yn tynnu sylw at bwysigrwydd y cyswllt person-i-berson hwn wrth rwydweithio, gan nodi ei bod yn amlwg yn fwy defnyddiol cael person i gysylltu â nhw i gael y wybodaeth ofynnol a chael deialog barhaus, yn ôl yr angen, sydd o fudd i’r ddwy ochr (Himmelman 1996, t. 27).

Mae cydlynu a chydgysylltu (*coordination*) yn mynd gam ymhellach. Yn ogystal â chyfnewid gwybodaeth er budd pawb, mae’r partneriaid yn cytuno i addasu eu gweithgareddau neu ffyrdd o weithio er mwyn cyflawni pwrpas cyffredin. Gall cydlynu helpu i fynd i’r afael â phroblemau gwasanaethau yn bod yn ddarniog, yn gorgyffwrdd ac yn dyblygu ei gilydd. Mae cydweithio (*cooperation*) yn symud y bartneriaeth yn ei blaen. Yn ogystal â chyfnewid gwybodaeth a chydlynu gweithgareddau er budd pawb ac er mwyn cyflawni pwrpas cyffredin, gallai sefydliadau rannu adnoddau – gan gynnwys arian, staff ac adeiladau.

Ar lefel y cydweithredu (*collaboration*), mae partneriaethau yn ceisio gwella capasiti ei gilydd. Ar y lefel hon, mae pob person neu sefydliad yn gweithio i helpu eu partneriaid i ddod yn well yn yr hyn maen nhw’n ei wneud. Yn gyffredinol, ystyrir bod meddwl am anghenion ac amcanion sefydliadau eraill ac ymateb iddynt yn arwydd o aeddfedrwydd mewn partneriaeth.

Awgryma Himmelman (1996) y gallai unrhyw un o'r pedair lefel o bartneriaeth fod yn briodol mewn gwahanol amgylchiadau. Mae'n cynnig tri ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar y penderfyniad i weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys amser (faint sydd ar gael), ymddiriedaeth (pa mor dda y mae'r bobl berthnasol yn adnabod ac yn ymddiried yn ei gilydd) a'r diriogaeth (pa mor fawr yw'r potensial i frwydro dros diriogaeth, yn seiliedig ar wahanol werthoedd a dibenion, parodrwydd i rannu pŵer, gwahaniaethau diwylliannol, ac ati).

*<u>Heriau yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth</u>*
Fodd bynnag, mae yna heriau sefydliadol a logistaidd sylweddol i weithio mewn partneriaeth yn effeithiol. Mae ymchwil wedi amlygu nifer o rwystrau neu heriau sy'n wynebu llawer o bartneriaethau sy'n cefnogi pobl ifanc.

*Gwahaniaethau ar draws sefydliadau:* Efallai fod gan wahanol sefydliadau amcanion, gwerthoedd a diwylliannau gwahanol. Bydd rhai o'r rhain yn cael eu datgan yn agored, gall eraill fod yn fwy cynnil neu gudd. Gall gwahaniaethau arwain at anghytuno ynghylch yr hyn y dylai'r bartneriaeth fod yn anelu at ei gyflawni, sut beth yw llwyddiant, a sut y gellir cael tystiolaeth ohono a'i werthuso. Yr hyn sy'n allweddol i sefydliadau sy'n cefnogi pobl ifanc yw y gallent fod yn gweithio o fewn gwahanol fframweithiau deddfwriaethol sy'n diffinio eu pwerau, eu dyletswyddau, a'r targedau a'r canlyniadau y mae disgwyl iddynt eu cyflawni (Harrison, 2016).

*Atebolrwydd:* Gall prosesau atebolrwydd fod yn arbennig o gymhleth wrth weithio mewn partneriaeth. Efallai y bydd gan wahanol sefydliadau o fewn partneriaeth wahanol raddau o ymreolaeth a disgresiwn yn y gweithgareddau y gallant eu cyflawni. Gall hyn gyfyngu ar faint o ymgysylltu y gall rhai partneriaid ei wneud, neu'r cyflymder y gallant weithredu ar ran y bartneriaeth (Huxham, 1996).

*Gwahaniaethau mewn diwylliant*: Mae gan wahanol grwpiau proffesiynol wahanol ffyrdd o weithio hefyd – gan gynnwys ffyrdd y maent yn ystyried pobl ifanc ac yn ymwneud â nhw. Gall hyn gynnwys yr iaith ymarfer y mae gwahanol grwpiau yn ei defnyddio i gyfathrebu â'i gilydd, yn ogystal â'r ffyrdd y maent yn ymgysylltu â phobl ifanc. Efallai y bydd gan rai gweithwyr proffesiynol syniadau neu farn ragdybiedig am broffesiynau eraill, a all fod yn rhwystr i gyfathrebu (Harrison et al., 2003).

Mae ymchwil ansoddol hefyd yn awgrymu bod gwahaniaethau ideolegol a hunaniaethau proffesiynol sydd wedi'u hen sefydlu yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol i weithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus, yn enwedig os yw am fod yn bartneriaeth hafal (e.e. Deuchar & Ellis, 2013).

*Costau partneriaeth*: Er y gallai fod arbedion ariannol o bartneriaeth, gall fod costau ychwanegol hefyd. Mae angen adnoddau ac ymdrechion parhaus i sefydlu, datblygu a chynnal partneriaethau, p'un a yw'r adnoddau hyn ar ffurf arian, amser, sgiliau, cyfleusterau neu offer. Mae rhwydweithio a meithrin perthynas yn mynd ag amser, er enghraifft. Bydd capasiti ac adnoddau gwahanol gan sefydliadau gwahanol sydd am fynd i bartneriaeth. Gall y mathau hyn o bwysau fod yn gymhellion cryf i beidio â chydweithredu (Chauhan, 2007).

*Gwrthdaro a gwahaniaethau mewn pŵer*: Mae trafodaethau ynghylch gwerth gweithio mewn partneriaeth yn aml yn pwysleisio rhannu, cydweithredu a chydweithio. Fodd bynnag, gall partneriaethau hefyd gynnwys gwrthdaro ac ymrafael am bŵer – yn enwedig pan fo gwahaniaethau sylweddol ym maint y partneriaid, yr adnoddau sydd ganddynt a'u diwylliant. Mae Gilchrist (2007) yn dangos y gallai rhai asiantaethau neu sefydliadau fod â mwy o reolaeth dros bartneriaeth. Gall yr hyn sy'n ymddangos yn gonsensws, mewn gwirionedd, adlewyrchu goruchafiaeth yr asiantaeth fwyaf pwerus. I Balloch a Taylor (2001), ystyriaethau yn ymwneud â phŵer yw'r her fwyaf ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol.

*<u>Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth</u>*

Er gwaethaf yr heriau, caiff gweithio mewn partneriaeth ei ystyried yn werthfawr wrth wella'r gefnogaeth a gynigir i bobl ifanc. Mewn gwaith ieuenctid, ystyrir bod partneriaethau'n bwysig i sicrhau bod y gefnogaeth a gynigir i bobl ifanc o'r ystod o sefydliadau sy'n gweithio mewn cymuned yn gydlynol ac yn effeithiol. Mae Dunne et al. (2014), er enghraifft, yn nodi bod partneriaethau rhwng sefydliadau gwaith ieuenctid a grwpiau a sefydliadau eraill, gan gynnwys ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, y cyfryngau, yr heddlu, a'r gymuned leol, yn ffactorau allweddol sy'n sail i ymarfer gwaith ieuenctid llwyddiannus ar draws Ewrop. Canfu ymchwil ehangach o Unol Daleithiau America fod sefydliadau cymunedol sydd mewn partneriaethau effeithiol a mwy ffurfiol yn gallu cael gafael ar fwy o grantiau a chynnig mwy o gefnogaeth (Rieker, 2011).

O ran annog a hwyluso gweithio mewn partneriaeth, mae amryw o drefniadau ymarferol a sefydliadol yn cael eu defnyddio'n rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys y sefydliadau sy'n rhan o drefnu a chefnogi partneriaethau, a'r disgwyliadau a roddir arnynt.

*Yr Alban*

Yn yr Alban, rhoddir cyllid i awdurdodau lleol i reoli a llywodraethu gwaith ieuenctid, ond cânt gymorth i wneud hynny gan YouthLink Scotland. Maent yn cefnogi'r sectorau gwirfoddol a statudol i wneud gwaith ieuenctid, gan roi cymorth, cyngor a rheoli rhaglenni a chyllid i sefydliadau gwaith ieuenctid. Mae ei rôl yn cynnwys casglu gwybodaeth a data, cefnogi rhwydweithio a rhannu arfer gorau ar gyfer sefydliadau gwaith ieuenctid ar draws y ddarpariaeth statudol a gwirfoddol. Ariennir YouthLink Scotland yn uniongyrchol gan Lywodraeth yr Alban ond mae'n denu cyllid ychwanegol o ffynonellau eraill i gefnogi ei waith (Fowler et al., 2015). Mae ei berfformiad cyffredinol wedi'i gysylltu â chanlyniadau ar fframwaith perfformiad cenedlaethol yr Alban.

*Y Ffindir*

Mae gwaith ieuenctid yn y Ffindir wedi'i gyllido'n dda iawn, ac felly yn ei gwneud hi'n anodd cymharu â darpariaethau mewn gwledydd eraill. Mae'n cael tua 14 gwaith yn fwy o arian y pen nag y mae gwaith ieuenctid yn ei gael yng Nghymru, gyda chyllid sylweddol o ffynonellau bwrdeistrefi (sy'n cyfateb i awdurdodau lleol yng Nghymru). Fel model, mae wedi symud tuag at ddull gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n cysylltu cyllid â chanlyniadau sydd wedi'u diffinio'n glir yn ymwneud â chyflogaeth ac addysg (Williamson 2015). Nod y dull yw sicrhau cydweithredu agos rhwng gwaith ieuenctid cyffredinol mynediad agored a gwaith ieuenctid wedi'i dargedu, gan weld mynediad agored fel dull o ymgysylltu ac arwain at gefnogaeth wedi'i thargedu'n well i'r rhai mwyaf anghenus (Fowler et al. 2015). Mae'n ceisio lleihau'r stigma a all ddod yn amlwg pan fydd polisi ac arfer gwaith ieuenctid yn agored i rai 'mathau' o bobl ifanc yn unig.

*Yr Almaen*

Mae gwaith ieuenctid yn yr Almaen yn cael ei lywodraethu'n bennaf ar lefel 'Lande' (taleithiau) (Fowler et al., 2015). Mae'r sail statudol ar gyfer gwaith plant a phobl ifanc yn sefydlu bod gwaith ieuenctid yn berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc, nid i bobl ifanc sydd dan anfantais gymdeithasol yn unig. Fodd bynnag, mae gwaith ieuenctid yn yr Almaen hefyd wedi dioddef toriadau sylweddol i'w gyllid ac mae wedi symud tuag at fathau mwy penodol o gefnogaeth i bobl ifanc. Nid oes unrhyw weithio mewn partneriaeth arbennig o

agos rhwng darpariaeth wirfoddol a darpariaeth fwrdeistrefol yn yr Almaen (Fowler et al., 2015). Mae gwaith ieuenctid wedi'i ddarparu gan fwrdeistrefi fel arfer yn atodol i ddarpariaeth addysgol, tra mai gwirfoddolwyr sydd fel arfer yn gwneud gwaith ieuenctid mewn clwb, yn gysylltiedig â gweithgareddau neu gystadlaethau penodol.

*Yr Iseldiroedd*

Yn yr Iseldiroedd, mae gwaith ieuenctid yn cael ei gydlynu yn genedlaethol, ond mae'r cyfrifoldeb wedi'i ddatganoli i lywodraeth ranbarthol a lleol, gyda phob bwrdeistref yn llunio polisi ieuenctid ac yn darparu cyllid (Fowler et al., 2015). Ar lefel genedlaethol, mae gweithgareddau'n cynnwys casglu data, rhwydweithio a rhannu arfer da. Er 2010, mae gwaith ieuenctid wedi symud i ffwrdd o ganolbwyntio ar broblem (sef canolbwyntio ar ymddygiadau problemus penodol) i fabwysiadu dull 'lles' ond mae'n parhau i ganolbwyntio i raddau helaeth ar bobl ifanc yr ystyrir eu bod 'mewn perygl'.

*Gwerthuso dulliau gweithio mewn partneriaeth*

Mae deall effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth a nodi elfennau y gellid eu gwella yn gwestiwn pwysig. Mae ystod eang o offer ymarferol, modelau, fframweithiau ac adnoddau ar gael i helpu i arwain y broses o werthuso trefniadau partneriaeth. Fodd bynnag, mae gweithio mewn partneriaeth yn cwmpasu ystod eang o ymarfer proffesiynol a threfniadau sefydliadol sy'n golygu na all fod un glasbrint nac un dull penodol. Yn fras, ar draws gwahanol offer a fframweithiau mae tair elfen arwyddocaol sy'n bwysig o ran deall effeithiolrwydd partneriaeth:

- **Perthynas** – y math o gysylltiadau rhwng sefydliadau sy'n ffurfio partneriaeth, ynghyd â chryfder ac aeddfedrwydd y cysylltiadau hynny. Gallai hyn gynnwys archwilio i ba raddau y mae partneriaeth yn anffurfiol neu'n ffurfiol. Tuedda'r dulliau hyn i edrych ar agweddau mwy ansoddol megis nodi amcanion cyffredin neu rwystrau canfyddedig i'r bartneriaeth.
- **Prosesau** a gweithdrefnau sydd o gwmpas y bartneriaeth, gan gynnwys unrhyw strwythurau llywodraethu, cylch gorchwyl, cydlynu a darparu cefnogaeth a gynigir trwy'r bartneriaeth. Mae'r dull hwn yn fwy perthnasol i drefniadau partneriaeth mwy ffurfiol.
- **Canlyniadau**, gan gynnwys deall y gwahaniaeth y mae partneriaeth yn ei wneud yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys i blant a phobl ifanc. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, edrych ar brofiadau pobl ifanc a chydlyniant y gefnogaeth a ddarperir trwy bartneriaeth, yn ogystal â deall y canlyniadau ehangach y gallai'r bartneriaeth fod wedi esgor arnynt.

Ar draws y materion hyn, gall fod ystod o ddulliau a modelau posibl ar gyfer edrych ar agweddau penodol ar bartneriaeth. Mae strwythur cryf i rai dulliau sy'n cynnig offer i sefydliadau gefnogi'r broses o gasglu gwybodaeth. Er enghraifft, datblygodd Sefydliad Nuffield offeryn asesu, gan gynnwys holiadur, y gellir ei rannu gyda phartneriaid er mwyn llunio cipolwg cyflym ar bartneriaeth heb orfod buddsoddi llawer o ran amser ac adnoddau (Hardy et al., 2003).

Mae dulliau eraill yn cynnig fframweithiau eang sy'n galluogi partneriaethau i nodi ac archwilio agweddau y teimlant sy'n bwysig, gan gynnwys y canlyniadau a fwriadwyd. Gall hyn gynnwys dulliau sy'n dod â phartneriaid ynghyd i drafod a chytuno ar ganlyniadau fel sail ar gyfer pennu effeithiolrwydd y bartneriaeth (Evaluation Support Scotland, 2020). Mae'r dulliau hyn yn cynnig mwy o ddyfnder a dealltwriaeth, a gallant gefnogi datblygiad cyffredinol y bartneriaeth ei hun. Fodd bynnag, gall y dulliau hyn gymryd mwy o amser, ac i fod yn effeithiol mae angen i'r bartneriaeth gyfan fod yn ymrwymedig ac yn agored.

Bydd yr union brosesau a modelau a ddefnyddir i werthuso partneriaethau, ynghyd â ffocws unrhyw ymchwiliad, yn dibynnu ar aeddfedrwydd, maint a blaenoriaethau'r bartneriaeth. Efallai na fyddai'n briodol, er enghraifft, archwilio canlyniadau partneriaeth gymharol newydd ac anffurfiol, gan y gallai archwilio agweddau ar y berthynas a'r prosesau gweithio fod yn fwy priodol yn y tymor byr i ffurfioli trefniadau. Yn yr un modd, os yw galluoedd, adnoddau ac amser yn brin yn y bartneriaeth, yna gallai offer mwy strwythuredig fod yn fwy priodol wrth archwilio effeithiolrwydd y bartneriaeth.

Er y gall union ddull a ffocws yr ymchwiliad ddibynnu ar natur y bartneriaeth ei hun, mae yna nifer o egwyddorion ac arferion da a allai arwain at werthuso partneriaeth yn fwy gwerthfawr a threiddgar. Ystyriaeth bwysig cyn cymryd rhan mewn unrhyw asesiad yw sefydlu ei bwrpas, gan gynnwys sut y bydd yn cefnogi nodau strategol ac amcanion gweithredu'r sefydliadau dan sylw. Gallai hyn lywio ffocws a maint yr ymchwiliadau, ynghyd â rhoi cysylltiad mwy cydlynol a chlir rhwng amcanion y broses ac unrhyw ofynion gwybodaeth.

Mae yna nifer o fframweithiau, modelau, offer a chanllawiau sy'n helpu sefydliadau a phartneriaethau i asesu a chryfhau eu hymgysylltu â'i gilydd a'u cydweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys offer a ddatblygwyd ar gyfer y sector gwaith ieuenctid ei hun, a

mewnwelediadau a dulliau o sectorau eraill a allai fod yn werthfawr i sefydliadau gwaith ieuenctid. Maent hefyd yn cynnwys dulliau sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau annibynnol wneud gwaith gwerthuso, yn ogystal â dulliau sy'n dibynnu ar fewnbwn partneriaid yn unig. Mae adnoddau a fframweithiau eraill yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Fundamentals of Evaluating Partnerships
- Taking an outcomes-based approach to evaluating your partnership
- Social Network Analysis (Paywall)
- Evaluating Partnership Effectiveness (OECD)
- The Partnership Self-Assessment Tool (National Collaborating Centre for Methods and Tools)

*Gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru*

Mae corff ymchwil yn bodoli eisoes sydd wedi archwilio'r opsiynau sydd ar gael i Gymru i ddatblygu ymhellach ddulliau partneriaeth o wneud gwaith ieuenctid. Mae'r pedwar model a ddatblygwyd yn Fowler et al. (2015) yn fan cychwyn posibl ar gyfer meddwl am yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer ffurfioli partneriaethau fel rhan o'r strwythur darparu. Roedd yr ymchwil yn cynnwys datblygu gwerthusiad ar opsiynau ar gyfer ailstrwythuro llywodraethu gwaith ieuenctid, gan edrych ar bedwar opsiwn:

- **Model un: Fersiwn wedi'i ehangu o'r model presennol**, gan gynnwys grant wedi'i neilltuo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ieuenctid, arolygiadau Estyn, a phroses sicrhau ansawdd gyffredin i bawb.
- **Model dau: Ailstrwythuro i fod yn consortia rhanbarthol**, ad-drefnu darpariaeth statudol yn rhanbarthau, gan roi cyllid i gyrff rhanbarthol i fod yn gyfrifol am gynllunio a darparu gwaith ieuenctid gyda darparwyr eraill.
- **Model tri: gwasanaeth ieuenctid cenedlaethol**, gyda Llywodraeth Cymru yn cadw'r grantiau gwaith ieuenctid a roddir ar hyn o bryd i awdurdodau lleol, a'u defnyddio i ffurfio gwasanaeth ieuenctid cenedlaethol, gyda'r holl ddarpariaeth statudol yn atebol i Lywodraeth Cymru yn unig.
- **Model pedwar: y model darparu presennol gyda chorff strategol cenedlaethol**, gyda'r corff yn llais i'r sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol, yn datblygu strategaethau a mentrau gyda Llywodraeth Cymru, wedi'i ariannu gan grant Llywodraeth Cymru a

frigdorrwyd, ond yn gallu cael gafael ar gyllid ychwanegol nad yw ar gael i gyrff cyhoeddus.

Mae gwerthusiad yr opsiynau wedi disgrifio'r modelau hyn mewn perthynas â chyfres o ffactorau, gan gynnwys rhwyddineb eu gweithredu, costau rhedeg tymor hwy, eu heffaith ar ddwyieithrwydd, eu haliniad â'r CCUHP, cefnogaeth debygol yn y maes, a'u potensial i greu cyllid cyhoeddus ychwanegol. Yna cafodd pob model sgôr Coch Melyn Gwyrdd (RAG) ar gyfer pob un o'r meysydd hyn. Er bod pob un o'r modelau a ddatblygwyd yn ymarferol, y pedwerydd model a sgoriodd uchaf ar draws y categorïau (Fowler et al. 2015, t. 31).

## Asesu gwerth gwaith ieuenctid

*Mesur gwerth*

Mae deall a mesur buddion gwaith ieuenctid, gan gynnwys darpariaeth gyffredinol a darpariaeth wedi'i thargedu, wedi cynyddu yn ei bwysigrwydd yn y sector ieuenctid ledled Cymru ac yn rhyngwladol. Ysgogwyd hyn, yn rhannol, yn sgil yr ail-lunio ar atebolrwydd polisi cyhoeddus yn yr 1980au. Daeth newid dull i'r amlwg yn y ffordd yr oedd arian cyhoeddus yn cael ei ddosbarthu a hynny'n coleddu targedau, rheoli data a mesuriadau. Roedd Rheolaeth Gyhoeddus Newydd yn ddull oedd yn ceisio moderneiddio rheolaeth y sector cyhoeddus trwy osod targedau, monitro allbynnau ac archwilio perfformiad (Fraser, 2003).

Ffactor arall sy'n llywio ac yn gyrru'r broses o fesur gwerth ar draws gwaith ieuenctid yw datblygiadau ac arloesiadau sydd wedi dod o sectorau a meysydd polisi eraill. Mae datblygiadau methodolegol yn y gwyddorau meddygol a chymdeithasol, er enghraifft, wedi cynnig dulliau a fframweithiau newydd ar gyfer deall a mesur buddion gwasanaethau a chefnogaeth. Mae'r datblygiadau hyn wedi ffurfio a chynyddu'r defnydd ar dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau, wrth lunio polisi ac wrth lunio tueddiadau cyllido (Head, 2010). Yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft, mae'r defnydd o dystiolaeth effaith wedi'i wreiddio'n ddwfn. Ceir strwythurau sefydliadol sylweddol a sefydliadau ymchwil sy'n ymroi i ddeall a chyfleu effaith. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), er enghraifft, yn gwerthuso tystiolaeth effaith i sicrhau mai dim ond gwasanaethau ac ymyriadau y canfyddir eu bod yn effeithiol ar hyd sylfaen dystiolaeth gadarn ac eang sy'n cael eu hariannu gan gomisiynwyr.

Mae dull cyffredinol o ddim ond cyllido mentrau sydd naill ai wedi dangos effaith, neu sydd â thystiolaeth i awgrymu eu bod yn addawol, yn araf wedi dod yn amlwg ar draws meysydd polisi eraill ac i rai sefydliadau dyngarol (Ettelt, 2015). Yn y Deyrnas Unedig mae toreth o sefydliadau fel y Gynghrair Tystiolaeth Ddefnyddiol (NESTA), sy'n mynd ati i geisio sicrhau rôl bwysicach i dystiolaeth, gan awgrymu mai parhau fydd y duedd hon.

Mae tystiolaeth o fuddion gwaith ieuenctid yn debygol o barhau i chwarae rhan bwysig wrth bennu blaenoriaethau a chyllid y llywodraeth a'r trydydd sector, nawr ac i'r dyfodol. Mae hyn yn her i'r sector ieuenctid, yn enwedig y rheiny sy'n ceisio sicrhau cyllid cyhoeddus neu gyllid sefydliadau dyngarol i gefnogi eu gwaith (McGregor, 2015).

Gwrthwynebwyd y tueddiadau hyn gan rai traddodiadau a safbwyntiau yn y sector gwaith ieuenctid. Yn hanesyddol, ystyriwyd bod gwasanaethau sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc yn 'hunan-amlwg yn dda' (McNeil, 2012). I raddau helaeth, mae dau reswm wedi bod dros wrthsefyll dulliau mwy penodol o asesu neu dystiolaethu buddion gwaith ieuenctid. Yn gyntaf, credir bod llawer o'r newid y mae gwasanaethau yn ei greu i bobl ifanc yn anniffiniol ac yn rhy anodd ei fesur; ac yn ail, dadleuir bod union natur gwaith gyda phobl ifanc yn cael ei danseilio trwy'r broses o ganolbwyntio ar ganlyniadau ac effaith; teimlir bod rhagnodi neu ragfynegi canlyniadau yn mynd yn groes i natur greadigol a thrafodedig gweithio gyda phobl ifanc, yn enwedig mewn llawer o leoliadau gwaith ieuenctid. Mae'n bosibl fod y safbwyntiau hyn wedi cyfrannu, yn rhannol, at rai o'r bylchau sy'n gyffredin yn y sylfaen dystiolaeth yn sgil rhoi pwyslais ar rai mathau o wybodaeth naratif (McNeil, 2012 a McGregor, 2015).

Ni fydd pob ymgysylltiad â gwaith ieuenctid yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Yn wir gall rhai profiadau neu gysylltiadau fod yn negyddol a thanseilio hyder person ifanc neu leihau eu diddordeb mewn dysgu ac ymgysylltu. Hefyd, efallai na fydd canlyniadau cadarnhaol yn cael eu dosbarthu'n gyfartal ymhlith pobl ifanc sy'n ymgymryd â gwaith ieuenctid; gall rhai gael y profiad yn bositif a chael llawer ohono – gall fod yn ddibwys i eraill. Wrth ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid, mae'n amhrisiadwy archwilio i ba raddau yr oedd profiad person ifanc yn gadarnhaol, ac os nad ydoedd sefydlu'r rhesymau dros hynny. Ymhellach, mae rheidrwydd moesegol i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau profiadau a chanlyniadau cadarnhaol, yn enwedig os yw cyfranogwyr yn dod o grwpiau agored i niwed. Mae ymchwilio i fuddion gwaith ieuenctid yn cynnig ystod o gyfleoedd i archwilio a dysgu am brofiadau pobl ifanc, a'i werth i'w bywydau.

Yn yr un modd â meysydd eraill, o fewn gwaith ieuenctid cafwyd cryn ddadlau ynghylch gwerth a phwysigrwydd dulliau gwahanol o wneud gwaith ieuenctid, rhinweddau cymharol canlyniadau cynhenid neu gyfrannol, yn ogystal â'r gwahanol ddulliau ar gyfer deall buddion ac effaith y ddarpariaeth. Ymddengys bod consensws yn datblygu, gan gynnwys o du'r llywodraeth ganolog ac ymhlith cyllidwyr ledled y Deyrnas Unedig, am bwysigrwydd gwella trylwyredd wrth fesur effaith. Mae canllawiau diweddaraf Llywodraeth y DU ar werthuso a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020 fel petaent yn cefnogi'r farn hon. Mae'r newid ymddangosiadol hwn ym marn y llywodraeth ar fesur effaith yn golygu bod canllawiau bellach yn cynnwys sylwebaeth ar ddulliau theori a mwy ansoddol o werthuso effaith ochr yn ochr â dyluniadau arbrofol a lled-arbrofol (Trysorlys EM, 2020). Awgryma hyn fod y

llywodraeth yn credu fwyfwy fod cael ystod fwy amrywiol o dystiolaeth drylwyr yn bwysig wrth lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

*Pwysigrwydd trylwyredd*

Efallai mai'r ffordd orau o feddwl am drylwyredd (*rigour*), sy'n gysyniad digon cymhleth a braidd yn amwys, yw ystyried ansawdd y broses ymchwil. Yn y bôn, bydd astudiaeth fwy trylwyr yn arwain at ganfyddiadau mwy dibynadwy. Wrth ddeall buddion gwaith ieuenctid, mae dulliau trylwyr yn fwy tebygol o gynhyrchu mewnwelediadau sy'n fwy cywir a chraff. Er y bydd gwahanol fframweithiau neu ddulliau sy'n defnyddio gwybodaeth ansoddol neu feintiol yn bennaf yn gweithredu gyda meini prawf gwahanol o ran trylwyredd, mae trylwyredd cyffredinol yn bwysig wrth feithrin hyder yn y sylfaen dystiolaeth, gan gynnwys hyder gwneuthurwyr polisi a chyllidwyr.

Gall ymchwil da o ansawdd uchel hefyd nodi a lledaenu meysydd arfer da, gan gryfhau'r ddarpariaeth ar draws cymunedau a lleoliadau (Fraser, 2009). Gall ymchwil ei hun hefyd annog a hyrwyddo adfyfyrio a dysgu. Mae ymarfer adfyfyriol yn cynnig cyfleoedd i ymarferwyr, gan gynnwys gweithwyr ieuenctid, ystyried a deall y cyfraniad y maent yn ei wneud i fywydau pobl ifanc. Gall hefyd roi cyfle i adfyfyrio ar ragdybiaethau a ffyrdd sefydledig o weithio, a'u herio. Ystyrir bod adfyfyrio beirniadol ac atblyg yn elfen bwysig sy'n tanlinellu ymarfer moesegol, gan gynnwys rhai traddodiadau mewn gwaith cymdeithasol (Huston, 2015).

Yn bwysig, gall dulliau trylwyr hefyd wella pŵer rhagfynegol ymchwil – sef y gallai menter neu ddull y canfuwyd i fod yn effeithiol mewn un sefyllfa neu leoliad fod yn effeithiol mewn sefyllfa arall. Mae tystiolaeth, er enghraifft, y gall ymrwymiadau byr sydd â ffocws iddynt fod yn fwy effeithiol wrth gefnogi pobl ifanc sy'n agosach at y farchnad lafur i gyflogaeth na'r rhai sydd â rhwystrau lluosog a sylweddol. I'r unigolion hyn, mae cefnogaeth fwy dwys, wedi'i theilwra ac sy'n barhaus yn tueddu i fod yn fwy effeithiol (Kluver et al., 2017 a Liu et al., 2014). Gall y mathau hyn o fewnwelediadau helpu sefydliadau i lunio a theilwra cefnogaeth, gan gynnwys mewn darpariaeth fwy cyffredinol, ac wrth ymateb i anghenion a dyheadau gwahanol y cymunedau a'r bobl ifanc y maent yn eu gwasanaethu.

At ei gilydd, mae sawl her gysyniadol yn gysylltiedig ag ymchwil trwyadl wrth archwilio buddion gwaith ieuenctid. Mae'r rhain yn ymwneud â heriau a chyfyngiadau epistemolegol,

empirig a methodolegol wrth ymchwilio i effaith. Golyga'r cyfyngiadau hyn fod y gwaith o fesur effaith yn agored i gael ei herio o ystod o wahanol safbwyntiau.

**Cadernid** (*robustness*)**:** Un mater allweddol sy'n parhau yw cadernid y dadansoddiadau am effaith sy'n deillio o ymchwil effaith. Mae cadernid yn pennu pa mor hyderus y gallwn fod yn yr effaith a ddisgrifiwyd trwy ddarn o ymchwil. Bydd gan wahanol ddulliau a fframweithiau wahanol feini prawf ar gyfer trylwyredd. Bydd gan y rhai sy'n defnyddio gwybodaeth ansoddol feini prawf gwahanol ar gyfer pennu cadernid na'r rhai sy'n defnyddio dulliau meintiol, er enghraifft. Y broblem yw cymeriad y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a geisir, a bydd gan bob dull ei fanteision a'i anfanteision ei hun y mae angen eu hystyried wrth ddeall cadernid. Bydd gwahanol ystyriaethau eto i'r rheiny sy'n defnyddio dulliau methodau cymysg, gan gynnwys y cydlynu wrth ddod â gwahanol fathau o wybodaeth ynghyd.

Yn gysylltiedig â mater cadernid mae bylchau amlwg yn ein dealltwriaeth nad pob dull sy'n addas i'w defnyddio. O'r safbwynt hwn, nid yw rhai dulliau a fframweithiau yn berchen ar lefel y manylder i ddeall sut mae canlyniadau'n cael eu cynhyrchu, sut maent yn cysylltu â gwahanol fathau o ddarpariaeth, ac o dan ba amgylchiadau ac ar gyfer pa grwpiau o bobl ifanc y maent yn fwyaf tebygol o ddigwydd.

**Achosiad** (*causation*): mater tragwyddol sy'n ymwneud â mesur effaith yw cwestiwn achosiad. Mae buddion gwaith ieuenctid ynddo'i hun yn gwestiwn achosol, gan gynnwys i ba raddau yr achosodd gweithgaredd welliannau ar draws rhai canlyniadau. Mae llawer o ddulliau a methodau yn tynnu ar dechnegau methodolegol a dadansoddol sy'n gyfyngedig yn eu gallu i ddeall effaith fel proses. O ganlyniad, maent wedi bod yn destun beirniadaeth lu sydd wedi tanseilio hyder mewn mesur effaith gymdeithasol o rai mannau. Nid yw rhai dulliau a methodau, er enghraifft, yn gwneud mwy na sefydlu cydberthynas rhwng ymwneud â gwaith ieuenctid a phresenoldeb rhai canlyniadau. O fewn y dulliau hyn, mae effaith cefnogaeth yn parhau i fod yn ddamcaniaethol i raddau helaeth, gan nad ydynt yn dangos yn empirig bod ymgysylltu wedi arwain at y canlyniadau yr arsylwyd arnynt. Er bod achosiad a gwaith ieuenctid yn parhau i fod yn ddadleuol, mae'n bryder allweddol i rai rhanddeiliaid, gan gynnwys rhai llunwyr polisi a chyllidwyr.

I'r gwrthwyneb, mae rhai yn herio'r syniad bod achosiad yn ffocws pwysig ar gyfer deall effaith. Mae Galloway (2009), er enghraifft, wedi nodi tueddiad i bwysleisio methodoleg yn hytrach na theori fel sail 'gwerthuso da'. Mae trafodaeth feirniadol ar fesuriadau effaith wedi

tueddu i ganolbwyntio ar faterion technegol a methodolegol yn hytrach na materion ontolegol neu epistemolegol. O'r safbwynt hwn, mae'r brif ystyriaeth ar gyfer hybu ein dealltwriaeth o effaith gwaith ieuenctid yn ontolegol; nid dulliau ymchwil mohono ond dod o hyd i'r 'cyfeiriadedd' neu 'resymeg ymholi' mwyaf effeithiol. Mae'r safbwyntiau hyn yn tueddu i alw am fwy o fuddsoddiad mewn ymchwil hydredol a mesur effaith ar raddfa fwy, ac am ddatblygu a gweithredu methodolegau a fframweithiau mwy cadarn, arloesol a thryloyw.

**Sensitifrwydd:** Mae lleisiau tebyg hefyd wedi codi pwysigrwydd sicrhau bod mesur effaith yn sensitif i ehangder llawn ymarfer gwaith ieuenctid. Mae hyn yn ymwneud â thrafodaethau ar bwysigrwydd cymharol archwilio canlyniadau cynhenid a chyfrannol cyfranogi. Mae ffocws ymddangosiadol llawer o brosesau mesur effaith ar ganlyniadau cyfrannol penodol, er eu bod yn haws eu mesur, yn codi problemau oherwydd eu bod yn methu â rhoi sylw i ystod lawn o fuddion posibl cyfranogi, gan gynnwys canlyniadau meddalach.

Mewn fframweithiau a dulliau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cyfrannol, mae posibilrwydd y gellir anwybyddu dilysrwydd gweithgareddau, teimladau neu berthynas sy'n anodd eu mesur yn feintiol. Gall eu gwerth a'u pwysigrwydd cymharol gael eu tanseilio dim ond oherwydd eu bod yn anodd eu mynegi wrth ddefnyddio systemau confensiynol o gasglu data.

**Cysondeb rhwng gweithgareddau a chanlyniadau**: Yn gysylltiedig â sensitifrwydd mae mater cysondeb gymharol rhwng gweithgareddau a chanlyniadau wrth fesur effaith. Yn aml mae adolygiadau wedi canfod datgysylltiad rhwng ffocws, amcanion a dulliau ymgysylltu gweithgaredd penodol a'r canlyniadau sy'n cael eu harchwilio trwy lawer o fesuriadau effaith gwaith ieuenctid. Gall hyn arwain at oblygiadau dwys, gan gynnwys tanamcangyfrif gwir botensial cefnogaeth neu fentrau penodol.

*<u>Heriau ymarferol</u>*

Ynghyd â'r heriau cysyniadol, mae sawl problem a her ymarferol y mae'n rhaid i sefydliadau lywio drwyddynt er mwyn ymchwilio'n effeithiol i fuddion darpariaeth.

**Adnoddau:** Mae archwilio effaith ynddi'i hun yn broses sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau neu unigolion neilltuo amser a sylw. Mae hyn yn gofyn am ystod o adnoddau, gan gynnwys rhyddhau amser pobl mewn sefydliad i gynllunio, casglu a dadansoddi data.

Efallai y bydd gwahanol ddulliau yn galw am seilwaith ehangach, gan gynnwys meddalwedd, er mwyn gallu casglu a dadansoddi gwybodaeth. Efallai y bydd costau ychwanegol wrth hyfforddi, neu gomisiynu ymchwil yn annibynnol.

**Galluoedd**: Yn gysylltiedig ag ystyriaethau adnoddau, mae mater capasiti sefydliad neu unigolyn i fynd ati i fesur effaith. I raddau amrywiol, mae mesur effaith yn gofyn am sgiliau, arbenigedd a hyder penodol i'w gweithredu'n effeithiol. Mae'n bosibl y bydd gwahanol fframweithiau yn mynnu lefelau amrywiol o wybodaeth am fesur effaith, gan gynnwys sgiliau dylunio ymchwil, hwyluso a chasglu data, a thechnegau dadansoddi data. I rai sefydliadau, efallai na fydd ganddynt lawer o'r mathau hyn o sgiliau ac arbenigedd, os o gwbl.

Gall maint a chapasiti sefydliad ddylanwadu ar ei allu i fynd ati i fesur effaith, yn enwedig ar gyfer dulliau sy'n canolbwyntio mwy ar brosesau sy'n ceisio ymgorffori mesuriadau effaith yn rhan o weithrediadau arferol. Mae yna wahanol fannau cychwyn a lefelau aeddfedrwydd o ran mesur effaith gymdeithasol.

*Dulliau mynd ati i ymchwilio effaith*

Mae sawl teipoleg o ran dulliau a methodau i ddeall a mesur effaith. Mae'r rhain yn tueddu i wahaniaethu rhwng dulliau a fframweithiau yn ôl y mathau o ddata y maent yn awgrymu y dylai sefydliad eu casglu, a'r ffyrdd y dylid dadansoddi'r wybodaeth ddilynol honno. Mae dadansoddiad cynhwysfawr Crossicks a Kaszynska (2014), er enghraifft, yn amlinellu gwahanol ddulliau yn ôl y mathau o ddata a ddefnyddir i gynorthwyo â mesur effaith, a'r dyluniadau ymchwil a ddefnyddir i gasglu a dadansoddi data.

Yn yr un modd, defnyddiodd Reeves (2002) nodweddion methodolegol fel ffordd eang o fapio gwahanol fframweithiau a dulliau mesur effaith. Nododd bum dull eang sy'n defnyddio ystod amrywiol o fethodau ar gyfer casglu gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys ymweliadau prosiect, cyfweliadau, holiaduron, astudiaethau achos, grwpiau ffocws, ac arsylwi ar gyfranogwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r dulliau hyn yn defnyddio methodolegau cyfansawdd sy'n cyfuno gwybodaeth feintiol ac ansoddol. Wrth ddeall perthnasedd dulliau neu fframweithiau penodol, gellid ystyried nifer o nodweddion:

- Hyblygrwydd: I ba raddau y gellir cymhwyso fframwaith yn effeithiol i wahanol senarios a gweithgareddau. Mae hyn yn adlewyrchu i ba raddau y gellir addasu canlyniadau dull penodol i wahanol amcanion, gweithgareddau neu leoliadau.

- Perthnasedd i ymarfer gwaith ieuenctid: Yn gysylltiedig â hyblygrwydd, mae hyn yn archwilio pa mor berthnasol fyddai dull neu fframwaith i weithgarwch gwaith ieuenctid. Daw rhai dulliau a fframweithiau o sectorau eraill, gan gynnwys gwaith cymdeithasol ac iechyd.
- Gofynion Gwybodaeth: Archwilia hyn faint o wybodaeth y mae'n rhaid i sefydliadau ei chywain er mwyn cwblhau asesiad ar effaith neu brosiect ymchwil, mewn perthynas â dulliau eraill. Mae hyn yn bwysig oherwydd gallai fod goblygiadau adnoddau i sefydliadau ac unigolion.
- Gofynion Galluogrwydd: Mae hyn yn adlewyrchu graddau'r galluogrwydd y mae'n rhaid i unigolion neu sefydliadau eu cael er mwyn mynd i'r afael yn llwyddiannus ag ymchwil effaith. Pan fydd dull neu fframwaith yn gofyn am dechnegau dadansoddi data cymharol gymhleth neu'n cael ei fframio mewn ffordd sy'n gofyn am sgiliau ac arbenigedd penodol, gall y dulliau hyn olygu y bydd angen galluogrwydd uwch ar unigolion neu sefydliadau.
- Cadernid: Mae hyn yn gysylltiedig â gallu'r dull neu'r ymagwedd i lunio dadansoddiadau sy'n cynnig adlewyrchiad cywir o effaith gweithgaredd.
- Hyder: Mae hyn yn ymwneud â hyder ystod o randdeiliaid yn y fframwaith, gan gynnwys hyder llunwyr polisi a chyllidwyr.

O ran hyblygrwydd, mae'r dulliau gweithredu, methodau a fframweithiau hynny sy'n llai gorchmynnol yn tueddu i gynorthwyo sefydliadau i archwilio ystyr a gwerth eu gwaith neu weithgaredd er mwyn llywio a ffurfio sut i fynd ati i fesur effaith. I raddau amrywiol, canolbwyntia'r dulliau hyn ar amlinellu'r prosesau y gallai sefydliadau eu dilyn wrth geisio cyflawni eu hamcanion yn ymwneud â mesur effaith. Trwy dechnegau fel Theori Newid, Modelu Rhesymeg, neu Werthuso Trawsnewidiol, mae'r dulliau hyn yn rhagdybio ac yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar brosesau ar gyfer mesur effaith. Mae hyn yn cynnwys hybu trafodaethau, o fewn sefydliad a chyda buddiolwyr, er mwyn archwilio amcanion a gwerthoedd y sefydliad, y gweithgareddau cysylltiedig, a dangos canlyniadau perthnasol a fyddai'n cefnogi mesur effaith gymdeithasol.

Yn bwysig, mae'r dulliau hyn yn cynnig hyblygrwydd, gan alluogi sefydliadau i ddatblygu dulliau mwy cydlynol o fesur effaith sy'n fwy cydnaws â gwerthoedd ac amcanion y sefydliad, ac yn fwy cydnaws â'r union weithgareddau y maent yn eu cefnogi. Maent hefyd yn cynnwys dulliau megis Ymchwil Gweithredu Cyfranogol sy'n cynnwys pobl ifanc ac

oedolion yn bartneriaid yn y broses ymchwil, yn ogystal â bod y broses ddysgu yn addawol ac yn sicrhau bod prosesau'n parhau i fod yn atebol i'r bobl ifanc eu hunain.

Enghraifft o'r math hwn o ddull sy'n canolbwyntio ar brosesau yw Ymyriad Ansawdd Rhaglenni Ieuenctid. Dyma broses gwella ansawdd sydd wedi'i chynllunio i ddeall buddion darpariaeth yn ogystal â'u cyfleu, a hynny wrth geisio ymgorffori dysgu a gwella canlyniadau. Datblygwyd y broses yn yr UDA, ac mae ymchwil helaeth wedi dangos ei heffeithiolrwydd wrth wella canlyniadau i bobl ifanc, wrth hyrwyddo diwylliant cynaliadwy a chefnogol o adfyfyrio a gwella sefydliadol, ac wrth newid ffocws gwerthuso i fod ar ansawdd y berthynas mewn gwahanol leoliadau.

Tuedda'r mathau hyn o ddulliau i fod yn fwy cymhleth eu natur, fodd bynnag. Maent yn aml yn cefnogi dull defnyddio systemau, lle mae mesur effaith wedi'i ymgorffori yn agweddau eraill ar waith sefydliad mewn proses ailadroddol. Yn fwriadol, ceisia'r dulliau hyn hefyd fesur effaith trwy broses wedi'i negodi sy'n dwyn ynghyd ystod o unigolion a grwpiau rhanddeiliaid i gyd-ddylunio Theori Newid ac offer mesur effaith. Gall hwyluso'r broses hon ynddi'i hun fod yn dasg anodd, a hynny'n ychwanegol at y dasg yr un mor gymhleth o gasglu data a gwybodaeth. Tuedda'r dulliau hyn hefyd i fod â gofynion uwch o ran galluogrwydd a gwybodaeth na dulliau neu fethodau eraill. Yn gyffredinol, mae angen gweithgareddau casglu data mwy cynhwysfawr arnynt, gan gynnwys defnyddio dulliau cymysg i gasglu gwybodaeth ansoddol a meintiol.

Awgryma hyn y gallai'r dulliau a'r fframweithiau hyn fod yn fwy perthnasol i sefydliadau sy'n hyderus wrth fesur effaith ac/neu sydd ag amser i ymgorffori prosesau ar draws sefydliad.

Mae dulliau eraill yn ceisio cynnig prosesau symlach, mwy hygyrch a strwythuredig i sefydliadau fynd ati i fesur effaith. Tuedda'r rhain i ganolbwyntio ar y weithred o gasglu data ei hun, gan ddarparu offer ymchwil ac arweiniad i gasglu gwybodaeth berthnasol yn effeithiol ac yn effeithlon. Maent yn aml yn cynnwys canlyniadau o ddiddordeb wedi'u diffinio ymlaen llaw, gydag offer casglu data i helpu sefydliadau i gasglu gwybodaeth. Mae hyn yn lleihau'r baich adnoddau ar sefydliadau ac yn cynorthwyo â buddion eraill ymchwil megis gallu cymharu.

Mae’r Ganolfan Effaith Ieuenctid wedi creu compendiwm gwerthfawr o offer asesu a allai gynorthwyo unrhyw ymchwil a gwerthuso (2020). Mae’n tynnu sylw, er enghraifft, at fanc cwestiynau Gwasanaeth Data’r Deyrnas Unedig sy’n cynnwys amrywiaeth enfawr o gwestiynau sy’n edrych ar ystod amrywiol o bynciau, o les i brofiadau o droseddu. Mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedyn, er enghraifft, wedi datblygu pedwar cwestiwn sy’n rhoi cipolwg cyflym ar les unigolyn (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2019). Mae’r rhain yn hawdd iawn i’w defnyddio, gan gynnwys wrth gasglu a dadansoddi gwybodaeth; gall sefydliadau gael ymdeimlad o les cyffredinol yr ymatebydd, gallant olrhain unrhyw newidiadau dros amser, a chymharu lefelau lles cyffredinol grŵp o bobl ifanc â grwpiau eraill. Gellid defnyddio’r cwestiynau llesiant hyn i arddangos newid ac i dynnu sylw at yr angen am wasanaethau a chefnogaeth yn y gymuned y mae sefydliad yn ei gwasanaethu.

Er ei bod yn haws mynd i’r afael â’r dulliau hyn, eto o ran y canlyniadau o ddiddordeb maent yn tueddu i fod yn fwy gorchmynnol eu natur. Mae hyn yn cyfyngu ar eu hyblygrwydd a’u gallu i ymateb i amcanion neu weithgareddau penodol. Gallai hyn danbrisio effaith mentrau o’r fath, yn enwedig os oes diffyg cyfatebiaeth sylweddol yn y dulliau ymgysylltu a’r canlyniadau a gesglir trwy ddull o’r fath.

**Effeithiau COVID-19 ar waith ieuenctid**

Mae’r adran hon yn edrych ar ymchwil sy’n datblygu sy’n cefnogi ein dealltwriaeth o effeithiau COVID-19 ar y sector gwaith ieuenctid. Mae pandemig COVID-19 a chamau cysylltiedig i reoli’r firws wedi effeithio ar y sector gwaith ieuenctid mewn ffyrdd aruthrol. Yn fras mae’r effeithiau hyn wedi effeithio ar waith ieuenctid ar draws dau faes:

- Mae yna ystod o effeithiau posibl sy’n effeithio’n uniongyrchol ar weithwyr ieuenctid a sefydliadau ieuenctid. Mae’r rhain yn cynnwys heriau sefydliadol wrth ymateb i’r pandemig, ad-drefnu ac/neu dal ati i roi cefnogaeth, a materion ehangach fel sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Gellid ystyried y rhain yn effeithiau uniongyrchol COVID-19 ar sefydliadau gwaith ieuenctid.
- Mae plant a phobl ifanc sy’n chwilio neu’n gofyn am gefnogaeth gan weithwyr ieuenctid yn dioddef ac yn llywio drwy heriau newydd neu heriau mwy amlwg yn eu bywydau o ganlyniad i’r pandemig. Gall hyn ddylanwadu ar y galw am gefnogaeth gan y sector yn y tymor byr, canolig a hir. Gellid ystyried y rhain yn effeithiau uniongyrchol COVID-19 ar sefydliadau gwaith ieuenctid.

**Effaith ar sefydliadau a gweithwyr ieuenctid**

Mae'r pandemig wedi codi ystod o heriau ymarferol a logistaidd i sefydliadau gwaith ieuenctid. Mae hyn yn cynnwys effeithio ar allu sefydliadau i ddarparu cefnogaeth. Mae tystiolaeth, er enghraifft, i awgrymu bod rhai sefydliadau wedi gweld cwymp mewn incwm, gan gynnwys 64 y cant o sefydliadau a ymatebodd i arolwg UK Youth (2020).[6] Roedd hyn fel arfer yn effeithio ar sefydliadau gwaith ieuenctid y trydydd sector a rhai gwirfoddol yn fwy na darparwyr statudol, yn sgil gostyngiad mewn mathau refeniw traddodiadol, gan gynnwys darparu gwasanaethau a ffrydiau cynhyrchu incwm eraill. Arweiniodd yr heriau hyn at 17 y cant o sefydliadau yn nodi bod cau parhaol yn debygol o ganlyniad i bryderon cyllido, yn enwedig sefydliadau bach neu ficro.

Bu gostyngiadau sylweddol hefyd yn nifer y staff, naill ai trwy ffyrlo neu mewn rhai achosion colli staff yn barhaol o ganlyniad i gwymp mewn incwm. O'r rhai a holwyd, nododd 31 y cant o sefydliadau fod diswyddiadau staff yn debygol, gydag 88 y cant o sefydliadau yn nodi eu bod yn debygol neu'n debygol iawn o leihau darpariaeth gwasanaeth yn ystod y pandemig (arolwg UK Youth, 2020).

Yn weithredol, bu tarfu mawr iawn ar lawer o sefydliadau gwaith ieuenctid. Canfu arolwg o weithwyr ieuenctid, arweinwyr a phobl ifanc ledled Ewrop fod pob agwedd ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid wedi cael ei heffeithio. Roedd hyn yn cynnwys dulliau ymgysylltu, faint o amser a dreuliwyd gyda phobl ifanc, a'r mannau corfforol a ddefnyddid i gynnal gweithgareddau (RAY-COR, 2020). Mae llawer o sefydliadau wedi gorfod addasu ac ailwampio'r gefnogaeth y gallant ei chynnig i bobl ifanc. Roedd hyn mewn ymateb i gyfyngiadau'r cyfnod clo ac i gydymffurfio â chanllawiau a rheoliadau ehangach y llywodraeth. Mae hyn wedi arwain at symud mawr, os anwastad, at ddulliau digidol neu gyfunol o ddarparu cefnogaeth. Canfu astudiaeth o sefydliadau gwaith ieuenctid ledled Ewrop, er enghraifft, fod 17 y cant o sefydliadau wedi trosglwyddo pob cefnogaeth i lwyfannau digidol, tra nododd 7 y cant nad oeddent wedi defnyddio'r dull digidol o gwbl ac wedi lleihau'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc. Roedd llawer o sefydliadau ledled Ewrop wedi syrthio rhwng y ddau bwynt hyn (RAY-COR, 2020).

[6] Roedd gan yr arolwg sampl o 252 o ymatebion, yn cynrychioli ystod amrywiol o sefydliadau o bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Nid yw'n bosibl dweud o'r adroddiad cyhoeddedig faint o wall samplu posibl oedd i boblogaeth ddamcaniaethol. Mae hyn yn awgrymu y dylid dehongli'r canfyddiadau yn ofalus.

**Effaith ar blant a phobl ifanc**

Ynghyd â'r heriau yn wynebu sefydliadau, mae ystod o effeithiau posibl ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau ieuenctid ac yn cael eu cefnogaeth. Gall deall natur a maint yr effeithiau hyn fod yn bwysig, oherwydd gallant ddylanwadu ar y galw am gefnogaeth gan y sector. Gallant hefyd ddylanwadu ar nifer a difrifoldeb y materion a'r heriau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu.

Mae effeithiau COVID-19 ar blant a phobl ifanc yn syrthio ar draws sawl maes, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Lles a iechyd corfforol
- Iechyd meddwl
- Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
- Canlyniadau addysgol
- Effeithiau tymor hwy gan gynnwys y trawsnewid i fod yn oedolion.

*Iechyd corfforol*

**Iechyd corfforol goddrychol**: Er gwaethaf y pandemig, mae plant a phobl ifanc wedi nodi bod eu hiechyd, ar gyfartaledd, yn dda iawn. Cynhaliodd Cymdeithas y Plant arolwg o blant a phobl ifanc yn y Deyrnas Unedig rhwng Ebrill a Mehefin 2020, sef y cyfnod pan oedd y cyfyngiadau ar eu huchaf yn ystod camau cychwynnol y pandemig. Ar gyfartaledd, gwelwyd bod hapusrwydd hunanasesedig plant a phobl ifanc gyda'u hiechyd (yn 8.1 allan o 10) o fewn yr un ystod ag yr oedd ar yr un adeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf ym Mhrydain Fawr (yn amrywio o 8.1 i 8.3 allan o 10 yn 2016). At ei gilydd, iechyd yw un o'r meysydd bywyd y mae plant a phobl ifanc hapusaf ag ef. Fodd bynnag, mae iechyd gwael yn broblem i rai plant a nododd 6.8% o blant hapusrwydd isel â'u hiechyd (Cymdeithas y Plant, 2015, 2016, 2017, 2018, 2019 & 2020).

**Lefelau gweithgarwch ac ymarfer corff:** Mae ymddygiad llonydd a lefelau isel o weithgarwch corfforol yn ffactor risg sylweddol sy'n gysylltiedig ag ystod o broblemau iechyd corfforol ac yn ôl ymchwil arall maent wedi cynyddu'n sylweddol ers cyflwyno'r cyfyngiadau ar symud. Canfu tystiolaeth ehangach o'r UDA fod cynnydd sylweddol wedi bod mewn ffyrdd o fyw llonydd a gostyngiadau mewn lefelau gweithgarwch yn ôl mesurau hunangofnodedig a mesurau gwrthrychol. Teimlai'r awduron y gallai'r newidiadau hyn ymsefydlu'n barhaol, gan arwain at risg uwch o ordewdra, diabetes, a chlefyd cardiofasgwlaidd ymysg plant a phobl ifanc (Dunton et al., 2020). Yn Lloegr, mae data

hunangofnodedig yn awgrymu bod mwyafrif y bobl ifanc wedi parhau i wneud rhywbeth i aros yn egnïol yn ystod y cyfnod clo, ond roedd faint o weithgaredd a wnaed wedi gostwng yn sylweddol. Mae Sport England (2020) yn amcangyfrif bod nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cyflawni canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol o gymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgaredd corfforol am 60 munud neu fwy bob dydd ar gyfartaledd wedi gostwng o 47% i 19%.

**Iechyd corfforol gwrthrychol:** ymddengys mai ychydig iawn o ddata ac ymchwil sydd ar gael i'r cyhoedd ar effeithiau problemau fel llai o ddefnydd ar wasanaethau a newidiadau mewn lefelau gweithgarwch ar fesurau iechyd gwrthrychol. Gall hyn fod yn rhannol oherwydd y cyfnod amser fydd yn mynd heibio cyn y bydd goblygiadau'r cynnydd mewn ymddygiad llonydd i'w weld ar farcwyr iechyd eraill. Mae ymchwil ehangach wedi damcaniaethu y gallai effeithiau eraill sy'n effeithio ar bobl ifanc, gan gynnwys canlyniadau niweidiol yn y farchnad lafur ac ar iechyd meddwl, gael effeithiau tymor hir niweidiol ar iechyd corfforol pobl ifanc wrth iddynt dyfu (Leavey et al., 2020).

*<u>Iechyd meddwl a lles</u>*

**Lles goddrychol:** Mae tystiolaeth i awgrymu y gallai lles goddrychol plant a phobl ifanc fod wedi gostwng ychydig o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, yn enwedig mewn perthynas â'u boddhad â bywyd (Cymdeithas y Plant). Nid yw tystiolaeth ehangach o reidrwydd yn cefnogi'r honiad hwn. Nid yw asesiad diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar les goddrychol pobl ifanc yn awgrymu gwahaniaeth sylweddol mewn boddhad bywyd yn gyffredinol yn y tymor byr na'r tymor hir hyd at fis Mawrth 2020 (ONS, 2020). Mae mesurau eraill hefyd, fel hapusrwydd ymysg plant a phobl ifanc, yn gymharol debyg i flynyddoedd blaenorol. Canfu Cymdeithas y Plant (2020) fod hapusrwydd hunanasesedig plant a phobl ifanc (sef yn 7.2 allan o 10), ond ychydig bach yn is yn ystod y cyfnod hwn nag yr oedd ar yr un adeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf ym Mhrydain (gan amrywio o 7.3 i 7.6 allan o 10 yn 2016). Mae tystiolaeth debyg yn Lloegr yn cefnogi'r arsylw hwn (Adran Addysg, 2020).

Mae meysydd mwy penodol o ran lles goddrychol yn cyflwyno darlun gwahanol. Canfu arolwg o 2,000 o bobl ifanc 16 i 25 oed yn y Deyrnas Unedig fod bron i hanner y rhai oedd mewn addysg yn poeni y byddai colli allan ar addysg yn eu gosod yn ôl am weddill eu hoes, gyda mwy na thraean yn teimlo bod eu haddysg wedi'i "wastraffu" (Ymddiriedolaeth y Tywysog, 2020). Roedd y gyfran yn sylweddol uwch ymhlith y rhai o gefndiroedd tlotach. Er bod dilysrwydd a dibynadwyedd y canfyddiadau hyn yn gyfyngedig, mae'n awgrymu y gallai

tarfu ehangach ar fywydau pobl ifanc effeithio ar eu hymdeimlad o'u hunan a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

**Gorbryder:** Mae tystiolaeth gymysg ar brofiad gorbryder mewn plant a phobl ifanc nad yw'n gysylltiedig â'r pandemig. Ar y naill law, roedd sampl ImpactEd o blant oed ysgol wedi sgorio eu symptomau pryder i fod yn ysgafn iawn ym mis Gorffennaf 2020. Roedd rhywfaint o wahaniaeth rhwng sgoriau merched a bechgyn, gyda sgôr pryder cyfartalog merched ychydig yn uwch na'r bechgyn (ImpactEd, 2020). Ar y llaw arall, nododd astudiaeth gan Gonsortiwm Ymchwil Seicolegol COVID-19 (C19PRC) lefelau uchel iawn o bryder ymhlith yr ymatebwyr i'w harolwg anghynrychioliadol o bobl ifanc ym mis Ebrill 2020. Sgoriwyd bod lefelau pryder annormal ar raddfa Pryder ac Iselder Ysbyty (HADs) gan ymhell dros hanner yr ymatebwyr i arolwg C19PRC (Levita L. et al., 2020). Nid oes esboniad am y gwahaniaethau rhwng y ddau asesiad ond gallant ymwneud yn rhannol ag amseriad yr astudiaethau, y gwahanol fesurau a ddefnyddid i holi am bryder a gwahaniaethau na arsylwyd arnynt yn y grwpiau o bobl ifanc.

Mae tystiolaeth o Arolwg Carfan y Mileniwm yn awgrymu bod menywod ifanc wedi dioddef mwy o bryder na dynion ifanc yn ystod cam cychwynnol y pandemig (Henderson, M. et al., 2020). Holodd yr astudiaeth sampl o'r bobl ifanc 19 oed ym mis Mai 2020. Gofynnwyd i aelodau'r garfan am symptomau pryder a nododd 35% o ferched ifanc a 19% o ddynion ifanc eu bod yn dioddef pryder cyffredinol fel y'u mesurwyd gan Raddfa GAD-2.

**Problemau emosiynol ac ymddygiad:** Wrth ddeall i ba raddau yr arweiniodd y cyfnod clo at newidiadau mewn ymddygiad ac yn ymatebion emosiynol pobl ifanc, holodd astudiaeth Co-SPACE sampl fawr, er yn anghynrychioliadol, o 2,890 o rieni yn y Deyrnas Unedig ddwywaith rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020. Gan reoli am effeithiau rhyw, ethnigrwydd, incwm cartref, a statws cyflogaeth rhieni, awgrymodd y data fod pobl ifanc o oedran ysgol uwchradd yn llai tebygol o arddangos problemau emosiynol, yr un mor debygol o arddangos problemau ymddygiad, a'u bod yn fwy tebygol o arddangos problemau canolbwyntio neu fod yn aflonydd. Roedd rhieni a holwyd wedi dweud bod gan ferched a phobl ifanc benywaidd fwy o broblemau gydag emosiwn yn gyffredinol. Roedd y rhai â chyflyrau iechyd meddwl a oedd yn bodoli eisoes, neu o aelwydydd incwm isel, hefyd yn fwy tebygol o nodi mwy o anawsterau dros amser gyda'u hemosiwn, ymddygiad, a chanolbwyntio/bod yn aflonydd (Pearcey et al., 2020).

**Problemau iechyd meddwl mwy amlwg:** Mae data ehangach o Loegr yn awgrymu y bu cynnydd sydyn mewn problemau iechyd meddwl eraill, gan gynnwys adroddiadau o broblemau cysgu, anhwylderau bwyta a hunan-niweidio (NHS Digital, 2020a). Roedd plant a phobl ifanc a oedd yn debyg o fod â phroblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o ddweud bod y cyfnod clo wedi gwneud eu bywyd yn waeth (54.1% o rai 11 i 16 oed, a 59.0% o rai 17 i 22 oed), na'r rheiny oedd yn annhebygol o gael problem iechyd meddwl (39.2% a 37.3% yn y drefn honno).

**Mynediad at wasanaethau iechyd meddwl:** I gymhlethu'r mater hwn, mae data ar atgyfeiriadau newydd at wasanaethau iechyd meddwl, anabledd dysgu ac awtistiaeth y GIG ar gyfer pobl ifanc rhwng 0 a 18 oed yn dangos gostyngiad mawr mewn atgyfeiriadau ym mis Ebrill a mis Mai 2020. Mae hyn yn cyfateb i dros hanner nifer yr atgyfeiriadau mewn blynyddoedd blaenorol (NHS Digital, 2020b). Awgryma hyn fod y cyfnod clo wedi arwain at darfu sylweddol yn y gefnogaeth glinigol y mae pobl ifanc yn ei chael gan CAMS a gwasanaethau iechyd meddwl eraill.

*Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol*

Cymysg yw'r dystiolaeth ar effeithiau posibl y pandemig ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant a phobl ifanc. Mae'n bosibl fod y cyfnod clo a mesurau cadw pellter cymdeithasol eraill wedi arwain at darfu mawr ar rwydweithiau cymorth cymdeithasol pobl ifanc, gan gynnwys gyda chyfoedion, eu teulu ac oedolion eraill. Gall unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol gael effeithiau tymor hwy ar iechyd meddwl plant, a gall perthynas ag oedolion dibynadwy a ffrindiau cefnogol helpu plant i ymdopi â'r heriau sy'n eu hwynebu.

**Ffrindiau**: At ei gilydd, awgryma tystiolaeth nad yw plant a phobl ifanc ledled y DU o bosibl mor hapus â'u perthynas â'u ffrindiau ag y buont mewn blynyddoedd blaenorol (Cymdeithas y Plant, 2020). Canfu tystiolaeth ehangach o'r arolwg Barn a Ffordd o Fyw (SYG/ONS) mai perthnasoedd pobl ifanc hŷn oedd wedi'u heffeithio fwyaf, trwy gydol cyfyngiadau'r pandemig. Rhwng y cyfnod o Ebrill 2020 i fis Medi 2020, nododd rhwng 24.1% a 43% o bobl ifanc 16 i 24 oed fod y pandemig wedi effeithio ar eu perthynas ag eraill (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020b).

Po ieuengaf y person, y mwyaf tebygol y byddent o fod wedi cael ychydig neu ddim cyswllt â ffrindiau (Pearcey, S. et al., 2020). Roedd plant hŷn a phobl ifanc yn fwy tebygol o aros

mewn cysylltiad â ffrindiau ar-lein, trwy lwyfannau gemau, y cyfryngau cymdeithasol ac yn uniongyrchol trwy ffôn, neges destun a fideo. Prin oedd y gwahaniaethau ar hyd gwahanol grwpiau o bobl ifanc, ond yn ôl y rhieni a holwyd roedd y rheini o aelwydydd incwm is yn llai tebygol o fod mewn cysylltiad rheolaidd â ffrindiau drwy unrhyw fodd o gyfathrebu trwy gydol y cyfnod rhwng diwedd mis Mawrth ac Awst (Pearcey, S. et al., 2020). Gallai hyn fod o ganlyniad i'r gagendor digidol, o ran y byddai'r rhai o gefndiroedd tlotach yn llai tebygol o gael mynediad cyson at ddyfeisiau a'r rhyngrwyd.

**Teulu:** Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig yn gyffredinol hapus â'u teulu (Cymdeithas y Plant, 2020). Canfu'r adroddiad Life on Hold gan Gymdeithas y Plant hefyd fod dros hanner y plant yn ymdopi i ryw raddau â pheidio gallu gweld aelodau eraill eu teulu. Er hynny, dywedodd 30% nad oeddent yn ymdopi gystal o beidio cael gweld aelodau eraill y teulu (Cymdeithas y Plant, 2020b). Canfu data o astudiaeth Hydredol Aelwydydd y DU (a gasglwyd ddiwedd mis Mai 2020) fod 26% o rieni wedi nodi bod eu perthynas â'u plant yn well na chyn y cyfnod clo a dim ond 4% oedd wedi nodi ei bod wedi gwaethygu – er bod 70% wedi nodi ei fod wedi aros tua'r un peth (Benzeval, M. et al., 2020).

Fodd bynnag, mae darluniau hunangofnodedig yn gyfyngedig yn eu gallu i nodi dynameg teulu a allai beryglu neu niweidio datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant a phobl ifanc. Mae tystiolaeth ehangach i awgrymu, i rai, y gallai ffactorau achosi straen mewn teulu fod wedi cynyddu yn ystod y pandemig. Ers dechrau'r pandemig, mae posibilrwydd fod rhieni a gofalwyr wedi wynebu ansicrwydd ariannol, newidiadau i'w trefn arferol, a jyglo cyfrifoldebau lluosog gan gynnwys gwaith, gofal plant amser llawn a gofal am aelodau'r teulu a allai fod yn sâl neu'n gorfod bod gartref. Mae ymchwil helaeth yn awgrymu y gall ffactorau straen ar deulu arwain at strategaethau ymdopi negyddol a phroblemau mewn perthynas. Gallai'r gwaethygu ar y ffactorau presennol sy'n achosi straen a rhai newydd ychwanegol gynyddu risg esgeulustod a cham-drin corfforol, emosiynol a domestig, yn ogystal â niwed ar-lein. Gall cefnogaeth gymdeithasol fod yn ffactor amddiffynnol allweddol, gan helpu teuluoedd i oresgyn straen (Romanou a Belton, 2020). Ni wyddys eto i ba raddau y mae hyn yn wir, sef a yw'r pandemig wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn cam-drin ac esgeulustod.

*<u>Canlyniadau addysgol</u>*

Tarfwyd yn fawr iawn ar gyfranogiad pobl ifanc mewn addysg. Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o'r Deyrnas Unedig yn awgrymu bod llawer o blant a phobl ifanc wedi gweld

gostyngiad sylweddol a pharhaus yn eu haddysg. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth, dim ond ychydig o dan bedwar o bob deg (38 y cant) a gafodd addysg lawn gartref pan oedd yr ysgolion wedi cau (Major et al., 2020). Roedd cyfran sylweddol o ddisgyblion wedi colli allan ar addysg yn gyfan gwbl. Nid oedd gan chwarter y disgyblion unrhyw ysgol na thiwtora yn ystod y cyfnod clo – sy'n cyfateb i oddeutu 2.5 miliwn o blant ledled y Deyrnas Unedig. Erbyn mis Medi / dechrau mis Hydref 2020, dim ond chwech o bob deg (59 y cant) o ddisgyblion a oedd yn elwa o addysg lawn. Ar gyfartaledd roedd disgyblion yn derbyn 42 y cant o addysg arferol yn ystod y cyfnod clo ac 85 y cant o addysg arferol erbyn yr hydref (Major et al., 2020). Gyda'i gilydd, canfu Arolwg Symudedd Cymdeithasol LSE-CEP y collwyd addysg sylweddol a pharhaus, yn enwedig ymhlith y bobl ifanc fwyaf difreintiedig. Gall hyn fod oherwydd gwahaniaethau yn narpariaeth ysgolion, a'r gwahaniaeth amlwg yn eu gallu i ddysgu yn y cartref o ran gofod astudio, cyfrifiaduron a chysylltedd rhyngrwyd a mynediad at diwtora â thâl.

Yn ôl tystiolaeth ehangach, awgrymir bod cau ysgolion dros dro yn annisgwyl, a llai o amser rhoi cyfarwyddiadau, wedi lleihau cyfranogiad a chyflawniad addysgol, yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae plant o gefndiroedd difreintiedig yn debygol o gael eu heffeithio'n fwy nag eraill gan gau ysgolion, gyda llai o adnoddau teuluol a llai o fynediad at adnoddau dysgu ar-lein i wneud iawn am amser colli addysgu (Eyles et al., 2020). Gallai hyn gael effaith negyddol ar ddysgu a chyrhaeddiad cyffredinol.

*<u>Effeithiau hirdymor gan gynnwys newid i fod yn oedolyn</u>*

Mae cryn ansicrwydd hefyd ynghylch effeithiau COVID-19 i'r tymor hirach. Awgryma tystiolaeth ehangach o drychinebau a digwyddiadau mawr eraill sydd wedi tarfu y gall yr effeithiau tymor hir fod yn sylweddol ac yn fwy tebygol o effeithio ar bobl ifanc ddifreintiedig (Eyles et al., 2020). Gyda'i gilydd, dengys y dystiolaeth hon y gallai sefydliadau gwaith ieuenctid ddod ar draws problemau mwy o faint a mwy amlwg ymhlith rhai o'r bobl ifanc y maent yn eu cefnogi.

Mae hwn yn gyd-destun pwysig i'r strategaeth gwaith ieuenctid ei ystyried, a gallai ddangos angen am fwy o waith wedi'i dargedu yn y maes hwn yn y dyfodol. Mae tystiolaeth i awgrymu y bydd gan COVID-19 ganlyniadau negyddol hirdymor i bobl ifanc yng Nghymru. Gallai cyfyngiadau pellach ar symud yn y dyfodol arwain at darfu tebyg ar y ddarpariaeth gwaith ieuenctid a lleoliadau addysgol, ac mae'r tarfu economaidd yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar bobl ifanc sy'n trawsnewid i fod yn oedolion ac yn pontio i fyd gwaith.

**Cyflogaeth:** Mae Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) wedi nodi bod y pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc ledled y byd, gyda mwy nag un o bob chwech o bobl ifanc yn ddi-waith (ILO 2020). Ers y pandemig, mae nifer y bobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru sy'n hawlio budd-daliadau wedi mwy na dyblu, o 4.7% ym mis Mawrth 2020 i 9.5% ym mis Medi 2020 (Ymchwil y Senedd 2020).

Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith, ar yr adeg pan oedd diweithdra ar ei uchaf yn 2012 yn dilyn y dirwasgiad diwethaf, roedd 23.5% o bobl 16-24 oed y Deyrnas Unedig yn ddi-waith, dros bedair gwaith uwch na'r gyfradd diweithdra ar gyfer rhai 25 oed a throsodd (Hagendyk, & Finnegan 2020, t. 8). Gan fod coronafirws wedi effeithio'n anghymesur ar y sectorau y tuedda pobl ifanc i weithio ynddynt, megis manwerthu, teithio, twristiaeth a hamdden (Llywodraeth Cymru, 2020), mae'n bosibl y bydd patrwm cliriach fyth yn ôl oedran yn dod i'r golwg ar ôl y pandemig (Henehan 2020, t. 34). Mae hyn yn arbennig o bryderus i bobl ifanc, gan "y gall ychydig flynyddoedd cyntaf oes waith person fod yn hollbwysig ar gyfer eu cyfleoedd yn yr hirdymor ac y gall cyfnod o ddiweithdra di-baid gael effaith niweidiol hirdymor ar ragolygon cyflogaeth ac enillion person ifanc" (Hagendyk & Finnegan 2020, t. 8).

Mae pobl ifanc wedi dioddef canlyniadau gwaeth yn y farchnad lafur o ran colli swyddi, peidio â gweithio a cholli enillion yn ystod y cyfnod clo ac ar ôl hynny. Roedd y rhai 16-25 oed ddwywaith yn fwy tebygol na gweithwyr hŷn o fod wedi colli swydd, gyda dros un o bob deg yn colli eu swydd, ac enillion bron i chwech o bob deg yn gostwng. Mae colledion y farchnad lafur yn fwy amlwg i fenywod, yr hunangyflogedig a'r rhai a fagwyd mewn teulu tlawd (Major et al., 2020).

Mae canfyddiadau o Arolwg Symudedd Cymdeithasol cyntaf LSE-CEP, a astudiwyd yma ochr yn ochr â dadansoddiad atodol ar ddata hydredol cenedlaethol USoc, yn datgelu anghydraddoldebau clir a pharhaus yng nghanlyniadau'r farchnad lafur ac addysg i'r rheiny dan 25 oed. Mae hyn yn debygol o waethygu'r anghydraddoldebau mewn cyfle a chanlyniad sy'n bodoli ledled ystod o fesurau, gan gynnwys ym maes addysg, cyflogaeth ac enillion, sef y ffactorau sydd oll yn dylanwadu ar symudedd cymdeithasol. Er mwyn osgoi dirywiad mewn symudedd cymdeithasol mae angen mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn yn y system addysg a'r gweithle (Elliot Major & Machin, 2020a, 2020b).

**Trosedd:** Ymddengys nad oes llawer o ddata ar gael yn gyhoeddus ar y tebygolrwydd o bobl ifanc yn ymwneud â throsedd. Canfu Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (TCSEW) fod gostyngiad o 32 y cant yng nghyfanswm y troseddau, ac eithrio twyll a chamddefnyddio cyfrifiaduron. Yn debyg i ganfyddiadau TCSEW, roedd lefelau troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn ystod y cyfnod clo yn llawer is na'r misoedd cyfatebol yn 2019, gyda 25% yn llai o droseddau ym mis Ebrill 2020 ac 20% yn llai o droseddu ym mis Mai 2020 (ONS, 2020). Mae tystiolaeth ehangach i awgrymu y gallai'r proffil risg i blant a phobl ifanc fel dioddefwyr trosedd fod wedi symud yn sylweddol oddi wrth ladrad personol, er enghraifft, tuag at ffurfiau eraill. Awgryma tystiolaeth gan yr NSPCC, er enghraifft, y gallai ynysigrwydd cymdeithasol fod wedi cynyddu pa mor aml a difrifol y mae plant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig yn cael eu cam-drin a'u hesgeuluso (Romanou a Belton, 2020).

*Goblygiadau a chyfeiriad ymchwil yn y dyfodol*

Drwyddi draw, cyflwyna'r dystiolaeth ddarlun cymharol gadarnhaol ar gyfer mwyafrif y plant a'r bobl ifanc. Fodd bynnag, gall hyn ddiystyru profiadau rhai grwpiau o bobl ifanc. Mae tystiolaeth sydd ar y gweill yn awgrymu bod effeithiau negyddol COVID-19 wedi'u dosbarthu'n anghyson ar draws plant a phobl ifanc yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Ar draws ystod o fesurau, er enghraifft, roedd y rhai o gefndiroedd mwy difreintiedig yn fwy tebygol o fod wedi dioddef mwy o darfu ar eu bywydau na'r rhai nad ydynt o gefndiroedd difreintiedig. Mae hyn yn cynnwys bod yn llai tebygol o gael mynediad i addysg lawn, yn fwy tebygol o fod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu eu diswyddo, ac yn fwy tebygol o fod wedi dioddef canlyniadau negyddol ar draws ystod o fesurau iechyd a lles (Abdinasir & Glick 2020, t. 19). Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg hefyd fod y bobl ifanc hynny a ddioddefai problemau sylweddol cyn y cyfnod clo yn debygol o fod wedi ei chael hi'n anodd iawn. Mae'r rheiny oedd â phroblemau iechyd meddwl ar ddechrau'r cyfnod clo, gan gynnwys gorbryder, iselder ysbryd ac anhwylderau bwyta er enghraifft, yn debygol o fod wedi gweld eu cyflyrau'n gwaethygu oherwydd tarfu ar y gefnogaeth iddynt.

Un broblem allweddol yn y sylfaen dystiolaeth ar effeithiau Covid-19 yw datgysylltu'n gywir effaith coronafirws o dueddiadau ehangach. Cyn y pandemig, er enghraifft, roedd cenedlaethau iau eisoes yn wynebu ehangu ar anghydraddoldebau addysgol, dirywiad symudedd cymdeithasol absoliwt a dirywiad cyflog gwirioneddol (Elliot Major a Machin, 2018, 2020a). Rhaid aros i weld i ba raddau y mae'r pandemig wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau hyn a rhai eraill, ond mae tystiolaeth ehangach yn awgrymu y gallant ehangu ymhellach heb fod buddsoddiad a chefnogaeth ddigonol gan sefydliadau a

chymunedau (Williams, 2020). Mae’n rhy gynnar i wybod ai dros dro ai peidio yw’r arwyddion a welwyd o anawsterau neu drallod seicolegol mewn plant a phobl ifanc (Adran Addysg, 2020).

O ystyried yr ansicrwydd cyson a’r dirwedd newidiol yn ymwneud â’r pandemig a’n hymateb ninnau fel pobl, bydd hi’n bwysig parhau i roi ffocws ar ddata a thystiolaeth sy’n berthnasol i les plant a phobl ifanc. Bydd yn hanfodol cefnogi a llywio gwasanaethau, y sectorau plant a phobl ifanc ehangach, teuluoedd a chymunedau wrth lunio ymatebion. Yn benodol, mae’n hynod bwysig deall sut yr effeithiwyd ar lesiant, sut mae’r effeithiau yn wahanol i wahanol grwpiau o bobl ifanc, a sut y gallant drosi’n effeithiau negyddol tymor hwy. Mae’n arbennig o bwysig nad ydym yn methu â sylwi ar effeithiau’r pandemig ar les y plant mwyaf agored i niwed oherwydd diffyg data.

Mae’r hyn rydym yn ei wybod yn awgrymu y gallai sefydliadau gwaith ieuenctid gael eu hunain yn gweithredu o dan amodau lle ceir mwy o alw gan bobl ifanc am wasanaethau a chefnogaeth. Mae’n bosibl y bydd mathau’r problemau y bydd gan bobl ifanc yn rhai tebyg i’r rheiny cyn y pandemig, ond gallant fod yn fwy amlwg, wedi ymwreiddio ac i’w gweld yn amlach. Bydd sefydliadau ieuenctid a gweithwyr ieuenctid yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau cefnogaeth i bobl ifanc trwy ganlyniadau negyddol y pandemig.

**Adran Cyfeiriadau**


Adran Addysg (2020) State of the nation 2020: children and young people's wellbeing, GSR:

Ahlen J, Lenhard, F, & Ghaderi, A. (2015) Universal prevention for anxiety and depressive symptoms in children: A meta-analysis of randomized and cluster-randomized trials. *The Journal of Primary Prevention*. 36(6):387-403.

Baldridge B (2020) 'The Youthwork Paradox: A Case for Studying the Complexity of Community-Based Youth Work in Education Research' yn *Educational Researcher*, 49: 8

Balloch, B. a Taylor, M. (goln) (2001) *Partnership Working: Policy and Practice*, Bryste, Policy Press.

Barry, M.M., Clarke, A.M., Morreale, S.E (2018) A Review of the Evidence on the Effects of Community-based Programs on Young People's Social and Emotional Skills Development. *Adolescent Res Rev* 3**,** 13–27 (2018).

Bronfenbrenner et al. (1998) The ecology of developmental processes, yn Handbook of Child Psychology: Cyfrol 1: Theoretical Models of Human Development (5ed arg.), tt. 993-1028. Hoboken: Wiley & Sons

Chauhan, V. (2007) 'Partnership working in the voluntary and community sector', yn Harrison, R., Benjamin, C., Curran, S. a Hunter, R. (goln) *Leading Work with Young People*, Llundain, Sage.

Clarke, A.M., Morreale, S., Field, C.A., Hussein, Y., & Barry, M.M. (2015). What works in enhancing social and emotional skills development during childhood and adolescence? A review of the evidence on the effectiveness of school-based and out-of-school programmes in the UK. A report produced by the World Health Organization Collaborating Centre for Health Promotion Research, National University of Ireland, Galway

Cooper, S. (2012) Transformative Evaluation: An interpretive study of Youth workers' experience of using participatory evaluation, Thesis doethuriaeth. Ar gael yn:.

Cyngor Cenedlaethol Ieuenctid Iwerddon (2012) Assessment of the Economic Value of Youth Work, NYCI

Cymdeithas y Plant (2015) The Good Childhood Report 2015 [Ar-lein] Llundain: Cymdeithas y Plant.

Cymdeithas y Plant (2016) The Good Childhood Report 2016 [Ar-lein]. Llundain: Cymdeithas y Plant.

Cymdeithas y Plant (2017) The Good Childhood Report 2017 [Ar-lein] Llundain: Cymdeithas y Plant.

Cymdeithas y Plant (2018) The Good Childhood Report 2018 [Ar-lein] Llundain: Cymdeithas y Plant.

Cymdeithas y Plant (2019) The Good Childhood Report 2019 [Ar-lein] Llundain: Cymdeithas y Plant.

Cymdeithas y Plant (2020a) Life on Hold Children's Well-being and COVID-19. [Ar-lein]. Llundain: Cymdeithas y Plant.

Cymdeithas y Plant (2020b) The Good Childhood Report 2020 [Ar-lein]. Llundain: Cymdeithas y Plant.

Das, J. K., Salam, R. A., Arshad, A., Finkelstein, Y., & Bhutta, Z. A. (2016). Interventions for Adolescent Substance Abuse: An Overview of Systematic Reviews. The Journal of adolescent health: official publication of the Society for Adolescent Medicine, 59(4S), S61–S75.

Davies, B. (1999) From Voluntaryism to Welfare State. A history of the Youth Service in England. Cyfrol 1: 1939 – 1979, ac From Thatcherism to New Labour. A history of the Youth Service in England. Cyfrol 2: 1979 – 1999: Caerlŷr: Youth Work Press.

Davies, B. a Batsleer, J. R. (2010). What is youth work? Caerwysg: Learning Matters.

Dickson, K., Vigurs, C.-A. & Newman, M., 2013. Youth work: A systematic map of the research literature, Dulyn.

Dunne, A, Ulicna, D., Murphy, I, Golubeva, M (2014), Working with young people: the value of youth work in the European Union, adroddiad wedi'i lunio ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd a'r Asiantaeth Weithredol ar gyfer Addysg, y Clyweledol a Diwylliant (EACEA)

Dunton, Do a Wang (2020) Early effects of the COVID-19 pandemic on physical activity and sedentary behavior in children living in the U.S. yn BMC Public Health 20, 1351 (2020).

Ettelt (2015) RCTs: How compatible are they with policy-making? Yn *British Journal of Healthcare Management* Cyfrol 21, Rhif 8

Eyles A, Gibbons S, a Montebruno (2020) Covid-19 school shutdowns: What will they do to our children's education?, Canolfan Perfformiad Economaidd, LSE, CEP COVID-19 Working Paper 1. Ar gael yn:

Farrington et al., (2017) Systematic reviews of the effectiveness of developmental prevention programs in reducing delinquency, aggression, and bullying.

Fraser D (2003) *The Evolution of the British Welfare State,* Palgrave, Houndmills

Fraser M, Richman J, Galinsky M a Day S (2009) Intervention Research, Developing Social Programs, OUP

Fyfe, I, Biggs, H, Hunter, S, McAteer, J & Milne, D (2018) The Impact of Community-based Universal Youth Work in Scotland, astudiaeth wedi'i gomisiynu gan Grŵp Llywio Ymchwil Gwaith Ieuenctid yr Alban

Galloway (2009) Theory-based evaluation and the social impact of the arts, yn *Cultural Trends,* 18: 2, 125-148

Gilchrist, A. (2007) 'Linking partnerships and networks', yn Harrison, R., Benjamin, C., Curran, S. a Hunter, R. (goln) *Leading Work with Young People*, Llundain, Sage.

Hall Aitken (2016) Social and economic value of youth work in Scotland: initial assessment, adroddiad wedi'i lunio ar gyfer YouthLink Scotland.

Harrison, R., Mann, G., Murphy, M., Taylor, A. a Thompson, N. (2003) *Partnership Made Painless: A Joined-up Guide to Working Together*, Lyme Regis, Russell House.

Head B (2010) Reconsidering evidence-based policy: Key issues and challenges yn Policy and Society, 29: 2 77-94

Henderson, M., Fitzsimons, E., Ploubidis, G., Richards, M. a Patalay, P. (2020), Mental health during lockdown: evidence from four generations Initial findings from the COVID-19 Survey yn Five National Longitudinal Studies. [Ar-lein]. Llundain: Canolfan Astudiaethau Hydredol UCL.

Hirsch, B. J. (2005) A Place to Call Home. After-school programs for urban youth, Efrog Newydd: Teachers College Press.

Himmelman A (1996) 'On the theory and practice of transformational collaboration: from social service to social justice' yn Huxman C, *Creating Collaborative Advantage*, Llundain, Sage.

Houston, S. (2015). Enabling Others in Social Work: Reflexivity and the Theory of Social Domains. Critical and Radical Social Work, 3(2), 245-260.

Huxham, C. (1996) *Creating Collaborative Advantage*, Llundain, Sage.

ImpactEd. (2020). Interim data summary May to July 2020. [Ar-lein]. Llundain: ImpactEd

Jeffs, T. a Smith, M. K. (goln) (2010) Youth work practice. Basingstoke: Palgrave Macmillan.

Kendall, S., Straw, S., Jones, M., Springate, I., Lord, P. a Stoney, S. (2008) Narrowing the Gap in Outcomes for Vulnerable Groups. A Review of the Research Evidence: Summary of Key Findings, adroddiad y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, ED504632

Kluve J, Puerto S, Robalino D, Romero J M, Rother F, Stöterau J, Weidenkaff F, Witte M. (2017) Interventions to improve the labour market outcomes of youth: a systematic review of training, entrepreneurship promotion, employment services, and subsidized employment interventions, Campbell Systematic Reviews 2017:12

Leavey, Eastaugh and Kane (2020) Generation COVID-19: Building the case to protect young people's future health. The Health Foundation

Levita L, Gibson Miller J, Hartman TK, Murphy J, Shevlin M, McBride O, et al. (2020) Report 2: Impact of Covid-19 on young people aged 13-24 in the UK- preliminary findings. [Ar-lein]. PsyArXiv [cyn argraffu].

Liu, S., Huang, J. L., & Wang, M. (2014, Mawrth 3). Effectiveness of Job Search Interventions: AMeta-Analytic Review. Psychological Bulletin.

Major L, Eyles A & Machin S (2020) Generation COVID: Emerging Work and Education Inequalities CEP COVID-19 Working Paper 11

McGregor C (2015) Universal Youth Work: a Critical Review of the Literature, Consortiwm Gwaith Ieuenctid Caeredin a Phrifysgol Caeredin, ar gael yn

McNeil B, Reedr N a Rich J (2012) A framework of Outcomes for Young People, Young Foundation.

NHS Digital (2020a) Mental Health of Children and Young People in England, 2020: Wave 1 follow up to the 2017 survey

NHS Digital. (2020b). Mental Health Services Monthly Statistics. [Ar-lein]. Leeds: NHS Digital.

Ord J, Marc Carletti, Susan Cooper, Christophe Dansac, Daniele Morciano, Lasse Siurala a Marti Taru (2018) The Impact of Youth Work in Europe: A Study of Five European Countries, Humak University of Applied Sciences Publications, 56

RAY-COR (2020) *Research Project on the Impact of the Corona Pandemic on Youth Work in Europe*.

Rogers, V (2016) Gwerthusiad Annibynnol o Waith Ieuenctid mewn Ysgolion yng Nghymru: O safbwynt gweithwyr addysgu proffesiynol

Romanou a Belton (2020) Isolated and Struggling, Social isolation and the risk of child maltreatment, in lockdown and beyond, NSPCC

Smith, M. K. (2013) 'What is youth work? Exploring the history, theory and practice of youth work', The encyclopedia of pedagogy and informal education, www.infed.org/mobi/what-is-youth-work-exploring-the-history-theory-and-practice-of-work-with-young-people/.

Sport England (2020) Children's experiences of physical activity in lockdown

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020) Children's views on well-being and what makes a happy life, UK: 2020. [Ar-lein]. Casnewydd: Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020a) Coronavirus and crime in England and Wales: August 2020

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020b) Coronavirus and well-being of young people throughout the pandemic. [Ar-lein]. Casnewydd: Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Trysorlys ei Mawrhydi (2020) *Llyfr Magenta*, Llywodraeth ei Mawrhydi.

UK Youth (2020) The impact of COVID-19 on young people and the youth sector.

Ymddiriedolaeth y Tywysog (2020) The Aspiration Gap, Ymddiriedolaeth y Tywysog,

Williams, Z (2020) Adolygiad o effaith tarfu mawr ar les a iechyd meddwl plant a phobl ifanc, a'r ymyriadau therapiwtig posibl. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 62/2020.

Williamson, H., (2008). Supporting Young People in Europe. Cyfrol 2. Lessons from the 'second seven' Council of Europe international reviews of national youth policy. Cyngor Ewrop, tt. 29

Williamson, H (2015) Proposed revisions to Finland's Youth Act 2006: Council of Europe Youth Department Advisory Mission 2015: Cyngor Ewrop.

# Atodiad B: Offer Ymchwilio

**Cyfweliadau Cwmpasu**

## Cwestiynau ar gyfer trafodaeth

1. I ddechrau'r cyfweliad, a fyddech gystal â chyflwyno eich hun a dweud beth yw eich cysylltiad â gwaith ieuenctid yng Nghymru?

Datblygu Darlun o Waith Ieuenctid yng Nghymru:

2. Bydd yr ymchwil hwn yn adolygu'r ystod o wahanol fodelau a dulliau gwaith ieuenctid sy'n bodoli ledled Cymru. A fyddech cystal â dweud wrthym beth yw eich barn am amrywiaeth, maint ac ansawdd y gwaith ieuenctid a wneir yng Nghymru?
   a) Yn eich barn chi, beth yw'r modelau gwaith ieuenctid sy'n cael eu gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd?
   b) Pa fylchau, os oes rhai o gwbl, sydd yn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru?
3. Beth yw eich barn am effeithiolrwydd/ansawdd y gwaith ieuenctid a wneir yng Nghymru?
   a) Sut mae hyn yn amrywio ar draws gwahanol ardaloedd? e.e. *mewn rhannau penodol o Gymru, neu ar draws ardaloedd gwledig/trefol?*
   *b)* Sut mae hyn yn amrywio ar gyfer pobl wahanol? e.e. *i unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig?*[7]
4. Pa mor effeithiol y mae gwaith ieuenctid yn cael ei lywodraethu a'i arwain yng Nghymru?
   a) Beth yw'r prif heriau o ran arwain y sector?
   b) Beth yw'r prif ffyrdd y gellid gwella llywodraethu ac arweinyddiaeth gwaith ieuenctid?

---

[7] Diffinnir nodweddion gwarchodedig gan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), ac mae naw nodwedd warchodedig (nid yw pob un ohonynt yn berthnasol i waith ieuenctid):

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

5. Mae COVID-19 wedi effeithio'n drwm ar waith ieuenctid yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, beth yw'r prif:
    a) Heriau?
    b) Cyfleoedd?
    c) Risgiau?
6. Heblaw am y rhai a nodwyd yng nghyd-destun COVID-19, beth yw'r prif:
    a) Heriau sy'n wynebu gwaith ieuenctid yng Nghymru?
    b) Cyfleoedd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru?
7. Beth sy'n hysbys eisoes am faint o waith ieuenctid a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg?
    a) Pa heriau sy'n gysylltiedig â chynnal gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg?
    b) Beth yw'r cyfleoedd a ddaw gyda gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg?

Datblygu dealltwriaeth o ymarfer gwaith ieuenctid effeithiol a sut i'w fesur:

8. Fel rhan o'r ymarfer hwn, rydym yn gweithio tuag at gael diffiniad o waith ieuenctid (neu'r dull gwaith ieuenctid). Beth ydych chi'n meddwl y mae angen i'n diffiniad ei gynnwys?
9. Beth mae'r dystiolaeth a gynhyrchwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn ei ddweud wrthym am fuddion y dull gwaith ieuenctid? Mae gennym ddiddordeb yn y buddion i bobl ifanc a buddion eraill.
    a) Sut mae hyn yn amrywio ar draws gwahanol ardaloedd? e.e. *mewn rhannau penodol o Gymru, neu ar draws ardaloedd gwledig/trefol?*
    *b)* Sut mae hyn yn amrywio ar gyfer pobl wahanol? e.e. *i unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig?*
    c) A oes unrhyw lenyddiaeth y dylem fod yn edrych arni yn ein hadolygiad llenyddiaeth?
10. Pa fodelau arfer da ar gyfer dulliau gwneud gwaith ieuenctid mewn partneriaeth ydych chi'n gwybod amdanynt?
    a) Ydych chi'n gallu rhoi dolenni i ddeunydd perthnasol i'w cynnwys yn ein hadolygiad llenyddiaeth?

Er mwyn cael gwybodaeth i weddill yr astudiaeth hon:

11. Pa ffordd sydd orau i gynnwys llais pobl ifanc yn yr ymchwil yn eich barn chi?

12. Yn ystod yr ymchwil hwn, byddwn yn ymgynghori â'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, pedwar Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth a grwpiau gorchwyl a gorffen, yn ogystal â chynrychiolwyr pobl ifanc. A oes unrhyw randdeiliaid/mudiadau/sefydliadau eraill y credwch y dylem eu holi?

Gorffen:

13. A oes unrhyw beth arall y teimlwch sy'n bwysig i ni roi sylw iddo yn yr ymchwil hwn?

**Cyfweliadau â rhanddeiliaid yn y sector**

## Cwestiynau ar gyfer trafodaeth:

Cyflwyniad:

1. I ddechrau'r cyfweliad, a fyddech gystal â chyflwyno eich hun a dweud beth yw eich cysylltiad â gwaith ieuenctid yng Nghymru?
    a) Ydych chi'n gweithio mewn ardal benodol neu a yw eich rôl yn golygu eich bod chi'n gweithio ledled y wlad? Os ydych yn gweithio mewn ardal benodol, a allech chi amlinellu nodweddion yr ardal (e.e. trefol/gwledig, amddifadedd, amrywioldeb).
    b) A ydych yn gweithio gyda grŵp penodol o bobl ifanc (e.e. oedran, anabledd, grŵp ffydd)? A yw hyn trwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog?

2. Fel rhan o'r ymarfer hwn, rydym yn gweithio tuag at gael diffiniad o waith ieuenctid (neu'r dull gwaith ieuenctid).[8] Sut byddech chi'n diffinio gwaith ieuenctid?

3. Rhowch eich barn ynghylch a yw hi'n werth ystyried gwaith ieuenctid fel rhywbeth gwahanol i ffyrdd eraill o weithio gyda phobl ifanc? Os ydyw, sut mae'n wahanol?

Datblygu darlun o waith ieuenctid yn eich ardal chi:

4. Beth sy'n hysbys am ystod y gwaith ieuenctid a gynigir yn eich ardal?
    a) Pa sefydliadau neu fudiadau sy'n gwneud gwaith ieuenctid yn eich ardal?

5. Pa fylchau, os oes rhai o gwbl, sydd yn y ddarpariaeth gwaith ieuenctid yn eich ardal?
    a) A oes unrhyw fylchau daearyddol?
    b) A oes bylchau ar gyfer grwpiau penodol o bobl?

[8] Ar hyn o bryd, mae gennym ddiffiniad gweithredol o waith ieuenctid (gan gyfuno gwybodaeth o dudalen 5 Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid a thudalen 2 Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru: *"gweithio i alluogi pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed i ddatblygu'n gyfannol, gan weithio gyda nhw i hybu eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu llais, eu dylanwad a'u lle mewn cymdeithas a chyrraedd eu potensial llawn."*

6. Beth yw eich barn am effeithiolrwydd/ansawdd y gwaith ieuenctid a wneir yn eich ardal?
    a) Sut (os o gwbl) y mae hyn yn amrywio?
    b) A oes unrhyw dystiolaeth o effeithiolrwydd/ansawdd y gwaith ieuenctid a wneir yn eich ardal chi?

7. Yn eich barn chi, pa mor effeithiol mae gwaith ieuenctid yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg?
    a) A oes unrhyw heriau yn gysylltiedig â gwneud gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg?
    b) Beth yw'r cyfleoedd a ddaw gyda gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg?

8. Sut, os o gwbl, y mae COVID-19 wedi effeithio ar waith ieuenctid yn eich ardal? Yn gysylltiedig â phandemig COVID-19, a fu / a oes unrhyw:
    a) Newidiadau i'r ffordd rydych yn gweithio?
    b) Manteision/Cyfleoedd?
    c) Heriau/Risgiau?
    d) Pa agweddau ar weithio yn ystod COVID-19 yr ydych chi'n bwriadu eu cadw ar ôl y pandemig?

9. Heblaw am y rhai a nodwyd yng nghyd-destun COVID-19, beth yw'r prif:
    a) Heriau sy'n wynebu gwaith ieuenctid yn eich ardal chi?
    b) Cyfleoedd ar gyfer gwaith ieuenctid yn eich ardal?

10. Beth, os unrhyw beth, yw eich dyheadau ar gyfer dyfodol gwaith ieuenctid yng Nghymru?

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth mewn Gwaith Ieuenctid:

11. Yn eich barn chi, pa mor effeithiol y mae gwaith ieuenctid wedi'i lywodraethu a'i arwain ar lefel genedlaethol (Cymru gyfan)?
    c) Beth yw'r prif heriau a chyfleoedd ar gyfer arwain y sector?
    d) Beth yw'r prif ffyrdd y gellid gwella'r llywodraethu a'r arweinyddiaeth ar waith ieuenctid yn genedlaethol?

12. Yn eich barn chi, pa mor effeithiol y mae gwaith ieuenctid wedi'i lywodraethu a'i arwain ar lefel leol?
    a) Beth yw'r prif heriau a chyfleoedd?
    b) Beth yw'r prif ffyrdd y gellid gwella llywodraethu ac arweinyddiaeth gwaith ieuenctid yn lleol?

13. Pa mor effeithiol y mae sefydliadau/mudiadau gwaith ieuenctid gwahanol yn cydweithio?
    a) Beth, os unrhyw beth, y gellid ei wneud i wella'r gweithio ar draws sefydliadau a mudiadau?
    b) Ydych chi'n gallu rhoi unrhyw enghreifftiau o arferion da?

14. Pa mor effeithiol y mae'r sector gwaith ieuenctid yn gweithio gyda rhanddeiliaid allanol (e.e. Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, cyfiawnder ieuenctid, iechyd y cyhoedd, ac ati)?
    a) Beth, os unrhyw beth, y gellid ei wneud i wella gweithio traws-sector?
    b) Ydych chi'n gallu rhoi unrhyw enghreifftiau o arferion da?

Datblygu dealltwriaeth o ymarfer gwaith ieuenctid effeithiol a sut i'w fesur:

15. Sut y dylai'r sector fod yn sicrhau effeithiolrwydd/ansawdd gwaith ieuenctid?

16. Sut y dylai'r sector fod yn casglu/cipio effaith gwaith ieuenctid? *Ar blant/pobl ifanc, cymunedau etc.*

Gorffen:

17. Ydych chi'n credu bod unrhyw beth arall sy'n bwysig i ni ei ystyried yn yr ymchwil hwn?

**Cyfweliadau â Rhanddeiliaid 'Allanol'**

## Cwestiynau ar gyfer trafodaeth:

### Cyflwyniad:

1. I ddechrau'r cyfweliad, a fyddech gystal â chyflwyno eich hun a'ch gwaith?
    a) Yn eich rôl, pa gyswllt sydd gennych â gwaith ieuenctid?

2. Fel rhan o'r ymarfer hwn, rydym yn gweithio tuag at ddiffiniad o waith ieuenctid (neu'r dull gwaith ieuenctid).[9] Sut byddech chi'n diffinio gwaith ieuenctid fel rhanddeiliad allanol?
    a) Yn eich barn chi, a yw'n werth ystyried gwaith ieuenctid fel rhywbeth gwahanol i ffyrdd eraill o weithio gyda phobl ifanc?

Gwaith Ieuenctid a Rhanddeiliaid Allanol:

3. Yn eich profiad chi, beth yw effaith gwaith ieuenctid? *Mae gennym ddiddordeb yn ei effaith gyffredinol ar blant/pobl ifanc, cymunedau ac ati, ond hefyd yn eich maes gwaith penodol chi.*

4. Pa mor effeithiol y mae'r sector gwaith ieuenctid yn gweithio gyda rhanddeiliaid allanol (e.e. Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, cyfiawnder ieuenctid, iechyd y cyhoedd, ac ati)?
    a) Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw wahaniaethau mewn effeithiolrwydd? *e.e. rhwng y sectorau a gynhelir a'r rhai gwirfoddol.*
    b) Beth, os unrhyw beth, y gellid ei wneud i wella gweithio traws-sector?

5. Beth, os unrhyw beth, yw eich dyheadau ar gyfer sut y gall gwaith ieuenctid gyfrannu at eich maes gwaith chi?
    a) A yw eisoes yn cyfrannu at eich maes gwaith chi? Os ydyw, rhowch fanylion.

HOLI MANWL: Rydym hefyd yn ceisio darganfod sut mae rhanddeiliaid hefyd yn cyfrannu at waith ieuenctid e.e. sut maen nhw'n darparu adnoddau neu'n hyrwyddo gwaith ieuenctid? Gall hyn ddod o'r cwestiwn rhagarweiniol (1) ond os na, holwch yn fanylach yma.

[9] Ar hyn o bryd, mae gennym ddiffiniad gweithredol o waith ieuenctid (gan gyfuno gwybodaeth o dudalen 5 Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid a thudalen 2 Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru: *"gweithio i alluogi pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed i ddatblygu'n gyfannol, gan weithio gyda nhw i hybu eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu llais, eu dylanwad a'u lle mewn cymdeithas a chyrraedd eu potensial llawn."*

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth mewn Gwaith Ieuenctid:

6. Yn eich barn chi, pa mor effeithiol y mae gwaith ieuenctid wedi'i lywodraethu a'i arwain yng Nghymru? *Mae gennym ddiddordeb mewn arweinyddiaeth leol ac mewn arweinyddiaeth genedlaethol (h.y. Cymru gyfan).*
    e) Beth yw'r prif heriau o ran arwain y sector?
    f) Beth yw'r prif ffyrdd y gellid gwella llywodraethu ac arweinyddiaeth gwaith ieuenctid yn genedlaethol?

Gorffen:

7. Ydych chi'n credu bod unrhyw beth arall sy'n bwysig i ni ei ystyried yn yr ymchwil hwn?

## Cwestiynau ar gyfer trafodaeth:

1. I ddechrau'r cyfweliad, a fyddech gystal â chyflwyno eich hun a'ch ymwneud â gwaith ieuenctid?

HOLI MANWL: Rydym yn awyddus i ysgogi unrhyw wybodaeth gyd-destunol berthnasol am y gwasanaethau yr oeddent wedi cael profiad ohonynt – a oeddent wedi'u hanelu at grwpiau demograffig penodol o bobl ifanc, yn Gymraeg / Saesneg / dwyieithog ac ati. Gallai hyn arwain at drafod materion dilynol, er enghraifft profiadau o dderbyn gwasanaethau yn Gymraeg fel siaradwr Cymraeg neu yn Saesneg fel siaradwr Cymraeg. Neu os yw'r person ifanc yn anabl, sut oedd eu profiad yn wahanol i eraill…

2. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn ceisio datblygu diffiniad o waith ieuenctid (neu'r dull/ymagwedd gwaith ieuenctid).[10] Yn eich barn chi, beth yw gwaith ieuenctid?
    a) A yw gwaith ieuenctid yn wahanol i ffyrdd eraill o weithio gyda phobl ifanc? Os ydyw, sut y mae'n wahanol?

3. Yn eich profiad chi, sut mae COVID-19 wedi effeithio ar waith ieuenctid? *Mae gennym ddiddordeb mewn elfennau gwahanol sy'n gadarnhaol ac yn negyddol.*

4. Pa wahaniaeth y mae gwaith ieuenctid yn ei wneud? *Mae gennym ddiddordeb yn y gwahaniaeth y mae'n ei wneud i blant/pobl ifanc, cymunedau ac ati, ond hefyd y gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i chi. Ydych chi'n gallu rhoi unrhyw enghreifftiau yn seiliedig ar eich profiad eich hun?*

5. Pa mor effeithiol y mae sefydliadau gwaith ieuenctid gwahanol yn cydweithio yn eich barn chi?
    a) Beth, os unrhyw beth, y gellir ei wneud i wella gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau a mudiadau gwaith ieuenctid?

---

[10] Ar hyn o bryd, mae gennym ddiffiniad gweithredol o waith ieuenctid (gan gyfuno gwybodaeth o dudalen 5 Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid a thudalen 2 Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru: *"gweithio i alluogi pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed i ddatblygu'n gyfannol, gan weithio gyda nhw i hybu eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu llais, eu dylanwad a'u lle mewn cymdeithas a chyrraedd eu potensial llawn."*

6. Beth, os unrhyw beth, yw eich dyheadau ar gyfer dyfodol gwaith ieuenctid yng Nghymru?

7. Ydych chi’n credu bod unrhyw beth arall sy’n bwysig i ni ei ystyried yn yr ymchwil hwn?